



Ministry  
of Justice

# **Adolygiad o'r Profion Modd ar gyfer Cymorth Cyfreithiol**

Mawrth 2022

CP 646







Ministry  
of Justice

## **Adolygiad o'r Profion Modd ar gyfer Cymorth Cyfreithiol**

Cyflwynwyd i'r Senedd

gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder  
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Mawrth 2022



© Hawlfraint y Goron 2022

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd o dan hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/official-documents](http://www.gov.uk/official-documents)

Dylid anfon unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn [LegalAidMeansTestReview@justice.gov.uk](mailto:LegalAidMeansTestReview@justice.gov.uk)

ISBN 978-1-5286-3246-1

E02729412

03/22

Argraffwyd ar bapur y mae o leiaf 75% o'i gynnwys yn ffeibrau a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Cyf. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Am yr ymgynghoriad hwn

**At:** Darparwyr cymorth cyfreithiol sifil a throseddol a phawb o'r rheini sydd wedi derbyn cymorth cyfreithiol neu a allai ei dderbyn yn y dyfodol.

**Hyd:** O 15/03/2022 i 07/06/2022

**Ymholiadau (yn cynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat gwahanol) i:** Legal Aid Means Test Review  
Ministry of Justice  
102 Petty France  
Llundain SW1H 9AJ  
E-bost: [legalaidmeanstestreview@justice.gov.uk](mailto:legalaidmeanstestreview@justice.gov.uk)

**Sut i ymateb:** Anfonwch eich ymateb erbyn 07/06/2022 i:  
Legal Aid Means Test Review  
Ministry of Justice  
102 Petty France  
Llundain SW1H 9AJ  
E-bost: [legalaidmeanstestreview@justice.gov.uk](mailto:legalaidmeanstestreview@justice.gov.uk)

**Ffyrdd ychwanegol i gyfrannu'ch barn:** Cynhelir cyfres o gyfarfodydd â rhanddeiliaid hefyd. I gael rhagor o wybodaeth, defnyddiwch y manylion cyswllt ar gyfer "Ymholiadau" uchod.

**Papur ymateb:** Mae ymateb i'r ymgynghoriad hwn i gael ei gyhoeddi yn hydref 2022.



# Cynnwys

Rhagair gweinidogol	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Crynodeb gweithredol	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Cyflwyniad	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Pennod 1: Y profion modd presennol ar gyfer cymorth cyfreithiol	16
Pennod 2: Cynigion cyffredinol	28
Pennod 3: Trothwyon, pasbortio a chyfraniadau incwm sifil	43
Pennod 4: Trothwyon, diystyriadau a phasbortio cyfalaf sifil	61
Pennod 5: Mewnfudo a lloches, rhai dan 18 oed ac achosion heb brawf modd	80
Pennod 6: Trothwyon incwm a chyfalaf, pasbortio a chyfraniadau Llys y Goron	93
Pennod 7: Profion modd y llys ynadon a chyngor a chynhorthwy/cynhorthwy eiriolaeth troseddol	113
Pennod 8: Gweithredu ac adolygu'r profion modd newydd ar gyfer cymorth cyfreithiol	125
Atodiad A: Taliadau sy'n cael eu diystyru ar hyn o bryd yn y profion modd ar gyfer cymorth cyfreithiol	134
Atodiad B: Achosion sy'n esempt ar hyn o bryd rhag profion modd ar gyfer cymorth cyfreithiol	137
Atodiad C: Nodyn technegol ar gyfrifo'r trothwyon incwm arfaethedig ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a throseddol	139
Atodiad D: Nodyn technegol ar gyfrifo'r trothwyon cyfalaf arfaethedig ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil	145
Atodiad E: Enghreifftiau wedi'u gweithio	149
Holiadur	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Amdanoch chi	<b>Error! Bookmark not defined.</b>







## Rhagair gweinidogol

Mae pawb yn haeddu mynediad at gyfiawnder, beth bynnag fo'u hamgylchiadau ariannol. Mae cymorth cyfreithiol yn gwbl hanfodol i system gyfiawnder deg am ei fod yn peri bod cynrychiolaeth gyfreithiol ar gael i bobl na fyddent yn gallu talu amdani fel arall.

Yn Chwefror 2019, cyhoeddodd y llywodraeth adolygiad o'r profion modd ar gyfer cymorth cyfreithiol fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Cefnogaeth Gyfreithiol. Roeddem am ddeall pa mor effeithiol yw trefniadau presennol y prawf modd o ran diogelu mynediad at gyfiawnder, ac a ydynt yn gweithio i'r rheini sydd â'r angen mwyaf am gymorth cyfreithiol. Roedd yr adolygiad wedi edrych ar bob agwedd ar drefniadau'r prawf modd, yn cynnwys y trothwyon ar gyfer yr hawl i gael cymorth cyfreithiol a'r trefniadau cymhwysra ar gyfer pobl sy'n derbyn budd-daliadau penodol.

Mae'r cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn yn tynnu ar ganfyddiadau'r adolygiad. Maent yn golygu buddsoddiad sylweddol yn ein system gyfiawnder, gan greu trefniadau tecach ar gyfer prawf modd a fydd yn diogelu mynediad at gyfiawnder yn y tymor byr, canolig a hir, ac yn canolbwyntio ar y rheini sydd â'r lleiaf o allu i dalu drostynt eu hunain wrth ddefnyddio arian cyhoeddus cyfyngedig.

Rydym yn cynnig cynnydd sylweddol yn y trothwyon ar gyfer incwm a chyfalaf wrth bennu cymhwysra i dderbyn cymorth cyfreithiol, a dileu'r prawf modd yn gyfan gwbl ar gyfer rhai achosion sifil. Mae'r rhain yn cynnwys cynrychiolaeth gyfreithiol i blant, a chynrychiolaeth gyfreithiol i rieni y mae eu plant yn wynebu achos mewn perthynas â gwrthod triniaeth sy'n cynnal bywyd neu ei thynnu'n ôl. Rydym hefyd am ddileu'r trothwy uchaf ar incwm gwario ar gyfer cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron, fel y bydd ar gael i bawb sydd â'i angen.

Rydym am wneud mwy byth i gynorthwyo dioddefwyr cam-drin domestig – sy'n gallu profi trawma a mynd i gostau mawr mewn achosion cyfreithiol. O dan ein cynlluniau, byddai dioddefwyr cam-drin domestig sy'n gwneud cais am orchymyn i'w hamddiffyn neu am weithrediad arall yn cael budd o'r prawf modd mwy hael ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil. Ac ni fydd unrhyw asedau y mae anghydfod yn eu cylch – yn cynnwys eiddo – yn cael eu hystyried wrth asesu modd. Mae hyn yn decach o lawer â dioddefwyr cam-drin domestig sy'n ymladd am eiddo ac sydd heb allu defnyddio'r ecwiti sydd ganddynt yn yr eiddo hwnnw i dalu am yr achos cyfreithiol.

Bydd ein cynigion yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn y ffordd y mae pobl yn gallu cael gfael ar wasanaethau cyfreithiol – pa un a ydynt yn ceisio eu diogelu eu hunain rhag niwed, atal eu cartref rhag cael ei adfeddu, neu eu hamddiffyn eu hunain mewn treial troseddol. Ein nod drwy'r diwygiadau hyn yw sicrhau system gyfiawnder sy'n fwy dynamig ac effeithlon ar gyfer y dyfodol.

Rwyf yn werthfawrogol iawn o'r cyfraniadau a gafwyd gan ein holl randdeiliaid hyd yn hyn, ac rwyf yn diolch yn ddidwyll i bawb sydd wedi rhannu eu barn a rhoi tystiolaeth i'n hadolygiad. Edrychaf ymlaen at eu gweld yn cymryd rhan ymhellach yn yr ymgynghoriad hwn, wrth i ni ymdrechu i greu system decach ar gyfer cymorth cyfreithiol a fydd yn caniatáu i bob un yn ein gwlad gael y gynrychiolaeth gyfreithiol y mae arno ei hangen.

### **Yr Arglwydd Wolfson o Dredegar**

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder

# Crynodeb gweithredol

1. Yn Chwefror 2019, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder Adolygiad o'r Profion Modd ar gyfer Cymorth Cyfreithiol, fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Cefnogaeth Gyfreithiol. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r newidiadau rydym yn eu cynnig yn y prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol er mwyn ymgynghori arnynt.
2. Mae cymorth cyfreithiol yn talu am gyngor, cynhorthwy, a chynrychiolaeth gyfreithiol ar gyfer unigolion sydd ag angen y gwasanaethau hyn. Mae'r rhan fwyaf o gymorth cyfreithiol troseddol a sifil yn dibynnu ar brawf modd, er mwyn sicrhau bod adnoddau cyhoeddus yn cael eu cyfeirio at y rheini sydd â'r angen mwyaf.
3. Mae proses y prawf modd yn hanfodol wrth benderfynu a yw rhywun yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol. Ei nod yw sicrhau mai'r rheini sydd â'r angen mwyaf fydd yn cael help i dalu eu costau cyfreithiol, a bod y rheini sy'n gallu fforddio cyfrannu at eu costau cyfreithiol yn gwneud hynny. Amlinellwyd yr egwyddorion hyn yn yr ymgynghoriad yn 2010 ar Gynigion ar gyfer Diwygio Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr, a'r rhain sydd wrth wraidd y cynigion sydd wedi'u hamlinellu yn yr ymgynghoriad hwn.
4. Mae'r adolygiad hwn wedi bod yn un agored a chydweithredol. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cynnal nifer mawr o gyfarfodydd ymgynghorol â gwahanol bartïon cysylltiedig, yn cynnwys ymarferwyr cyfreithiol o bob rhan o'r sector cymorth cyfreithiol, sefydliadau'r trydydd sector, y farnwriaeth ac arbenigwyr academaidd. Mae'r cydweithio adeiladol hwn wedi ein helpu i lunio'r polisiau sydd yn y ddogfen hon.
5. Rydym yn cynnig newidiadau o sawl math yn y prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol, gyda'r nod o sicrhau mynediad at gyfiawnder. Mewn rhai achosion, rydym yn cynnig cydweddu agosach rhwng ein dulliau o ddelio â chymorth cyfreithiol sifil a chymorth cyfreithiol troseddol. Yn benodol, rydym yn cynnig:
  - defnyddio dull wedi'i seilio ar gostau byw yn y prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, fel rydym yn gwneud yn barod ar gyfer prawf modd Llys y Goron a'r llys ynadon
  - defnyddio graddfa gyfwerthedd Addasedig OECD i addasu incwm gros ac incwm gwario ar gyfer aelwydydd o wahanol gyfansoddiadau
  - diystyru'r Dreth Gyngor yn y prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil (fel y gwneir ym mhrawf modd Llys y Goron a'r llys ynadon), a dileu'r cap o £545 y mis ar gostau tai
  - uwchraddio'r lwfans gwaith presennol yn y prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, a gweithredu lwfans tebyg ym mhrawf modd Llys y Goron a'r llys ynadon

- didynnu dyled flaenoriaethol ac ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr, a chyfraniadau pensiwn hyd at 5% o enillion, o'r asesiad o incwm gwario.

6. Ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, rydym yn cynnig:

- cynnydd sylweddol yn y trothwyon incwm, gan ddefnyddio dull seiliedig ar gostau byw
- cynnydd yn y trothwyon cyfalaf gwario a'r lwfans ecwiti
- diystyru taliadau digolledu, cydnabyddiaeth ac iawndal am niwed corfforol, a thaliadau budd-dal a chynhaliath plant wedi'u hôl-ddyddio, yn yr asesiad o gyfalaf
- diystyru eiddo sy'n bwnc mewn anghydfod yn yr achos y mae'r unigolyn yn gwneud cais am gymorth cyfreithiol ar ei gyfer
- diystyru cyfalaf anhygyrch, gan roddi arwystl ar yr ased dan sylw gyda'r nod o adennill y costau cymorth cyfreithiol
- esemptio derbynwyr budd-daliadau lles penodol nad ydynt yn berchnogion cartrefi rhag yr asesiad o gyfalaf
- ei gwneud yn ofynnol bod derbynwyr Credyd Cynhwysol ar aelwydydd sydd ag enillion o fwy na £500 y mis yn mynd drwy asesiad o incwm, yn hytrach na'u pasbortio fel y gwneir ar hyn o bryd
- cap amser o 24 mis ar y cyfnod hiraf y mae cyfraniadau incwm yn daladwy
- dileu'r prawf modd am gynrychiolaeth sifil ar gyfer plant dan 18 oed ac ar gyfer rhieni neu'r rheini sydd â chyfrifoldeb rhieni y mae eu plant yn wynebu achos mewn perthynas â gwrthod triniaeth sy'n cynnal bywyd neu ei thynnu'n ôl
- dileu'r prawf modd am help cyfreithiol mewn perthynas â chwestau sy'n ymwneud â thorri posibl ar hawliau Siarter Hawliau Dynol Ewrop (o fewn ystyr Deddf Hawliau Dynol 1998) neu lle mae'n debygol bod budd cyhoeddus pwysig ehangach mewn cael cynrychiolaeth i'r unigolyn yn y cwest.

7. Ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol, rydym yn cynnig:

- cynyddu'r trothwyon incwm ar gyfer cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron a'r llys ynadon, er mwyn cymryd i ystyriaeth gynnydd yng nghostau byw ac mewn ffioedd cyfreithiol preifat
- dileu'r trothwy uchaf ar incwm gwario ar gyfer cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron
- cynyddu'r cyfnod cyfrannu hiraf ar gyfer cyfraniadau incwm yn Llys y Goron i 18 mis, a gweithredu cyfradd gyfrannu haenog (40%/60%/80%)
- parhau i basbortio holl dderbynwyr budd-daliadau perthnasol sy'n dibynnu ar brawf modd (yn cynnwys Credyd Cynhwysol) drwy'r asesiad o incwm
- dileu'r esemptiad presennol rhag talu cyfraniad cyfalaf ar gyfer perchnogion cartrefi a gafwyd yn euog yn Llys y Goron sy'n derbyn budd-daliadau pasbortio
- cysoni'r profion modd ar gyfer cyngor a chynhorthwy troseddol â'n prawf modd newydd arfaethedig ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil.

8. Wedi i ni gael yr ymatebion a'u hystyried, byddwn yn cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad gan amlinellu ein polisiâu terfynol. Wedyn byddwn yn dechrau ar y gwaith a fydd yn angenrheidiol i ddiwygio deddfwriaeth a chanllawiau, a gwneud y newidiadau sydd eu hangen yn systemau digidol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.

## Cyflwyniad

9. Mae mynediad at gyfiawnder yn egwyddor hanfodol sy'n sail i reolaeth y gyfraith; ac er mwyn i fynediad at gyfiawnder fod yn effeithiol, rhaid i ni gael system cymorth cyfreithiol sy'n hygyrch i bawb sydd â'i hangen.
10. Mae profion modd wedi chwarae rhan yn y system cymorth cyfreithiol ers amser maith, a hynny am resymau da; mae'n bwysig cyfeirio adnoddau trethdalwyr at y rheini sydd â'r angen mwyaf amdanynt, yn hytrach nag at y rheini sy'n gallu fforddio talu am gyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol breifat.
11. Yn Adroddiad Rushcliffe ym Mai 1945, a osododd sylfeini'r system cymorth cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr, cafwyd yr argymhelliad hwn: "Those who cannot afford to pay anything for legal aid should receive this free of cost. There should be a scale of contributions for those who can pay something towards costs."
12. Yn yr un modd, yn yr ymgynghoriad ar [Gynigion i Ddiwygio Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr \(2010\)](#) nodwyd (ym Mhennod 5):  
*"This chapter sets out the Government's proposals for reform to the eligibility rules for legal aid. The Government's rationale for reform is to ensure that those who can afford it should pay for, or contribute towards, the costs of their case."*
13. Fodd bynnag, fel yr oedd nifer o ymatebwyr i'r Adolygiad Ôl-weithredu o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 ("LASPO") wedi nodi, mae'r profion modd a'r trothwyon ar gyfer cymorth cyfreithiol wedi aros yn eu hunfan ers rhai blynyddoedd, a dim ond newidiadau bach mewn cymhwysra a gyflwynwyd drwy LASPO a deddfwriaeth arall. Felly, roeddem wedi penderfynu edrych o'r newydd ar y maes hwn.
14. Yn Chwefror 2019, ochr yn ochr â chyhoeddi'r Adolygiad Ôl-weithredu, roedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Cefnogaeth Gyfreithiol. Ymysg ymrwymadau eraill, roedd hwn yn cyhoeddi Adolygiad o'r Profion Modd ar gyfer Cymorth Cyfreithiol, fel a ganlyn:  
*"We will conduct a review into the thresholds for legal aid entitlement, and their interaction with the wider criteria. This review will assess the effectiveness with which the means testing arrangements appropriately protect access to justice, particularly with respect to those who are vulnerable. The review will include looking at the capital thresholds for victims of domestic violence and evidence gathered during the review of legal aid for inquests. Whilst the review is ongoing, we will continue to passport all recipients of Universal Credit through the means test. We are bringing*



*together data, evidence and expertise from across government to ensure that the process is as consistent as possible. We are also keen to work with experts from across the field to explore this issue.” (t. 11)*

15. Mae'r cynigion a amlinellwyd yma yn golygu buddsoddiad sylweddol yn ein system gyfiawnder a fydd yn ehangu mynediad at gymorth cyfreithiol ac yn helpu i sicrhau bod unigolion yn gallu cael mynediad at wasanaethau cyfreithiol pan fydd arnynt eu hangen.

## **Cwmpas a strwythur yr Adolygiad o'r Profion Modd ar gyfer Cymorth Cyfreithiol**

16. Mae'r Adolygiad o'r Profion Modd wedi ystyried pob agwedd ar y profion modd ar gyfer cymorth cyfreithiol, yn cynnwys nid yn unig y trothwyon incwm a chyfalaf ar gyfer cymhwysra am gymorth cyfreithiol, ond hefyd y meini prawf cymhwysra ehangach mewn perthynas â modd (yn cynnwys budd-daliadau pasbortio), a'r cyfraniadau o incwm a chyfalaf a all fod yn daladwy tuag at gostau cynrychiolaeth mewn materion sifil a theuluol ac yn Llys y Goron. Rydym hefyd wedi rhoi ystyriaeth benodol i brofiadau dioddefwyr cam-drin domestig. I'r graddau mwyaf posibl, rydym wedi ailedrych ar y seiliau rhesymegol presennol dros ein dull o weithredu yn y meysydd hyn ac wedi datblygu'r rhain ymhellach lle'r oedd yn briodol.
17. Nid yw'r Adolygiad o'r Profion Modd wedi ystyried rhinweddau'r profion buddiannau cyfiawnder ar gyfer cymhwysra am gymorth cyfreithiol, y cynlluniau ffioedd cymorth cyfreithiol na pha wasanaethau sydd o fewn cwmpas cymorth cyfreithiol.
18. Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn hollbwysig bod unrhyw gynigion a wnawn yn rhai sydd nid yn unig yn bosibl eu cyflawni ond yn rhai syml i'w gweithredu gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ac yn hawdd i'w deall gan ymgeiswyr ac ymarferwyr cymorth cyfreithiol. Felly, rydym wedi cydweithio'n agos â'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol a darparwyr cymorth cyfreithiol, sydd wedi chwarae rhan hollbwysig wrth dreialu a siapio ein cynigion.
19. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:
20. Yn gyntaf, rydym yn darparu crynodeb o'r profion modd presennol ar gyfer cymorth cyfreithiol a'n dull cyffredinol o weithredu yn y profion modd newydd arfaethedig ar gyfer cymorth cyfreithiol.
  - Mae Pennod 1 yn darparu crynodeb o'r profion modd presennol ar gyfer cymorth cyfreithiol.
  - Mae Pennod 2 yn disgrifio'r fframwaith rydym yn ei gynnig ar gyfer cymhwysra am gymorth cyfreithiol a'n cynigion ar gyfer meysydd sy'n berthnasol i gymorth

cyfreithiol sifil a chymorth cyfreithiol troseddol. Mae'r rhain yn cynnwys dyled, mathau o incwm a chyfalaf a ddiystyrir, a budd-daliadau pasbortio.

21. Wedyn, rydym yn amlinellu ein cynigion mewn perthynas â chynrychiolaeth mewn achosion sifil a gwaith rheoledig.
- Mae Pennod 3 yn egluro ein cynigion mewn perthynas â'r trothwyon incwm ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, yn cynnwys budd-daliadau pasbortio a chyfraniadau incwm.
  - Mae Pennod 4 yn amlinellu ein cynigion mewn perthynas â'r asesiad o gyfalaf ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, yn cynnwys y trothwyon, diystyru ecwiti, diystyru cyfalaf pensiynewyr, asedau y mae anghydfod yn eu cylch (a fydd o fudd neilltuol yn ein barn ni i ddioddefwyr cam-drin domestig), cyfalaf anhygyrch a budd-daliadau pasbortio.
  - Mae Pennod 5 yn egluro ein cynigion mewn perthynas â chymorth cyfreithiol ar gyfer achosion mewnfudo a lloches a chymorth cyfreithiol sifil i rai dan 18 oed. Mae hefyd yn ymdrin â meysydd cymorth cyfreithiol sifil nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd.
22. Yn olaf, rydym yn amlinellu ein cynigion mewn perthynas â chymorth cyfreithiol troseddol, a gweithredu ac adolygu'r profion modd newydd.
- Mae Pennod 6 yn egluro ein cynigion mewn perthynas â phrawf modd Llys y Goron, yn cynnwys trothwyon incwm, budd-daliadau pasbortio a chyfraniadau incwm a chyfalaf.
  - Mae Pennod 7 yn egluro ein cynigion mewn perthynas â throthwyon incwm yn y llys ynadon a'r rheini ar gyfer cyngor a chynhorthwy a chynhorthwy eiriolaeth troseddol, yn cynnwys budd-daliadau pasbortio.
  - Mae Pennod 8 yn ymdrin â gweithredu'r prawf modd newydd, yn cynnwys darpariaethau pontio, ac yn ystyried ein dull o ddelio ag adolygiadau yn y dyfodol ac uwchraddio'r profion modd ar gyfer cymorth cyfreithiol.

## Nodau strategol yr Adolygiad o Brofion Modd ar gyfer Cymorth Cyfreithiol

23. [Yn ymateb y llywodraeth i'r Ymgynghoriad ar Ddiwygio Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr](#), a gyhoeddwyd ym Mehefin 2011, nodwyd y pedwar amcan a oedd i'w cyflawni drwy'r pecyn o ddiwygiadau a weithredwyd gan Ran 1 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012. Y rhain oedd:
- a. Anghymell ymgyfreitha diangen a gwrthwynebol ar draul y pwrs cyhoeddus
  - b. Targedu cymorth cyfreithiol ar y rheini sydd â'r angen mwyaf amdano
  - c. Arbed yn sylweddol ar gost y cynllun
  - d. Sicrhau gwell gwerth am arian yn gyffredinol i'r trethdalwr.

24. Amcan (b), targedu cymorth cyfreithiol ar y rheini sydd â'r angen mwyaf amdano, oedd yr egwyddor lywodraethol i'r Adolygiad o'r Profion Modd. Rydym wedi egluro sut rydym yn dehongli'r amcan hwn yn fwy manwl ym Mhennod 2 (paragraffau 87–90).
25. Rydym hefyd wedi datblygu tri nod strategol ychwanegol i'r prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol:
- Tegwch** – sicrhau bod y prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol yn rhoi canlyniadau teg, gan alluogi pobl i gael mynediad at gyfiawnder ar sail yr hyn y gallant ei gyfrannu at eu costau cyfreithiol.
- Effeithlonrwydd** – sicrhau gwerth i'r cyhoedd, gan arbed cost, amser ac adnoddau lle bo'n briodol ar gyfer yr holl ddefnyddwyr.
- Cynaliadwyedd** – sicrhau y gellir addasu'r prawf modd i'r dyfodol, gan ddiogelu mynediad at gyfiawnder yn y tymor byr, canolig a hir.
26. Ar bob cam wrth ddatblygu polisi, rydym wedi ceisio cadw cydbwysedd priodol rhwng y nodau strategol hyn, gan sicrhau bod ein cynigion yn rhoi mynediad at gyfiawnder. Rydym wedi cydweithio'n agos â darparwyr cymorth cyfreithiol a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) i ddeall y baich gweinyddol y mae'r prawf modd presennol yn ei roi ar ddarparwyr, ymgeiswyr a'r LAA, a sicrhau bod ein cynigion yn lleihau'r cymhlethdodau gweinyddol lle bynnag y bo modd ac i'r graddau mwyaf posibl.
27. Mae'n anochel bod gwrthdynnu weithiau rhwng y nodau hyn. Er enghraifft, rydym wedi cynnig y dylid didynnu ad-daliadau o ddyled flaenoriaethol yn rhan o'r asesiad o incwm gwario'r ymgeisydd. Bydd y cynnig hwn yn galw ar ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol i ddarparu tystiolaeth i ddarparwyr a/neu'r LAA o unrhyw ad-daliadau dyled a gytunwyd. Fodd bynnag, credwn fod cyfiawnhad dros y gofyniad gweinyddol ychwanegol hwn, gan ein bod yn credu ei bod yn deg nad yw ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol yn gorfod dewis rhwng talu dyled flaenoriaethol a thalu cyfraniadau cymorth cyfreithiol neu ffioedd cyfreithiol preifat.
28. Rydym wedi egluro'r sail resymegol dros ein cynigion drwy gydol yr ymgynghoriad hwn ac wedi darparu dadansoddiad o'r effeithiau yn yr Asesiadau Effaith a'r asesiad cydraddoldebau sy'n mynd law yn llaw ag ef. Mae'r Asesiadau Effaith yn dangos ei bod yn debygol y bydd effeithiau neilltuol, rhai cadarnhaol a rhai negyddol, ar rai grwpiau demograffig. Yn achos cymorth cyfreithiol sifil, mae'n fwy tebygol y bydd effaith ar unigolion o leiafrif ethnig, menywod, rhai 31–40 oed a Mwslimiaid. Yn achos cymorth cyfreithiol troseddol, mae dynion yn fwy tebygol o brofi effeithiau cadarnhaol a negyddol, mae Mwslimiaid yn fwy tebygol o brofi effeithiau negyddol, ac mae oedolion iau yn fwy tebygol o gael budd. Mae'n debygol y bydd y cynigion yn arwain at rai costau ychwanegol i fusnesau, elusennau neu'r sector gwirfoddol. Bydd croeso mawr i sylwadau am yr Asesiadau Effaith.

29. Rydym wedi rhoi sylw mwy manwl i uwchraddio'r prawf modd yn y dyfodol ym Mhennod 8.

## Ymgynghoriadau blaenorol

30. Yn rhan o'n gwaith o ddatblygu polisi, rydym wedi ystyried nifer o ymgynghoriadau blaenorol yn ymdrin â chymhwysra am gymorth cyfreithiol, yn ymestyn yn ôl i'r rheini a gyhoeddwyd gan Adran yr Arglwydd Ganghellor yn y 1990au.<sup>1</sup> Mae'r gwaith hwn wedi ein helpu i gael gwell dealltwriaeth o'r system bresennol, ac mae hyn wedi bod yn hollbwysig wrth ystyried a ddylem argymhell newidiadau, ac i ba raddau.
31. Mae'r Adolygiad o'r Profion Modd hefyd wedi ystyried ymatebion i ddau ymgynghoriad blaenorol gan lywodraeth. Roedd y cyntaf, [Cymhwysra Ariannol am Gymorth Cyfreithiol a Chredyd Cynhwysol](#), a gyhoeddwyd ar 16 Mawrth 2017, yn amlinellu cynigion i gyfyngu pasbortio derbynwyr Credyd Cynhwysol i'r rheini sydd heb incwm o gyflogaeth. Ni chyhoeddwyd ymateb i'r ymgynghoriad hwn; yn lle hynny, mae'r Adolygiad o'r Profion Modd wedi rhoi sylw i'r mater hwn ac mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys cynigion polisi yn y maes hwn.
32. Cyhoeddwyd yr ail, yr [Adolygiad o Gymorth Cyfreithiol ar gyfer Cwestau](#), ar 19 Gorffennaf 2018 fel galwad am dystiolaeth. Cyhoeddwyd [ymateb](#) i'r alwad hon am dystiolaeth yn Chwefror 2019; fodd bynnag, roedd hwn yn nodi y byddai profion modd ar gyfer cymorth cyfreithiol mewn cwestau yn cael eu hystyried ar wahân yn yr Adolygiad o Brofion Modd.
33. Ym Medi 2021, yn ein [hymateb i adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder ym Mai 2021 ar y Gwasanaeth Crwneriaid](#), ac ar ôl ystyried ymatebion perthnasol i'r Adolygiad o gymorth cyfreithiol ar gyfer cwestau, cyhoeddwyd y byddem yn diwygio rheoliadau i ddileu'r prawf modd ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol mewn cwestau drwy'r Cynllun Ariannu Achosion Eithriadol (ECF). Mae'r diwygiadau hyn i reoliadau wedi'u gwneud bellach, a daethant i rym ar 12 Ionawr 2022. Yn ogystal â hyn, rydym wedi ystyried help cyfreithiol mewn perthynas â chwestau; mae ein cynigion polisi yn cael eu trafod ym mharagraffau 334–342 isod.

## Eitemau carlam

34. Yn Rhagfyr 2020, roeddem wedi gosod offeryn statudol (OS) i ddiystyru taliadau cydnabyddiaeth ac iawndal o gynlluniau penodol (fel cynlluniau cymorth gwaed heintiedig perthnasol a'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol) yn yr asesiad

---

<sup>1</sup> Yr Adran hon oedd yr adran a ragflaenodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

o gyfalaf ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil. Roedd yr OS hwn hefyd yn dileu'r cap ar swm y ddyled morgais y gellir ei ddiynnu o werth eiddo, fel bod yr holl ddyled morgais bellach yn cael ei didynnu. Gwnaed y newidiadau hyn i sicrhau na fydd dioddefwyr sy'n gwneud cais am gymorth cyfreithiol yn wynebu anfantais oherwydd taliadau y maent wedi'u cael o'r cynllun penodedig a hefyd i sicrhau bod yr asesiad o fodd yn adlewyrchiad mwy cywir o'r cyfalaf sydd gan yr unigolyn, fel y bydd yn well ar gyfer pennu pwy sydd â'r angen mwyaf am gymorth cyfreithiol.

35. Fel y nodwyd ym mharagraff 33 uchod, o 12 Ionawr 2022 mae'r prawf modd ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol mewn cwestau drwy'r cynllun ECF wedi cael ei ddileu, ac mae help cyfreithiol ar gael heb brawf modd mewn perthynas â chwest lle rhoddyd cyllid ECF ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol.

## Ein dull o weithredu

36. Mae proses yr Adolygiad o Brofion Modd wedi bod yn un agored a chydweithredol ar ei hyd, ac rydym yn ddiolchgar dros ben am yr adborth manwl a ddarparwyd gan ddarparwyr cymorth cyfreithiol a chyrrff cynrychiadol ar y profion modd presennol ac ar fersiynau cynnar o'n cynigion polisi.
37. Wrth ddatblygu'r cynigion sydd wedi'u hamlinellu yn yr ymgynghoriad hwn, roeddem wedi tynnu ar wahanol fathau o dystiolaeth a oedd ar gael, yn cynnwys:
- llawer math o ddata ansoddol a meintiol yr LAA, yn cynnwys adborth manwl ar ein cynigion gan gydweithwyr gweithredol yn yr LAA
  - adborth ar y prawf modd presennol ar gyfer cymorth cyfreithiol, ac awgrymiadau i'w wella, gan ddarparwyr cymorth cyfreithiol mewn cyfres o grwpiau ffocws rhanbarthol a gynhaliwyd gennym yn Chwefror a Mawrth 2020, ac o gyfres o gyfweiliadau a gawsom gyda barnwyr yn yr holl awdurdodaethau perthnasol ar yr un adeg
  - adborth manwl ar ein cynigion cychwynnol a ddarparwyd gan ein Grŵp Rhanddeiliaid Cynghorol (sydd wedi cwrdd yn rheolaidd ers Hydref 2019, heblaw yn y cyfnod rhwng Ebrill ac Awst 2020), a chan arbenigwyr mewn meysydd cyfreithiol penodol
  - y model micro-efelychu dadansoddol rydym wedi'i ddatblygu i amcangyfrif y costau dichonol a'r effeithiau ar gydraddoldeb o'r polisiau rydym yn eu cynnig, sy'n defnyddio data o'r Arolwg o Adnoddau Teulu,<sup>2</sup> Model Efelychu Polisi yr Adran Gwaith a Phensiynau,<sup>3</sup> a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.

---

<sup>2</sup> **Error! Hyperlink reference not valid.**

<sup>3</sup> Model efelychu polisi'r DWP a'r Arolwg o Adnoddau Teulu – Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (obr.uk)

38. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i fwriadu ar gyfer unrhyw un sydd â buddiant yn y prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr. Bydd hyn yn cynnwys, ymysg eraill, darparwyr cymorth cyfreithiol a'u cyrff cynrychiadol, sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu cymorth i'r rheini sydd ag angen cyngor neu gynrychiolaeth gyfreithiol, aelodau'r farnwriaeth, diffynyddion mewn achosion troseddol, y rheini sydd neu a fu â rhan mewn achosion sifil (wedi'u cynrychioli neu fel ymgyfreithwyr drostynt eu hunain) neu a allai fod â rhan ynddynt yn y dyfodol, academyddion ac eraill sy'n gysylltiedig â'r system gyfiawnder. Mae crynodeb Cymraeg ar gael.

## **Pennod 1: Y profion modd presennol ar gyfer cymorth cyfreithiol**

39. Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol, rhaid i fater cyfreithiol yr ymgeisydd fod o fewn y cwmpas ar gyfer cymorth cyfreithiol a rhaid iddo fodloni prawf rhinweddau a phrawf modd. Mae'r prawf rhinweddau (ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil) a'r prawf buddiannau cyfiawnder (ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol) yn asesu rhinweddau'r achos, yn cynnwys y tebygolrwydd o lwyddo a'r budd i'r cleient. Mae'r prawf modd yn asesu cymhwysra ariannol yr ymgeisydd. Yr eithriad i hyn yw achosion sy'n esempt rhag y prawf modd ("nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd").
40. Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o'r profion presennol ar gyfer cymorth cyfreithiol, yn cynnwys y system bresennol ar gyfer pennu pa bryd y bydd cyfraniadau'n daladwy at gost cymorth cyfreithiol yr unigolyn.
41. Mae rhai elfennau cyffelyb rhwng y profion modd ar gyfer cymorth cyfreithiol am achosion sifil a theuluol, ac am gynrychiolaeth droseddol yn Llys y Goron ac yn y llys ynadon, ac am gyngor a chynhorthwy a chynhorthwy eiriolaeth troseddol. Er hynny, mae rhai gwahaniaethau pwysig hefyd rhwng y profion hyn.
42. Felly, mae'r bennod hon yn rhoi amlinelliad yn gyntaf o elfennau sy'n gyffredin i'r holl brofion modd hyn, ac wedyn yn disgrifio pob un o'r gwahanol brofion modd yn fanwl.<sup>4</sup>

### **Strwythur y prawf modd**

43. Ar hyn o bryd, mae ymgeiswyr am y rhan fwyaf o'r mathau o gymorth cyfreithiol yn gorfod mynd drwy asesiad o incwm gros yn gyntaf ac wedyn, mewn rhai achosion, asesiad o incwm gwario.<sup>5</sup>
44. Mae'r asesiad o incwm gros yn cynnwys nid yn unig y modd sydd gan yr unigolyn sy'n gwneud cais am gymorth cyfreithiol, ond hefyd y modd sydd gan ei bartner, os

---

<sup>4</sup> Y rheoliadau sy'n rheoli'r profion modd ar gyfer cymorth cyfreithiol yw Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Adnoddau Ariannol a Thalu am Wasanaethau) 2013; Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Adnoddau Ariannol) 2013; a Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Gorchmynion Cyfrannu) 2013; a Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Arwystl Statudol) 2013.

<sup>5</sup> Ar gyfer cyngor a chynhorthwy a chynhorthwy eiriolaeth troseddol, dim ond yr asesiad o incwm gwario sy'n gymwys.

oes un, oni bai fod buddiant croes gan y partner (e.e. mewn anghydfod priodasol). Gall gynnwys unrhyw un arall sy'n cynnal yr ymgeisydd i raddau sylweddol (er enghraifft, rhiant/rhieni neu warcheidwad/gwarcheidwaid plentyn dan 18 oed). Mae'r asesiad o incwm gros yn cynnwys pob math o incwm, cyn didynnu unrhyw dreth ac Yswiriant Gwladol, oni bai ei fod wedi'i ddiystyru'n benodol. Mae mathau o incwm a ddiystyrir yn cynnwys budd-daliadau at ddiben penodol, fel Taliadau Annibyniaeth Personol.<sup>6</sup>

45. Mae'r asesiad o incwm gwario yn asesu incwm aelwyd yr ymgeisydd yn dilyn didyniadau, sy'n cynnwys treth ac Yswiriant Gwladol, costau tai a gofal plant a lwfansau ar gyfer dibynyddion. Mae manylion y dull o gyfrifo incwm gwario yn amrywio rhwng y gwahanol brofion modd ac felly rhoddir crynodeb ohonynt yn yr adrannau am bob un o'r profion modd isod. Yn ôl canlyniad yr asesiad o incwm gwario, gall fod yn ofynnol bod ymgeiswyr am gynrychiolaeth gyfreithiol mewn materion sifil a theuluol, ac yn Llys y Goron, yn gwneud cyfraniadau incwm misol at gost eu cymorth cyfreithiol.
46. Bydd ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol sifil ac am gyngor a chynhorthwy a chynhorthwy eiriolaeth troseddol hefyd yn gorfod mynd drwy asesiad o gyfalaf (sydd wedi'i ddisgrifio ym mharagraffau 56–61 ac 80 isod).
47. Os bydd newid mewn amgylchiadau ariannol, gall yr LAA ailasesu'r modd sydd gan dderbynwyr cymorth cyfreithiol, gan arwain o bosibl at gynyddu neu leihau'r cyfraniadau sy'n daladwy neu benderfynu na fydd cyfraniadau'n daladwy, neu at benderfynu nad yw'r unigolyn yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol.

## Y prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil

48. Sefydlwyd y prawf modd presennol ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil yn 2001, a chafwyd rhai newidiadau wedyn. Roedd y trothwyon incwm wedi'u cynyddu bob blwyddyn tan 2009. Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol mewn materion sifil a theuluol, rhaid i'r ymgeisydd fodloni'r asesiad o incwm a'r asesiad o gyfalaf.
49. Mae cymorth cyfreithiol sifil yn cwmpasu cynrychiolaeth gyfreithiol, sef gwaith trwyddedig yn bennaf (hynny yw, wedi'i ddarparu drwy dystysgrif cymorth cyfreithiol a roddwyd gan yr LAA i'r darparwr), a gwaith rheoledig, lle mae penderfyniadau ynghylch modd a rhinweddau yn cael eu dirprwyo i ddarparwyr. Mae gwaith rheoledig yn cynnwys help cyfreithiol (er enghraifft, cyngor a chynhorthwy cynnar cyn achos

---

<sup>6</sup> Mae rhestr o'r holl fathau o incwm a ddiystyrir yn **Atodiad A**, ac yn Rheoliad 24 o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Adnoddau Ariannol a Thalu am Wasanaethau) 2013 ac yn Rheoliad 11 o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Adnoddau Ariannol) 2013.



llys), cyfryngu teuluol, a chynrychiolaeth gyfreithiol reoledig (ar gyfer rhai materion mewnfudo ac iechyd meddwl).

### **Asesiad o incwm**

50. Y trothwy incwm gros ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil yw £2,657 y mis (£31,884 y flwyddyn). Os oes gan yr ymgeisydd fwy na phedwar plentyn dibynnol, cynyddir y trothwy hwn £222 y mis am bob plentyn dibynnol ychwanegol. Os yw incwm gros yr ymgeisydd yn uwch na'r trothwy hwn, yna ni fydd yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol sifil.
51. Bydd ymgeiswyr sydd ag incwm gros o dan y trothwy hwn yn symud ymlaen wedyn at asesiad o incwm gwario. I ddibenion cymhwystra am gymorth cyfreithiol sifil, incwm gwario yr ymgeisydd yw ei incwm gros gyda didyniadau ar gyfer:
  - treth ac Yswiriant Gwladol
  - cyfraniadau cynhaliaeth plant
  - cyfraniadau cymorth cyfreithiol troseddol
  - rhent/morgais (lle mae taliadau rhent/morgais gwirioneddol yr ymgeisydd yn cael eu didynnu, heblaw am ymgeiswyr sydd heb bartner neu blant lle mae cap o £545 wedi'i osod)
  - gofal plant (costau gwirioneddol yn codi o waith neu astudio y tu allan i'r cartref).
52. Gwneir didyniadau ychwanegol am unrhyw oedolyn neu blentyn dibynnol sy'n byw ar yr un aelwyd. Mae'r lwfansau hyn, a gymerwyd o'r rheini a osodwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i ddibenion Cymhorthdal Incwm, wedi'u gosod ar hyn o bryd ar £185.54 y mis ar gyfer partner a £298.08 ar gyfer unrhyw ddibynnydd arall, yn cynnwys plentyn o unrhyw oed. Rhoddir lwfans gwaith ychwanegol o £45 y mis, i gydnabod y costau ychwanegol o fod mewn gwaith, ar gyfer pob oedolyn arall ar yr aelwyd sydd mewn gwaith.
53. Bydd ymgeiswyr sydd ag incwm gwario nad yw'n fwy na £733 y mis yn dilyn y didyniadau a lwfansau hyn yn rhai sy'n gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol sifil (yn amodol ar y prawf cyfalaf ar wahân, isod). Ar gyfer y rheini sydd ag incwm gwario rhwng £315 a £733, gall fod yn ofynnol iddynt dalu cyfraniad incwm misol tuag at gostau eu cynrychiolaeth gyfreithiol; fodd bynnag, ni fydd cyfraniadau incwm yn daladwy at help neu gyngor cyfreithiol, na chynrychiolaeth gyfreithiol reoledig.
54. Defnyddir graddfa symudol, gyda thri band graddedig, i gyfrifo swm y cyfraniad incwm misol y mae'n rhaid ei dalu tra bydd yr achos yn parhau: bydd ymgeiswyr yn talu 35% o'u hincwm gwario rhwng £311 a £465; 45% rhwng £466 a £616; a 70% rhwng £617 a £733. Os na thelir y cyfraniad incwm misol, gall hynny arwain at dynnu'n ôl y dystysgrif cymorth cyfreithiol. Os bydd cyfanswm y cyfraniadau a delir yn fwy na chost yr achos, bydd unrhyw ordaliad yn cael ei ad-dalu ar ddiwedd yr achos.

### **Prawf incwm cymorth cyfreithiol sifil: enghreifftiau wedi'u gweithio**

#### *Enghraifft 1*

Mae gan ymgeisydd A bartner a 3 o blant sy'n 3, 5 ac 8 oed, ac incwm aelwyd gros o £3,500 y mis.

**Asesiad o incwm gros:** mae gan A incwm gros sy'n uwch na'r trothwy o £2,657 y mis, felly **nid yw'n gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol**, ni waeth beth yw swm ei incwm gwario.

#### *Enghraifft 2*

Mae ymgeisydd B yn rhiant sengl sydd â phlentyn 15 oed, ac incwm aelwyd gros o £2,368 y mis.

**Asesiad o incwm gros:** mae gan B incwm gros sy'n is na'r trothwy, felly mae'n symud ymlaen at yr asesiad o incwm gwario.

**Asesiad o incwm gwario:** ar ôl didynnu treth (£224), Yswiriant Gwladol (£164), rhent (£1,000) a lwfans dibynnydd (£298) ym mhob mis, mae gan B incwm gwario o £682 y mis, felly **mae'n gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol gyda chyfraniad incwm misol** o £166.90 tra bydd ei hachos yn parhau.

55. Hefyd mae rhai taliadau'n cael eu diystyru yn yr asesiadau o incwm. Mae'r mathau o incwm a ddiystyrir yn cynnwys taliadau at ddiben penodol, e.e. Lwfans Byw i'r Anabl, a thaliadau digolledu am niwed, e.e. taliadau gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol. Mae tabl sy'n dangos y taliadau a ddiystyrir ar hyn o bryd wrth gyfrifo incwm ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a throseddol yn **Atodiad A**.

### **Asesiad o gyfalaf**

56. Mae'r prawf cyfalaf yn asesu'r holl fathau o gyfalaf sydd gan yr unigolyn, yn cynnwys cynilion a chyfalaf anariannol fel eiddo, oni bai ei fod wedi'i ddiystyru'n benodol. Mae'r mathau o gyfalaf a ddiystyrir yn cynnwys taliadau digolledu o gynlluniau, yn cynnwys yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol. Ar ôl rhoi sylw i unrhyw daliadau sydd i'w diystyru, bydd yr holl gyfalaf sy'n weddill yn cael ei ystyried yn gyfalaf gwario. Mae tabl sy'n dangos y taliadau a ddiystyrir wrth gyfrifo cyfalaf ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a throseddol yn **Atodiad A**.
57. Yn yr un modd ag incwm, bydd yr adnoddau sydd gan bartner yr ymgeisydd ac unrhyw oedolyn dibynnol arall yn cael eu hystyried fel arfer oni bai fod buddiant croes.
58. Bydd ymgeiswyr sydd â chyfalaf gwario o lai na £3,000 yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol (gan gymryd eu bod wedi bodloni'r asesiad o incwm) heb unrhyw gyfraniad cyfalaf. Bydd ymgeiswyr sydd â chyfalaf gwario o fwy na £8,000 yn anghymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol. Ar gyfer y rheini sydd â chyfalaf rhwng £3,000 a £8,000,

bydd gofyn iddynt dalu cyfraniad cyfalaf o'r holl gyfalaf sydd ganddynt uwchlaw £3,000, hyd at yr amcangyfrif o gost eu hachos. Gan fod unigolion sydd â chyfalaf o fwy na £8,000 yn anghymwys, mae hyn yn golygu mai'r cyfraniad cyfalaf mwyaf y gellir ei dalu yw £5,000. Ar gyfer help cyfreithiol, ni fydd cyfraniadau'n ofynnol felly dim ond y trothwy uchaf fydd yn gymwys. Ar gyfer rhai materion mewnfudo, mae'r terfyn cyfalaf yn is nag ar gyfer achosion sifil eraill, sef £3,000.<sup>7</sup>

59. Bydd gwerth unrhyw eiddo sydd gan yr unigolyn yn cael ei gynnwys fel ei gyfalaf yn y prawf modd, ond mae gwahanol symiau a ddiystyrir mewn perthynas ag eiddo. Didynnir swm unrhyw forgoais neu ddyled arall sydd wedi'i sicrhau ar yr eiddo o werth yr eiddo ac, os yw'r eiddo yn brif breswylfa i'r unigolyn, bydd ecwiti o hyd at £100,000 yn cael ei ddiystyru hefyd.
60. Lle mae ased yr ymgeisydd yn bwnc yn yr anghydfod – h.y. yn destun i'r achos y mae am gael cymorth cyfreithiol ar ei gyfer – mae diystyriad ychwanegol o hyd at £100,000.
61. Mae'r prawf modd yn cynnwys diystyriad cyfalaf ar gyfer pensïynwyr, fel bod y rheini sy'n 60 oed neu'n hŷn ar incwm isel yn gallu cael diystyriad cyfalaf ychwanegol o hyd at £100,000, ac felly'n gallu bod yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol er bod ganddynt fwy o gyfalaf na'r rheini sy'n iau na 60. Bydd swm y cyfalaf a ddiystyrir yn dibynnu ar incwm gwario yr ymgeisydd:

<b>Incwm gwario misol (heb gynnwys incwm net sy'n deillio o gyfalaf)</b>	<b>Swm y cyfalaf ychwanegol a ddiystyrir</b>
Derbynnydd budd-dal pasbortio <sup>8</sup>	£100,000
£0-25	£100,000
£26-50	£90,000
£51-75	£80,000
£76-100	£70,000
£101-125	£60,000
£126-150	£50,000
£151-175	£40,000
£176-200	£30,000

<sup>7</sup> Mae'r trothwy is o £3,000 yn gymwys i achosion sy'n ymwneud â mewnfudo a chadw, mewnfudo a thrais domestig, caethwasiaeth fodern a masnachu pobl.

<sup>8</sup> Mae budd-daliadau pasbortio wedi'u diffinio'n ddiweddarach yn y bennod hon (paragraff 80 a throednodyn).

<b>Incwm gwario misol (heb gynnwys incwm net sy'n deillio o gyfalaf)</b>	<b>Swm y cyfalaf ychwanegol a ddiystyrir</b>
£201-225	£20,000
£226-315	£10,000
Dros £315	£0

*Y prawf modd presennol ar gyfer cymorth cyfreithiol am gynrychiolaeth sifil*

Person applies for...	Yr unigolyn yn gwneud cais ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol sifil
Eligible for passporting?	Yn gymwys ar gyfer pasbortio?
Yes	Ie
No	Na
Disposable capital	Cyfalaf gwario
Legal aid refused	Gwrthod cymorth cyfreithiol
Gross income	Incwm gros
Disposable income	Incwm gwario
Non contributory legal aid	Cymorth cyfreithiol heb gyfraniadau
Disposable capital <£3,000 and disposable income <£315?	Cyfalaf gwario <£3,000 ac incwm gwario <£315?
Disposable capital <£3,000 but <£8,000	Cyfalaf gwario <£3,000 ond <£8,000
Legal aid with a capital contribution	Cymorth cyfreithiol gyda chyfraniad cyfalaf
Disposable capital >£3,000 and <£8,000 and disposable income <£315?	Cyfalaf gwario >£3,000 a <£8,000 ac incwm gwario <£315?
Legal aid with income contribution	Cymorth cyfreithiol gyda chyfraniad incwm
Disposable capital <£3,000 but disposable income >£315 and <£733?	Cyfalaf gwario <£3,000 ond incwm gwario >£315 a <£733?
Legal aid with an income and capital contribution	Cymorth cyfreithiol gyda chyfraniad incwm a chyfalaf
Disposable capital >£3,000 and <£8,000 and disposable income >£315 and <£733?	Cyfalaf gwario >£3,000 a <£8,000 ac incwm gwario >£315 a <£733?

## Cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron

62. Cyflwynwyd y prawf modd presennol yn Llys y Goron yn 2010; roedd wedi'i seilio ar y prawf modd ar gyfer y llys ynadon, a gyflwynwyd yn 2006 (gweler isod), ond gydag elfen gyfrannol ychwanegol a heb drothwy uchaf (fodd bynnag, cyflwynwyd trothwy uchaf ar gyfer incwm gwario yn 2014). Nid yw prawf modd Llys y Goron wedi cael ei uwchraddio ers ei gyflwyno yn 2010.
63. Mae pob ymgeisydd am gymorth cyfreithiol ar gyfer cynrychiolaeth mewn achosion troseddol yn mynd drwy brawf modd cychwynnol sy'n asesu ei incwm gros. Nid oes trothwy uchaf ar incwm gros ym mhrawf incwm Llys y Goron ond mae un ar gyfer incwm gwario.
64. Mae prawf modd Llys y Goron hefyd yn cynnwys trothwy isaf ar incwm gros, sef £12,475 y flwyddyn ar hyn o bryd. Mae hawl gan y rheini sydd ag incwm gros o dan y lefel hon (wedi'i addasu yn ôl cyfansoddiad yr aelwyd) i gael cynrychiolaeth gyfreithiol heb dalu cyfraniadau, heb fynd drwy asesiad o incwm gwario.
65. Caiff incwm gwario ei fesur drwy ddiwynnu'r canlynol o'r incwm gros:
- treth, Yswiriant Gwladol, costau tai, y Dreth Gyngor, taliadau gofal plant a chynhaliadaeth plant (costau gwirioneddol)
  - lwfans costau byw penodedig, sef £5,676 y flwyddyn ar hyn o bryd ar gyfer un person
  - didyniadau pellach ar gyfer partner/plant (os yw'n berthnasol)
66. Mae'n werth nodi bod y dull hwn yn wahanol i'r un a ddefnyddir yn y prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, nad yw'n didynnu lwfans costau byw wrth asesu incwm gwario.
67. Yn wahanol i'r prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, nid yw prawf modd Llys y Goron yn defnyddio lwfansau penodedig ar gyfer partneriaid a phlant ond, yn hytrach, yn defnyddio dull cyfwertholi McClements, ar gyfer yr asesiadau o incwm gros ac incwm gwario, i ddarparu ar gyfer y costau ychwanegol a ysgwyddir gan aelwydydd o wahanol faint.<sup>9</sup>

---

<sup>9</sup> Mae'r dull cyfwertholi yn defnyddio graddfa wedi'i phwysoli i addasu incymau aelwydydd yn ôl eu maint a'u cyfansoddiad. Mae graddfa McClements fel a ganlyn; mae pob gwerth wedi'i fynegi fel cyfran o'r lwfans ar gyfer un person (1).

Partner/Priod	0.64
Pob plentyn 0-1 oed	0.15
Pob plentyn 2-4 oed	0.30
Pob plentyn 5-7 oed	0.34

68. Mae hawl gan ymgeiswyr sydd ag incwm gwario blynyddol o £3,398 neu lai i dderbyn cymorth cyfreithiol heb dalu cyfraniadau; mae hawl gan y rheini sydd ag incwm gwario blynyddol sydd rhwng £3,399 a £37,500 i dderbyn cymorth cyfreithiol gan dalu cyfraniad incwm misol. Mae derbynwyr cymorth cyfreithiol sy'n credu bod y cyfraniad incwm misol a aseswyd iddynt yn anfforddiadwy yn gallu gwneud cais i'r LAA am adolygiad caledi; gall yr adolygiad hwn arwain at leihau'r cyfraniad incwm.
69. Bydd ymgeiswyr sydd ag incwm gwario o fwy na £37,500 y flwyddyn yn anghymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol Llys y Goron, oni bai eu bod yn gwneud cais llwyddiannus i'r LAA am adolygiad cymhwysra, a fydd yn ystyried all daliadau ychwanegol a'r costau posibl am gynrychiolaeth breifat.<sup>10</sup> Os byddant wedi gwneud cais am gymorth cyfreithiol ac wedi'u gwrthod ar sail incwm gwario ac wedyn yn cael eu rhyddfarnu, gallant hawlio'n ôl gost breifat eu hamddiffyniad, wedi'i gapio ar gyfraddau cymorth cyfreithiol, drwy Orchymyn Costau Diffynnydd.
70. Mae'r ymgeiswyr hynny sy'n atebol i dalu cyfraniad incwm yn gwneud hyd at 6 thaliad misol (ad-delir y rhain ar log o 2% os caiff yr ymgeisydd ei ryddfarnu'n ddiweddarach). Caiff pob cyfraniad incwm misol ei gyfrifo ar  $1/12^{\text{fed}}$  o 90% o'u hincwm gwario blynyddol. I bob pwrpas, mae hyn yn golygu mai'r cyfraniad incwm misol lleiaf fydd £255 (£3,399/12 x 90%). Er mwyn rhoi cymhelliad i dalu, bydd yr ymgeisydd yn esempt rhag y 6<sup>ed</sup> taliad incwm misol (neu derfynol) os bydd y pum taliad cyntaf wedi'u gwneud yn brydlon.
71. Ar ddiwedd y treial, os caiff yr ymgeisydd ei ryddfarnu, ad-delir unrhyw gyfraniadau incwm y mae wedi'u gwneud. Os ceir ef yn euog, gall fod yn atebol i dalu unrhyw gostau sy'n weddill am gymorth cyfreithiol o unrhyw asedau cyfalaf sy'n fwy na £30,000. Gellir defnyddio nifer o wahanol offer casglu a gorfodi i sicrhau'r ddyled, yn cynnwys gosod gorchymyn arwystlo ar eiddo yr un a gafwyd yn euog. Os bydd wedi talu cyfraniadau incwm sy'n dod i fwy na chost ei amddiffyniad, bydd unrhyw ordaliad yn cael ei ad-dalu.

---

Pob plentyn 8-10 oed	0.38
Pob plentyn 11-12 oed	0.41
Pob plentyn 13-15 oed	0.44
Pob plentyn 16-18 oed	0.59

<sup>10</sup> Mae rhagor o fanylion am brosesau'r adolygiad caledi a'r adolygiad cymhwysra yn y Llawlyfr Cymorth Cyfreithiol Troseddol ([publishing.service.gov.uk](http://publishing.service.gov.uk)).

### **Prawf incwm Llys y Goron: enghreifftiau wedi'u gweithio**

#### *Enghraifft 1*

Mae gan ddiffynnydd C bartner a dau blentyn 16 a 18 oed. Incwm gros yr aelwyd yw £33,000 y flwyddyn.

**Asesiad o incwm gros:** mae incwm gros diffynnydd C yn cael ei rannu â 2.82 i gymryd aelodau ei deulu i ystyriaeth. Ei incwm gros wedi'i addasu yw £11,702. Mae hwn yn is na'r trothwy incwm gros o £12,475, ac felly **mae hawl gan ddiffynnydd C i dderbyn cymorth cyfreithiol anghyfrannol** heb fynd ymlaen at asesiad o incwm gwario.

#### *Enghraifft 2*

Mae gan ddiffynnydd D bartner ac un plentyn 2 oed. Incwm gros yr aelwyd yw £50,000 y flwyddyn.

**Asesiad o incwm gros:** mae incwm gros diffynnydd D yn cael ei rannu ag 1.94 i gymryd aelodau ei deulu i ystyriaeth. Ei incwm gros wedi'i addasu yw £25,773. Mae hwn yn uwch na'r trothwy incwm gros o £12,475, felly rhaid i ddiffynnydd D fynd drwy asesiad o incwm gwario.

**Asesiad o incwm gwario:** ar ôl didynnu treth (£5,484), Yswiriant Gwladol (£3,652), morgais (£9,800), treth gyngor (£1,818), gofal plant (£3,600) a'r Lwfans Costau Byw (£5,676 x 1.94), mae gan ddiffynnydd D incwm gwario o £14,635 y flwyddyn. Mae hwn yn uwch na'r trothwy isaf ar gyfer incwm gwario o £3,398 y flwyddyn ond yn is na'r trothwy uchaf ar gyfer incwm gwario o £37,500 y flwyddyn, felly **mae hawl gan ddiffynnydd D i dderbyn cymorth cyfreithiol ond rhaid iddo dalu cyfraniad incwm.**

**Cyfraniad incwm:** rhaid i ddiffynnydd D dalu cyfraniad incwm misol o £1,098 (90% o'i incwm gwario) am hyd at 6 mis.

## **Cymorth cyfreithiol yn y llys ynadon**

72. Yn wahanol i brawf modd Llys y Goron, nid yw prawf modd y llys ynadon yn cynnwys elfen gyfrannol, ac nid oes asesiad o gyfalaf. Cafodd ei uwchraddio ddiwethaf yn 2008.
73. Yn yr un modd â phrawf Llys y Goron, mae hawl gan unrhyw ymgeisydd sydd ag incwm gros o £12,475 y flwyddyn neu lai (ar ôl ei addasu yn ôl cyfansoddiad yr aelwyd) i dderbyn cymorth cyfreithiol yn y llys ynadon heb fynd drwy asesiad ychwanegol o incwm gwario. Mae prawf y llys ynadon hefyd yn cynnwys trothwy uchaf ar gyfer incwm gros: nid yw ymgeiswyr sydd ag incwm gros o fwy na £22,325

yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol. Ar gyfer ymgeiswyr sydd ag incwm gros o fwy na £12,475 ond llai na £22,325, mae cymhwysra'n dibynnu ar asesiad pellach o incwm gwario'r ymgeisydd.

74. Mae'r asesiad o incwm gwario yn defnyddio'r un dull â hwnnw ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol yn Llys y Goron (gweler paragraffau 65–68 uchod). Mae'r lwfans incwm gwario o £3,398 yn deillio o amcangyfrif o'r gost nodweddiadol am amddiffyniad preifat pan gyflwynwyd prawf modd y llys ynadon yn 2006, a'i bwrpas yw sicrhau bod diffynyddion sydd heb fodloni'r prawf modd yn gallu talu'n breifat am eu cynrychiolaeth.
75. Fodd bynnag, os yw ymgeisydd wedi methu'r prawf modd ond yn credu nad yw'n gallu talu'n breifat am ei amddiffyniad (oherwydd gwariant ychwanegol anorfod a/neu gostau cyfreithiol y mae'n eu hystyried yn anfforddiadwy), gall wneud cais i'r LAA am adolygiad caledi, a all arwain at gael ei fod yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol.

## Cyngor a chynhorthwy/cynhorthwy eiriolaeth troseddol

76. Mae cymorth cyfreithiol ar gael mewn perthynas â chyngor a chynhorthwy (CC) a chynhorthwy eiriolaeth (CE) troseddol ar gyfer nifer o wahanol faterion troseddol, yn cwmpasu achosion o'r cam cyn cyhuddo i'r cam ar ôl yr euogfarn. Mae nifer o'r materion hyn nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd (er enghraifft, cyngor yng ngorsaf yr heddlu ar ôl arestio; gweler y rhestr lawn yn **Atodiad B**). Fodd bynnag, mae rhai meysydd (fel Cyfraith Carchardai, a chyngor ar apelio yn erbyn dedfryd neu euogfarn) yn dibynnu ar brawf modd (gweler Pennod 7, paragraff 459).
77. Lle mae'r prawf modd yn gymwys, mae gwahanol drothwyon yn ôl a yw'r mater yn dod o dan CC neu CE. Nid yw'r naill brawf na'r llall yn asesu incwm gros. O ran CC, mae trothwy ar incwm gwario o £99 yr wythnos a throthwy o £1,000 ar gyfer cyfalaf gwario. Ar gyfer CE, mae trothwy o £209 yr wythnos ar incwm gwario a throthwy o £3,000 ar gyfalaf gwario.
78. Y diffiniad o incwm gwario yn y cyd-destun hwn yw incwm gros ar ôl didynnu treth, Yswiriant Gwladol, taliadau cynhaliadaeth plant, a budd-daliadau a thaliadau penodol eraill a ddiystyrir. Gwneir didyniadau pellach hefyd ar gyfer ymgeiswyr sydd â phartneriaid/plant (sydd, yn yr un modd ag ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, yn cael eu cymryd o'r didyniadau a bennwyd gan DWP i ddibenion Cymhorthdal Incwm, ac sydd wedi'u gosod ar hyn o bryd ar £42.70 yr wythnos am bartner a £68.60 yr wythnos am blentyn dibynnol). Felly, yn wahanol i feysydd eraill yn yr asesiad o fodd, nid oes didyniadau am gyfraniadau cymorth cyfreithiol troseddol, rhent/morgais, neu gostau gofal plant.



79. Mae cyfalaf gwario yn cynnwys holl gyfalaf yr unigolyn gyda didyniadau am ddodrefn a meddiannau ar aelwyd yr unigolyn, dillad, offer crefft yr unigolyn, ac unrhyw daliad 'bonws dychwelyd i'r gwaith'. Mae eiddo'r unigolyn yn cael ei gynnwys yn yr asesiad hwn, er bod y £100,000 cyntaf o'r ecwiti a'r £100,000 cyntaf o unrhyw forgais ar yr eiddo yn cael eu diystyru. Yn yr un modd ag incwm, mae rhai lwfansau cyfalaf ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr sydd â dibynnyddion (£335 am y dibynnydd cyntaf, £200 am yr ail ddibynnydd a £100 am bob dibynnydd ychwanegol).

## Trefniadau budd-daliadau pasbortio

80. Mae'r rheini sy'n derbyn budd-daliadau penodol sy'n dibynnu ar brawf modd yn cael eu pasbortio drwy'r asesiad o incwm yn y gwahanol brofion modd ar gyfer cymorth cyfreithiol – h.y. tybir eu bod yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol anghyfrannol heb fynd drwy asesiad llawn o fodd, er y gallent orfod mynd drwy asesiad o gyfalaf wedyn.<sup>11</sup> Er 2013, mae Credyd Cynhwysol wedi'i ystyried yn fudd-dal pasbortio ar sail interim. Mae ymgeiswyr sy'n derbyn budd-daliadau pasbortio yn cael eu pasbortio drwy'r asesiad o fodd incwm ar gyfer yr holl fathau o gymorth cyfreithiol sifil a throeddol a thrwy'r asesiad o fodd cyfalaf ar gyfer cymorth cyfreithiol troeddol yn Llys y Goron ac ar gyfer cynhorthwy eiriolaeth troeddol.<sup>12</sup>

## Cymorth cyfreithiol nad yw'n dibynnu ar brawf modd

81. Mae cymorth cyfreithiol ar gael nad yw'n dibynnu ar brawf modd ar gyfer rhai sefyllfaoedd ac achosion cyfreithiol penodol. Ymysg yr achosion sy'n esempt rhag prawf modd ar hyn o bryd y mae: achosion mewn perthynas â defnyddio llety i gyfyngu rhyddid plentyn; achosion yn ymwneud â gorchmynion gofal a gorchmynion goruchwyllo; help cyfreithiol mewn perthynas â Mesurau Atal ac Ymchwilio i Derfysgaeth; achosion yn herio gorchymyn amddifadu o ryddid a wnaed gan ysbyty neu gyfleuster gofal; ac achosion a wrandewir gan y Tribiwnlys Iechyd Meddwl.<sup>13</sup>

---

<sup>11</sup> Mae'r budd-daliadau canlynol yn fudd-daliadau pasbortio: Cymhorthdal Incwm (IS); Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm (JSA); Credyd Cynhwysol (UC); elfen Credyd Gwarant y Credyd Pensiwn (GC); Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm (ESA). Ar gyfer cyngor a chynhorthwy a chynhorthwy eiriolaeth troeddol, mae credyd treth gwaith gydag elfen anabledd, neu gredyd treth gwaith ochr yn ochr â Chredyd Treth Plant, yn fudd-daliadau pasbortio os nad yw incwm gros yr unigolyn yn fwy na £14,213.

<sup>12</sup> Yr unig fudd-daliadau pasbortio cyfalaf ar gyfer cynhorthwy eiriolaeth troeddol yw Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm a Chredyd Gwarant Pensiwn y Wladwriaeth.

<sup>13</sup> Mae rhestr lawn o feysydd cymorth cyfreithiol sifil nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd yn **Atodiad B** ac yn Rheoliad 5 o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Adnoddau Ariannol a Thalu am Wasanaethau) 2013.

82. Hefyd mae cymorth cyfreithiol ar gael nad yw'n dibynnu ar brawf modd ar gyfer cyngor a chynhorthwy yng ngorsaf yr heddlu yn dilyn arestio, cymorth gan gyfreithiwr ar ddyletswydd yng ngorsaf yr heddlu a'r llys ynadon, cynhorthwy eiriolaeth cyn mynd i lys ynadon neu Lys y Goron, ac ar gyfer unigolyn sy'n apelio yn erbyn euogfarn neu ddedfryd i'r Llys Apêl neu'r Goruchaf Lys, yn ogystal â mathau eraill o achosion.<sup>14</sup>

---

<sup>14</sup> Mae rhestr lawn o achosion sy'n esempt rhag profion modd ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol yn **Atodiad B** ac yn Rheoliad 5 o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Adnoddau Ariannol) 2013.

## Pennod 2: Cynigion cyffredinol

83. Yn rhan o'r Adolygiad o Brofion Modd, rydym wedi ystyried lle mae cyfiawnhad dros gysoni rhwng y profion modd cymorth cyfreithiol sifil a throseddol, a lle y dylem ddilyn llwybr gwahanol. Mewn nifer o feysydd, rydym yn cynnig mwy o gysoni, gan ein bod yn meddwl bod dadl gryf o blaid datblygu dull cyffredin o weithredu mewn rhai neu'r cwbl o'r gwahanol brofion modd.
84. Felly mae'r bennod hon yn amlinellu cynigion polisi rydym yn eu cynnig ar gyfer y gwahanol brofion modd. Nid ydym yn cynnig cysoni llwyr ym mhob un o'r meysydd hyn, gan ein bod yn credu bod dadl gryf mewn rhai achosion dros ddulliau gwahanol o weithredu. Rydym wedi darparu mwy o fanylion am y sail resymegol dros ein dull o weithredu yn y meysydd dan sylw.
85. Mae'r cynigion hyn yn dod o fewn y meysydd canlynol:
- Cymhwysra am gymorth cyfreithiol
  - Cyfwertholi
  - Asesu incwm gwario
  - Diystiriadau incwm
  - Budd-daliadau pasbortio
  - Cyfraniadau incwm

### Cymhwysra am gymorth cyfreithiol

86. Fel yr eglurwyd yn y Cyflwyniad (paragraff 23), un o amcanion y rhaglen Diwygio Cymorth Cyfreithiol a lansiwyd yn 2011 oedd y dylai cymorth cyfreithiol gael ei dargedu at y rheini sydd â'r angen mwyaf amdano. Yn unol â'n dull hanesyddol o drafod cymhwysra am gymorth cyfreithiol, rydym wedi dehongli'r amcan hwn fel a ganlyn.
87. Yn gyntaf, dylai cwmpas y cynllun cymorth cyfreithiol gael ei dargedu at y rheini sydd â'r angen mwyaf amdano, ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol lle mae cyfiawnhad dros ddarparu cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol. Yn ogystal â'r rhestr o wasanaethau penodol o fewn cwmpas y cynlluniau cymorth cyfreithiol sifil a throseddol, mae'r unigolyn hefyd yn gallu gwneud cais i'r cynllun ECF, sy'n sicrhau bod cymorth cyfreithiol ar gael lle byddai methu â darparu gwasanaethau cyfreithiol yn torri, neu'n creu risg o dorri, hawliau dynol yr unigolyn neu hawliau o dan gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n orfodadwy, neu (ar gyfer eiriolaeth mewn cwest) lle mae budd ehangach i'r cyhoedd. Nid yw'r Adolygiad o'r Profion Modd na'r ymgynghoriad hwn yn rhoi sylw i gwmpas cymorth cyfreithiol, na'r prawf rhinweddau (ar gyfer cymorth

cyfreithiol sifil) na'r prawf buddiannau cyfiawnder (ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol), sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 1 (paragraff 39).

88. Yn ail, ar gyfer y rhan fwyaf o'r mathau o gymorth cyfreithiol, dylid targedu cymorth cyfreithiol at y rheini sydd â llai o adnoddau ariannol ar gael iddynt, ac sydd felly'n annhebygol o allu talu'n breifat am gyngor neu gynrychiolaeth gyfreithiol.
89. Fodd bynnag, mae rhai mathau o gymorth cyfreithiol lle credwn na ddylai ymgeiswyr gael eu cau allan ar sail y modd sydd ganddynt yn unig. Mae'r rhain yn cynnwys rhai meysydd cymorth cyfreithiol sifil a throseddol (fel cynrychiolaeth gyfreithiol mewn achosion 'Deddf Plant Arbennig'<sup>15</sup> neu o flaen y Tribiwnlys Iechyd Meddwl, a chyngor yng ngorsaf yr heddlu yn dilyn arestio) nad oes prawf modd o gwbl ar eu cyfer. Mae rhai meysydd hefyd, fel ceisiadau am waharddebau amddiffynnol, lle mae cymorth cyfreithiol ar gael i'r holl ymgeiswyr (gan gymryd eu bod yn bodloni unrhyw brawf rhinweddau neu fuddiannau cyfiawnder sydd ei angen, a bod yr hepgoriad terfynau cymhwysra yn cael ei ddefnyddio), ond, yn ôl yr incwm a/neu gyfalaf sydd gan yr ymgeisydd, gall cyfraniad fod yn daladwy.
90. Credwn na ddylai ymgeiswyr fod yn gymwys am y rhan fwyaf o'r meysydd cymorth cyfreithiol sy'n dibynnu ar brawf modd os yw eu hincwm ar y canolrif neu'n uwch na'r canolrif, gan nad ydym yn credu mai'r rhain yw'r mwyaf anghenus. Fodd bynnag, nid yw'r dull hwn o weithredu yn cynnwys diffynyddion yn Llys y Goron. Mae ein cynigion manwl ar gymhwysra am gymorth cyfreithiol i'w gweld ym Mhenodau 3 (trothwyon incwm sifil), 4 (trothwyon cyfalaf sifil), 6 (Llys y Goron) a 7 (y llys ynadon a chyngor a chynhorthwy/cynhorthwy eiriolaeth troseddol).

## Cyfwertoli

91. Defnyddir y broses cyfwertoli i addasu incwm er mwyn cymryd i ystyriaeth anghenion aelwydydd o wahanol faint. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod adnoddau cymorth cyfreithiol yn cael eu dyrannu mewn ffordd deg, oherwydd gellir cael cysylltiad uniongyrchol rhwng cyfansoddiad yr aelwyd a chostau byw, ac felly â gallu'r unigolyn i fforddio talu ei gostau cyfreithiol neu gyfrannu atynt.
92. Ar hyn o bryd, mae'r profion modd yn delio â chyfwertedd mewn ffyrdd gwahanol. Mae'r prawf modd sifil yn gosod un trothwy incwm gros (gyda lwfansau ychwanegol ar gyfer teuluoedd sydd â 5 neu ragor o blant dibynnol), ond yn didynnu lwfansau penodedig ar gyfer partner neu unrhyw oedolyn neu blentyn dibynnol arall sy'n byw ar yr un aelwyd. Mae'r lwfansau hyn yn deillio o'r rheini a bennwyd gan DWP i ddibenion Cymhorthdal Incwm. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, mae'r profion modd ar

---

<sup>15</sup> Ceir achosion Deddf Plant Arbennig o dan ran 4 a 5 o Ddeddf Plant 1989 (legislation.gov.uk)

gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol droseddol yn Llys y Goron a'r llys ynadon yn defnyddio dull McClements i gyfrifo cyfwerthedd wrth asesu incwm gros ac incwm gwario. Mae dull McClements, a ddatblygwyd yn wreiddiol ym 1977, yn defnyddio ffactorau pwysoli gwahanol sy'n dibynnu ar oed penodol y plant sydd ar yr aelwyd.

93. Rydym yn cynnig safoni ein dull o gyfwertholi rhwng y cynlluniau cymorth cyfreithiol sifil a throreddol, gan ein bod yn credu ei bod yn rhesymol defnyddio un dull i gymryd i ystyriaeth yr anghenion sydd gan aelwydydd â chyfansoddiadau gwahanol. Rydym yn cynnig defnyddio graddfa Addasedig OECD, sef y raddfa gyfwerthedd sydd wedi'i mabwysiadu'n fwyaf eang ar lefel ryngwladol dros y blynyddoedd diwethaf, ac un sy'n cael ei defnyddio gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn ogystal â DWP. Mae'n darparu mesur Cyn Costau Tai (BHC) a mesur Ar Ôl Costau Tai (AHC) – mae hyn yn bwysig, gan fod costau tai yn ffactor sbarduno sylweddol yn y gwahaniaeth mewn anghenion ariannol ymysg teuluoedd mwy. Rydym yn cynnig defnyddio'r mesur BHC wrth asesu incwm gros a'r mesur AHC wrth asesu incwm gwario, yn unol â dull y profion modd, lle mae costau tai yn cael eu didynnu o incwm gros a heb gael eu hystyried felly yn yr asesiad o incwm gwario (gweler paragraffau 99–104 isod).
94. Felly ar gyfer asesu incwm gros, rydym yn cynnig addasu'r trothwy incwm gros ar i fyny yn ôl maint yr aelwyd. Gan ddefnyddio'r mesur cyfwerthedd BHC, ar gyfer pob oedolyn neu blentyn 14 oed neu hŷn yn ychwanegol, byddai'r trothwy yn cynyddu 50% o'r trothwy gros ar gyfer un oedolyn; ar gyfer pob plentyn dan 14 oed, y ffigur cyfatebol yw 30%.
95. Ar gyfer asesu incwm gwario, rydym yn cynnig gosod lwfansau penodedig ar gyfer oedolion a phlant ychwanegol, wedi'u seilio ar gyfwerthedd AHC i'r Lwfans Costau Byw perthnasol. Y mesur cyfwerthedd AHC yw 72% o'r Lwfans Costau Byw ar gyfer pob oedolyn neu blentyn 14+ oed yn ychwanegol; a 34% o'r Lwfans Costau Byw ar gyfer pob plentyn dan 14 oed.
96. Byddwn yn nodi gwerth y lwfansau penodol hyn, gydag enghreifftiau wedi'u gweithio, ym Mhenodau 3, 6 a 7, sy'n amlinellu'r trothwyon incwm a gynigiwn (yn cynnwys y Lwfans Costau Byw) ar gyfer pob prawf modd.

**Cwestiwn 1:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i gymryd cyfansoddiad yr aelwyd i ystyriaeth yn y prawf modd drwy ddefnyddio dull cyfwertholi Addasedig OECD? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

## Asesu incwm gwario

97. Rydym yn credu y dylid defnyddio'r un dull i asesu incwm gwario ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a chymorth cyfreithiol troseddol, oni bai fod rheswm penodol dros weithredu'n wahanol. Rydym yn cynnig rhai newidiadau yn yr asesiad o incwm gwario, sydd wedi'u hamlinellu isod.

### Costau tai, treth gyngor a gofal plant

98. Ar hyn o bryd, mae'r profion modd sifil a'r profion modd troseddol yn didynnu'r swm y mae'r ymgeisydd yn ei dalu at ei gostau rhent neu forgais yn rhan o'r asesiad o incwm gwario. Mae eithriad ar gyfer ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol sifil sydd heb bartner neu blant, lle mae cap o £545 y mis.

99. Mae profion modd Llys y Goron a'r llys ynadon hefyd yn didynnu swm gwirioneddol y Dreth Gyngor yn rhan o'r asesiad o incwm gwario; fodd bynnag, ni wneir hyn yn y prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil. Yn hytrach, disgwylir i ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol sifil dalu'r Dreth Gyngor o'u hincwm gwario.

100. Credwn ei bod yn deg didynnu costau tai gwirioneddol. Y rheswm am hyn yw bod yr amrywiadau sylweddol yng nghostau tai (yn cynnwys y Dreth Gyngor), yn ôl cyfansoddiad yr aelwyd a rhwng gwahanol ranbarthau Cymru a Lloegr, a'r ffaith bod costau tai yn newid yn aml, yn golygu mai anodd a chymhleth fyddai gosod unrhyw fath o lwfans neu gap penodedig ar gostau tai. Drwy ddidynnu costau tai gwirioneddol, gellir gwneud asesiad cywirach o incwm gwario yr ymgeisydd.

101. Felly rydym yn cynnig parhau i ddidynnu taliadau rhent a morgais gwirioneddol ar gyfer yr asesiadau modd sifil a throseddol, a pharhau i ddidynnu swm gwirioneddol y Dreth Gyngor yn rhan o brofion modd Llys y Goron a'r llys ynadon.

102. Rydym yn cynnig parhau i ddidynnu costau gofal plant gwirioneddol yr ymgeiswyr oherwydd, ar hyn o bryd, mae amrywiadau mawr rhwng costau gofal plant yn ôl y math o ddarpariaeth a'r lleoliad.

103. Ar gyfer yr asesiad o fodd am gymorth cyfreithiol sifil, rydym yn cynnig dileu'r cap o £545 ar gostau tai ar gyfer ymgeiswyr sydd heb bartner neu blant, a didynnu swm gwirioneddol y Dreth Gyngor a delir yn rhan o'r asesiad o incwm gwario (fel y gwneir ym mhroffion modd Llys y Goron a'r llys ynadon). Bydd hyn yn cysoni ein dull o asesu modd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil â hwnnw ar gyfer asesu modd yn Llys y Goron a'r llys ynadon. Rydym wedi gofyn cwestiwn ymgynghori am y cynnig hwn ym Mhennod 3, paragraff 169.

**Cwestiwn 2:** a ydych yn cytuno y dylem barhau i ddidynnu'r taliadau gwirioneddol am rent a morgais a chostau gofal plant ar gyfer yr asesiadau modd sifil a throreddol? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### Cyfraniadau pensiwn

104. Rydym hefyd yn cynnig didynnu **cyfraniadau pensiwn** yn rhan o'r asesiad o incwm gwario ar gyfer yr holl fathau o gymorth cyfreithiol sy'n dibynnu ar brawf modd. Er 2001, pan ddatblygwyd y prawf modd presennol ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, mae'r llywodraeth wedi cyflwyno cofrestru awtomatig, lle mae'n rhaid i gyflogwyr gofrestru deiliaid swyddi cymwys yn awtomatig (oni bai eu bod yn optio allan yn benodol) mewn cynllun pensiwn. Felly rydym yn cynnig, er mwyn sicrhau cysondeb â pholisi llywodraeth ehangach, y bydd cyfraniadau pensiwn deiliaid swyddi o hyd at 5% o'u henillion yn cael eu didynnu yn rhan o'r asesiad o incwm gwario. Rydym wedi dewis 5% am mai hyn y byddai deiliad swydd yn gorfod ei gyfrannu os bydd ei gyflogwr yn gwneud y cyfraniad lleiaf sy'n ofynnol o dan y gyfraith, sef 3%.

**Cwestiwn 3:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i ddidynnu cyfraniadau pensiwn deiliaid swyddi yn rhan o'r asesiadau o incwm gwario ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a throreddol? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

**Cwestiwn 4:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i gyfyngu'r swm o gyfraniadau pensiwn deiliaid swyddi a ddidynnwn yn rhan o'r asesiadau modd sifil a throreddol i 5% o'u henillion? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### Ardoll Deddf Enillion Carcharorion

105. Rydym yn cynnig didynnu unrhyw ardoll Deddf Enillion Carcharorion yn rhan o'r asesiad o incwm gwario, ar gyfer pob math o gymorth cyfreithiol. Didynnir ardoll o 40% ar y mwyaf o'r incwm net a enillir gan garcharorion sy'n gweithio (y tu mewn neu'r tu allan i'r carchar) os ydynt ennill mwy na £20 yr wythnos. Ni fydd y carcharor byth yn derbyn yr arian hwn ac felly ni fydd ar gael i'w ddefnyddio i dalu am wasanaethau cyfreithiol; er hynny, mae'n cael ei ystyried yn incwm gwario ar hyn o bryd yn yr asesiad o fodd. Bydd y cynnig hwn yn rhoi'r gallu i wneud asesiad mwy cywir o incwm gwario.

**Cwestiwn 5:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i ddidynnu unrhyw ardoll Deddf Enillion Carcharorion yn rhan o'r asesiad o incwm gwario ar gyfer cymorth cyfreithiol? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

## **Lwfans gwaith**

106. Mae'r prawf modd cymorth cyfreithiol sifil yn cynnwys lwfans ychwanegol o £45 y mis ar gyfer unrhyw aelodau o'r aelwyd sydd mewn gwaith, er mwyn cymryd i ystyriaeth gostau teithio gwaith ac unrhyw gostau eraill sy'n gysylltiedig â gwaith. Rydym yn cynnig cadw'r lwfans hwn, gan ei fod yn gyson â pholisi llywodraeth ehangach i hyrwyddo gwaith a sicrhau bod oedolion o oedran gweithio yn well eu byd mewn gwaith nag yn ddi-waith.
107. Gan nad yw'r lwfans presennol wedi'i uwchraddio er 2001, rydym yn cynnig ei gynyddu i £66 y mis, yn unol ag adroddiad gan Lloyds/YouGov yn 2019 am gostau teithio gwaith misol cyfartalog<sup>16</sup> (gan nad yw'r ONS yn cofnodi'r elfen gwariant hon, ac nad ydym yn gwybod am unrhyw ymchwil feintiol ddiweddar i'r pwnc hwn).
108. Ar hyn o bryd, nid yw'r profion modd ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol yn Llys y Goron a'r llys ynadon yn cynnwys lwfans gwaith. Er hynny, credwn fod sail resymegol gadarn dros lwfans o'r fath, i gymryd i ystyriaeth y costau cysylltiedig â gwaith a ysgwyddir gan ddiffynyddion sy'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig. Felly rydym yn cynnig cyflwyno lwfans gwaith o £66 y mis ym mhroffion modd Llys y Goron a'r llys ynadon.
109. Rydym wedi cynnwys cwestiynau ymgynghori ar y mater hwn ym Mhenodau 3 (paragraff 171), 6 (paragraff 357) a 7 (paragraff 436).

## **Y dull o drin dyled**

110. Ar hyn o bryd, nid yw'r asesiadau modd cychwynnol ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a throeddol yn cymryd i ystyriaeth unrhyw ad-daliadau am ddyledion neu rwymedigaethau (heblaw am ôl-ddyledion morgais neu rent). Er hynny, os ceir bod diffynyddion yn anghymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron neu'r llys ynadon, neu os gofynnir iddynt dalu cyfraniadau incwm yn achosion Llys y Goron sy'n anfforddiadwy yn eu barn nhw, gallant wneud cais am adolygiad a fydd yn ystyried ymrwymadau ariannol a oedd heb eu cynnwys yn y prawf incwm gwario, yn cynnwys taliadau am ddyled.
111. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae dull y llywodraeth o ymdrin â dyled wedi datblygu, yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid o lawer math. Yn Hydref 2018, cyhoeddwyd ymgynghoriad gan Drysorlys EM ar "gynllun Lle i Anadlu", a oedd â'r bwriad o roi cyfle i bobl mewn dyled broblemus gael rheolaeth ar eu sefyllfa ariannol a'i rhoi ar sylfaen gadarn.
112. Ar 4 Mai 2021, daeth Rheoliadau'r Cynllun Seibiant Dyledion (Moratoriwm Lle i Anadlu a Moratoriwm Argyfwng Iechyd Meddwl) (Cymru a Lloegr) 2020 i rym. Mae'r

---

<sup>16</sup> lloyds-bank---commuting-.pdf (lloydsbankinggroup.com)



darpariaethau hyn yn rhoi hawl i'r rheini sydd mewn dyled broblemus neu'n wynebu argyfwng iechyd meddwl i gael amddiffyniadau cyfreithiol rhag eu credydwyr, a fydd yn gorfod gohirio gweithgarwch gorfodi ar "ddyled gymwys" am gyfnod safonol.

113. Mae Trysorlys EM hefyd yn datblygu Cynllun Ad-dalu Dyledion Statudol (SDRP), sef cynllun a fyddai'n galluogi rhywun mewn dyled broblemus i wneud cytundeb statudol i ad-dalu ei ddyledion ar sail amserlen ymarferol. Mae'r llywodraeth yn bwriadu ymgynghori ar reoliadau SDRP drafft a gosod y rheoliadau hynny, yn dilyn ymgynghori, erbyn diwedd 2022. Pan fydd y rheoliadau hyn wedi'u cwblhau, byddwn yn ystyried ein dull o ymdrin â thaliadau SDRP yng nghyd-destun y prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol.

#### *Ein cynigion*

114. Credwn y dylai'r prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol fod yn gyson at ei gilydd â'r dull trawslywodraethol o ymdrin â phobl sy'n wynebu dyled broblemus. Felly rydym yn cynnig bod yr asesiad o fodd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a throreddol yn didynnu ad-daliadau a gytunwyd i glirio dyled flaenoriaethol yn rhan o'r asesiad o incwm gwario. Wrth "a gytunwyd", golygir y dylai'r ymgeisydd allu dangos tystiolaeth o ad-daliadau rheolaidd, a/neu ddangos cytundeb ad-dalu a wnaed â'r credydwr.
115. Y diffiniad o ddyledion blaenoriaethol gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol a ariennir gan y llywodraeth yw 'dyledion sy'n dwyn y canlyniadau mwyaf difrifol os na fyddwch yn eu talu'. Byddai peidio â thalu'r dyledion hyn yn gallu arwain at euogfarn droseddol (gan arwain o bosibl at ddedfryd o garchar), dirwy, datgysylltu cyfleustodau, adfeddu neu droi allan.
116. Mae'r rhain yn cynnwys:
- dirwyon a gorchmynion llys
  - ôl-ddyledion y Dreth Gyngor
  - ôl-ddyledion y Drwydded Deledu
  - ôl-ddyledion cynhaliaeth plant
  - ôl-ddyledion nwy a thrydan
  - ôl-ddyledion Treth Incwm, Yswiriant Gwladol a TAW
  - morgais, rhent ac unrhyw fenthyciadau sydd wedi'u sicrhau ar eich cartref
  - cytundebau hurbwrcas, os yw'r hyn a brynwyd yn hanfodol – fel cerbyd sydd ei angen i ddibenion gwaith
  - taliadau a fethwyd sy'n ddyledus i DWP neu CThEM
  - taliadau mewn perthynas â Threfniadau Gwirfoddol Unigol.<sup>17</sup>
117. Credwn na ddylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fod yn gofyn i ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol ddewis rhwng talu cyfraniadau at gymorth cyfreithiol a chlirio dyledion

---

<sup>17</sup> Mae diffiniad tebyg (ond mwy ffurfiol) o ddyledion blaenoriaethol yn llawlyfr yr FCA.

blaenoriaethol; ac na ddylid cael ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol yn anghymwys dim ond am eu bod wedi'u gwthio'n uwch na'r trothwy uchaf ar gyfer incwm gwario gan incwm a ddefnyddir i ad-dalu dyledion blaenoriaethol.

118. Ar ben hynny, rydym yn cynnig y dylid didynnu ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr a gymerir yn uniongyrchol o'r cyflog (neu, yn achos pobl hunangyflogedig, eu didynnu drwy eu ffurflen dreth) yn rhan o'r asesiad o incwm gwario, gan mai polisi llywodraeth yw y dylai myfyrwyr gyfrannu at gost eu haddysg, a chredwn na ddylai'r ad-daliadau hyn gael eu hystyried yn incwm gwario.<sup>18</sup>

**Cwestiwn 6:** a ydych yn cytuno â'r cynnig i ddidynnu ad-daliadau a gytunwyd i glirio dyledion blaenoriaethol ac ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr a gymerir yn uniongyrchol o'r cyflog neu a ddidynnir drwy ffurflen dreth yr ymgeisydd yn rhan o'r asesiad o incwm gwario ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a throeddol? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### **Lwfans Costau Byw**

119. Ar hyn o bryd, mae'r prawf modd ar gyfer cynrychiolaeth mewn achosion troseddol yn defnyddio Lwfans Costau Byw a sefydlwyd yn wreiddiol ar gyfer prawf modd y llys ynadon yn 2005 a'i ymestyn wedyn i Lys y Goron yn 2010.
120. Mae'r lwfans hwn yn defnyddio gwariant aelwydydd canolrifol (fel y mae wedi'i gofnodi yn arolwg blynyddol yr ONS o gostau byw) ar amrywiaeth o eitemau, yn cynnwys yr holl wariant a ystyrir yn hanfodol ond heb gynnwys alcohol a thybaco, bwytai a gwestai, a diwylliant a hamdden. Mae hyn yn ein galluogi i asesu maint yr incwm y mae ar unigolion ei angen i dalu eu costau byw hanfodol cyn ystyried a ydynt yn gallu cyfrannu unrhyw beth at eu costau cyfreithiol.
121. Rydym yn cynnig uwchraddio'r Lwfans Costau Byw ar gyfer cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron a'r llys ynadon yn unol â'r dull presennol hwn, fel y bydd yn well o ran adlewyrchu data'r ONS ar gostau byw. Trafodir ein cynigion manwl ar gyfer yr uwchraddio hwn ym Mhennod 6, paragraffau 358–360.
122. Rydym hefyd yn cynnig cyflwyno Lwfans Costau Byw ar gyfer y prawf modd cymorth cyfreithiol sifil. Bydd hwn ychydig yn wahanol i'r Lwfans Costau Byw ar gyfer Llys y Goron a'r llys ynadon. Trafodir y sail resymegol a'r cynigion manwl ar gyfer y Lwfans Costau Byw hwn ym Mhennod 3, paragraffau 172–178.

---

<sup>18</sup> DfE Review of Post-18 Education and Funding (publishing.service.gov.uk)

## Diystyriadau incwm

123. Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 1 (paragraff 45), mae'r prawf modd yn diystyru rhai mathau o incwm wrth asesu incwm gros neu incwm gwario yr ymgeisydd, gan ein bod yn credu na ddylai'r taliadau hyn gael eu cyfrif yn arian y gellid ei ddefnyddio i dalu am wasanaethau cyfreithiol. Mae rhai diystyriadau incwm yr un fath ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a throseddol, er enghraifft, budd-daliadau (fel y Lwfans Byw i'r Anabl) sydd â'r bwriad o helpu gyda'r gost ychwanegol o anabledd. Er hynny, mae rhai gwahaniaethau; er enghraifft, mae costau byw rhesymol y darperir amdanynt fel eithriad i orchymyn llesteirio yn cael eu diystyru yn yr asesiad ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol yn unig.<sup>19</sup>
124. O ran asesu pa daliadau incwm a ddylai gael eu diystyru, rydym yn credu na ddylid ystyried taliadau a wneir i gwrdd ag angen penodol, er enghraifft, i dalu am gostau anabledd neu ddigollediad am niwed, yn yr asesiad o incwm. Y rheswm am hyn yw bod y taliadau hyn wedi'u bwriadu i gyflawni diben penodol, felly ni fyddem yn disgwyl i'r unigolyn ddefnyddio'r arian hwn i dalu am wasanaethau cyfreithiol.
125. Rydym hefyd yn credu na ddylid diystyru taliadau sydd wedi'u bwriadu i gymryd lle incwm. Rydym o'r farn mai taliad i gymryd lle incwm yw taliad neu (yn fwy aml) gyfres o daliadau a wneir i helpu gyda chostau byw cyffredinol. Fe'i gwneir yn aml i adlewyrchu'r ffaith nad yw'r unigolyn yn gallu neu'n debygol o allu gweithio, un ai'n amser llawn neu ddim o gwbl. Credwn fod y canlynol yn enghreifftiau o daliadau sy'n cymryd lle incwm: pensiwn y wladwriaeth, y Lwfans Ceisio Gwaith a'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.
126. Credwn fod taliadau sy'n cymryd lle incwm yn gyffelyb i enillion, ac felly y gellir eu defnyddio i dalu am wasanaethau cyfreithiol, gan y byddai enillion yn cael eu cymryd i ystyriaeth fel arfer yn yr asesiad o incwm. Yr eithriad i hyn yw lle mae'r taliad yn fudd-dal pasbortio, lle nad yw asesiad o incwm yn ofynnol.
127. Yn ogystal â hyn, yn rhan o'r asesiad presennol o incwm, mae taliadau'n cael eu diystyru un ai ar sail ddisgresiynol neu ar sail orfodol. Lle mae'r diystyriad yn orfodol, rhaid i Gyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (CGACC) ddiystyru'r taliad. Ar y llaw arall, lle mae'r diystyriad yn ddisgresiynol, caiff CGACC arfer disgresiwn i ddiystyru'r taliad, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw ganllawiau perthnasol, er enghraifft canllawiau'r Arglwydd Ganghellor, ond nid yw'n gorfod gwneud hynny. Mae mwyafrif y taliadau a ddiystyrir ar hyn o bryd wrth asesu incwm yn cael eu diystyru ar sail orfodol (gweler y tabl yn **Atodiad A**). Er hynny, mae rhai taliadau lle mae opsiwn i'r

---

<sup>19</sup> Y rheswm am hyn yw bod Deddf Enillion Troseddau 2002 (POCA) yn pennu nad yw'r diffynnydd yn gallu defnyddio incwm, eiddo ac asedau cyfalaf eraill sy'n destun gorchymyn llesteirio i dalu am gostau ei amddiffyniad, un ai'n breifat neu ar ffurf cyfraniadau cymorth cyfreithiol. Fodd bynnag, rhaid i orchymyn llesteirio ganiatáu eithriad ar gyfer costau cyfreithiol am achosion sifil a theuluol.

CGACC arfer ei ddisgresiwn, er enghraifft taliadau'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol.

128. Rydym yn cynnig y dylid diystyru'r taliadau ychwanegol canlynol yn yr asesiad o fodd ar gyfer pob math o gymorth cyfreithiol:

### **Taliadau cymorth ariannol y Contract Gofal Dioddefwyr Caethwasiaeth Fodern (MSVCC)**

129. Y Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) yw'r broses y mae'r DU yn ei defnyddio i adnabod a chynorthwyo dioddefwyr dichonol caethwasiaeth fodern drwy eu rhoi mewn cysylltiad â chymorth priodol, y gellir ei ddarparu drwy'r Contract Gofal Dioddefwyr Caethwasiaeth Fodern (MSVCC) arbenigol, awdurdodau lleol a gwasanaethau lloches.
130. Bydd dioddefwyr a dioddefwyr dichonol caethwasiaeth fodern sydd wedi mynd i'r NRM, ar ôl cael penderfyniad cadarnhaol ar Sail Resymol ac wedi cydsynio i gael cymorth drwy'r MSVCC, yn cael taliadau cymorth ariannol bob wythnos. Bydd y taliad hwn yn parhau tra byddant yn derbyn cymorth yr MSVCC – nes iddynt gael penderfyniad ar Sail Derfynol. Lle mae'r unigolyn wedi cael penderfyniad cadarnhaol ar Sail Derfynol, bydd yn parhau i gael cymorth ariannol tra bydd Asesiad o Anghenion Adfer yn dangos bod arno angen y cymorth hwn er mwyn ymadfer. Pwrpas y cymorth ariannol yw cwrdd ag anghenion byw hanfodol y dioddefwr dichonol yn ystod y cyfnod hwn a'i helpu i ymadfer yn gymdeithasol, yn seicolegol ac yn gorfforol.
131. Felly, rydym yn cynnig diystyru'r taliadau hyn ar sail orfodol wrth asesu incwm yr ymgeisydd yn y profion modd sifil a throseddol, am fod diben penodol i'r taliadau hyn ac ni fyddem yn disgwyl i ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol eu defnyddio i dalu am wasanaethau cyfreithiol.

**Cwestiwn 7:** a ydych yn cytuno â'n cynigion i ddiystyru taliadau cymorth ariannol y Contract Gofal Dioddefwyr Caethwasiaeth Fodern (MSVCC) yn yr asesiad o incwm? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### **Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth mewn Gwledydd Tramor (VOTCS)**

132. Pwrpas y cynllun hwn a ariennir gan lywodraeth, sydd wedi'i sefydlu er 2012, yw digolledu dioddefwyr sy'n cael anafiadau o ganlyniad i ddigwyddiadau terfysgol mewn gwledydd tramor. Gellir gwneud y taliadau o dan y cynllun hwn un ai fel cyfandaliad neu nifer o daliadau. Mae hyn yn golygu y gellir ei ystyried yn rhan o'r asesiad o gyfalaf a hefyd yn yr asesiad o incwm. Ceir cynigion i ddiystyru'r taliadau hyn yn yr asesiad o gyfalaf ym Mhennod 4, paragraffau 266–268.

133. Rydym yn cynnig diystyru'r taliadau hyn ar sail ddisgresiynol wrth asesu incwm yr ymgeisydd yn y profion modd sifil a throseddol. Y rheswm am hyn yw bod y cynllun yn darparu amrywiaeth o daliadau i ddigolledu am niwed yn ogystal â thaliadau am golli enillion.

**Cwestiwn 8:** a ydych yn cytuno â'n cynigion i ddiystyru taliadau'r Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth mewn Gwledydd Tramor (VOTCS) yn yr asesiad o incwm? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

134. Rydym hefyd yn cynnig na ddylid parhau i ddiystyru'r taliadau canlynol sy'n cael eu diystyru ar hyn o bryd:

### **Bonws Dychwelyd i'r Gwaith**

135. Mae unrhyw Fonws Dychwelyd i'r Gwaith a wneir o dan adran 26 o Ddeddf Ceiswyr Gwaith 1995 yn cael ei ddiystyru ar hyn o bryd yn yr asesiadau o incwm a chyfalaf ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a throseddol. Crëwyd y cynllun hwn i gymhell pobl ddi-waith neu'r rheini nad oeddent wedi gallu gweithio oherwydd salwch neu anabledd i gymryd gwaith rhan-amser ac wedyn symud i waith amser llawn, a'r swm mwyaf a delir yw £1,000. Fodd bynnag, diddymwyd y cynllun hwn ar 25 Hydref 2004 ac ni wnaed taliadau newydd ers hynny. Mae'n annhebygol iawn y byddai unigolyn yn parhau i dderbyn y taliad hwn ac nid ydym yn credu bod y taliadau hyn yn cydweddu â'n sail resymegol gan nad yw hwn yn daliad i ddigolledu am niwed neu'n un sydd â diben penodol. Felly rydym yn cynnig na fydd y taliadau hyn yn cael eu diystyru bellach yn yr asesiadau o incwm a chyfalaf.

**Cwestiwn 9:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i dynnu taliadau Bonws Dychwelyd i'r Gwaith o'r rheoliadau ar ddiystyriadau incwm sifil a throseddol? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### **Budd-dal tai**

136. Mae budd-dal tai yn cael ei ddiystyru ar hyn o bryd wrth asesu incwm gros ar gyfer profion modd sifil a Llys y Goron a'r llys ynadon. Mae costau tai gwirioneddol (wedi'u debydu o'r budd-dal tai a dderbynnir) yn cael eu didynnu wedyn yn rhan o'r asesiad o incwm gwario. Cyflwynwyd y diystyriad hwn yn y prawf modd cymorth cyfreithiol sifil yn 2001, wrth greu trothwy yn cyfyngu cymhwysra am gymorth cyfreithiol sifil i ymgeiswyr ag incwm aelwyd gros o lai na £24,000, pa faint bynnag oedd yr aelwyd. Cyn hynny, dim ond incwm gwario a oedd wedi'i asesu yn y prawf modd.
137. Credwn nad oes angen diystyru budd-dal tai wrth asesu incwm gros yn y prawf modd newydd, gan fod y dull rydym yn ei gynnig ar gyfer asesu incwm gros (gweler uchod,

paragraffau 92–96) wedi'i gynllunio i gymryd i ystyriaeth y gwahanol anghenion sydd gan aelwydydd o wahanol faint a chyfansoddiad, yn cynnwys costau tai.

138. Felly credwn ei bod yn decach ystyried budd-dal tai fel incwm, a didynnu costau tai gwirioneddol yr ymgeisydd yn rhan o'r asesiad o incwm gwario. Mae hyn yn golygu y byddwn yn trin derbynwyr budd-dal tai yn yr un ffordd ag rydym yn trin ymgeiswyr nad ydynt yn derbyn budd-dal tai.

**Cwestiwn 10:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i dynnu taliadau budd-dal tai o'r rheoliadau ar ddiystyriadau incwm sifil a throreddol? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

## Budd-daliadau pasbortio

139. Pasbortio yw'r broses lle mae ymgeiswyr sy'n derbyn budd-daliadau penodol sy'n dibynnu ar brawf modd yn cael eu cyfrif yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol anghyfrannol heb fynd drwy asesiad modd llawn. Mae'r budd-daliadau canlynol yn cael eu defnyddio fel budd-daliadau pasbortio: Cymhorthdal Incwm (IS); Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm (JSA); Credyd Cynhwysol (UC); elfen Credyd Gwarant y Credyd Pensiwn (GC); Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm (ESA). Ar hyn o bryd, mae ymgeiswyr sy'n derbyn y budd-daliadau hyn yn cael eu pasbortio drwy'r asesiad modd incwm ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a throreddol, a'r asesiad modd cyfalaf ar gyfer cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron sy'n pennu a fydd yn ofynnol bod unigolion sy'n derbyn cymorth cyfreithiol yn talu cyfraniad cyfalaf yn dilyn euogfarn.
140. Pwrpas y broses pasbortio yw symleiddio'r broses asesu modd i ymgeiswyr sydd wedi cael asesiad o'u modd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac sydd felly'n debygol iawn o fod yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol anghyfrannol os oeddent yn mynd drwy asesiad modd llawn. Er mwyn cael prawf modd sy'n deg, yn gynaliadwy ac yn effeithlon, rydym wedi ystyried a yw'r polisi presennol yn sicrhau bod unigolion a gafodd eu pasbortio yn debygol o fod ag incwm a chyfalaf sy'n is na'r trothwyon a gynigir ar gyfer cymorth cyfreithiol anghyfrannol. Wrth ddatblygu ein cynigion, rydym wedi ceisio sicrhau y bydd ymgeiswyr yn cael eu pasbortio dim ond lle mae'n debygol iawn y byddent yn gymwys am gymorth cyfreithiol anghyfrannol.
141. Mae DWP yn rhag-weld ar hyn o bryd y bydd holl dderbynwyr Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm a Chymhorthdal Incwm yn cael eu trosglwyddo i dderbyn Credyd Cynhwysol erbyn 2024. Rydym yn cynnig parhau i basbortio unrhyw rai sy'n parhau i dderbyn y budd-daliadau hyn drwy elfen incwm y profion modd sifil a throreddol. Pe byddem yn

newid ein polisi ar basbortio derbynwyr y budd-daliadau hyn, am gyfnod byr iawn o bosibl, nes i'r budd-daliadau hyn gael eu disodli gan Gredyd Cynhwysol, byddem yn creu baich gweinyddol diangen. Pa un bynnag, mae hanes hir o basbortio'r budd-daliadau hyn, ac mae unigolion sy'n eu derbyn yn gorfod bod ar incwm isel ac nid ydynt yn gallu gweithio mwy nag 16 awr yr wythnos, felly byddent yn annhebygol o fethu'r profion modd newydd rydym yn eu cynnig.

**Cwestiwn 11:** a ydych yn cytuno y dylem barhau i basbortio unrhyw rai sy'n parhau i dderbyn Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm a Chymhorthdal Incwm drwy elfen incwm y profion modd sifil a throreddol? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

142. Ar hyn o bryd, mae unigolion sy'n derbyn elfen Credyd Gwarant y Credyd Pensiwn yn cael eu pasbortio drwy'r asesiad o incwm ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a throreddol. Mae ein dadansoddiad yn awgrymu y byddai'r rhan fwyaf o'r unigolion sy'n derbyn budd-daliadau pasbortio etifeddol, yn cynnwys Credyd Gwarant, yn gymwys am gymorth cyfreithiol anghyfrannol o dan y prawf modd a gynigir (97% ar gyfer achosion help cyfreithiol ac 80% ar gyfer cynrychiolaeth sifil). Yn ogystal â hyn, drwy barhau i basbortio'r unigolion hyn, bydd y prawf modd yn fwy effeithlon, gan leihau costau gweinyddol i'r LAA ac i ddarparwyr. Felly rydym yn cynnig parhau i basbortio derbynwyr Credyd Gwarant.

**Cwestiwn 12:** a ydych yn cytuno y dylem barhau i basbortio derbynwyr elfen Credyd Gwarant y Credyd Pensiwn drwy elfen incwm y profion modd sifil a throreddol? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

143. Nid yw ein cynigion ar gyfer pasbortio derbynwyr Credyd Cynhwysol yn cael eu cymhwysu yn yr un ffordd at y gwahanol brofion modd. Felly maent wedi'u cynnwys ym Mhenodau 3 (pasbortio incwm cymorth cyfreithiol sifil), 4 (pasbortio cyfalaf cymorth cyfreithiol sifil), 6 (cymorth cyfreithiol Llys y Goron) a 7 (y llys ynadon a chynghor a chynhorthwy/cynhorthwy eiriolaeth troreddol).

## Cyfraniadau incwm

144. Mae ein cynigion mewn perthynas â chyfraniadau incwm wedi'u hysgogi gan ein hawydd i sicrhau tegwch i'r unigolyn. O dan y dull presennol o gyfrifo'r cyfraniad incwm at gymorth cyfreithiol yn Llys y Goron, ni fydd diffynnydd sydd ag incwm gwario blynyddol o £3,398 (yn cyfateb i £283 y mis) yn talu unrhyw gyfraniad incwm, ond wrth gyrraedd £3,399 bydd yn talu cyfraniad misol yn seiliedig ar 90% o

gyfanswm ei incwm gwario blynyddol, yn hytrach na chyfraniad misol wedi'i seilio ar y swm hwnnw sy'n fwy na throthwy penodol.

145. Mae hyn yn groes i'r dull o gyfrifo ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil lle mae dull haenog o drin incwm gwario o fwy na £315 y mis (wedi'i osod ar 35%/45%/70% o gyfanswm ei incwm gwario blynyddol – gweler Pennod 1, paragraff 54) sy'n caniatáu cyfrifo'r cyfraniad incwm mewn ffordd fwy graddoledig.
146. Ar ben hynny, nid yw band cyfrannu sengl o 90% ond yn rhoi clustog ariannol fach iawn i'r unigolyn. Er bod y Lwfans Costau Byw newydd a gynigir yn golygu na fyddem yn gofyn i unigolion hepgor gwario ar hanfodion er mwyn talu eu cyfraniad incwm, rydym yn cydnabod y byddai rhywfaint o hyblygrwydd ychwanegol yn gallu bod o gymorth (er enghraifft, i dalu am waith atgyweirio brys yn y cartref).
147. Felly, rydym yn cynnig cysoni ein dull o weithredu ar gyfer cymorth cyfreithiol Llys y Goron a chymorth cyfreithiol sifil drwy fabwysiadu dull haenog graddoledig ac unedig o gyfrifo'r cyfraniad misol.
148. Rydym yn cynnig tynnu ar y system haenog bresennol ar gyfer cyfraniadau incwm sifil, ond uwchraddio'r bandiau i 40%, 60% ac 80%. Credwn y bydd lefel gyfraniadau o'r fath sydd ychydig yn uwch yn un sy'n fforddiadwy i ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol yng ngolwg ein cynigion mewn perthynas â'r asesiad o incwm gwario a'r Lwfans Costau Byw, yn unol â'n safbwynt y dylai derbynwyr cymorth cyfreithiol gyfrannu at gost eu cymorth cyfreithiol os gallant fforddio hynny.
149. Bydd y cyfrifiad hwn yn gymwys dim ond i incwm gwario sy'n fwy na'r trothwyon newydd a gynigir, gan ddileu'r risg o golli incwm sylweddol yn sydyn. Rydym wedi gosod lleiafswm y cyfraniad ar 40% gan fod hyn yn creu clustog ariannol i'r rheini sydd ag incwm gwario llai. Gan fod y bandiau'n cael eu cymhwyso'n raddoledig, mae'r dull hwn yn caniatáu i ni gasglu mwy ar gyfartaledd gan y rheini sydd ag incwm gwario mwy.
150. Wrth adolygu'r trefniadau presennol, rydym hefyd wedi rhoi sylw i'r cyfnod ar gyfer talu cyfraniadau incwm. Yn Llys y Goron, er 2010, mae'r cyfnod talu wedi'i osod ar 6 mis ar y mwyaf er mwyn adlewyrchu'r cyfnod cyfartalog blaenorol rhwng y dyddiad cyhuddo a chwblhau'r treial. Fodd bynnag, am fod cyfran sylweddol o achosion a all gymryd mwy o lawer o amser i'w cwblhau, rydym wedi edrych ar opsiynau i ymestyn y cyfnod hiraf ar gyfer talu.
151. Ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, mae ein dadansoddiad o'r cyfnod talu wedi cychwyn o le gwahanol gan fod cyfraniadau incwm misol yn parhau drwy gydol yr achos ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y byddai rhai ymgeiswyr, yn cynnwys y rheini sydd ag achos teilwng, yn gallu gwrthod cynnig o gymorth cyfreithiol



cyfrannol oherwydd ansicrwydd ynghylch y cyfanswm y gallent orfod ei dalu mewn cyfraniadau incwm.

152. Credwn fod lle i sicrhau mwy o gysondeb yn ein dull o bennu'r cyfnodau talu: ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, rydym yn cynnig pennu cyfnod talu hiraf o 24 mis, gan ymestyn y cyfnod talu yn Llys y Goron i 18 mis ar y mwyaf. Rydym yn egluro ein barn yn fwy manwl, gan ofyn cwestiynau ymgynghori, ym Mhenodau 3 a 6.

## Pennod 3: Trothwyon, pasbortio a chyfraniadau incwm sifil

153. Daeth y prawf modd sifil presennol i rym yn Rhagfyr 2001. Ei nod (a eglurwyd mewn dogfen ymgynghori ym mis Gorffennaf 2000<sup>20</sup>) oedd sicrhau bod yr adnoddau a oedd ar gael yn cael eu gwario ar bobl sydd â'r angen mwyaf am help, a bod pobl yn cyfrannu at y gost os gallant fforddio gwneud hynny.
154. Yn y ddogfen ymgynghori ym mis Gorffennaf 2000 nodwyd, "In most respects, the financial conditions that have been set initially for the new scheme are the same as those that previously applied to legal aid." Rhoddwyd y crynodeb canlynol o'r newidiadau a gynigiwyd:
- gosod yr un terfynau cymhwysra ariannol ar gyfer pob lefel o wasanaeth [sifil a theuluol]
  - symleiddio'r rheolau ar gyfer profion modd a sicrhau, hyd y gellir, fod yr un rheolau'n gymwys i bob lefel o wasanaeth
  - gwneud nifer o newidiadau eraill i wneud yr amodau ariannol yn fwy cyson a theg.
155. Rhwng 2002 a 2009, diweddarwyd y trothwyon incwm gros ac incwm gwario ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil yn y rhan fwyaf o flynyddoedd yn unol â chwyddiant. Fodd bynnag, nid yw'r trothwyon wedi'u huwchraddio er 2009, ac mae nifer o ymarferwyr cymorth cyfreithiol wedi codi pryderon bod lefel bresennol y trothwyon yn golygu bod rhai ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol sifil yn cael eu bod yn anghymwys ar sail modd heb allu fforddio unrhyw ffioedd cyfreithiol preifat.
156. Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 2, rydym wedi datblygu dull newydd arfaethedig o drin trothwyon incwm sifil. Credwn ei bod yn bwysig, wrth osod y trothwyon incwm newydd, fod ein dull o weithredu'n darparu ar gyfer gwariant ar gostau byw hanfodol. Ar yr un pryd, rydym wedi ceisio dal y ddysgl yn wastad rhwng anghenion y rheini sy'n ceisio cymorth cyfreithiol a fforddiadwyedd i'r trethdalwr, gan sicrhau mynediad at gyfiawnder wrth wneud hynny. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi datblygu dull wedi'i ddiweddarau i ddelio â phasbortio ar gyfer asesu incwm a chyfraniadau ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil.
157. Bydd ein cynigion yn gyson ag amcan y rhaglen diwygio cymorth cyfreithiol y dylai cymorth cyfreithiol gael ei dargedu at y rheini sydd â'r angen mwyaf amdano, ac

---

<sup>20</sup> Community Legal Service: Financial conditions for funding by the Legal Services Commission (Adran yr Arglwydd Ganghellor, Gorffennaf 2000)

amcanion strategol yr Adolygiad o'r Profion Modd sydd wedi'u disgrifio yn y Cyflwyniad (paragraffau 23–25).

158. Mae crynodeb o'r prawf modd presennol ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil ym Mhennod 1.

## Newidiadau a gynigir yn y trothwyon incwm gros

### Y trothwy uchaf ar gyfer incwm gros

159. Fel yr eglurwyd ym Mhennod 1, y trothwy incwm gros presennol yn y prawf modd am gymorth cyfreithiol sifil yw £31,884. Bydd ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol yn cael eu hasesu'n anghymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol os yw eu hincwm yn uwch na'r trothwyon hyn heb orfod mynd drwy asesiad o incwm gwario.
160. Mae hyn yn lleihau'r baich gweinyddol i ymgeiswyr a darparwyr cymorth cyfreithiol, drwy ddileu'r angen i rywun fynd drwy'r prawf incwm gwario os yw ei incwm gros yn fwy na'r trothwyon hyn, gan fod lefel ei incwm gros yn golygu y byddai'n annhebygol iawn o fod ag incwm gwario a oedd yn llai na'r trothwy perthnasol.
161. Rydym yn cynnig cynyddu'r trothwy ar gyfer incwm gros, yn unol â'n cynnig (gweler Pennod 2, paragraff 90) na ddylai'r rheini sydd ag incwm canolrifol neu uwch na'r canolrif fod yn gymwys i dderbyn y rhan fwyaf o'r mathau o gymorth cyfreithiol sy'n dibynnu ar brawf modd. Felly rydym yn cynnig gosod trothwy newydd ar gyfer incwm gros o £34,950 (£2,913 y mis) ar gyfer unigolyn oherwydd, yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, y ffigur hwn oedd incwm gros canolrifol unigolyn yn y DU yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2020.<sup>21</sup>

**Cwestiwn 13:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i gynyddu'r trothwy incwm gros ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil i berson sengl i £34,950 y flwyddyn? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

162. Ar ben hynny, rydym yn cynnig addasu'r trothwy incwm gros i adlewyrchu maint a chyfansoddiad yr aelwyd gan ddefnyddio dull Addasedig OECD (Cyn Costau Tai), fel bod aelwydydd o fwy nag un unigolyn yn gallu bod ag incwm gros uwch cyn eu cael yn anghymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol. Gan ddefnyddio'r mesur cyfwerthedd Cyn Costau Tai, ar gyfer pob oedolyn ychwanegol neu blentyn 14 oed neu hŷn, byddai'r trothwy yn cynyddu 50% ar y trothwy incwm gros ar gyfer oedolyn sengl; ar gyfer pob plentyn dan 14 oed, y ffigur cyfatebol yw 30%.

---

<sup>21</sup> Gweler **Atodiad C** am fanylion ein dull o gyfrifo'r ffigur incwm gros hwn.

163. Mae ein cynigion ar y mater hwn, ynghyd â chwestiwn amdano, ym Mhennod 2, paragraffau 92–96.

### **Trothwy is ar gyfer incwm gros mewn gwaith rheoledig**

164. Drwy gydol yr Adolygiad o'r Profion Modd, rydym wedi ceisio canfod ffyrdd i allu gwneud y gwaith o weinyddu'r prawf modd yn fwy syml, i'r LAA ac i ddarparwyr.

165. Mae'r prawf modd ar gyfer y llys ynadon yn cynnwys dau drothwy ar gyfer incwm gros. Os yw incwm gros yr ymgeisydd yn fwy na'r trothwy uchaf, ni fydd yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol. Os bydd ei incwm rhwng y ddau drothwy, rhaid iddo fynd drwy'r asesiad llawn o incwm gwario. Os yw incwm gros yr ymgeisydd yn llai na'r isaf o'r trothwyon hyn, nid oes rhaid iddo fynd drwy'r asesiad llawn o incwm gwario.

166. Rydym yn cynnig cyflwyno trothwy isaf ar gyfer incwm gros mewn achosion gwaith rheoledig sifil hefyd. Byddai hyn yn golygu, os nad yw'r ymgeisydd wedi'i basbortio, mai'r cam cyntaf yn y prawf modd fyddai asesu ei incwm gros. Os oedd hwn yn llai na'r trothwy isaf ar gyfer incwm gros, byddai'r ymgeisydd yn cael ei gyfrif yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol heb fynd drwy'r prawf incwm gwario. Byddai hyn yn golygu na fyddai ymgeiswyr sydd ag incwm gros isel, sy'n sicr neu bron yn sicr o fodloni'r prawf incwm gwario, yn gorfod mynd drwy asesiad llawn o incwm gwario, fel y bydd yn cymryd llai o amser i ymgeiswyr fynd drwy'r prawf modd ac fel y bydd y gost gysylltiedig yn llai.

167. Rydym yn cynnig gosod y trothwy isaf ar gyfer incwm gros ar yr un lefel â'r trothwy incwm gwario a gynigir ar gyfer gwaith sifil rheoledig: £11,352 y flwyddyn (£946 y mis) – gweler paragraffau 179–181 am ragor o fanylion am y trothwy uchaf a gynigir ar gyfer incwm gwario. Bydd hyn yn caniatáu asesu cyflym a chywir ac mae hefyd yn osgoi'r angen i ychwanegu trothwy arall, fel y bydd y broses yn llai cymhleth.

### *Y broses a gynigir i asesu incwm ar gyfer gwaith rheoledig sifil*

Individual applies for legal aid	Yr unigolyn yn gwneud cais am gymorth cyfreithiol
In receipt of a passporting benefit?	Yn derbyn budd-dal pasbortio?
Yes	Ydy
Legal aid granted*	Rhoi cymorth cyfreithiol*
No	Nac ydy
Gross income assessment	Asesiad o incwm gros

Gross income under £946pcm	Incwm gros o lai na £946 y mis calendr
Full means test with disposable income assessment	Prawf modd llawn gydag asesiad o incwm gwario
Disposable income under £946pcm	Incwm gwario o lai na £946 y mis calendr
Gross income over £34,940 per year	Incwm gros o fwy na £34,940 y flwyddyn
Disposable income over £946pcm	Incwm gwario o fwy na £946 y mis calendr
Legal aid refused	Gwrthod cymorth cyfreithiol

**Cwestiwn 14:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i gyflwyno trothwy isaf ar gyfer incwm gros mewn achosion help cyfreithiol sifil, gan osod y trothwy ar £946 y mis? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

## Newidiadau a gynnigir yn yr asesiad a'r trothwyon incwm gwario

168. Fel y nodwyd ym Mhennod 2 (paragraff 98), rydym yn cynnig y dylid defnyddio'r un dull i asesu incwm gwario ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a chymorth cyfreithiol troseddol, oni bai fod rheswm penodol dros weithredu'n wahanol. Rydym yn cynnig gwahanol newidiadau yn ein dull o asesu incwm gwario i ddibenion y prawf modd cymorth cyfreithiol sifil ac mae crynodeb o'r rhain isod.

### Costau tai

169. Fel yr eglurwyd ym Mhennod 2 (paragraff 104), rydym yn cynnig dileu'r cap o £545 y mis ar y costau tai a ganiateir sydd wedi'i osod ar hyn o bryd ar gyfer ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol sifil sydd heb bartner neu blant. Rydym hefyd yn cynnig didynnu swm gwirioneddol y Dreth Gyngor yn rhan o'r asesiad o incwm gwario. Y rheswm am hyn yw ein bod o'r farn ei bod yn deg didynnu costau tai gwirioneddol, gan ein bod yn credu bod hyn yn rhoi'r gallu i wneud asesiad cywirach o incwm gwario yr ymgeisydd.

**Cwestiwn 15:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i ddileu'r cap o £545 y mis ar y costau tai a ganiateir ar gyfer ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol sifil sydd heb bartner neu blant? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

**Cwestiwn 16:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i ddiwynnu swm gwirioneddol y Dreth Gyngor yn rhan o'r asesiad modd sifil? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### **Didyniadau ychwanegol a gynigir**

170. Fel y nodwyd ym Mhennod 2, paragraffau 105–119, rydym yn cynnig didynnu cyfraniadau pensiwn, unrhyw ardoll Deddf Enillion Carcharorion, ad-daliadau ar ddyled flaenoriaethol ac ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr o'r cyflog yn rhan o'r asesiad o incwm gwario ar gyfer pob math o gymorth cyfreithiol. Rydym wedi cynnwys cwestiynau am y didyniadau arfaethedig hyn ym Mhennod 2.
171. Fel yr eglurwyd ym Mhennod 2, paragraffau 107–108, rydym hefyd yn cynnig cadw'r lwfans gwaith misol ar gyfer ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol a'u partneriaid sydd mewn gwaith, a'i gynyddu o'i werth presennol o £45 y mis i £66, yn unol ag adroddiad yn 2019 gan Lloyds/YouGov am y costau teithio misol cyfartalog mewn gwaith. Credwn fod hyn yn cydweddu â pholisi llywodraeth ehangach i hyrwyddo gwaith a sicrhau bod oedolion o oedran gweithio yn well eu byd mewn gwaith nag yn ddi-waith.

**Cwestiwn 17:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i gynyddu'r lwfans gwaith yn y prawf modd cymorth cyfreithiol sifil i £66 y mis? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### **Cynigion am Lwfans Costau Byw a throthwy isaf ar incwm gwario**

172. Rydym yn cynnig Lwfans Costau Byw sifil newydd, wedi'i seilio ar arolwg blynyddol yr ONS o wariant aelwydydd (a elwir yn arolwg Costau Byw a Bwyd), a fydd yn drothwy isaf newydd ar incwm gwario ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol sifil. Y nod wrth weithredu fel hyn yw creu system lle na fydd ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol sifil yn gorfod hepgor gwariant ar gostau byw hanfodol er mwyn ariannu eu cyfraniadau cymorth cyfreithiol, gan sicrhau bod y rheini sy'n gallu fforddio cyfrannu yn gwneud hynny.
173. Fel y nodwyd uchod, rydym yn cynnig na ddylai cymorth cyfreithiol sifil fod ar gael i'r rheini sydd ag incwm aelwyd canolrifol neu uwch na'r canolrif. Am yr un rheswm, rydym yn cynnig seilio'r Lwfans Costau Byw sifil ar wariant cyfartalog y 50% isaf o'r boblogaeth (yn ôl incwm), fel y mae wedi'i gofnodi yn arolwg Costau Byw a Bwyd diweddaraf yr ONS (2019–20).
174. Mae arolwg Costau Byw a Bwyd yr ONS yn rhannu gwariant i nifer o gategoriâu. Rydym o'r farn bod categorïau canlynol yr ONS yn wariant hanfodol: bwyd a diodydd dialcohol, dillad ac esgidiau, cyfleustodau, nwyddau a gwasanaethau'r cartref,

iechyd, trafndiaeth, cyfathrebu, a nwyddau a gwasanaethau amrywiol. Felly, rydym wedi cynnwys yr holl elfennau hyn. Oherwydd ei gwmpas eang, mae arolwg Costau Byw a Bwyd yr ONS yn cofnodi pob math o wariant aelwydydd, yn cynnwys nid yn unig wariant o ddydd i ddydd ar fwyd, dillad, trafndiaeth a chyfleustodau ond hefyd eitemau (fel yswiriant neu ddodrefn) y mae aelwydydd yn eu prynu'n flynyddol neu'n llai aml. Felly mae'r dull hwn yn galluogi aelwydydd i gronni arian i brynu eitemau sylweddol. Mae dadansoddiad llawn o'r elfennau rydym yn cynnig eu cynnwys yn ein Lwfans Costau Byw yn **Atodiad C**.

175. Pan ddatblygwyd y lwfans costau byw troseddol presennol, penderfynwyd peidio â chynnwys gwariant cyfartalog ar alcohol, tybaco, gwestai a bwytai, a diwylliant a hamdden wrth bennu cyfansoddiad y lwfans costau byw, ar y sail ei bod yn deg diystyru'r categorïau hyn.
176. Ar gyfer ein Lwfans Costau Byw newydd, rydym yn cynnig peidio â chynnwys unrhyw wariant ar alcohol, tybaco, diwylliant, hamdden a gwestai, gan nad ydym yn credu bod hwn yn wariant angenrheidiol. Er hynny, rydym wedi cynnwys gwariant ar brydau bwyd bwytai, caffis a siopau tecawê, gan ein bod yn credu y byddai perygl bod yr amcangyfrif o'r gwariant ar fwyd yn rhy isel o beidio â'i gynnwys. Mae cynnwys y gwariant hwn hefyd yn golygu y dylai derbynwyr cymorth cyfreithiol sifil anghyfrannol fod â'r gallu i fforddio rhywfaint o gyfranogi cymdeithasol a diwylliannol.<sup>22</sup> Nid ydym wedi cynnwys addysg gan fod y gwariant yn y categori hwn yn mynd bron yn llwyr ar ffioedd ysgol, sydd heb fod yn ddiidyniad a ganiateir ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil er 2001.
177. Gan ddefnyddio'r dull hwn, y trothwy isaf ar incwm gwario a gynigiwn ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil yw **£622 y mis** ar gyfer oedolyn sengl, o'i gymharu â £316 ar hyn o bryd.
178. Gweler paragraffau 182–185 isod am ein cynigion mewn perthynas ag aelwydydd o wahanol gyfansoddiad.

**Cwestiwn 18:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i ddefnyddio Lwfans Costau Byw lle bydd gwariant aelwydydd hanfodol yn sail i'r trothwy isaf ar incwm a gynigir? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

---

<sup>22</sup> Yn benodol, rydym wedi cynnwys £11.55 yr wythnos o linell bwytai a gwestai yr ONS, i ddarparu ar gyfer bwyd a diodydd dialcohol y tu allan i'r tŷ oherwydd, fel arall, ni fyddai'r lwfans ar gyfer bwyd a diodydd dialcohol yn cwmpasu'r holl wariant ar fwyd. Mae hyn yn golygu hefyd, er nad ydym wedi cynnwys lwfans ar gyfer gwariant cymdeithasol a diwylliannol, y byddai ymgeisydd sydd â gwariant sy'n unol â'r cyfartaledd cenedlaethol yn gallu defnyddio'r swm hwn ar gyfer pryd tecawê gyda ffrindiau, neu gymdeithasu mewn caffi neu sefydliad tebyg.

**Cwestiwn 19:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i osod y Lwfans Costau Byw ar £622 y mis ar gyfer unigolyn? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### **Trothwy uchaf ar incwm gwario**

179. Mae'r trothwy uchaf ar incwm gwario yn gosod y terfyn rhwng y rheini sydd â hawl i dderbyn cymorth cyfreithiol sifil cyfrannol a'r rheini sydd heb hawl i dderbyn cymorth cyfreithiol.
180. Yn unol â'n dull cyffredinol o drin cymhwysra am gymorth cyfreithiol sifil, rydym yn cynnig seilio'r trothwy uchaf ar gyfer incwm gwario ar wariant cyfartalog yr aelwyd ganolrifol yn y DU, yn seiliedig ar arolwg Costau Byw a Bwyd yr ONS. Y rheswm am hyn, fel yr eglurwyd ym Mhennod 2 (paragraff 90), yw nad ydym yn credu y dylai cymorth cyfreithiol sifil sy'n dibynnu ar brawf modd fod yn rhywbeth sydd ar gael i'r rheini ag incwm sydd ar lefel gyfartalog neu uwch, am nad ydym yn credu mai'r rhain sydd â'r angen mwyaf. Yn yr un modd, credwn ei bod yn rhesymol na fydd cymorth cyfreithiol sifil ar gael i'r rheini sy'n gallu cynnal gwariant uwch na'r cyfartaledd. Dim ond elfennau bach sydd wedi'u hepgor o'r rhestr, drwy ddileu gwariant ar alcohol, tybaco, hapchwarae ac (fel yr eglurwyd ym mharagraff 176 uchod) addysg.
181. Byddai hyn yn gosod y **trothwy uchaf ar gyfer incwm gwario ar £946 y mis**, o'i gymharu â £733 ar hyn o bryd.

**Cwestiwn 20:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i seilio'r trothwy uchaf arfaethedig ar gyfer incwm ar wariant aelwydydd canolrifol? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

**Cwestiwn 21:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i osod y trothwy uchaf ar gyfer incwm gwario ar £946 y mis ar gyfer unigolyn? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### **Lwfansau ar gyfer dibynyddion**

182. Fel y trafodwyd ym Mhennod 2 (paragraffau 92–96), rydym yn cynnig defnyddio dull cyfwertholi Addasedig OECD i sicrhau bod y prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol yn cymryd i ystyriaeth y costau ar aelwydydd o wahanol gyfansoddiad.
183. Er mwyn asesu incwm gwario, rydym yn cynnig gosod lwfansau penodedig ar gyfer oedolion ychwanegol a phlant, wedi'u seilio ar fesur cyfwerthedd Addasedig OECD Ar Ôl Costau Tai. Mae hyn yn cyfateb i 72% o'r Lwfans Costau Byw ar gyfer oedolion neu blentyn 14 oed neu hŷn a 34% ar gyfer plentyn dan 14 oed, wedi'i dalgrynnu i'r bunt agosaf.



184. Os bydd y Lwfans Costau Byw yn cael ei osod, fel y cynigiwyd, ar £622 y mis ar gyfer oedolyn sengl, yna byddai'r lwfansau ar gyfer aelodau eraill yr aelwyd fel a ganlyn:

Ar gyfer pob oedolyn ychwanegol a phlentyn 14 oed neu hŷn:  $£622 \times 0.72 = £448$

Ar gyfer pob plentyn dan 14 oed:  $£622 \times 0.34 = £211$

185. Byddai'r lwfansau hyn yn cael eu didynnu o incwm yr ymgeisydd yn rhan o'r asesiad o incwm gwario, fel y gwneir ar hyn o bryd.

**Cwestiwn 22:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i osod lwfansau ar gyfer dibynyddion ar £448 y mis ar gyfer pob oedolyn ychwanegol a phlentyn 14 oed neu hŷn, a £211 ar gyfer pob plentyn dan 14 oed? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### Enghreifftiau wedi'u gweithio: y prawf modd sifil newydd a gynigir

#### Enghraifft 1

Mae gan Ymgeisydd E un plentyn 12 oed ac incwm aelwyd gros misol o £3,000 (£36,000 y flwyddyn).

**Asesiad o incwm gros:** y trothwy addasedig ar gyfer incwm gros Ymgeisydd E fyddai £34,950 y flwyddyn gyda lwfans ychwanegol o 30%; felly £45,435. Felly byddai'n bodloni'r asesiad o incwm gros.

**Asesiad o incwm gwario:** yn dilyn didyniadau am dreth incwm, Yswiriant Gwladol, gofal plant, cyfraniadau pensiwn, costau tai a threth gyngor (cyfanswm o £1,893), y lwfans gwaith o £66, a didyniad o £211 am un dibynnydd dan 14 oed, incwm gwario Ymgeisydd E fyddai **£830 y mis**.

Felly byddai Ymgeisydd E yn gymwys ar gyfer help cyfreithiol sifil anghyfrannol, ac am gynrychiolaeth gyfreithiol sifil gyda chyfraniad incwm o £102.60 y mis.

#### Enghraifft 2

Mae gan Ymgeisydd F bartner a dau blentyn 6 a 3 oed, ac incwm aelwyd gros misol o £5,000 (£60,000 y flwyddyn).

**Asesiad o incwm gros:** y trothwy addasedig ar gyfer incwm gros Ymgeisydd F fyddai'r trothwy sylfaenol o £34,950 y flwyddyn gyda lwfans ychwanegol o 50% ar gyfer ei

bartner a 30% am bob plentyn; felly £73,395. Felly byddai'n **bodloni'r asesiad o incwm gros**.

**Asesiad o incwm gwario:** yn dilyn didyniadau am dreth incwm, Yswiriant Gwladol, gofal plant, cyfraniadau pensiwn, costau tai a threth gyngor (cyfanswm o £3,547), y lwfans gwaith o £66 i Ymgeisydd F ac i'w bartner, a didyniad am un oedolyn dibynnol (£448) a dau ddibynnydd dan 14 oed (£211 yr un), incwm gwario Ymgeisydd F fyddai **£451 y mis**.

Felly byddai Ymgeisydd F yn gymwys ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol sifil a help cyfreithiol sifil heb unrhyw ofyniad i dalu cyfraniad.

#### *Enghraifft 3*

Nid oes dibynnyddion gan Ymgeisydd G a'i incwm aelwyd gros misol yw £2,400 (£28,800 y flwyddyn).

**Asesiad o incwm gros:** mae incwm gros Ymgeisydd G yn llai na'r trothwy rydym yn ei gynnig ac felly mae'n **bodloni'r asesiad o incwm gros**.

**Asesiad o incwm gwario:** yn dilyn didyniadau am dreth incwm, Yswiriant Gwladol, cyfraniadau pensiwn, ad-daliadau benthyciad myfyriwr, costau tai a threth gyngor (cyfanswm o £1,483), a'r lwfans gwaith o £66, incwm gwario Ymgeisydd G fyddai £851.

Felly byddai Ymgeisydd G yn gymwys ar gyfer help cyfreithiol sifil anghyfrannol, ac ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol sifil gyda chyfraniad incwm o £113.60 y mis.

#### *Enghraifft 4*

Mae gan Ymgeisydd H bartner a dau blentyn 4 a 7 oed, ac incwm aelwyd gros misol o £6,250 (£75,000 y flwyddyn).

**Asesiad o incwm gros:** y trothwy addasedig ar gyfer incwm gros Ymgeisydd H fyddai'r trothwy sylfaenol o £34,950 y flwyddyn gyda lwfans ychwanegol o 50% ar gyfer ei bartner a 30% am bob plentyn; felly £73,395. Felly byddai Ymgeisydd H yn anghymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol sifil am fod ei incwm gros yn uwch na'r trothwy.

## **Diystyriadau incwm**

186. Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 2, paragraffau 129–133, rydym yn cynnig nifer o newidiadau o ran y taliadau sy'n cael eu diystyru yn yr asesiad o incwm. Rydym yn cynnig na ddylid ystyried taliadau a wneir i gwrdd ag angen penodol, er enghraifft, i gwrdd â chostau anableded neu ddigolledu am niwed, yn yr asesiad o incwm, tra na ddylid diystyru taliadau sydd wedi'u bwriadu i gymryd lle incwm.

187. Yn benodol, rydym yn cynnig diystyru taliadau mewn perthynas â'r Contract Gofal Dioddefwyr Caethwasiaeth Fodern (MSVCC) a'r Cynllun Digolledu Dioddefwyr

Terfysgaeth mewn Gwledydd Tramor (VOTCS) yn yr asesiad o incwm ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a throeddol. Rydym hefyd yn cynnig dileu dau ddiystyriad incwm presennol, am fudd-dal tai a'r lwfans Dychwelyd i'r Gwaith.

188. Gweler Pennod 2, paragraffau 129–138, am gwestiynau ymgynghori ynghylch y cynigion ar newid diystyriadau incwm.

## Y dull o asesu modd ar gyfer ymgeiswyr sy'n cael cymorth dros dro

189. Fel y nodwyd ym Mhennod 1 (paragraff 44), mae'r prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol yn cymryd i ystyriaeth nid yn unig yr adnoddau sydd gan yr unigolyn sy'n gwneud cais am gymorth cyfreithiol ond y rheini sydd gan ei bartner hefyd, ac unrhyw un arall sy'n cynnal yr ymgeisydd i raddau helaeth.
190. Mae'r canllawiau ar gymorth cyfreithiol troseddol yn datgan yn glir na fyddai'r asesiad o fodd fel arfer yn cynnwys "someone providing lodgings and food on a temporary basis".<sup>23</sup> Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau ar gymorth cyfreithiol sifil yn trafod y pwynt hwn, a chawsom nifer o gwestiynau gan randdeiliaid am ein dull polisi yn y maes hwn.
191. Credwn na ddylem gymryd i ystyriaeth y modd sydd gan rywun sy'n cynorthwyo'r ymgeisydd dros dro yn unig – er enghraifft (mewn un senario a godwyd gyda ni), perthynas sy'n rhoi cymorth dros dro i blentyn mudol sydd wedi'i wahanu oddi wrth ei rieni tra bydd ei gais mewnfudo/lloches yn cael ei setlo. Byddai gwneud hynny'n gallu arwain at y perygl o wrthod cymorth cyfreithiol i'r unigolyn ar sail adnoddau sydd heb fod ar gael iddo.
192. Felly rydym yn cynnig na fydd y prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil yn ystyried adnoddau o'r fath, yn yr un ffordd ag ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol.

**Cwestiwn 23:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i beidio ag ystyried y modd sydd gan rywun sy'n darparu cymorth dros dro i'r ymgeisydd yn yr asesiad o fodd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

<sup>23</sup> [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/1033018/criminal\\_legal\\_aid\\_manual\\_november\\_2021.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1033018/criminal_legal_aid_manual_november_2021.pdf) t.78

## Budd-daliadau pasbortio

193. Fel yr eglurwyd ym Mhennod 2 (paragraffau 139–140), mae ymgeiswyr sy'n derbyn budd-daliadau penodol sy'n dibynnu ar brawf modd yn cael eu cyfrif yn gymwys am gymorth cyfreithiol anghyfrannol heb fynd drwy asesiad modd llawn. Rydym yn galw'r budd-daliadau hyn yn fudd-daliadau pasbortio. Rydym wedi adolygu'r rhestr bresennol o fudd-daliadau pasbortio er mwyn deall a fyddai'r rhai sy'n eu derbyn yn debygol o fodloni'r prawf modd sifil ar gyfer cymorth cyfreithiol anghyfrannol ac rydym wedi datblygu cynigion ar y sail hon.
194. Fel y nodwyd hefyd ym Mhennod 2, rydym yn cynnig parhau i basbortio'r rheini sy'n parhau i dderbyn Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm a Chymhorthdal Incwm, ynghyd â'r rheini sy'n derbyn elfen Credyd Gwarant y Credyd Pensiwn, drwy'r asesiad o incwm ar gyfer pob math o gymorth cyfreithiol.
195. Fodd bynnag, rydym yn cynnig dull gwahanol ar gyfer Credyd Cynhwysol, sydd wedi'i egluro isod.

## Credyd Cynhwysol fel budd-dal pasbortio

196. Er 2013, mae holl dderbynwyr Credyd Cynhwysol wedi'u pasbortio drwy'r profion modd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a throreddol, ar sail interim. Mae Credyd Cynhwysol yn cymryd lle chwe budd-dal arall, a elwir yn 'fudd-daliadau etifeddol', sy'n cynnwys tri sy'n fudd-daliadau pasbortio (Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, a Chymhorthdal Incwm) a thri sydd heb fod yn fudd-daliadau pasbortio (Credyd Treth Plant, Credyd Treth Gwaith a Budd-dal Tai).
197. Gan fod Credyd Cynhwysol wedi cwmpasu mwy o wahanol fudd-daliadau na'r budd-daliadau pasbortio blaenorol, mae rhai o'r ymgeiswyr sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn cael eu pasbortio ar hyn o bryd lle byddent, os oeddent wedi mynd drwy brawf modd, wedi wynebu gofyniad i dalu cyfraniadau incwm neu wedi eu hasesu'n anghymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol. Mae hyn yn ganlyniad yn rhannol i strwythur Credyd Cynhwysol, sy'n ceisio helpu pobl i weithio lle mae hynny'n bosibl a gwneud i waith dalu. Mae'n gwneud hyn drwy leihau'n raddol y swm o Credyd Cynhwysol y mae gan yr unigolyn hawl i'w dderbyn wrth i'w enillion gynyddu (drwy "dapro").
198. Felly mae pasbortio holl dderbynwyr Credyd Cynhwysol wedi creu cost sylweddol ac mae'n arwain at ganlyniadau anghyson i ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol sifil nad ydynt yn derbyn Credyd Cynhwysol ond sydd â lefelau incwm tebyg. Mae rhai unigolion na allant wneud cais am Credyd Cynhwysol ac sydd felly o dan anfantais yn y system bresennol (e.e. pensiynwyr, myfyrwyr a'r rheini sy'n derbyn budd-

daliadau etifeddol sydd heb fod yn fudd-daliadau pasbortio). Bydd yr anghysondeb hwn yn aros os parhawn i basbortio pawb sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.

### **Ein cynigion ar gyfer pasbortio Credyd Cynhwysol**

199. Rydym yn cynnig gosod trothwy o £500 y mis ar enillion aelwydydd derbynwyr Credyd Cynhwysol sy'n gwneud cais am gymorth cyfreithiol sifil, gan ddefnyddio ffigur DWP ar gyfer 'cyflog clir' i fesur enillion. Cyflog clir yw'r hyn sy'n weddill ar ôl didynnu treth, Yswiriant Gwladol ac unrhyw gyfraniadau pensiwn. Os oedd enillion aelwydydd derbynwyr Credyd Cynhwysol yn fwy na £500 y mis, ni fyddent yn cael eu pasbortio a byddent yn mynd drwy asesiad incwm llawn yn lle hynny.
200. Credwn fod trothwy enillion o £500 yn sicrhau cydbwysedd da rhwng pasbortio cynifer o unigolion â phosibl er mwyn cynyddu effeithlonrwydd gweithredol, a phasbortio llai o unigolion na fyddent yn gymwys fel arall i dderbyn cymorth cyfreithiol anghyfrannol.
201. Yn 2017, roeddem wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori o'r enw *Legal aid financial eligibility and Universal Credit*, lle'r oeddem wedi cynnig mai dim ond derbynwyr Credyd Cynhwysol ag enillion sero a fyddai'n cael eu pasbortio (hynny yw, y rheini a fyddai wedi bod yn gymwys fel arfer cyn cyflwyno Credyd Cynhwysol i dderbyn Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm). Nid oeddem wedi cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad hwn.
202. Ar ôl cwblhau dadansoddiad manwl, rydym wedi dod i'r casgliad y byddai 99% o aelwydydd ag enillion rhwng £0 a £500 y mis yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol anghyfrannol o dan y prawf modd newydd a gynigir. Rydym yn defnyddio'r gymhariaeth hon am fod hyn yn cyfateb yn fras i'r system pasbortio cyn cyflwyno Credyd Cynhwysol. Mewn cyferbyniad â hyn, pe byddem yn parhau i basbortio'r holl dderbynwyr Credyd Cynhwysol drwy'r asesiad o fodd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, dim ond 73% o'r unigolion a gafodd eu pasbortio a fyddai'n gymwys am gymorth cyfreithiol anghyfrannol o dan y prawf modd newydd a gynigir. Gweler yr Asesiad Effaith ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil am ragor o fanylion am y dadansoddiad hwn.
203. Mae'r polisi hwn yn trin y rheini sy'n derbyn Credyd Cynhwysol a'r rheini nad ydynt yn ei dderbyn mewn ffordd lawer mwy cyfartal wrth asesu modd, fel bod y prawf modd yn fwy teg.
204. Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn cynyddu'r baich gweinyddol i ymarferwyr cymorth cyfreithiol sifil, gan y bydd mwy o unigolion yn mynd drwy asesiad modd llawn nag sydd ar hyn o bryd o dan ein polisi o basbortio holl dderbynwyr Credyd Cynhwysol. Fodd bynnag, pan fydd Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn a'r prawf modd newydd wedi'i weithredu, bydd nifer y ceisiadau a gaiff eu pasbortio yn aros yn weddol debyg i'r nifer presennol, a bydd yn fwy na'r nifer o geisiadau a gafodd eu pasbortio cyn cyflwyno Credyd Cynhwysol (bydd 5.1 miliwn o oedolion neu 11% o'r

boblogaeth yn cael eu pasbortio drwy'r asesiad o incwm, o'i gymharu â 4.5 miliwn o oedolion neu 9% o dan y system etifeddol). Y rheswm am hyn yw bod pobl a oedd yn derbyn rhai budd-daliadau i'r rheini mewn gwaith heb gael eu pasbortio cyn cyflwyno Credyd Cynhwysol, tra gellir eu pasbortio o dan ein cynigion ni os nad yw eu henillion yn fwy na £500 y mis calendr. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd cynnydd yn y baich gweinyddol yn y tymor canolig, gan y bydd yn cymryd amser i symud pawb sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol i dderbyn Credyd Cynhwysol.

205. Rydym yn cydnabod y gall hyn arwain at faich gweinyddol ychwanegol i ymarferwyr, yn enwedig ar gyfer achosion help cyfreithiol. Felly rydym wedi ystyried sut y gallwn leihau'r baich gweinyddol sy'n cael ei ysgwyddo gan ymarferwyr ac rydym yn cynnig rhai newidiadau yn y prawf modd a fydd yn lleihau'r baich gweinyddol yn ein barn ni – yn enwedig y cynnig i gyflwyno trothwy isaf ar incwm gros mewn achosion help cyfreithiol, a amlinellwyd uchod ym mharagraffau 164–167, ac ailgyflwyno pasbortio drwy'r asesiad o gyfalaf ar gyfer unigolion sy'n derbyn budd-daliadau pasbortio nad ydynt yn berchen ar eiddo (gweler Pennod 4, paragraffau 283–287). Byddwn yn falch o gael sylwadau am ffyrdd eraill i ni allu lleihau baich gweinyddol y prawf modd.
206. Bydd y cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar rai ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol sifil, o'i gymharu â'n polisi presennol o basbortio'r holl dderbynwyr Credyd Cynhwysol. Byddai unigolion o dan anfantais os oedd enillion eu haelwyd yn fwy na £500 y mis calendr ac os oedd eu hincwm gros a/neu incwm gwario yn uwch na'r trothwy arfaethedig ar gyfer cymorth cyfreithiol anghyfrannol. Ni fyddai'r unigolion hyn yn cael eu pasbortio bellach a byddent yn gorfod mynd drwy asesiad llawn. Gallai hyn arwain un ai at orfod talu cyfraniad incwm neu fod yn anghymwys mewn rhai achosion i dderbyn cymorth cyfreithiol.
207. Rydym wedi dadansoddi'r mathau o aelwyd sy'n neilltuol o debygol o brofi effaith ac wedi canfod bod hyn yn wir am bobl sydd â phlant, yn enwedig unig rieni. Mae hyn yn debygol gan y bydd yr ymgeiswyr hyn yn cael budd o'r lwfans gwaith Credyd Cynhwysol, sy'n caniatáu i unigolion gadw taliadau Credyd Cynhwysol wrth fod â lefel uwch o enillion na hawlwyd eraill Credyd Cynhwysol. Ar ben hynny, mae rhieni sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn cael elfen plant y Credyd Cynhwysol, a all fod yn fwy na'r lwfans a gynigir ar gyfer plant yn y prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil. Gweler yr Asesiad Effaith ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil am ragor o fanylion ynghylch yr effaith ar wahanol fathau o aelwydydd.
208. Credwn ei bod yn rhesymol bod effaith negyddol ar rai ymgeiswyr o'i gymharu â'r polisi presennol gan y bydd yn golygu bod ymgeiswyr sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn cael eu trin yn yr un ffordd â'r rheini nad ydynt yn derbyn Credyd Cynhwysol, sydd yn deg yn ein barn ni, yn enwedig am ein bod yn cynnig cynnydd sylweddol yn y trothwyon incwm gwario. Yn ogystal â hyn, mae prawf modd DWP yn wahanol o ran ei nodau i'r prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol: mae'n ceisio helpu unigolion

gyda chostau byw o ddydd i ddydd a'u helpu i gael gwaith lle bo modd, tra bydd y prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol yn ceisio darparu cymorth ariannol tymor byr i dalu costau cyfreithiol i'r rheini sydd â'r angen mwyaf. Bydd rhai aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn rhai sydd ag incwm canolig, yn fwy na £40,000 y flwyddyn mewn rhai achosion, ac yn derbyn swm bach o Gredyd Cynhwysol yn unig. O ganlyniad i hyn, gall DWP asesu bod unigolyn yn gymwys am Gredyd Cynhwysol tra gallem ni asesu bod yr un unigolyn yn gallu cyfrannu at ei gostau cyfreithiol. Mewn perthynas ag aelwydydd rhieni yn benodol, credwn fod y lwfansau a gynigir ar gyfer plant yn y prawf modd yn rhai teg.

209. Roedd yr Adolygiad o'r Profion Modd wedi ystyried parhau i basbortio'r holl ymgeiswyr sy'n derbyn Credyd Cynhwysol drwy'r asesiad incwm ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil. Fodd bynnag, byddai'r opsiwn polisi hwn yn methu â chysoni canlyniadau i ymgeiswyr sy'n derbyn Credyd Cynhwysol â'r rheini a gaiff rhai nad ydynt yn derbyn Credyd Cynhwysol. Yn ogystal â hyn, byddai niferoedd sylweddol o ymgeiswyr yn cael eu pasbortio na fyddent yn gymwys fel arall i dderbyn cymorth cyfreithiol anghyfrannol pe byddent wedi mynd drwy'r asesiad o incwm. Felly ni fyddai'r opsiwn hwn yn unol ag amcan y rhaglen diwygio cymorth cyfreithiol, sef y dylai cymorth cyfreithiol gael ei dargedu at y rheini sydd â'r angen mwyaf a byddai'n arwain yn ei dro at bwysau sylweddol ar gostau'r gronfa cymorth cyfreithiol.

#### **Enghraifft wedi'i gweithio o ymgeisydd nad yw bellach yn cael ei basbortio**

Mae gan Ymgeisydd I ddau o blant 7 a 5 oed ac incwm aelwyd gros misol o £2,366 (£28,392 y flwyddyn), sy'n cynnwys enillion o £900 ynghyd â Chredyd Cynhwysol a budd-dal plant.

**Asesiad o incwm gros:** y trothwy addasedig ar incwm gros Ymgeisydd I fyddai £34,950 y flwyddyn gyda lwfans ychwanegol o 30%+30%; felly £55,920. Felly byddai'n **bodloni'r asesiad o incwm gros.**

**Asesiad o incwm gwario:** yn dilyn didyniadau am dreth incwm, Yswiriant Gwladol, cyfraniadau pensiwn, costau tai a threth gyngor (cyfanswm o £934), ynghyd â'r lwfans gwaith o £66 a £422 am ddau ddibynnydd dan 14 oed, ei incwm gwario fyddai £944.

Felly byddai Ymgeisydd I yn gymwys ar gyfer help cyfreithiol sifil anghyfrannol, ac ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol sifil gyda chyfraniad incwm o £192.84 y mis.

**Cwestiwn 24:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i weithredu trothwy enillion o £500 ar gyfer ymgeiswyr sy'n derbyn Credyd Cynhwysol sy'n cael eu pasbortio ar hyn o bryd drwy'r asesiad o incwm ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

**Cwestiwn 25:** pa effeithiau gweinyddol rydych yn eu rhag-weld ar ddarparwyr ac ymgeiswyr o ganlyniad i'n cynnig i weithredu trothwy enillion o £500 ar gyfer ymgeiswyr sy'n derbyn Credyd Cynhwysol?

**Cwestiwn 26:** a oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer lleihau unrhyw faich gweinyddol y byddai ein cynnig i gyflwyno trothwy enillion o £500 ar gyfer ymgeiswyr sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (os caiff ei weithredu) yn gallu ei achosi i ddarparwyr ac ymgeiswyr?

## Cyfraniadau incwm

210. Mae crynodeb o'n dull presennol o ddelio â chyfraniadau incwm ar gyfer cynrychiolaeth sifil ym Mhennod 1 (paragraffau 53–54). Fel yr eglurwyd ym Mhennod 2 (paragraffau 147–148), rydym yn cynnig cysoni rhai agweddau ar ein dull o drin cyfraniadau incwm ar gyfer cynrychiolaeth mewn achosion sifil a theuluol ac achosion yn Llys y Goron.

### Cyfnod talu

211. Fel y trafodwyd ym Mhennod 2 (paragraffau 150–152), rydym yn cynnig cyfyngu'r cyfnod y mae cyfraniadau incwm yn daladwy amdano i 24 mis ar y mwyaf (neu gyfnod yr achos, os yw'n fyrrach). Bydd hyn yn galluogi ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol sifil i gael sicrwydd ynghylch y swm dichonol mwyaf y gallent orfod ei dalu mewn cyfraniadau incwm.

212. Ar gyfer gwaith trwyddedig sifil, bydd rhai cynigion o gymorth cyfreithiol cyfrannol yn cael eu gwrthod gan y cleient. Yn 2018/19 a 2019/20, gwrthodwyd bron 1,000 o gynigion o gymorth cyfreithiol cyfrannol yn y ddwy flynedd hynny, sef tua 20% o'r holl gynigion o gymorth cyfrannol a wnaed gan yr LAA yn ystod y cyfnod hwn.

213. Rydym yn credu, mewn rhai achosion, fod y penderfyniad i beidio â derbyn cynnig yn gysylltiedig â chanfyddiad bod cyfraniad incwm misol penodol yn anfforddiadwy. Dylai'r newidiadau rydym yn eu cynnig yn y trothwyon incwm fod o gymorth i ddelio â hyn. Fodd bynnag, mae rhanddeiliaid wedi awgrymu y gall rhai unigolion wrthod cynnig oherwydd ansicrwydd ariannol ynghylch nifer terfynol y taliadau incwm misol y byddant yn gorfod eu gwneud.

214. Yn ogystal â hyn, rydym yn ymwybodol bod rhai achosion yn cymryd mwy o amser na'i gilydd i'w cwblhau – gellir cael nifer o resymau am hyn, a allai fod wedi'u dwysáu gan y pandemig COVID-19.

215. Drwy edrych ar bron 11,000 o achosion a gwblhawyd cyn y pandemig (yn y blynyddoedd calendr 2017, 2018 a 2019), roeddem wedi canfod cyfnod cymedrig



cyfartalog ar gyfer parhad achosion o 23 mis (mesurir hyd yr achos o adeg rhoi'r dystysgrif hyd at gwblhau'r achos).

216. Gall sbardunau ymddygiad eraill fod ar waith lle nad yw'r cleient yn derbyn y cynnig o gymorth cyfreithiol. Er enghraifft, gallai'r cyfreithiwr roi tystysgrif cyllid brys ac mae'n bosibl na fydd angen gwaith pellach unwaith y bydd y cynnig ffurfiol o gymorth cyfreithiol cyfrannol wedi'i wneud wedyn; hefyd gall achosion gael eu datrys cyn gwneud y cynnig – gall gymryd wythnosau neu fisoedd i brosesu'r cais, yn enwedig os yw'n gysylltiedig â materion ariannol cymhleth.
217. Rydym yn cynnig cap amser o 24 mis, i adlewyrchu hyd cymedrig achosion (wedi'i dalgrynnu'n uwch) gan ein bod yn credu y byddai hyn yn darparu cymhelliad digonol i ddylanwadu ar ymddygiadau drwy roi mwy o sicrwydd i'r unigolyn. Os cwblheir achos yr unigolyn o fewn y cap amser, yna, fel y mae ar hyn o bryd, ni fydd angen gwneud cyfraniadau incwm pellach o'r dyddiad y daw'r achos i ben.

### **Model cyfraniadau haenog**

218. Rydym hefyd yn cynnig (gweler Pennod 2, paragraff 148) parhau â'r dull cyfraniadau haenog, ond cynyddu'r cyfraddau canrannol sy'n daladwy (gweler Tabl 1). Fel yr eglurwyd yn y Cyflwyniad (paragraff 25), credwn y dylai unigolion gyfrannu at eu cymorth cyfreithiol os gallant fforddio hynny, ac rydym yn credu y bydd y cyfraddau cyfrannu hyn, sydd ychydig yn uwch, yn rhai fforddiadwy yng nghyd-destun y cynnydd mewn trothwyon incwm a gynigiwn. Byddai'r cyfraddau cyfrannu yn cynnwys tri band o £108 yr un, wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y trothwyon isaf ac uchaf a gynigir ar gyfer incwm gwario. Dangosir y cyfraddau cyfrannu presennol yn Nhabl 2.
219. Credwn fod strwythur graddoledig ein dull arfaethedig yn rhoi'r gallu i gyfrifo'r cyfraniad yn y ffordd decaf, ac rydym o'r farn y bydd y cyfraddau cyfrannu uwch hyn yn fforddiadwy, yng ngolwg y cynnydd rydym yn ei gynnig yn y trothwyon ar gyfer incwm gwario.

*Tabl 1: y cyfraddau newydd arfaethedig ar gyfer cyfraniadau incwm, y mis*

Band A (40%): yn gymwys i incwm gwario rhwng £622 a £730

Band B (60%): yn gymwys i incwm gwario rhwng £730 a £838

Band C (80%): yn gymwys i incwm gwario rhwng £838 a £946

*Tabl 2: y cyfraddau presennol ar gyfer cyfraniadau incwm, y mis*

Band 35%: yn gymwys i incwm gwario rhwng £311 a £465

Band 45%: yn gymwys i incwm gwario rhwng £466 a £616

Band 70%: yn gymwys i incwm gwario rhwng £616 a £733

**Cwestiwn 27:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i ddefnyddio dull model haenog (40%/60%/80%) i bennu'r cyfraniad incwm misol? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### **Enghreifftiau wedi'u gweithio**

#### *Enghraifft 1*

Mae gan Ymgeisydd J incwm gwario misol o £800.

Ar gyfer ei chyfraniad incwm misol, mae'n talu 40% o'i hincwm gwario rhwng £622 a £730 (£43.20) a 60% o'i hincwm gwario rhwng £730 a £800 (£42).

Felly mae'n talu cyfraniad incwm misol cyfan o **£85.20**.

#### *Enghraifft 2*

Mae gan Ymgeisydd K incwm gwario misol o £920.

Ar gyfer ei chyfraniad incwm misol, mae'n talu 40% o'i incwm gwario rhwng £622 a £730 (£43.20); 60% o'i incwm gwario rhwng £730 a £838 (£64.80); ac 80% o'i incwm gwario rhwng £838 a £920 (£65.60).

Felly mae'n talu cyfraniad incwm misol cyfan o **£173.60**.

#### *Enghraifft 3*

Mae gan Ymgeisydd L incwm gwario misol o £700.

Ar gyfer ei chyfraniad incwm misol, mae'n talu 40% o'i hincwm gwario rhwng £622 a £700 (£31.20).

Felly mae'n talu cyfraniad incwm misol cyfan o **£31.20**.

### **Cyfraniad lleiaf**

220. Rydym hefyd yn cynnig cynyddu'r cyfraniad lleiaf sy'n daladwy bob mis i £20 (mae'n £1.75 ar hyn o bryd). Mae hyn yn golygu mai dim ond y rheini sydd ag incwm gwario o fwy na £672 y mis fydd yn gorfod talu cyfraniad incwm. Bydd hyn yn creu clustog ychwanegol i gwrdd â rhwymedigaethau ariannol nad yw'r Lwfans Costau Byw yn darparu ar eu cyfer.

221. Ar yr un pryd, mae cynyddu'r cyfraniad incwm lleiaf i £20 yn fwy costeffeithiol i'r LAA, gan na fydd wedyn yn gorfod neilltuo adnoddau gweinyddol i gasglu cyfraniadau o werth llai o lawer.

**Cwestiwn 28:** a ydych yn cytuno â'n cynigion ar gyfer pennu cyfraniad incwm misol lleiaf o £20? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

## **Pennod 4: Trothwyon, diystyriadau a phasbortio cyfalaf sifil**

222. Mae'r bennod hon yn amlinellu ein cynigion mewn perthynas â'r prawf cyfalaf ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil. Mae hyn yn cynnwys y trothwyon cyfalaf, diystyriadau cyfalaf a threfniadau pasbortio cyfalaf. Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol, rhaid i unigolion fodloni'r prawf incwm a'r prawf cyfalaf.
223. Fel yr eglurwyd ym Mhennod 1, mae'r prawf modd sifil presennol ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol sifil yn cynnwys trothwy cyfalaf isaf o £3,000, fel y bydd unigolion sydd â chyfalaf hyd at y swm hwn yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol (gan gymryd eu bod wedi bodloni'r asesiad o incwm) heb wneud unrhyw gyfraniad cyfalaf. Y trothwy uchaf yw £8,000: os bydd swm y cyfalaf sydd gan yr unigolyn yn uwch na'r trothwy hwn, ni fydd yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol. Ar gyfer gwaith rheoledig, dim ond y trothwy uchaf o £8,000 fydd yn gymwys gan na wneir cyfraniadau.
224. Mae'r trothwyon hyn wedi'u gosod ar y lefel hon ers mwy nag ugain mlynedd. Y sail resymegol dros y trothwyon hyn oedd eu bod yn gyson â throthwyon DWP ar gyfer Cymhorthdal Incwm, er mwyn sicrhau cydraddoldeb rhwng ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm (a gâi eu pasbortio drwy'r prawf cyfalaf bryd hynny) ac ymgeiswyr eraill. Fodd bynnag, mae'r trothwyon a ddefnyddir yn y prawf modd ar gyfer budd-daliadau lles wedi cynyddu ers hynny i £6,000 a £16,000, felly nid ydynt yn gyson bellach â'r rheini sydd yn y prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol.
225. Credwn na ddylai cymorth cyfreithiol sifil sy'n dibynnu ar brawf modd fod ar gael fel arfer i hawlwyd sydd â chyfalaf canolrifol neu gyfalaf mwy na'r canolrif, gan na ellir ystyried yr hawlwyd hyn yn rhai sydd â'r angen mwyaf o safbwynt ariannol. Mae hyn yn gyson â'n ffordd o drafod y trothwyon incwm, sydd wedi'i disgrifio ym Mhennod 2, paragraff 90. Dyma'r sail i'n cynigion ar elfennau cyfalaf y prawf modd.

### **Trothwyon cyfalaf gwario**

226. Rydym yn cynnig cynyddu'r trothwy cyfalaf isaf o £3,000 i £7,000, a chynyddu'r trothwy uchaf o £8,000 i £11,000. Fel y mae ar hyn o bryd, byddai'n ofynnol bod unigolion sydd â chyfalaf rhwng y trothwyon hyn yn talu cyfraniad cyfalaf o'r holl gyfalaf sydd ganddynt uwchben y trothwy isaf, hyd at y gost a amcangyfrifwyd ar gyfer eu hachos.

227. Credwn fod pwrpas y trothwy cyfalaf isaf yn ymwneud â sicrwydd ariannol: gall pobl wynebu costau angenrheidiol annisgwyl ar ben eu costau byw o ddydd i ddydd, felly mae'n bwysig bod y prawf modd yn galluogi unigolion i gadw rhywfaint o gynilion i dalu costau o'r fath. Mae'r sail resymegol dros gynyddu'r trothwy isaf i £7,000 yn seiliedig ar gyngor a gafwyd gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS, corff hyd braich i DWP) y dylai unigolion geisio sicrhau bod cynilion ar gael ar gyfer gwariant hanfodol am dri mis; fodd bynnag, mae cynilo'r hyn y gallwch ei fforddio yn rheolaidd, hyd yn oed os yw'n llai na'r swm hwn, yn ymddygiad pwysig y mae MaPS am ei hyrwyddo. Yr amcan wrth annog pobl i gynilo yw eu galluogi i greu clustog ariannol a allai dalu am gyfnod o ddiweithdra neu am gostau annisgwyl. Mae MaPS yn credu bod gwariant tri mis yn swm addas am fod hyn yn rhoi cyfnod rhesymol i unigolion addasu i newid yn eu hamgylchiadau ariannol – er enghraifft, drwy ddod o hyd i swydd newydd.
228. Bydd yr hyn sy'n cyfrif yn wariant hanfodol yn amrywio rhwng pawb yn ôl eu costau byw a'u hamgylchiadau personol, ond rydym wedi cyfrifo procsi ar gyfer hyn yn unol â'n hamcanion na fydd cymorth cyfreithiol sifil ar gael fel arfer i'r rheini sydd â chyfoeth ar lefel uwch na'r cyfartaledd. Rydym wedi defnyddio data o arolwg Costau Bwyd a Byw yr ONS ar wariant misol cyfartalog ar gyfer yr aelwyd ganolrifol yn y DU i gyfrifo ffigur ar gyfer tri mis o £7,000.<sup>24</sup> Drwy osod y trothwy ar y lefel hon, dylid gallu osgoi gofyn i unigolion fel arfer am gyfraniad cyfalaf a allai eu rhoi mewn trafferth ariannol, gan y byddant yn gallu cadw'r swm ar gyfer gwariant hanfodol am dri mis sydd wedi'i awgrymu gan MAS. Bydd hyn yn helpu i ddiogelu mynediad at gyfiawnder drwy wneud cyfraniadau cyfalaf at gymorth cyfreithiol yn fwy fforddiadwy.
229. Rydym wedi datblygu gwell mesur ar gyfer gwariant hanfodol drwy ddefnyddio gwariant cyfartalog yr aelwyd ganolrifol yn y DU ond tynnu'r categorïau gwariant sydd heb fod yn hanfodol yn ein barn ni. Lle'r oedd yn bosibl, rydym wedi cysoni'r categorïau gwariant hanfodol â'r rheini a ddefnyddiwyd yn y Lwfans Costau Byw (LCB) a gynigiwyd ym Mhennod 2, ond mewn meysydd lle mae'r LCB yn defnyddio gwariant gwirioneddol yr ymgeisydd (e.e. costau tai) rydym wedi defnyddio ffigur yr ONS am wariant cyfartalog yn y data. Defnyddiwyd y dull hwn gan y byddai defnyddio gwariant gwirioneddol yr ymgeisydd yn arwain at drothwy cyfalaf gwahanol ar gyfer pob ymgeisydd gwahanol, a fyddai'n gymhleth iawn i'w weinyddu ac yn ei gwneud yn anodd i ymgeiswyr ddeall y gofynion cymhwysra. Yn ogystal â hyn, mae'n fwy priodol defnyddio gwariant gwirioneddol yr ymgeisydd ar gyfer incwm yn hytrach na chyfalaf, oherwydd pwrpas y trothwy cyfalaf isaf yw darparu rhwyd achub ariannol, lle mae'r LCB yn ymwneud â chostau y bydd yr ymgeisydd yn sicr o fod ag angen eu talu bob mis.

---

<sup>24</sup> 'Detailed expenditure by region and gross income decile group, UK, financial year ending 2017 to financial year ending 2019'

230. Bydd y trothwy yr un fath ar gyfer pob aelwyd, gan fod cyfwertholi yn ddull sydd wedi'i ddatblygu mewn perthynas ag incwm yn benodol a, hyd y gwyddom, nid oes dulliau tebyg sy'n cael eu defnyddio mewn perthynas â chyfalaf. Mae'n debygol mai'r rheswm am hyn yw bod pobl yn gallu defnyddio cynilion i dalu costau o bob math, nifer ohonynt (er enghraifft, gwaith trwsio yn y cartref) na fyddant o reidrwydd yn cynyddu yn ôl y nifer ar yr aelwyd.
231. Pwrpas y trothwy cyfalaf uchaf yw pennu pwy sy'n anghymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol. Seiliwyd y ffigur o £11,000 a gynigir ar gyfer y trothwy uchaf ar gyfoeth ariannol aelwydydd canolrifol, h.y. gwerth canolrifol asedau ariannol yr aelwydydd, fel cyfrifon cynilo neu fuddsoddiadau.<sup>25</sup> Y sail resymegol dros y dull hwn yw na ddylai'r rheini sydd â chyfoeth uwch na'r cyfartaledd fod yn gymwys fel arfer i dderbyn cymorth cyfreithiol gan na ellir eu cyfrif yn rhai sydd â'r angen mwyaf o safbwynt ariannol. Gweler **Atodiad D** am esboniad manwl o'r ffordd rydym wedi cyfrifo'r ddau drothwy cyfalaf.
232. Nid ydym yn cynnig cysoni'r trothwyon cyfalaf, na'r prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol yn fwy cyffredinol, â'r prawf modd ar gyfer budd-daliadau lles. Y rheswm am hyn yw ein bod yn credu y dylai'r prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol fod yn un sy'n adlewyrchu nodau polisi cymorth cyfreithiol, sy'n wahanol i nodau polisi budd-daliadau lles. Er enghraifft, mae polisi lles yn ceisio hyrwyddo cynilo cyfrifol gan hawlwr, tra byddai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gallu disgwyl i'r unigolion hynny ddefnyddio eu cynilion i gyfrannu at eu costau cyfreithiol, fel y byddid yn disgwyl i gleient ei wneud os oedd yn talu'n breifat.

**Cwestiwn 29:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i gynyddu'r trothwy cyfalaf isaf i £7,000 a chynyddu'r trothwy cyfalaf uchaf i £11,000? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

## Diystyriad ecwiti ar gyfer y brif breswylfa

233. O dan y prawf modd presennol, lle mae eiddo yn brif breswylfa i'r unigolyn, diystyri'r ecwiti hyd at £100,000. Gelwir hwn yn ddiystyriad ecwiti. Pwrpas y diystyriad ecwiti yw osgoi sefyllfa lle mae'r rheini sydd ar incwm isel a heb gyfalaf arall yn gorfod gwerthu eu cartrefi i ariannu achos cyfreithiol – heblaw mewn achosion lle mae swm sylweddol o arian ynghlwm wrth werth eu tŷ. Mae hefyd yn darparu ar gyfer sefyllfa lle byddai'r unigolyn yn gallu ei chael yn gymharol anodd cael gafael ar y cyfalaf hwn o'i gymharu â mathau eraill o gyfalaf sy'n fwy hylifol. Byddai unigolion sydd ar incwm

---

<sup>25</sup> 'Financial wealth: wealth in Great Britain, July 2006 to June 2016/ April 2014 to March 2018', Tabl 5.6

isel, yn cynnwys y rheini sy'n derbyn budd-daliadau, yn gallu ei chael yn anodd sicrhau benthyciad ar eu tŷ, felly gallent orfod ei werthu er mwyn cael gafael ar y cyfalaf, a gallai hyn gymryd rhai misoedd neu fwy na hynny.

234. Cyflwynwyd gwerth presennol y diystyriad ecwiti o £100,000 ym 1996 ac fe'i hadolygwyd ddiwethaf yn 2010–11 yn rhan o'r ymgynghoriad ar y ddogfen *Proposals for the Reform of Legal Aid in England and Wales*. Cyn 1996, roedd holl werth y brif breswylfa yn cael ei ddiystyru.
235. Rydym yn cynnig cynyddu'r diystyriad ecwiti at y lefel ecwiti gyfartalog (ganolrifol) mewn cartrefi. Byddai hyn yn ei gynyddu i £185,000, ar sail data diweddaraf yr ONS.<sup>26</sup> Byddai hyn yn delio â dibrisiad y diystyriad presennol sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r cynnydd ym mhrisiau tai ers ei adolygu ddiwethaf. Mae hwn yn swm sylweddol o gyfalaf i'w ddiystyru, yn enwedig am nad yw 37% o bobl yn berchen ar gartref,<sup>27</sup> ond credwn fod cyfiawnhad i hyn am ei fod yn darparu ar gyfer yr anhawster mwy o gael gafael ar gyfalaf sydd ynghlwm wrth eiddo, gan sicrhau hefyd fod cymorth cyfreithiol yn cael ei dargedu at y rheini sydd â'r angen mwyaf.
236. Rydym yn cydnabod y gellid cael rhai pobl o hyd a fyddai'n gorfod dewis rhwng gwerthu neu godi benthyciad ar eu tŷ, peidio â dod â'u hachos i'r llys (lle mae hyn yn bosibl) neu eu cynrychioli eu hunain. Mae ffyrdd eraill i ariannu gwasanaethau cyfreithiol (e.e. gwasanaethau pro bono, trefniadau dim llwyddiant dim ffi ac yswiriant cyfreithiol) ond mae'n bosibl na fydd y rhain ar gael i bawb. Er hynny, credwn fod y cynnig hwn yn deg am y dylai cymorth cyfreithiol gael ei gyfeirio at y rheini sydd â'r angen mwyaf, ac nid ydym yn credu bod hyn yn cynnwys y rheini sy'n berchen ar eiddo ac sydd â lefelau ecwiti uwch na'r cyfartaledd.

### **Enghreifftiau wedi'u gweithio**

Mae'r enghreifftiau hyn yn defnyddio'r prawf modd arfaethedig llawn – er enghraifft, maent yn defnyddio'r trothwyon cyfalaf a gynigir, yn ogystal â'r diystyriad ecwiti a gynigir. Maent hefyd yn rhagdybio bod yr ymgeisydd wedi bodloni'r prawf incwm ac nad oes ganddo gyfalaf arall – e.e. cynilion. Ym mhob un o'r pedair enghraifft, byddai'r

<sup>26</sup> Summary statistics on equity held in main residence by age of household reference person (HRP) – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk). Mae'r data hyn yn cyfeirio at lefelau ecwiti rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2018.

<sup>27</sup> Home ownership - GOV.UK Ethnicity facts and figures (ethnicity-facts-figures.service.gov.uk)

ymgeisydd yn anghymwys am gymorth cyfreithiol ar hyn o bryd am fod ganddo gyfalaf sy'n fwy na'r trothwyon presennol.

*Enghraifft 1*

Mae Ymgeisydd M yn berchen ar eiddo gwerth £200,000 heb forgais.

O dan ein prawf modd arfaethedig, byddai 3% o werth eiddo Ymgeisydd M (£6,000) yn cael ei ddiwynnu ar gyfer costau gwerthu, ac ar ôl hynny byddai'r diystyriad ecwiti o £185,000 yn cael ei gymhwyso.

Felly byddai gan Ymgeisydd M £9,000 o gyfalaf yn weddill, sy'n uwch na'r trothwy cyfalaf isaf o £7,000 ond yn is na'r trothwy cyfalaf uchaf o £11,000. Felly byddai Ymgeisydd M **yn gymwys am gymorth cyfreithiol gyda chyfraniad cyfalaf o hyd at £2,000.**



### *Enghraifft 2*

Mae Ymgeisydd N yn berchen ar eiddo gwerth £420,000, gyda morgais o £225,000.

O dan ein prawf modd arfaethedig, byddai holl werth y morgais sydd gan Ymgeisydd N yn cael ei ddiwynnu, yn ogystal â 3% o werth yr eiddo (£12,600) ar gyfer costau gwerthu.

Yn dilyn hyn, byddai'r diystyriad ecwiti o hyd at £185,000 yn cael ei gymhwyso at yr ecwiti o £182,400 sy'n weddill.

Felly ni fyddai cyfalaf yn weddill gan Ymgeisydd N, a byddai'n **gymwys am gymorth cyfreithiol heb gyfraniad cyfalaf**.

### *Enghraifft 3*

Mae Ymgeisydd O yn berchen ar eiddo gwerth £250,000 heb forgais.

O dan ein prawf modd arfaethedig, byddai 3% o werth eiddo Ymgeisydd O (£7,500) yn cael ei ddiwynnu ar gyfer costau gwerthu, ac ar ôl hynny byddai'r diystyriad ecwiti o £185,000 yn cael ei gymhwyso.

Felly byddai gan Ymgeisydd O £57,500 o gyfalaf yn weddill, sy'n uwch na'r trothwy cyfalaf uchaf o £11,000. Felly, byddai Ymgeisydd O yn parhau'n **anghymwys am gymorth cyfreithiol**.

### *Enghraifft 4*

Mae Ymgeisydd P yn berchen ar y cyd ar eiddo (mewn cyfrannau cyfartal â chydberchennog) gwerth £600,000, gyda morgais o £200,000.

O dan ein prawf modd arfaethedig, byddai Ymgeisydd P yn gweld holl werth y morgais yn cael ei ddiwynnu, yn ogystal â 3% o werth yr eiddo (£18,000) ar gyfer costau gwerthu.

Wedyn byddai gwerth yr ecwiti sy'n weddill yn cael ei rannu rhwng y partion, gan adael £191,000 i Ymgeisydd P fel ei gyfran o'r ecwiti.

Yn dilyn hyn, byddai'r diystyriad ecwiti o £185,000 yn cael ei gymhwyso, gan adael Ymgeisydd P â chyfalaf o £6,000, sy'n is na'r trothwy cyfalaf isaf o £7,000. Felly, byddai Ymgeisydd P **yn gymwys am gymorth cyfreithiol heb gyfraniad cyfalaf**.

**Cwestiwn 30:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i gynyddu'r diystyriad ecwiti o £100,000 i £185,000? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### **Cymhwyso diystyriad ecwiti lle mae dioddefwr cam-drin domestig yn ffoi o'r cartref**

237. Mae'r prawf modd sifil yn cynnwys diystyriad ar gyfer ecwiti ym mhrif breswylfa'r ymgeisydd yn unig. Rydym yn cynnig diwygio'r prawf modd fel y bydd y diystyriad ecwiti yn cael ei gymhwyso lle mae dioddefwr cam-drin domestig wedi gadael ei gartref dros dro ond yn bwriadu dychwelyd yn y dyfodol agos, neu wedi iddi ddod yn

ddiogel gwneud hynny. Bydd hyn yn sicrhau na chaiff dioddefwyr eu cosbi am ffoi o'u cartref i sicrhau eu diogelwch.

238. Lle mae dioddefwr wedi gadael yr eiddo y mae'n berchen arno yn barhaol a heb fwriad i ddychwelyd (e.e. mae wedi cymryd tenantiaeth newydd mewn lle arall ac nid yw'n bwriadu ceisio gorchymyn meddiannaeth), ni fyddai'r diystyriad ecwiti yn gymwys am ei fod yn gymwys i brif breswylfa'r unigolyn yn unig.

**Cwestiwn 31:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i ddiwygio'r prawf modd fel y bydd y diystyriad ecwiti yn cael ei gymhwyso lle mae dioddefwr wedi gadael ei gartref dros dro? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

## Diystyriad Pwnc Anghydfod

239. Mewn rhai achosion, yr ased y mae gan berson fuddiant ynddo yw pwnc yr anghydfod hefyd – h.y. pwnc yr achos y mae am gael cymorth cyfreithiol ar ei gyfer. Mewn achosion o'r fath, mae diystyriad penodol ar hyn o bryd o hyd at £100,000, sy'n adlewyrchu'r ffaith y gallai fod yn amhosibl i'r perchennog werthu'r ased sy'n destun anghydfod neu godi benthyciad arno.<sup>28</sup> Cyflwynwyd y cap o £100,000 yn 2005 i osgoi sefyllfa lle'r oedd cymorth cyfreithiol yn cael ei roi i'r rheini sy'n ymladd achos ynghylch asedau gwerthfawr, ar y sail y dylai'r partion ddefnyddio'r ased i ariannu eu hachos.
240. Rydym yn cynnig dileu'r cap o £100,000 ar y diystyriad Pwnc Anghydfod fel y bydd asedau o unrhyw werth yn cael eu diystyru'n llwyr os mai'r rhain yw pwnc yr achos. Credwn y dylid diystyru asedau sy'n bwnc achos gan fod y perchennog yn debygol o'i chael yn anodd defnyddio'r ased i ariannu achos cyfreithiol ynghylch yr ased hwnnw – mae benthycwyr ariannol yn annhebygol o ddarparu benthyciad wedi'i sicrhau ar ased sy'n bwnc achos, er y gallai fod yn bosibl defnyddio'r ased lle mae cyfreithiwr yn barod i ohirio taliad nes bydd yr achos wedi'i gwblhau.
241. Mae cwmpas cymorth cyfreithiol wedi lleihau ers cyflwyno'r cap o £100,000 yn 2005, felly mae'r rhan fwyaf o'r achosion lle mae'r diystyriad Pwnc Anghydfod yn gymwys heddiw yn anghydfodau teuluol ynghylch eiddo sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig. Felly bydd ein cynnig i ddiystyru asedau sy'n Bwnc Anghydfod yn un sy'n ategu agenda ehangach y llywodraeth i ddelio â thrais yn erbyn menywod a merched.

---

<sup>28</sup> Ni ellir gwerthu asedau y mae llys yn gwneud gorchymyn llesteirio yn eu cylch, ond mae'r rhain yn cael eu diystyried ar hyn o bryd.

242. Byddai'r arwystl statudol yn parhau'n gymwys i achosion Pwnc Anghydfod lle bo'n berthnasol.

**Cwestiwn 32:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i dileu'r cap o £100,000 ar y diystyriad ar gyfer asedau sy'n Bwnc Anghydfod? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

## Cyfalaf anhygyrch

243. Rydym yn ymwybodol y gellir cael enghreifftiau eraill, yn ogystal ag asedau sy'n destun anghydfod, lle mae unigolion yn berchen ar eiddo sy'n anhygyrch. Gall eiddo fod yn anhygyrch am nifer o wahanol resymau, yn cynnwys ffactorau cyfreithiol, daearyddol, rheoliadol neu ffactorau eraill, ac weithiau gall eiddo fod yn anhygyrch am fod y parti arall mewn cyfreithiad yn gwrthod mynediad i'r ymgeisydd (e.e. achosion o gam-drin domestig, lle gall dioddefwr gael ei atal rhag cael eiddo neu gyfalaf arall). Bydd Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (CGACC) yn asesu a yw eiddo yn anhygyrch i'r dibenion hyn.
244. Mae disgrisiwn eisoes gan CGACC i brisio eiddo (a'r holl fathau eraill o gyfalaf anariannol) sy'n anhygyrch ar werth y mae'n tybio ei fod yn deg. Oherwydd y disgrisiwn hwn, lle mae ymgeisydd yn darparu tystiolaeth yn ei gais fod cyfalaf yn anhygyrch ac felly na ellir ei ddefnyddio i ariannu cyfreithiad, rhaid i'r LAA asesu a fyddai cyfiawnder teg ac effeithiol yn cael ei wrthod pe byddai cymorth cyfreithiol yn cael ei wrthod i'r person, yn cynnwys a fyddai hawliau'r ymgeisydd o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn cael eu torri os nad oedd ganddo gynrychiolaeth.
245. Credwn ei bod yn bwysig na fydd y rheini sydd ag angen cymorth cyfreithiol yn cael eu hatal rhag ei gael oherwydd asedau nad oes ganddynt fynediad atynt. Er hynny, rydym hefyd yn ymwybodol y dylai adnoddau cymorth cyfreithiol gael eu cyfeirio at y rheini sydd â'r angen mwyaf, na fyddent yn cynnwys unigolion sydd ag asedau gwerthfawr y gallent gael gafael arnynt ryw ddydd.
246. Felly rydym yn cynnig creu diystyriad gorfodol newydd ar gyfer cyfalaf anhygyrch, a fydd yn pennu bod rhaid diystyru cyfalaf anariannol os na ellir ei ddefnyddio i ariannu cyfreithiad, hyd yn oed os nad yw hawliau'r person o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gysylltiedig. Ni fyddai'r disgrisiwn presennol yn bodoli wedyn. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn cynnig cyflwyno system gosod arwystlon ar gyfer sefyllfaoedd o'r fath, lle byddai unigolion sydd â chyfalaf anhygyrch yn gallu cael diystyru'r cyfalaf hwnnw i ddibenion cymhwysra am gymorth cyfreithiol ond lle byddai arwystl contractiol neu gyfyngiad arall yn cael ei osod ar yr ased, os oedd yn bosibl, i

adennill y costau cyfreithiol. Byddai unigolion yn gorfod cytuno ar osod arwystl o'r fath er mwyn cael cymorth cyfreithiol. Rydym yn cynnig mai gwerth yr arwystl fyddai unrhyw gyfalaf uwchlaw'r trothwyon cyfalaf, ar ôl cymhwyso unrhyw ddiystyriadau, hyd at yr amcangyfrif o gost y gwasanaethau cyfreithiol a ddarperir.

247. Byddai'r llywodraeth yn ceisio adennill y costau pan fyddai'r ymgeisydd yn dod i werthu ei eiddo. Os yw'r ased mewn cydberchnogaeth a bod y cydberchennog yn gwrthwynebu gosod arwystl arno, byddai'r LAA yn gwneud cais am gofrestru cyfyngiad yn lle hynny.
248. Ni fyddai eiddo sy'n werthadwy ond nad yw'r unigolyn am ei werthu – fel ei gartref teuluol – yn cael ei ystyried yn anhygyrch, nac eiddo y gellid sicrhau benthyciad arno. Byddai hyn yn cael ei esbonio yn y canllawiau perthnasol.
249. Byddwn yn falch o gael sylwadau gan randdeiliaid ynghylch sut y gallai'r cynnig hwn gael ei weithredu.

**Cwestiwn 33:** a fydddech o blaid creu diystyriad gorfodol newydd mewn perthynas â chyfalaf anhygyrch, a chyflwyno system gosod arwystlon i adennill costau cyfreithiol yn yr achosion hyn?

Pa wasanaethau cyfreithiol y dylai'r arwystl hwn fod yn gymwys iddynt? Er enghraifft, Gwaith Trwyddedig yn unig, neu Waith Rheoledig a gwaith rheoledig?

Pa gostau cyfreithiol y dylid gallu eu hadennill? A ydych yn cytuno mai'r gwerth y dylid ei bennu ar gyfer yr arwystl yw unrhyw gyfalaf uwchlaw'r trothwyon cyfalaf, ar ôl cymhwyso unrhyw ddiystyriadau, hyd at yr amcangyfrif o gost y gwasanaethau cyfreithiol a ddarperir?

A ydych yn credu y dylid gallu cymhwyso hepgoriad (hynny yw, a ydych yn credu bod unrhyw achosion lle na ddylem osod arwystl o'r fath) ac, os felly, ym mha amgylchiadau y dylai fod yn gymwys?

A oes gennych unrhyw bryderon o ran sut byddai'r cynnig hwn yn gweithio'n ymarferol, neu ei effaith ar fynediad at gyfiawnder?

## Diystyriad pensiynwyr

250. Mae'r prawf modd presennol yn cynnwys diystyriad cyfalaf ar gyfer pensiynwyr, fel bod y rheini sy'n 60 oed neu'n hŷn sydd ag incwm isel yn gallu cael diystyriad cyfalaf ychwanegol o hyd at £100,000. Bydd swm y cyfalaf a gaiff ei ddiystyru yn dibynnu ar yr incwm gwario sydd gan yr ymgeisydd – gweler y tabl ym mharagraff 253 isod. Credwn fod y diystyriad hwn yn cymryd i ystyriaeth y ffaith bod rhai pensiynwyr a all fod ag angen eu cyfalaf i ychwanegu at eu hincwm – er enghraifft, gallai fod yn

gronfa bensiwn iddynt. Gan eu bod yn llai tebygol o ennill incwm, gallant fod â llai o allu hefyd i gael cyfalaf yn lle unrhyw gynilion y maent yn eu gwario ar gostau cyfreithiol.

251. Y sail dros yr oed cymhwys ar gyfer y diystyriad pensiwnyr oedd oed Pensiwn y Wladwriaeth, sef 60 ar gyfer menywod a 65 ar gyfer dynion yn 2001 pan gafwyd y cynnydd diwethaf yn y diystyriad. Hwn hefyd oedd yr oed pan fyddai'r rheini sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm yn cael y premiwm pensiwnyr, neu'r fersiwn o rai budd-daliadau eraill ar gyfer pensiwnyr.
252. Cafodd uchafswm gwerth y diystyriad ei gynyddu ddiwethaf yn 2001 o £35,000 i £100,000. Y sail resymegol dros wneud hyn oedd adlewyrchu newidiadau yn y trefniadau ar gyfer pensiwnyr a oedd yn ceisio Cymhorthdal Incwm.<sup>29</sup>
253. Er mwyn bod yn gymwys am y diystyriad hwn, rhaid i bensiwnyr fod ag incwm gwario sy'n llai na'r trothwy ar gyfer cymorth cyfreithiol anghyfrannol, sef £315 y mis. Mae deg band incwm gwario o dan y trothwy hwnnw, sy'n cynyddu fesul £25 hyd at y band uchaf, sydd â chynyddran mwy am fod y ffigur uchaf wedi cynyddu dros amser yn unol â'r trothwy ar gyfer cymorth cyfreithiol anghyfrannol. Mae'r tabl isod yn dangos swm y cyfalaf y gellir ei ddiystyru drwy'r diystyriad pensiwnyr o dan y system bresennol.

<b>Incwm gwario misol (heb gynnwys incwm net a gafwyd o gyfalaf)</b>	<b>Swm y cyfalaf ychwanegol a ddiystyrir</b>
Rhywun sy'n derbyn budd-dal pasbortio	£100,000
£0-25	£100,000
£26-50	£90,000
£51-75	£80,000
£76-100	£70,000
£101-125	£60,000
£126-150	£50,000
£151-175	£40,000
£176-200	£30,000
£201-225	£20,000
£226-315	£10,000
Mwy na £315	£0

<sup>29</sup> 'Community legal Service: Financial conditions for funding by the Legal Services Commission' (2000), t8.

254. Rydym yn cynnig cadw'r diystyriad hwn am y rhesymau a amlinellwyd ym mharagraff 250. Er hynny, rydym yn bwriadu adolygu'r diystyriad er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn polisi ehangach a'i wneud yn symlach.

255. Rydym yn cynnig diwygio'r diystyriad drwy wneud y canlynol:

- Cynyddu'r oed ymgymhwysu at oed Pensiwn y Wladwriaeth yr unigolyn (66 ar hyn o bryd). Mae'r diystyriad wedi'i fwriadu i fod o fudd i bensiynwyr, felly mae'n briodol defnyddio oed Pensiwn y Wladwriaeth. Mae hyn yn golygu na fydd unigolion rhwng 60 a 65 oed yn gymwys ar gyfer y diystyriad hwn.
- Diweddarau'r bandiau incwm gwario i adlewyrchu'r trothwy incwm isaf arfaethedig ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil. Gan fod y bandiau incwm gwario presennol yn deillio o'r trothwy ar gyfer cymorth cyfreithiol anghyfrannol, bydd diweddarau'r bandiau i adlewyrchu ein trothwy arfaethedig newydd yn ffordd i sicrhau cysondeb a thegwch yn y prawf modd.
- Ei symleiddio drwy leihau nifer y bandiau incwm gwario o ddeg i dri. Credwn fod y defnydd o ddeg band incwm yn gwneud y system yn rhy gymhleth, ac nid yw'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio mewn lleoedd eraill yn y prawf modd – er enghraifft, dim ond tri band incwm a ddefnyddir i bennu lefel cyfraniad incwm yr unigolyn. Er y bydd lleihau nifer y bandiau o ddeg i dri yn creu gwahaniaethau mwy o ran swm y cyfalaf a ddiystyrir ar gyfer pobl sydd ag incwm tebyg, credwn fod y fantais o gael system symlach yn fwy pwysig. Yn ogystal â hyn, ni fydd unigolion ar eu colled o ganlyniad i'r newid mewn polisi gan ein bod wedi gwneud y diystyriad yn fwy hael yn gyffredinol, drwy gymhwyso'r diystyriad cyfalaf mwyaf sydd ar gael yn y system bresennol at yr holl unigolion yn y bandiau lletach newydd. Er enghraifft, y swm lleiaf o gyfalaf a fydd yn cael ei ddiystyru o dan y system newydd yw £35,000, o'i gymharu â £10,000 o dan y system bresennol.

256. Mae'r tabl isod yn dangos swm y cyfalaf y gellir ei ddiystyru drwy'r diystyriad pensiynwyr o dan y system newydd a gynigir.

**Y system newydd a gynigir**

<b>Incwm gwario misol (heb gynnwys incwm net a gafwyd o gyfalaf)</b>	<b>Swm y cyfalaf ychwanegol a ddiystyrir</b>
Rhywun sy'n derbyn budd-dal pasbortio	£100,000
£0-£207	£100,000
£207-£415	£65,000
£415-£622	£35,000
Mwy na £622	DIM

257. Nid ydym yn cynnig cynyddu'r uchafswm gwerth o £100,000, er bod hwn wedi aros ar yr un lefel er 2001, am fod incwm cyfartalog pensiynwyr wedi cynyddu'n sylweddol

ers hynny. Er bod incymau pensiynwyr yn llai na'r cyfartaledd yn 2001, yn 2017/18 roedd incymau pensiynwyr wedi cynyddu nes eu bod yn gymaint ag incwm cyfartalog y boblogaeth gyffredinol.<sup>30</sup> Felly, credwn fod ar bensiynwyr lai o angen am gyfalaf ychwanegol nag a oedd yn 2001. Ar ben hynny, byddai pensiynwr sy'n cael budd o'r diystyriad ecwiti sydd wedi'i argymhell yn ogystal â'r diystyriad pensiynwyr yn gallu cael diystyriad cyfalaf o £285,000, sy'n fwy na gwerth cyfartalog cartrefi.<sup>31</sup> Ni fyddai diystyriad mwy yn cwrdd â nod y rhaglen diwygio cymorth cyfreithiol ar gyfer cyfeirio adnoddau cymorth cyfreithiol at y rheini sydd â'r angen mwyaf. Felly, nid ydym yn credu bod angen i ni gynyddu lefel y diystyriad.

258. Roeddem hefyd wedi ystyried dileu'r diystyriad pensiynwyr. Byddai hyn yn trin pensiynwyr yn yr un ffordd â'r rheini o oedran gweithio ac yn arwain at rai arbedion bach. Fodd bynnag, nid ydym yn cynnig gwneud hyn oherwydd gallai beri i rai pensiynwyr golli cyfalaf a oedd wedi'i fwriadu i ychwanegu at eu hincwm isel.

### **Enghreifftiau wedi'u gweithio**

Mae'r enghreifftiau hyn yn defnyddio'r prawf modd llawn a gynigir – er enghraifft, maent yn defnyddio'r trothwyon cyfalaf a'r diystyriad ecwiti a gynigir. Maent hefyd yn rhagdybio nad oes gan yr ymgeisydd gyfalaf arall – e.e. cynilion.

#### *Enghraifft 1*

Mae Ymgeisydd Q yn 64 oed, yn iau nag Oed Pensiwn y Wladwriaeth. Mae ganddo incwm gwario o £25 y mis. Mae'n berchen ar eiddo gwerth £200,000 heb forgais ac nid oes ganddo gyfalaf arall.

Didynnir 3% (£6,000) ar gyfer costau gwerthu: £194,000

Cymhwysir diystyriad ecwiti o £185,000: £9,000

O dan ein cynigion ni, nid yw'r ymgeisydd yn cael budd o'r diystyriad pensiynwyr oherwydd ei oed. Mae gan yr ymgeisydd gyfalaf o £9,000, sy'n uwch na'r trothwy cyfalaf isaf o £7,000, felly bydd yn gymwys am gymorth cyfreithiol gyda chyfraniad o £2,000

<sup>30</sup> *Pensioners' Income Series: An analysis of trends in Pensioner Incomes: 1994/95 to 2017/18*, [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/87835/5/pensioners-incomes-series-2017-18-report.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/87835/5/pensioners-incomes-series-2017-18-report.pdf), cyrchwyd 26/01/2022

<sup>31</sup> Gan ddefnyddio prisiau tai Tachwedd 2021 yn ôl Mynegai Prisiau Tai y DU.

neu'r amcangyfrif o gost ei achos, pa un bynnag yw'r lleiaf. O dan y prawf modd presennol, mae'n gymwys am gymorth cyfreithiol heb gyfraniad.

### *Enghraifft 2*

Mae Ymgeisydd R wedi cyrraedd Oed Pensiwn y Wladwriaeth. Mae ganddo incwm gwario o £350 y mis. Mae'n berchen ar eiddo gwerth £250,000 heb forgais ac nid oes ganddo gyfalaf arall.

Didynnir 3% (£7,500) ar gyfer costau gwerthu: £242,500

Cymhwysir diystyriad ecwiti o £185,000: £57,500

Cymhwysir diystyriad pensiynwyr o £65,000: -£7,500

Mae gan yr ymgeisydd gyfalaf sy'n llai na'r trothwy cyfalaf isaf o £7,000. O dan ein cynigion ni, mae'n gymwys am gymorth cyfreithiol heb gyfraniad. O dan y prawf modd presennol, mae'n anghymwys ac nid yw'n cael budd o'r diystyriad pensiynwyr am fod lefel ei incwm gwario yn rhy uchel.

**Cwestiwn 34:** a ydych yn cytuno y dylem adolygu'r diystyriad pensiynwyr fel yr amlinellwyd, drwy:

- a) cynyddu'r oed ymgymhwyso at oed Pensiwn y Wladwriaeth
- b) cynyddu'r bandiau incwm gwario i'w cysoni â'r trothwy isaf arfaethedig ar gyfer incwm gwario ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil; a lleihau nifer y bandiau incwm?

Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

## **Diystyriadau cyfalaf eraill**

259. Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 1 (paragraff 55), mae rhai mathau o daliadau yn cael eu diystyru yn yr asesiad cyfalaf ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, e.e. taliadau Cynllun Digolledu Windrush. Diystyrir taliadau o'r mathau hyn am ein bod yn credu na ddylid eu hystyried yn gyfalaf sydd ar gael y gellid ei ddefnyddio i dalu am wasanaethau cyfreithiol. Fel arfer, mae'r rhain yn gyfandaliadau digolledu neu'n daliadau cydnabyddiaeth at ddiben penodol neu i ddigolledu am niwed.
260. Rydym wedi rhoi crynodeb o'n sail resymegol dros ddiystyru taliadau penodol yn yr asesiad o incwm ym Mhennod 2 (paragraffau 124–127). Mewn modd tebyg, y sail resymegol dros ddiystyru taliadau yn yr asesiad o gyfalaf yw y dylid diystyru taliadau os mai eu pwrpas yw digolledu unigolyn am niwed personol (anariannol), (e.e. taliadau digolledu Windrush), neu os yw'r taliad wedi'i glustnodi at ddiben penodol (e.e. budd-daliadau ar gyfer costau ychwanegol anabledd). Er hynny, nid ydym yn credu y dylid diystyru taliadau os mai pwrpas y taliad yw digolledu am golli enillion



neu helpu gyda chostau byw cyffredinol. Credwn fod taliadau o'r fath yn gyffelyb i enillion, y gellid eu defnyddio i dalu am wasanaethau cyfreithiol gan fod enillion yn cael eu hystyried fel arfer yn y prawf modd.

261. Mae taliadau hefyd yn cael eu diystyru yn yr asesiad o gyfalaf ar sail orfodol neu ddisgresiynol am yr un rhesymau â'r rheini a nodwyd ym Mhennod 2 (paragraff 128). Fel yr eglurwyd, lle mae'n glir bod y taliad bob amser yn daliad i gwrdd ag angen penodol a/neu ddigolledu am niwed, bydd yn cael ei ddiystyru ar sail orfodol. Ar y llaw arall, os yw'r diystyriad yn un disgresiynol, bydd disgresiwn gan Gyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (CGACC) i ddiystyru'r taliad, gan roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol, er enghraifft canllawiau'r Arglwydd Ganghellor, ond nid yw'n gorfod gwneud hynny.
262. Mae rhestr yn **Atodiad A** sy'n dangos y taliadau a ddiystyrir ar hyn o bryd yn yr asesiad o gyfalaf ac a ydynt yn cael eu diystyru ar sail orfodol neu ddisgresiynol.

### Ein cynigion

263. Rydym yn cynnig y dylid diystyru'r taliadau ychwanegol a restrir uchod yn yr asesiad o gyfalaf ar gyfer cymorth cyfreithiol.

### *Taliadau o dan Gynlluniau Gwneud lawn yr Alban a Gogledd Iwerddon am gam-drin plant hanesyddol*

264. Bydd y cynllun gwneud iawn hwn, a ddaeth yn weithredol yn Rhagfyr 2021, yn gwneud taliadau i ddioddefwyr cam-drin plant hanesyddol mewn gofal. Gwneir y taliad fel cyfandaliad i gydnabod a darparu cydnabyddiaeth weladwy o'r niwed a gafwyd.
265. Rydym yn cynnig diystyru'r taliadau hyn ar sail orfodol mewn asesiadau o gyfalaf ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, gan ein bod yn credu mai pwrpas y taliad hwn yw digolledu am niwed ac felly ni ddylid disgwyl i'r buddiolwr wario'r taliad hwn ar wasanaethau cyfreithiol.

**Cwestiwn 35:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i ddiystyru taliadau o dan Gynlluniau Gwneud lawn yr Alban a Gogledd Iwerddon am gam-drin plant hanesyddol yn yr asesiad o gyfalaf? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### *Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth mewn Gwledydd Tramor (VOTCS)*

266. Rydym wedi amlinellu ein cynigion i ddiystyru'r taliadau hyn yn yr asesiad o incwm ym Mhennod 2 (paragraffau 132–133). Gan fod modd gwneud y taliadau hyn fel un cyfandaliad, fe ellir eu hystyried yn rhan o'r asesiad o gyfalaf hefyd.
267. Felly, rydym yn cynnig diystyru'r taliadau hyn yn yr asesiad o gyfalaf ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil fel taliad digolledu am niwed personol. Ein cynnig yw y dylid diystyru'r

taliadau hyn ar sail ddisgresiynol gan fod y cynllun hwn yn darparu cymysgedd o daliadau sy'n darparu ar gyfer digolledu am niwed ac am golli enillion, yr olaf yn daliad nad yw'n cydweddu â'n sail resymegol.

268. Mae'r cynllun yn cynnwys tariff taliadau tebyg i un yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICA) sy'n pennu'r gwahanol symiau ar gyfer gwahanol gategoriau o anafiadau, e.e. anafiadau corfforol a meddyliol neu anafiadau o gam-drin rhywiol a chorfforol. Rydym yn rhag-weld defnyddio dull tebyg yn y fan hon ac rydym yn bwriadu pennu'r ffactorau yr awgrymir i CGACC eu hystyried wrth gymhwyso'r disgresiwn. Mae'r Canllawiau ar Asesu Modd<sup>32</sup> yn pennu ffactorau perthnasol ar gyfer taliadau CICA y gall CGACC eu hystyried (er nad yw'n gorfod gwneud hynny). Mae'r rhain yn cynnwys ffactorau fel a dalwyd y taliad digolledu i'r unigolyn o fewn y 12 mis cyn dyddiad y cais am gymorth cyfreithiol ac a oes bwriad i'r taliad gwrdd â threuliau arbennig. Rydym yn bwriadu adlewyrchu'r dull hwn o weithredu ar gyfer taliadau VOTCS.

**Cwestiwn 36:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i greu disgresiwn i Gyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol ddiystyru taliadau VOTCS? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

*Budd-daliadau wedi'u hôl-ddyddio ac ôl-daliadau cynhaliaeth plant*

269. Mae nifer o randdeiliaid wedi gofyn cwestiwn i ni ynghylch y ffordd y dylid trin ôl-daliadau o fudd-daliadau a thaliadau cynhaliaeth plant.
270. Pan gânt eu talu'n amserol, mae budd-daliadau a thaliadau cynhaliaeth plant yn cael eu derbyn fel incwm. Mae rhai budd-daliadau (fel Taliadau Annibyniaeth Personol) yn cael eu diystyru yn yr asesiad o incwm ar gyfer cymorth cyfreithiol am mai eu pwrpas yw helpu gyda chostau rheolaidd penodol (e.e. costau ychwanegol anabledd), tra bydd taliadau cynhaliaeth plant, a budd-daliadau eraill fel credydau treth, yn cael eu hystyried yn yr asesiad o incwm ar gyfer cymorth cyfreithiol.
271. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes darpariaeth i ddiystyru ôl-daliadau o fudd-daliadau yn yr asesiad o gyfalaf. Felly, gall unigolion fetu'r prawf cyfalaf ar gyfer cymorth cyfreithiol, neu orfod talu cyfraniad cyfalaf, am fod ôl-daliad o fudd-dal wedi'i wneud ar ffurf cyfandaliad yn dilyn penderfyniad gan lys/tribiwnlys neu gywiro gwall gweinyddol. Mae hyn yn gymwys i'r un graddau i fudd-daliadau a ddiystyriir yn yr asesiad o incwm, ac i fudd-daliadau sy'n pasbortio eu derbynwyr drwy'r asesiad o incwm yn y prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol.

---

<sup>32</sup> Means Assessment Guidance (publishing.service.gov.uk)

272. Mae'r un ystyriaeth yn berthnasol hefyd i ôl-daliadau cynhaliaeth plant. Er bod taliadau cynhaliaeth plant yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad o incwm, credwn mai amhriodol yw cyfrif ôl-daliadau cynhaliaeth plant yn gyfalaf sydd ar gael yn yr holl achosion, oherwydd nid gwneud iawn am golli enillion yw pwrpas yr arian ond cyflawni diben penodol – sef cynnal plentyn.
273. Felly rydym yn cynnig y dylai CGACC (ac, ar gyfer gwaith a ddirprwywyd, darparwyr cymorth cyfreithiol) gael disgrisiwn i ddiystyru ôl-daliadau o fudd-daliadau ac ôl-daliadau cynhaliaeth plant yn yr asesiad o gyfalaf ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil.
274. Er mwyn sicrhau bod yr asesiad o fodd yn gymharol syml i'w gyflawni gan CGACC a darparwyr, rydym yn cynnig y dylai'r canllawiau bennu bod ôl-daliadau a gafwyd hyd at 24 mis cyn y cais am gymorth cyfreithiol i gael eu diystyru fel arfer. Credwn ei bod yn rhesymol disgwyl yn gyffredinol y bydd y derbynwyr wedi gwario'r arian hwn (sydd wedi'i fwriadu, mewn llawer achos, at ddibenion penodol, fel costau anabledd neu gynnal plant) o fewn 24 mis. Os bydd derbynnydd a gafodd daliadau o'r fath fel incwm yn cynilo rhywfaint o'r arian, neu'r cyfan ohono, byddai hyn yn cael ei gyfrif yn gyfalaf gwario fel arfer i ddibenion yr asesiad o fodd ar gyfer cymorth cyfreithiol, felly credwn fod y disgrisiwn hwn dros gyfnod penodol yn briodol i sicrhau cysondeb â'r dull o drafod cynilion.
275. Fodd bynnag, os oedd y taliad yn un ar gyfer cyfnod hir iawn, a'i bod felly'n afresymol disgwyl y bydd y derbynnydd wedi'i wario o fewn 24 mis, yna bydd CGACC a darparwyr yn gallu arfer eu disgrisiwn i ddiystyru'r cyfalaf hwn.
276. Byddwn yn llunio canllawiau'r Arglwydd Ganghellor i lywio penderfyniadau gan CGACC a darparwyr gan bennu dau ffactor allweddol i'w hystyried: yn gyntaf, pa mor hir oedd y cyfnod rhwng derbyn y taliad a dyddiad y cais am gymorth cyfreithiol, ac yn benodol a gafwyd y taliad lai na 24 mis cyn dyddiad y cais, ac yn ail, y cyfnod y gwnaed yr ôl-daliad ar ei gyfer.

**Cwestiwn 37:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i greu disgrisiwn i ddiystyru ôl-daliadau o fudd-daliadau ac ôl-daliadau cynhaliaeth plant yn yr asesiad o gyfalaf? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

*Diystyriad disgrisiynol newydd ar gyfer digollediad, iawndal neu daliadau cydnabyddiaeth am niwed personol*

277. Ar hyn o bryd, mae angen i ni osod is-ddeddfwriaeth bob tro y byddwn am ychwanegu diystyriad mewn perthynas â chynllun cymorth neu ddigolledu penodol. Mae hyn yn cymryd amser, yn cynnwys amser yn y Senedd, a gall hyn achosi oedi cyn cael diystyru taliadau penodol (a fyddai'n cyd-fynd â'n sail resymegol) ar gyfer y rheini sy'n gwneud cais am gymorth cyfreithiol. Mae'r broses bresennol hefyd wedi

rhoi pwysau ar adnoddau cyn hyn oherwydd yr angen i gael newid sydyn pan sefydlir cynllun newydd y byddwn am ddiystyru unrhyw daliadau a wneir o dano (fel a ddigwyddodd yn achos Cynllun Digolledu Windrush). Mae hefyd yn bosibl bod taliadau eraill nad ydym yn gwybod amdanynt ond y byddem yn meddwl am eu diystyru.

278. Yng ngolwg hynny, rydym yn cynnig diystyriad disgresiynol newydd a fydd yn galluogi CGACC a darparwyr (lle maent yn ei weld yn briodol) i ddiystyru mathau ychwanegol o incwm a chyfalaf sy'n gyson â'n sail resymegol gyffredinol a'n galluogi i gynnwys mathau ychwanegol o ddiystyriadau yn yr asesiadau o incwm a chyfalaf yn y dyfodol.
279. Bydd hyn yn creu pŵer cyffredinol i ganiatáu i CGACC a darparwyr ddiystyru taliadau digolledu, taliadau cydnabyddiaeth ac iawndal am niwed personol (boed yn gorfforol neu seicolegol), a wneir gan gyrff cyhoeddus – er enghraifft, iawndal a delir gan y Swyddfa Gartref yn dilyn achos am gadw rhywun yn anghyfreithlon – neu'n breifat, er enghraifft digollediad a delir gan sefydliad preifat i ddiodefwrwr cam-drin. Mae hyn yn gyson â'n sail resymegol dros ddiystyru rhai taliadau yn yr asesiad o gyfalaf, h.y. nid ydym yn ei gweld yn deg disgwyl i daliadau o'r math hwn gael eu defnyddio i dalu am wasanaethau cyfreithiol.
280. Nid ydym yn bwriadu i "niwed personol" gynnwys niwed ariannol neu daliadau sy'n gyffelyb i rai ar gyfer colli enillion, e.e. iawndal a delir am golli enillion yn dilyn achos mewn tribiwnlys cyflogaeth, oherwydd credwn y gellid defnyddio taliadau o'r fath i dalu am wasanaethau cyfreithiol.
281. Mewn rhai achosion, rydym yn ymwybodol y gall unigolion dderbyn taliadau sy'n cynnwys digollediad am niwed personol ac am golli enillion. Felly, rydym yn cynnig diystyriad disgresiynol i roi hyblygrwydd i CGACC a darparwyr benderfynu lefel y diystyriad ar gyfer taliadau o'r fath, gan gofio'r bwriad polisi a'r sail resymegol gyffredinol.
282. Ein gobaith yw y bydd y cynnig hwn yn sicrhau bod yr elfen hon o'r prawf modd yn cael ei diweddarau at y dyfodol drwy ddileu'r angen i ddeddfu bob tro y bydd cynllun yn codi yn y dyfodol sy'n gwneud taliadau sy'n gyson â'n sail resymegol uchod. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau eglurder i CGACC a darparwyr, byddwn yn diweddarau canllawiau'n rheolaidd i gynnwys enwau'r cynlluniau y credwn eu bod yn gyson â'n sail resymegol.

**Cwestiwn 38:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i greu disgresiwn i ganiatáu i Gyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol a darparwyr ddiystyru taliadau digolledu, iawndal a/neu daliadau cydnabyddiaeth am niwed personol? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

## Pasbortio cyfalaf

283. Mae ein dull presennol o drafod ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol wedi'i ddisgrifio ym Mhennod 1, paragraff 81. Fel rydym yn egluro yn y fan honno, ar hyn o bryd mae ymgeiswyr sy'n derbyn budd-daliadau pasbortio yn mynd drwy'r asesiad o gyfalaf ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil yn yr un ffordd ag y mae ymgeiswyr sydd heb eu pasbortio.
284. Cyn pasio Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr, roedd ymgeiswyr sy'n derbyn budd-daliadau pasbortio yn cael eu pasbortio drwy'r prawf cyfalaf hefyd. Fodd bynnag, roedd y trothwyon cyfalaf yn y prawf modd ar gyfer y budd-daliadau lles perthnasol yn fwy hael na'r trothwyon cyfalaf ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil ac (yn wahanol i'r prawf budd-daliadau lles) nid oedd y prawf ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil yn diystyru'r holl gyfalaf a oedd wedi'i ddal yn y brif breswylfa. Felly, roedd pasbortio cyfalaf yn peri bod rhai unigolion a gafodd eu pasbortio (amcangyfrif o 6,000 yn ôl yr Asesiad Effaith) wedi cael cymorth cyfreithiol lle byddai wedi bod yn ofynnol, pe byddent wedi mynd drwy brawf modd, iddynt dalu cyfraniad cyfalaf neu eu cael yn anghymwys am gymorth cyfreithiol.<sup>33</sup> O ganlyniad, roedd Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr wedi dileu pasbortio cyfalaf ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil er mwyn 1) hyrwyddo cynilion, a 2) sicrhau cydraddoldeb rhwng unigolion sy'n derbyn budd-daliadau pasbortio a'r rheini nad ydynt yn derbyn budd-daliadau.
285. Bydd y prawf modd am fudd-daliadau lles yn parhau'n fwy hael na hwnnw ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil o dan y newidiadau rydym yn eu cynnig, yn enwedig i'r graddau bod yr asesiad am fudd-daliadau lles yn diystyru'r brif breswylfa tra na fydd y prawf modd am gymorth cyfreithiol yn gwneud hynny. Nid ydym yn cynnig hyn ar gyfer cymorth cyfreithiol gan y byddai'n golygu bod perchnogion cartrefi sydd â chyfalaf sylweddol iawn yn gallu cael cymorth cyfreithiol, a hynny'n anghyson â'n hamcan y dylai cymorth cyfreithiol gael ei dargedu at y rheini sydd â'r angen mwyaf amdano. O ganlyniad, byddai cyflwyno pasbortio cyfalaf ar gyfer holl dderbynwyr

---

<sup>33</sup> Adolygiad Ôl-weithredu o Ran 1 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr, [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/777038/post-implementation-review-of-part-1-of-laspo.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/777038/post-implementation-review-of-part-1-of-laspo.pdf), t167. Mae hyn yn cyfateb i 4,000 o gleientiaid a fyddai'n dod yn anghymwys, a 2,000 y byddai'n ofynnol iddynt dalu cyfraniad.

budd-daliadau lles yn peri bod unigolion yn derbyn cymorth cyfreithiol lle byddai wedi bod yn ofynnol, pe byddent wedi mynd drwy brawf modd, iddynt dalu cyfraniad cyfalaf neu eu cael yn anghymwys am gymorth cyfreithiol.

286. Mae ein dadansoddiad yn awgrymu y byddai bron pob un o'r rheini sy'n derbyn budd-daliadau pasbortio (yn cynnwys derbynwyr Credyd Cynhwysol) a fyddai'n methu'r prawf cyfalaf am gymorth cyfreithiol wedi methu'r prawf hwnnw am eu bod yn berchnogion cartrefi, yn hytrach nag am fod ganddynt fathau eraill o gyfalaf (e.e. cynilion).
287. Felly, rydym yn cynnig pasbortio cyfalaf ar gyfer yr holl rai nad ydynt yn berchnogion cartrefi sy'n derbyn budd-daliadau pasbortio (yn cynnwys holl dderbynwyr Credyd Cynhwysol). Bydd y cynnig hwn yn gwneud y prawf modd sifil yn fwy effeithlon drwy leihau nifer yr asesiadau o gyfalaf ar gyfer ymgeiswyr sy'n derbyn budd-daliadau oddeutu 80%, gan greu cost fach a sicrhau bod ymgeiswyr sydd wedi'u pasbortio a'r rheini sydd heb eu pasbortio yn cael eu trin mewn ffordd gyfatebol gan mwyaf.

**Cwestiwn 39:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i ailgyflwyno pasbortio cyfalaf ar gyfer rhai nad ydynt yn berchnogion cartrefi sy'n derbyn budd-daliadau pasbortio drwy'r asesiad o gyfalaf ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

## **Pennod 5: Mewnfudo a lloches, rhai dan 18 oed ac achosion heb brawf modd**

288. Mae'r bennod hon yn amlinellu newidiadau rydym yn eu cynnig mewn trefniadau profion modd ar gyfer rhai mathau o achosion cymorth cyfreithiol sifil nad ydynt yn dod o dan y trefniadau safonol ar gyfer profion modd sifil; neu rai rydym yn cynnig na ddylent ddod o dan y trefniadau hynny o hyn ymlaen.
289. Yn benodol, mae'n amlinellu newidiadau rydym yn eu cynnig yn y prawf modd ar gyfer achosion lloches a mewnfudo. Rydym yn bwriadu cysoni'r prawf modd ar gyfer yr achosion hyn â'n prawf modd arfaethedig newydd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil.
290. Mae'r bennod hon hefyd yn amlinellu ein cynigion i ddileu'r prawf modd ar gyfer pobl dan 18 oed sy'n gwneud cais am gynrychiolaeth gyfreithiol sifil, a symleiddio'r prawf modd ar gyfer pobl dan 18 oed sy'n gwneud cais am help cyfreithiol sifil.
291. Yn ogystal â hyn, rydym wedi cynnwys ein cynigion i ychwanegu dau faes lle na fydd prawf modd:
- cynrychiolaeth gyfreithiol i rieni a'r rheini sydd â chyfrifoldeb rhieni y mae eu plant yn wynebu achos mewn perthynas â gwrthod triniaeth sy'n cynnal bywyd neu ei thynnu'n ôl.
  - help cyfreithiol mewn perthynas â chwest lle mae'r cwest yn ymwneud â thoriad posibl ar Hawliau Confensiwn y Ddeddf Hawliau Dynol, neu lle mae'n debygol y bydd budd ehangach i'r cyhoedd o gael cynrychiolaeth i'r cleient yn y cwest.

### **Profion modd ar gyfer achosion mewnfudo a lloches**

292. Er mwyn cael cymorth cyfreithiol sifil ar gyfer cynrychiolaeth mewn achosion mewnfudo a lloches, rhaid i ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol sifil fodloni prawf modd a rhinweddau. Mae cynrychiolaeth yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf (Siambwr Mewnfudo a Lloches) wedi'i dynodi'n waith rheoledig (hynny yw, mae'r profion modd a rhinweddau wedi'u dirprwyo i ddarparwyr) tra bo cynrychiolaeth yn yr Uwch Dribiwnlys (Siambwr Mewnfudo a Lloches) wedi'i dynodi'n waith trwyddedig, lle bydd yr LAA yn cwblhau'r asesiad o fodd a rhinweddau ac yn rhoddi tystysgrif i ddarparwyr cymwys.
293. Yn y rhan fwyaf o'i elfennau, mae'r prawf modd a ddefnyddir ar gyfer achosion mewnfudo a lloches yn dyblygu'r prawf modd safonol ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a ddisgrifiwyd ym Mhennod 1. Fodd bynnag, ar gyfer cynrychiolaeth mewn rhai

achosion mewnfudo, mae'r profion modd a ddefnyddir ychydig yn wahanol. Mae'r achosion hyn yn cynnwys:

- cadw o dan bwerau mewnfudo
- achosion mewnfudo a cham-drin domestig ar y cyd
- achosion caethwasiaeth fodern a masnachu pobl.

294. Yn benodol, ar hyn o bryd mae un trothwy cyfalaf o £3,000 ar gyfer cymorth cyfreithiol mewn achosion yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys, ac nid oes cyfraniadau cyfalaf yn daladwy. Mae hyn yn cymharu ag un trothwy o £8,000 ar gyfer y rhan fwyaf o'r mathau o waith rheoledig, a throthwy uchaf o £8,000 (a gofyniad i dalu cyfraniad cyfalaf o unrhyw gyfalaf o fwy na £3,000) ar gyfer y rhan fwyaf o'r mathau o waith trwyddedig.
295. At hynny, nid yw cyfraniadau incwm yn daladwy am gynrychiolaeth yn yr Uwch Dribiwnlys, mewn cyferbyniad â'r prawf modd safonol am gymorth cyfreithiol sifil ar gyfer gwaith trwyddedig; a hyd yn oed ar gyfer achosion (fel cynrychiolaeth mewn achosion yn ymwneud â lloches a phlant mudol sydd wedi'u gwahanu oddi wrth rieni) lle mae'r trothwy safonol o £8,000 yn gymwys, mae esemptiad rhag unrhyw ofyniad i dalu cyfraniad cyfalaf.
296. Credwn fod ddadl gryf, am resymau a amlinellir isod, o blaid cysoni'r prawf modd ar gyfer yr achosion hyn â'n prawf modd arfaethedig newydd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil.

### **Cynrychiolaeth yn yr Uwch Dribiwnlys**

297. Mae'r rheswm dros yr anghysondeb rhwng prawf modd yr Uwch Dribiwnlys a hwnnw ar gyfer gwaith trwyddedig arall yn un hanesyddol. Tan 2018, roedd cynrychiolaeth yn yr Uwch Dribiwnlys Mewnfudo a Lloches wedi'i dynodi'n waith rheoledig, felly roedd y cyfrifoldeb dros y prawf modd wedi'i ddirprwyo i ddarparwyr (gweler Pennod 1, paragraff 49 am wybodaeth gefndir ynghylch gwaith rheoledig). Yn 2007, cynigiodd yr adran gynyddu'r trothwy o £3,000 i £8,000, er mwyn bod yn gyson â'r dull o drafod cynrychiolaeth gyfreithiol sifil.<sup>34</sup> Byddai'r cynnig hwn hefyd wedi'i gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr dalu cyfraniad at eu costau cyfreithiol os oedd ganddynt gyfalaf o fwy na £3,000, yn yr un modd ag ar gyfer cynrychiolaeth sifil yn fwy cyffredinol.
298. Fodd bynnag, codwyd pryderon gan ddarparwyr, y mae rhai ohonynt (er enghraifft, canolfannau cyfraith) heb y gallu i gasglu cyfraniadau gan ymgeiswyr o dan delerau eu cyfansoddiad. Felly, ni symudwyd ymlaen â'r cynnig, a chadwyd y trothwy o

---

<sup>34</sup> Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol (Ariannol) (Diwygio) 2007 Rhif 906 (legislation.gov.uk)



£3,000 ar gyfer cynrychiolaeth mewn achosion mewnfudo, i ddarparu ar gyfer y ffaith na ellid casglu cyfraniadau.

299. Yn 2018, roedd cynrychiolaeth yn yr Uwch Dribiwnlys wedi dod yn waith trwyddedig, lle cynhelir y prawf modd gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA), yn hytrach na darparwyr. Mae hyn yn golygu y byddai'n bosibl bellach i'r LAA gasglu cyfraniadau at y gwaith hwn.
300. Felly rydym yn cynnig y dylid cysoni'r trothwy cyfalaf gwario ar gyfer cynrychiolaeth yn yr Uwch Dribiwnlys â'r trothwyon sifil arferol a gynigir ar gyfer gwaith trwyddedig yn rhan o'r Adolygiad cyffredinol o Brofion Modd. Y rhain yw trothwy isaf o £7,000 a throthwy uchaf o £11,000. Byddai ymgeiswyr sydd â chyfalaf rhwng £7,000 a £11,000 yn dod o dan y gofyniad am gyfraniadau cyfalaf yn unol â'r gofynion cyffredinol ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil – gweler Pennod 4, paragraffau 226–232. Ni fyddai ymgeiswyr sydd â chyfalaf gwario o fwy na £11,000 yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol.

**Cwestiwn 40:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i gysoni'r trothwy cyfalaf ar gyfer cynrychiolaeth mewn achosion mewnfudo yn yr Uwch Dribiwnlys (£3,000 ar hyn o bryd) â'r rheini a ddefnyddir fel arfer ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil – sef trothwy isaf o £7,000 a throthwy uchaf o £11,000? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

301. Rydym hefyd yn cynnig dileu'r holl esemptiadau presennol ar gyfer cyfraniadau incwm a chyfalaf yn yr Uwch Dribiwnlys Mewnfudo a Lloches, gan gysoni system gyfraniadau'r Uwch Dribiwnlys â'r dull o weithredu mewn meysydd cymorth cyfreithiol sifil eraill, fel y byddai'r rheini sy'n derbyn cymorth cyfreithiol yn yr achosion hyn yn talu cyfraniadau cyfalaf o symiau cyfalaf o fwy na £3,000. Fodd bynnag, mae ein cynigion o ran dileu'r prawf modd am gynrychiolaeth sifil i rai dan 18 oed a diweddarau canllawiau mewn perthynas ag ailasesu derbynwyr cymorth cyfreithiol sy'n troi 18 oed yn ystod yr achosion cyfreithiol (gweler paragraffau 313–318 isod) yn golygu y bydd plant mudol a wahanwyd oddi wrth rieni yn mynd drwy brawf modd dim ond wedi iddynt droi 18 oed a lle mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn credu y gallent fod ag incwm neu gyfalaf sy'n fwy na'r trothwyon isaf newydd rydym yn eu cynnig.
302. Bydd y cynigion hyn yn cysoni'r prawf modd ar gyfer cynrychiolaeth mewn achosion mewnfudo a lloches yn yr Uwch Dribiwnlys â'r prawf modd ar gyfer mathau eraill o waith trwyddedig, gan symleiddio ein dull o weithredu mewn profion modd. Credwn fod hwn yn ddull teg a chymesur o weithredu gan mai ein polisi (gweler y Cyflwyniad, paragraff 10) yw targedu'r ddarpariaeth o gyllid cyhoeddus at y rheini sydd â'r angen ariannol mwyaf gan sicrhau bod y rheini sy'n gallu fforddio talu rhai neu'r cwbl o'u costau cyfreithiol yn gwneud hynny.

303. Wrth gyflwyno cyfraniadau, ni fydd effaith ar unrhyw blant, yn cynnwys plant sy'n ceisio lloches neu blant mudol a wahanwyd oddi wrth rieni. Y rheswm am hyn yw ein bod yn cynnig na fydd ceisiadau am gymorth cyfreithiol ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol sifil gan rai dan 18 oed yn dibynnu ar brawf modd (fel yr eglurir ym mharagraff 315 isod) fel y bydd rhai dan 18 oed yn cael eu hystyried yn gymwys yn awtomatig am gymorth cyfreithiol anghyfrannol nes iddynt gyrraedd 18 oed.
304. Byddai rhai ifanc sy'n derbyn cymorth cyfreithiol ac yn cyrraedd 18 oed cyn cwblhau eu hachos yn gallu bod yn destun asesiad o fodd yn ôl disgrisiwn yr LAA, a gellid gofyn iddynt dalu cyfraniad os oedd ganddynt incwm neu gyfalaf digonol – yn amodol ar y newidiadau mewn canllawiau a gynigir sydd wedi'u hamlinellu ym mharagraff 318 isod.

**Cwestiwn 41:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i ddileu'r esemptiadau ar dalu cyfraniadau incwm a chyfalaf am gynrychiolaeth mewn achosion mewnfudo a lloches yn yr Uwch Dribiwnlys, a mabwysiadu'r trothwyon incwm a chyfalaf newydd a gynigir ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil yn eu lle? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### **Cynrychiolaeth yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf**

305. Mae cynrychiolaeth yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf (Siambr Mewnfudo a Lloches) yn waith rheoledig o hyd, lle cynhelir y prawf modd gan ddarparwyr. Yn gyffredinol, ar gyfer gwaith rheoledig, defnyddiwn y trothwy cyfalaf uchaf yn unig ac ni ofynnir am gyfraniadau. Rydym yn cynnig cadw'r dull hwn o weithredu ar gyfer cynrychiolaeth mewn achosion mewnfudo yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf. Felly rydym yn argymhell y dylid cynyddu'r trothwy cyfalaf gwario o £3,000 i £11,000, yn unol â'r trothwy cyfalaf uchaf sydd wedi'i gynnig yn rhan o'r Adolygiad cyffredinol o Brofion Modd (gweler Pennod 4, paragraffau 226–232).
306. Byddai'r cynnig hwn yn golygu bod yr un trothwyon yn gymwys i gynrychiolaeth yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf (Siambr Mewnfudo a Lloches) ac mewn materion eraill mewn meysydd gwaith rheoledig, fel y bydd y prawf yn decach ag ymgeiswyr ac yn haws ei weinyddu gan ddarparwyr. Byddai hefyd yn cynyddu cymhwystra am gymorth cyfreithiol yn y cohort hwn, lle mae nifer mawr yn debygol o fod yn agored iawn i niwed ac a fyddai'n gallu ei chael yn anodd eu cynrychioli eu hunain neu ddeall y sefyllfa gyfreithiol yn y maes hwn heb gymorth proffesiynol (fel y sicrheir mynediad at gyfiawnder).

**Cwestiwn 42:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i gynyddu'r trothwy cyfalaf ar gyfer cynrychiolaeth mewn achosion mewnfudo yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf o £3,000 i £11,000? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

## Ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol dan 18 oed

307. Ar hyn o bryd, mae diffynyddion troseddol dan 18 oed yn esempt rhag y prawf modd ar gyfer cynrychiolaeth lawn mewn achosion troseddol (er bod rhaid iddynt fodloni'r prawf buddiannau cyfiawnder) yn y llys ieuencid neu Lys y Goron. Mae'r dull hwn o weithredu yn cydnabod y ffaith bod plant a phobl ifanc dan 18 oed yn agored i niwed yn y System Cyfiawnder Troseddol, ac y byddai euogfarn am drosedd yn gallu cael effaith ddifrifol ar eu dyfodol. Felly rydym yn cynnig cadw'r dull hwn o weithredu ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol droseddol.
308. Ar y llaw arall, mae rhai dan 18 oed yn mynd drwy brawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol ar hyn o bryd mewn perthynas â rhai achosion cyngor a chynhorthwy a chynhorthwy/eiriolaeth troseddol, ac ar gyfer cynrychiolaeth sifil a help cyfreithiol sifil a theuluol.
309. Rydym yn cynnig rhai newidiadau yn y dull hwn o weithredu, sydd wedi'u hamlinellu isod.

### Cyngor a chynhorthwy/cynhorthwy eiriolaeth (CC/CE) troseddol

310. Ar gyfer cyngor a chynhorthwy (CC) troseddol, mae'r rhan fwyaf o achosion yn esempt rhag y prawf modd, ond mae rhai meysydd CC a chynhorthwy eiriolaeth (CE) sy'n dibynnu ar brawf modd – fel yr amlinellir yn llawn ym Mhennod 7. Yn yr achosion hyn, mae ymgeiswyr dan 18 oed yn mynd drwy brawf modd, ac mae'r modd sydd ganddynt yn cael ei gyfuno ag adnoddau'r oedolyn sy'n eu cynnal, oni bai ei bod yn annheg gwneud hynny. Bydd hyn yn wir fel arfer lle mae gwrthdaro buddiannau rhwng y plentyn neu berson ifanc a'r oedolyn sy'n ei gynnal.<sup>35</sup> Ar ôl 18 oed, os oes partner gan ymgeisydd ar gyfer CC/CE, bydd y modd sydd ganddynt yn cael ei gyfuno i ddibenion asesu ariannol. Gan fod y trothwyon presennol yn isel iawn, bydd nifer mawr o ymgeiswyr yn methu'r prawf modd os oes ganddynt bartner (pa un a ydynt yn y carchar neu beidio). Y rhagdybiaeth yw, os bydd y plentyn yn methu'r prawf modd ac yn ceisio cynhorthwy cyfreithiol, y bydd ei gostau cyfreithiol preifat yn cael eu talu gan yr oedolyn sy'n ei gynnal.
311. Rydym yn cynnig esemptio'r rheini dan 18 oed rhag y prawf modd cymorth cyfreithiol ar gyfer CC/CE, gan gysoni'r polisi â'n dull o ddelio â chynrychiolaeth yn y llys

---

<sup>35</sup> Yn y bennod hon, defnyddiwn y term "person ifanc" i olygu rhai 16 neu 17 oed.

ieuentid a Llys y Goron, ac yn fwy cyffredinol, y dull o drafod rhai dan 18 oed yn y System Cyfiawnder Troseddol. Mewn sylwadau, mae rhanddeiliaid wedi nodi nad yw oedolion sy'n cynnal ymgeiswyr dan 18 oed mewn materion CC/CE yn barod o reidrydd i gyfrannu at gostau cyfreithiol ac y gallant fod yn amharod i gydweithredu â'r broses prawf modd. Mewn achosion o'r fath, byddai'r rheini dan 18 oed yn gallu cael eu hatal rhag cael cymorth cyfreithiol ac felly cael eu hamddifadu o gyngor cyfreithiol mewn perthynas â'u heuogfarn. Ar ben hynny, mae risg na fydd y plentyn neu berson ifanc yn cael ei gynrychioli mewn gwrandawriad disgyblu, lle gellid ychwanegu amser at ei ddedfryd, neu mewn gwrandawriad gan y Bwrdd Parôl lle mae ei ryddid yn y fantol. O dan ein cynigion newydd ar gyfer CC/CE (Pennod 7), bydd rhai dan 18 oed, yn enwedig y rheini sydd yn y ddalfa, yn debygol o fodloni'r asesiad o fodd.

312. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn derbyn y bydd profiad y plentyn neu berson ifanc o'r system cyfiawnder troseddol yn chwarae rhan hanfodol o ran penderfynu sut bydd yn cael ei ailintegreiddio â'i deulu, mewn addysg ac mewn cymdeithas ehangach. Byddai anallu i gael CC/CE ar gyfer materion Cyfraith Carchardai yn gallu arwain at beidio â chlywed ei deimladau neu anghenion. Felly, credwn ei bod yn bwysig bod y rheini dan 18 oed sydd yn y ddalfa yn cael mynediad priodol at CC/CE.

**Cwestiwn 43:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i ddileu'r prawf modd ar gyfer ymgeiswyr dan 18 oed ar gyfer cyngor a chynhorthwy a chynhorthwy eiriolaeth troseddol? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### Cynrychiolaeth sifil

313. Ar hyn o bryd, pan fydd rhywun dan 18 oed yn gwneud cais am gynrychiolaeth mewn achos nad yw'n un teuluol, asesir ei gymhwysra ar sail ei adnoddau ei hun yn unig, heb ystyried adnoddau'r oedolyn sy'n ei gynnal.<sup>36</sup> Dilyni'r llwybr gwahanol ar gyfer cynrychiolaeth mewn achosion teuluol, lle mae modd y plentyn neu berson ifanc yn cael ei gyfuno â modd yr oedolyn sy'n ei gynnal (oni bai fod gwrthdaro buddiannau rhyngddynt, pan fydd sefyllfa ariannol y plentyn neu berson ifanc yn cael ei hasesu ar wahân). Mewn cynrychiolaeth dan y Cynllun Ariannu Achosion Eithriadol, y prawf modd a gymhwysir fydd yr un sy'n berthnasol i'r math o achos – un ai achos teuluol neu un nad yw'n achos teuluol.
314. Yn dilyn adolygiad o ddata yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, rydym wedi dod i'r casgliad mai prin iawn yw'r achosion teuluol â chynrychiolaeth sy'n cael eu cychwyn

---

<sup>36</sup> Y diffiniad yw rhiant, gwarcheidwad neu unrhyw berson arall sy'n gyfrifol am gynnal plentyn, neu sydd fel arfer yn cyfrannu'n sylweddol at gynnal y plentyn hwnnw.

gan berson dan 18 oed lle mae cyfuno o'r fath yn digwydd, oherwydd natur y gweithrediadau yn yr achosion hyn, sydd fel arfer yn ymwneud â gwrthdaro buddiannau rhwng y plentyn neu berson ifanc a'r oedolyn sy'n ei gynnal. Yn ogystal â hyn, gan fod y gyfraith bellach yn gofyn y bydd yr holl bobl ifanc yn Lloegr yn parhau mewn addysg neu hyfforddiant tan eu pen blwydd yn 18 oed o leiaf<sup>37</sup> (16 oed yng Nghymru), mae'n annhebygol felly y byddant yn gweithio'n amser llawn, ac felly'n annhebygol o fod ag incwm neu gyfalaf digonol i fethu'r prawf modd sifil newydd rydym yn ei gynnig.

315. Felly rydym yn cynnig dileu'r prawf modd i ymgeiswyr dan 18 oed ar gyfer pob math o gynrychiolaeth sifil (yn cynnwys cynrychiolaeth gyfreithiol reoledig<sup>38</sup>). Bydd hyn yn gwella cysondeb yn ein dull o ddelio â materion sifil teuluol a materion sifil eraill ac yn sicrhau mynediad at gyfiawnder i rai dan 18 oed, yn ogystal â lleihau'r baich gweinyddol i ddarparwyr, yr LAA ac ymgeiswyr, gan na fyddant bellach yn gorfod mynd drwy'r prawf modd ar gyfer y materion hyn.
316. Drwy ddileu'r prawf modd i'r rheini dan 18 oed sy'n gwneud cais am gynrychiolaeth sifil (yn cynnwys cynrychiolaeth gyfreithiol reoledig), rhoddir cydnabyddiaeth i'r ffaith bod y rheini dan 18 oed yn rhai sy'n agored i niwed yn y system llysoedd sifil a theuluol. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystyried bod y cohort hwn yn grŵp ar wahân, sydd ag anghenion gwahanol i'r rheini mewn grwpiau oedran eraill, ac felly credwn ei bod yn annhebygol iawn y byddai rhywun dan 18 oed yn gallu ei gynrychioli ei hun yn effeithiol yn y llys.
317. Rydym wedi ystyried a oes risg y bydd oedolyn sy'n cynnal plentyn neu berson ifanc yn dod ag achos o dan enw person sydd o dan 18 oed er mwyn elwa o gynrychiolaeth nad yw'n dibynnu ar brawf modd. Credwn fod y risg hon yn un fach, o ystyried bod gwrthdaro buddiannau yn y rhan fwyaf o achosion rhwng y plentyn neu berson ifanc sy'n dod â'r achos a'r oedolyn sy'n ei gynnal. Ar ben hynny, credwn fod y prawf rhinweddau presennol ar gyfer cymorth cyfreithiol (sy'n gofyn bod yr ymgeisydd yn barti yn yr achos) yn ddigon i liniaru unrhyw risg o'r fath sy'n weddill.
318. Mae'r rheini sy'n cyrraedd 18 oed (ac felly'n dod yn oedolion) cyn cwblhau eu hachos yn gallu bod yn destun asesiad o fodd yn ôl disgrisiwn CGACC. Mewn rhai achosion, er enghraifft os yw'r un sy'n 18 mlwydd oed mewn cyflogaeth amser llawn, fe all hyn fod yn briodol. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, er enghraifft os yw'r un sy'n 18 mlwydd oed yn analluog i weithio am fod ei hawliad am loches yn cael ei asesu ar y pryd, mae'n bosibl na fydd yn briodol. Felly, rydym yn cynnig egluro mewn

---

<sup>37</sup> Diweddariad o'r canllawiau statudol ar gyfranogi mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ([publishing.service.gov.uk](http://publishing.service.gov.uk))

<sup>38</sup> Cynrychiolaeth gyfreithiol ar gyfer achosion yn Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol Tribiwnlys yr Haen Gyntaf, Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru a Siambr Mewnfudo a Lloches Tribiwnlys yr Haen Gyntaf.

canllawiau y ffactorau y dylai CGACC eu hystyried wrth benderfynu a oes angen gwneud asesiad. Er enghraifft, rydym yn cynnig, os nad yw rhywun 18 mlwydd oed yn dibynnu ar ei rieni neu os nad yw'n gallu gweithio ac nad yw'n gallu hawlio cymorth o goffrau cyhoeddus, na ddylid cynnal asesiad o fodd. Nod y polisi hwn yw lleihau'r baich gweinyddol i dderbynwyr cymorth cyfreithiol, darparwyr a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol drwy gyfyngu asesiadau o fodd ar gyfer rhai 18 oed i'r rheini a all fod ag incwm neu gyfalaf gwario sy'n fwy na'r trothwyon isaf newydd rydym yn eu cynnig.

**Cwestiwn 44:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i ddileu profion modd am bob math o gynrychiolaeth sifil ar gyfer ymgeiswyr dan 18 oed? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

**Cwestiwn 45:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i gyflwyno canllawiau a fydd yn nodi lle gall fod yn ddiangen cynnal prawf modd ar gyfer ymgeisydd sydd wedi troi 18 oed yn ystod ei achos? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### Help cyfreithiol

319. Ar gyfer help cyfreithiol sy'n dibynnu ar brawf modd (yn cynnwys help teuluol a Help yn y llys), mae'r modd sydd gan ymgeiswyr dan 18 oed yn cael ei gyfuno â modd eu rhieni, gan fod rhagdybiaeth, lle nad oes angen cynrychiolaeth yn y llys, y dylai costau cyfreithiol gael eu talu gan y rhiant lle mae ei fuddiannau'n gyson â buddiannau'r plentyn.
320. Rydym yn cynnig cadw profion modd ar gyfer ymgeiswyr dan 18 oed am help cyfreithiol a mathau eraill o waith rheoledig (ac eithrio cynrychiolaeth gyfreithiol reoledig). Fel yr eglurwyd uchod (paragraff 314), un o'r prif resymau dros ein cynnig i gyflwyno cynrychiolaeth heb brawf modd mewn achosion teuluol yw effeithlonrwydd; gan mai'n anaml y byddwn yn cyfuno adnoddau ar gyfer cynrychiolaeth mewn achosion teuluol, bydd ymgeiswyr dan 18 oed yn bodloni'r prawf modd bron bob tro. Fodd bynnag, mae'r sail resymegol hon yn llai cymwys i help cyfreithiol a mathau eraill o waith sifil a theuluol rheoledig, lle mae buddiannau'r plentyn neu berson ifanc yn fwy tebygol o fod yn gyson â buddiannau'r oedolyn sy'n ei gynnal, fel bod cyfuno'n digwydd yn fwy aml.
321. Lle nad oes angen cynrychiolaeth, credwn ei bod y briodol cyfuno adnoddau os yw hynny'n deg, ac y dylai costau cyfreithiol gael eu talu gan yr oedolyn os oes ganddo ddigon o incwm neu gyfalaf i wneud hynny. Felly, er mwyn sicrhau bod cymorth cyfreithiol yn cael ei gyfeirio at y rheini sydd â'r angen mwyaf, rydym yn cynnig cadw profion modd i ran dan 18 oed ar gyfer help cyfreithiol.

322. Ar hyn o bryd, mae prawf modd symlach a llai manwl yn cael ei gynnal ar gyfer ymgeiswyr am help cyfreithiol sydd dan 16 mlwydd oed, lle gofynnir i'r ymgeisydd a oes ganddo incwm rheolaidd neu gyfalaf o fwy na £2,500. Os yw'r ateb i'r ddau gwestiwn yn negyddol, rhagdybir ei fod yn gymwys am gymorth cyfreithiol anghyfrannol ac ni chynhelir yr asesiad modd llawn.
323. Er mwyn lleihau baich gweinyddol y prawf modd i rai dan 18 oed, rydym yn cynnig ymestyn y prawf modd llai manwl i gynnwys yr holl ymgeiswyr am help cyfreithiol dan 18 oed lle nad yw'n cael ei ystyried yn deg cyfuno eu hincwm ag incwm yr oedolyn sy'n eu cynnal. Credwn ei bod yn synhwyrol gweithredu fel hyn o ystyried ei bod yn debygol iawn y byddai ymgeisydd dan 18 oed yn bodloni'r prawf modd os na fydd y modd sydd ganddo yn cael ei gyfuno â modd yr oedolyn sy'n ei gynnal.

**Cwestiwn 46:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i barhau â'r prawf modd ar gyfer rhai dan 18 oed sy'n gwneud cais am help cyfreithiol sifil, help teuluol (is ac uwch) a Help yn y llys? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

**Cwestiwn 47:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i gyflwyno prawf modd symlach ar gyfer ymgeiswyr dan 18 oed am help cyfreithiol sifil, help teuluol (is ac uwch) a Help yn y llys? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

## Cymorth cyfreithiol heb brawf modd

324. Fel y nodwyd yn y Cyflwyniad (paragraff 10), defnyddir profion modd yn y system cymorth cyfreithiol i helpu i gyfeirio adnoddau'r trethdalwr at y rheini sydd â'r angen mwyaf amdanynt. Fodd bynnag, ar gyfer rhai mathau o achosion, nid oes angen cynnal prawf modd wrth benderfynu cymhwysra am help cyfreithiol a/neu gynrychiolaeth gyfreithiol. Rydym wedi cynnwys rhestr yn **Atodiad B** o'r mathau o achosion sy'n esempt rhag y prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a throreddol.
325. Rydym nawr yn cynnig dileu'r prawf modd ar gyfer dau faes ychwanegol mewn cymorth cyfreithiol sifil.

### **Achosion sy'n ymwneud â thynnu'n ôl neu wrthod triniaeth cynnal bywyd i blant**

326. Mae cymorth cyfreithiol ar gael heb brawf modd ar gyfer rhai achosion (sydd wedi'u rhestru yn **Atodiad B**), yn cynnwys achosion Arbennig y Ddeddf Plant, sef achosion sy'n ymwneud â gorchmynion Gofal a Goruchwylio, Gorchmynion Asesu Plentyn a Gorchmynion Amddiffyn Brys. Gwneir cais am y gorchmynion hyn lle mae angen i awdurdod lleol ymyrryd pan yw'r plentyn yn debygol o gael niwed (gofal a goruchwylio); pan fo'n rhaid i'r plentyn fod yn bresennol i ddiben penodol e.e.

apwyntiad meddygol (asesu plentyn) neu pan fo ofn o gael niwed ar y pryd (amddiffyn brys). Byddai gorchmynion ar gyfer gofal a goruchwyllo a gorchmynion amddiffyn brys yn gallu arwain at symud y plentyn yn barhaol. Mae achosion ar gyfer gorchmynion i ddychwelyd plentyn o wladwriaeth arall neu achosion ynghylch herwgydio plentyn hefyd yn rhai sydd heb brawf modd ar hyn o bryd.

327. Mae'r safbwynt ar hyn yn un sy'n cydnabod bod materion o'r fath mor bwysig, o ran lles y plentyn, a'r canlyniadau i'w rieni, fel y dylai'r rhieni neu'r rheini sydd â chyfrifoldeb rhieni dros y plentyn<sup>39</sup> gael eu cynrychioli beth bynnag yw'r modd sydd ganddynt.
328. Rydym yn cynnig ehangu'r mathau o achosion lle mae cymorth cyfreithiol ar gael heb brawf modd i rieni a'r rheini sydd â chyfrifoldeb rhieni dros y plant cysylltiedig, drwy ychwanegu achosion sy'n ymwneud â bwriad i dynnu'n ôl neu atal triniaeth cynnal bywyd ar gyfer plentyn dan 18 oed. Ein diffiniad o driniaeth cynnal bywyd yw unrhyw driniaeth sy'n fodd i ymestyn bywyd heb wrthdroi cyflwr meddygol sy'n bodoli eisoes.<sup>40</sup>
329. Mae'r achosion hyn, sydd fel arfer yn ymwneud ag anghydfod rhwng y rhiant/rhieni a'r ymddiriedolaeth ysbyty yn gymharol brin ond, am resymau amlwg, gallant fod yn anodd iawn i bawb sy'n gysylltiedig. Fel arfer mae achosion o'r fath yn digwydd ar ôl dilyn pob llwybr arall a oedd yn agored. Maent yn emosiynol dros ben ac yn cael effaith uniongyrchol fel arfer ar ddisgwyliad oes y plentyn dan sylw.
330. Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau cyfreithiol sifil ar gyfer achosion o'r fath sy'n ymwneud â phlant yn rhai sy'n dod o fewn cwmpas cymorth cyfreithiol, ond ar sail prawf modd a phrawf rhinweddau. Yn ystod yr achosion hyn bydd y plentyn cysylltiedig yn cael ei gynrychioli fel arfer gan warcheidwad annibynnol a benodwyd gan y llys/CAFCASS, neu gan y Cyfreithiwr Swyddogol mewn achosion a wrandewir o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, a bydd cynrychiolaeth gyfreithiol hefyd gan yr ymddiriedolaeth ysbyty sy'n gysylltiedig.
331. Mae'r achosion hyn yn galw am ddealltwriaeth o ddadleuon meddygol a chyfreithiol cymhleth ac felly gall cynrychiolaeth breifat fod yn ddrud. Ar hyn o bryd, mae rhieni a'r rheini sydd â chyfrifoldeb rhieni yn gorfod bodloni prawf modd i ddod yn gymwys am gymorth cyfreithiol ar gyfer cynrychiolaeth ac felly gallant weld eu bod yn anghymwys am gymorth cyfreithiol ar sail ariannol. Felly, bydd rhieni a'r rheini sydd â chyfrifoldeb rhieni yn aml yn wynebu sefyllfa lle maent yn ceisio eu cynrychioli eu

---

<sup>39</sup> Y diffiniad o Gyfrifoldeb Rhieni yn adran 3(1) o Ddeddf Plant 1989 yw: "all the rights, duties, powers, responsibilities and authority which by law a parent of a child has in relation to the child and his property"

<sup>40</sup> M. Watson et al, Oxford Handbook of Palliative Care, trydydd argraffiad, Oxford University Press, 2019



hunain, a all fod yn anodd iawn o ystyried y cymhlethdod a'r cyd-destun emosiynol iawn.

### *Ein cynigion*

332. Rydym yn cynnig dileu'r prawf modd ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol i rieni a'r rheini sydd â chyfrifoldeb rhieni y mae eu plant (dan 18 oed) yn wynebu achos a ymleddir ynghylch darparu neu dynnu'n ôl/gwrthod triniaeth cynnal bywyd fel y mae wedi'i diffinio ym mharagraff 328. Y rheswm am hyn yw ein bod yn credu bod rhieni sy'n wynebu penderfyniad ynghylch a fydd eu plentyn yn byw neu'n marw yn rhai a ddylai gael cynhorthwy cyfreithiol i sicrhau bod modd cynrychioli eu safbwynt yn briodol.
333. Rydym yn cynnig y dylai cynrychiolaeth gyfreithiol (yn hytrach na help cyfreithiol) fod ar gael heb brawf modd gan mai yn y cyswllt hwn y bydd y dadleuon a nodwyd uchod yn codi fel arfer. Mae hyn yn gyson â'n dull cyffredinol o drafod achosion Arbennig y Ddeddf Plant.

**Cwestiwn 48:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i ddileu'r prawf modd am gynrychiolaeth gyfreithiol i rieni/y rheini sydd â chyfrifoldeb rhieni y mae eu plant yn wynebu achos sy'n ymwneud â thynnu'n ôl neu wrthod triniaeth cynnal bywyd? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### **Help cyfreithiol mewn cwestau**

334. Mae cymorth cyfreithiol mewn cwest yn cael ei ddarparu fel "gwasanaethau cyfreithiol eraill" o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd (LASPO) ac mae ar gael drwy'r Cynllun Ariannu Achosion Eithriadol (ECF) yn unig. Mae cyllid ar gael pan fydd yr ymgeisydd yn gallu dangos un ai
- bod ei angen er mwyn cydymffurfio ag Erthygl 2 neu Hawliau Confensiwn eraill yn y Ddeddf Hawliau Dynol; NEU
  - fod Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (CGACC) wedi penderfynu bod budd ehangach i'r cyhoedd o gael cynrychiolaeth i'r teulu yn y cwest.
335. O fis Ionawr 2022, nid oes prawf modd am gyllid ECF mewn perthynas â chynrychiolaeth mewn cwest, a bydd hawl awtomatig gan ymgeiswyr sy'n derbyn cyllid ECF mewn perthynas â chwest i dderbyn help cyfreithiol heb brawf modd drwy weddill proses y cwest.
336. Mae help cyfreithiol mewn perthynas â chwest yn dod o fewn cwmpas cymorth cyfreithiol, ac felly bydd ar gael i aelod o'r teulu cyn ac yn ystod unrhyw wrandawriad cwest, ar ôl mynd drwy brawf modd a phrawf rhinweddau sy'n cael eu dirprwyo i ddarparwyr.

337. Ar hyn o bryd, lle mae unigolyn yn methu'r prawf modd am help cyfreithiol, gall Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (CGACC) hepgor terfynau cymhwystra'r prawf modd ar incwm a chyfalaf "where it is equitable to do so", gan roi sylw penodol i unrhyw hawliau cymwysadwy o dan Erthygl 2 o Siarter Hawliau Dynol Ewrop.<sup>41</sup>

#### *Ein cynigion*

338. Rydym nawr yn cynnig dileu'r prawf modd ar gyfer help cyfreithiol mewn perthynas â chwestau lle mae'r cwest yn ymwneud â thoriad posibl ar hawliau o dan Siarter Hawliau Dynol Ewrop (o fewn ystyr Deddf Hawliau Dynol 1998) (Hawliau Confensiwn DHD) neu lle mae'n debygol bod budd sylweddol ehangach i'r cyhoedd mewn cael cynrychiolaeth i'r unigolyn yn y cwest.
339. Rydym yn cynnig cyflwyno prawf newydd yn lle'r broses hepgor bresennol a fydd yn gofyn i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth bod y cwest yn ymwneud â'r meini prawf uchod ond ni fydd yn gofyn am ddarparu unrhyw wybodaeth am fodd neu amcangyfrif o'r ffi. Bydd hyn yn dileu'r baich ar deuluoedd o orfod darparu gwybodaeth ariannol mewn amgylchiadau anodd a bydd hefyd yn symleiddio'r broses ymgeisio am help cyfreithiol i ymgeiswyr, ymarferwyr a gweithwyr achos yr LAA.
340. Credwn ei bod yn rhesymol, er mwyn bod yn gymwys am help cyfreithiol heb brawf modd mewn perthynas â chwest, fod darparwyr cymorth cyfreithiol yn gorfod ymgeisio o hyd i'r LAA am benderfyniad. Mae achosion sydd neu a allai fod yn ymwneud â Hawliau Confensiwn DHD neu fudd ehangach sylweddol i'r cyhoedd yn rhai cymhleth yn aml, a thrwy barhau â goruchwyliaeth gan yr LAA bydd llai o risg o wrthdroi penderfyniadau gan ddarparwyr ar y cam archwilio ac o golli unrhyw ffioedd cysylltiedig.
341. Ochr yn ochr â'r newid arfaethedig hwn mewn help cyfreithiol mewn cwestau a allai ymwneud â thorri Hawliau Confensiwn DHD neu fudd ehangach sylweddol i'r cyhoedd, rydym yn cynnig cadw'r opsiwn i ymgeisio am help cyfreithiol ar gyfer cwestau drwy'r llwybr presennol, sydd wedi'i ddirprwyo i ddarparwyr. Bydd hyn yn darparu ar gyfer achosion a fyddai'n bodloni'r prawf modd ar gyfer derbyn help cyfreithiol heb fod angen dangos tystiolaeth o doriad posibl ar Hawliau Confensiwn DHD neu gysylltiad â budd ehangach i'r cyhoedd, gan leihau'r baich gweinyddol i

---

<sup>41</sup> Erthygl 2 (yr hawl i fywyd) – gall Adran 10(3) o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy, Erthygl 2 o Gonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop ei gwneud yn ofynnol darparu cymorth cyfreithiol ar gyfer cynrychiolaeth gerbron Llys y Crwneriaid. Rhoddir cyllid lle mae'r rhwymedigaeth weithdrefnol yn codi o dan Erthygl 2 o Gonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop ac, yn ôl amgylchiadau penodol yr achos, lle mae angen cynrychiolaeth i deulu'r ymadawedig er mwyn ei chyflawni.

ymgeiswyr, darparwyr a'r LAA i'r graddau mwyaf posibl. Bydd yr LAA yn parhau i archwilio darparwyr am gysondeb, fel y gwneir ar hyn o bryd.

**Cwestiwn 49:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i ddileu'r prawf modd ar gyfer help cyfreithiol mewn cwestau lle mae'r achos yn ymwneud â thoriad posibl ar rwymedigaethau yng Nghonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop neu fudd ehangach sylweddol i'r cyhoedd? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

342. Os byddwn, ar ôl ymgynghori, yn bwrw ymlaen â'r cynnig hwn, yna rydym yn cynnig gwneud diwygiad technegol i reoliadau<sup>42</sup> ynghylch ôl-ddyddio, fel y gall yr ymgeisydd fod â hawl mewn perthynas ag unrhyw help cyfreithiol a gyflawnwyd cyn gwneud cais llwyddiannus am help cyfreithiol o dan y Cynllun Ariannu Achosion Eithriadol neu am help cyfreithiol ar wahân. Os gwneir y diwygiadau hyn, bydd darparwyr yn gallu parhau i dderbyn cyllid wedi'i ôl-ddyddio ar gyfer help cyfreithiol mewn cwest lle mae help cyfreithiol ar gael drwy brawf nad yw'n cynnwys asesiad o fodd (boed yn help cyfreithiol ar wahân neu'n dilyn cais llwyddiannus i'r Cynllun Ariannu Achosion Eithriadol), yn hytrach na thrwy'r hepgoriad presennol.

**Cwestiwn 50:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i ddiwygio darpariaethau ôl-ddyddio fel y bydd darparwyr yn gallu parhau i gael cyllid ar gyfer help cyfreithiol mewn perthynas â chwest sydd wedi'i ôl-ddyddio i ddyddiad y cais (boed hwnnw am help cyfreithiol ar wahân neu'n dilyn cais llwyddiannus i'r Cynllun Ariannu Achosion Eithriadol)? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

---

<sup>42</sup> Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Gweithdrefn) 2012 (legislation.gov.uk) Mae rheoliadau 23, 35 a 68 yn darparu ar gyfer disgresiwn i ôl-ddyddio.

## **Pennod 6: Trothwyon incwm a chyfalaf, pasbortio a chyfraniadau Llys y Goron**

343. Mae'r bennod hon yn amlinellu ein cynigion ar gyfer prawf modd Llys y Goron a'r system gyfraniadau gysylltiedig, yn cynnwys ein dull o drafod pasbortio drwy fudd-daliadau a'r profion modd ar gyfer apelau a gwrandawiadau dedfrydu yn Llys y Goron.
344. Cyflwynwyd prawf modd presennol Llys y Goron yn raddol rhwng Ionawr a Mehefin 2010, gan dynnu ar brawf modd y llys ynadon a gyflwynwyd yn Hydref 2006. Pan weithredwyd cynllun Llys y Goron, nid oedd trothwy ariannol uchaf – roedd yr holl ddiffynyddion yn Llys y Goron yn gymwys am gymorth cyfreithiol. Fodd bynnag, yn Ionawr 2014 cyflwynwyd trothwy uchaf ar incwm gwario o £37,500, yn cyfyngu cymhwystra am gymorth cyfreithiol ar gyfer cynrychiolaeth yn Llys y Goron i ddiffynyddion sydd â'r incymau mwyaf. Mae crynodeb o brawf modd presennol Llys y Goron ym Mhennod 1 (paragraffau 62–71).
345. Mae'r bennod hon yn amlinellu ein cynigion i ychwanegu rhai didyniadau pellach at yr asesiad o incwm gwario; i gynyddu'r trothwyon isaf ar incwm gwario ac incwm gros ar gyfer cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron i adlewyrchu cynnydd mewn costau ers cynyddu'r trothwyon ddiwethaf; i ddileu'r trothwy uchaf ar incwm gwario; ac i wneud rhai newidiadau yn ein dull o drafod cyfraniadau incwm a chyfalaf.

### **Trothwyon incwm**

346. Nid oes trothwy uchaf ar incwm gros yn Llys y Goron – nid yw ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol sydd ag incwm gros uchel yn cael eu diystyru ar gyfer cymhwystra fel y maent ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a chymorth cyfreithiol yn y llys ynadon. Nid oes gennym fwriad i isod trothwy o'r fath, am ein bod yn credu na ddylid diystyru diffynyddion yn Llys y Goron ar gyfer cymhwystra ar sail eu hincwm gros, gan nad yw hynny drwy ddiffiniad yn cymryd i ystyriaeth a fydd y diffynnydd yn gallu talu am ei amddiffyniad ar gyfraddau preifat.

### **Trothwy isaf ar incwm gros**

347. Pwrpas y trothwy isaf ar incwm gros ar gyfer cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron a'r llys ynadon, sef £12,475 ar hyn o bryd, yw lleihau'r baich gweinyddol i ymgeiswyr, darparwyr a'r LAA, drwy adnabod ymgeiswyr sydd ag incwm gros sy'n ddigon isel fel eu bod yn debygol dros ben o fodloni'r prawf incwm gwario.

348. Ar ôl dadansoddi'r trothwy isaf presennol ar incwm gros, gwelsom fod y trothwy yn caniatáu i gyfran sylweddol o'r ymgeiswyr dderbyn cymorth cyfreithiol anghyfrannol yn Llys y Goron tra byddai wedi bod yn ofynnol iddynt dalu cyfraniad incwm pe byddent wedi mynd drwy'r asesiad o incwm gwario. Yn yr un modd, mae'n caniatáu i rai ymgeiswyr dderbyn cymorth cyfreithiol yn y llys ynadon tra byddent wedi methu'r prawf presennol ar gyfer incwm gwario.
349. Er mwyn gwneud iawn am hyn, rydym yn cynnig diwygio'r trothwy isaf ar incwm gros fel y bydd yn debygol o gael ei basio dim ond gan ymgeiswyr a fyddai hefyd yn bodloni ein prawf arfaethedig ar gyfer incwm gwario. Rydym yn cynnig y dylid gosod y trothwy isaf newydd ar gyfer incwm gros ym mhroffion y llys ynadon a Llys y Goron ar £13,000. Bydd hyn yn cysoni'r trothwy isaf ar gyfer incwm gros â'r newidiadau arfaethedig yn y trothwyon incwm gwario yn Llys y Goron a'r llys ynadon (a amlinellir ym mharagraffau 364–366 isod ac ym Mhennod 7, paragraffau 437–450).

**Cwestiwn 51:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i gynyddu'r trothwy isaf ar incwm gros am gymorth cyfreithiol yn Llys y Goron i £13,000 ar gyfer unigolyn? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

350. Fel y nodwyd ym Mhennod 2 (paragraffau 92–96), rydym hefyd yn cynnig newid ein dull o gyfwertholi'r trothwy incwm gros, drwy ddefnyddio dull Addasedig OECD (Cyn Costau Tai (BHC)) er mwyn cymryd i ystyriaeth y costau sydd gan aelwydydd o gyfansoddiadau gwahanol. Drwy ddefnyddio'r mesur cyfwerthedd BHC, ar gyfer pob oedolyn ychwanegol neu blentyn 14 oed neu hŷn, byddai'r trothwy yn cynyddu 50% o'r trothwy incwm gros ar gyfer un oedolyn; ar gyfer plentyn dan 14 oed, y ffigur cyfatebol yw 30%.
351. Gweler Pennod 2, paragraff 97 lle mae cwestiwn ymgynghori am y dull o weithredu a gynigir ar hyn.

### **Asesu incwm gwario**

352. Fel y nodwyd ym Mhennod 1 (paragraff 66), i ddibenion prawf modd Llys y Goron, cyfrifir incwm gwario drwy ddiynnu'r canlynol o'r incwm gros:
- treth, Yswiriant Gwladol, costau tai, Treth Gyngor, taliadau gofal plant a chynhaliadau plant yr ymgeisydd
  - Lwfans Costau Byw penodedig (£5,676 y flwyddyn ar hyn o bryd ar gyfer un person)
  - didyniadau ychwanegol ar gyfer partner a/neu blant dibynnol (os yw'n berthnasol).
353. Mae hawl gan ymgeiswyr sydd ag incwm gwario blynyddol o £3,398 neu lai i gael cymorth cyfreithiol anghyfrannol; mae hawl gan y rheini sydd ag incwm gwario o fwy

na £3,398 a dim mwy na £37,500 i gael cymorth cyfreithiol gyda chyfraniad incwm misol.

354. Nid yw ymgeiswyr sydd ag incwm gwario o fwy na £37,500 y flwyddyn yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol Llys y Goron, oni bai eu bod yn gwneud cais llwyddiannus i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol am adolygiad o gymhwysra, a fydd yn cymryd i ystyriaeth alldaliadau ychwanegol a'r costau dichonol o gael cynrychiolaeth breifat.<sup>43</sup> Os byddant wedi gwneud cais am gymorth cyfreithiol, wedi cael eu gwrthod ar sail incwm gwario, ac wedyn wedi'u rhyddfarnu, gallant hawlio'n ôl am gostau preifat eu hamddiffyniad, wedi'u capio ar gyfraddau cymorth cyfreithiol, drwy Orchymyn Costau Diffynnydd.
355. Fel yr eglurwyd ym Mhennod 2 (paragraffau 99–119), rydym yn cynnig gwneud rhai didyniadau ychwanegol yn yr asesiad o incwm gwario ar gyfer pob math o gymorth cyfreithiol. Y rhain yw cyfraniadau pensiwn deiliad swydd hyd at 5% o'i enillion; ad-daliadau benthyciad myfyriwr wedi'u tynnu o'r cyflog, ac ad-daliadau dyledion blaenoriaethol a gytunwyd. Rydym wedi gofyn rhai cwestiynau am y didyniadau arfaethedig hyn ym Mhennod 2.
356. Ar hyn o bryd, mae'r prawf modd am gymorth cyfreithiol sifil yn cynnwys lwfans ychwanegol o £45 y mis ar gyfer unrhyw aelodau o'r aelwyd sydd mewn gwaith, i ystyried costau teithio yn y gwaith ac unrhyw gostau eraill cysylltiedig â gwaith.
357. Nid yw'r profion modd ar gyfer Llys y Goron a'r llys ynadon yn cynnwys lwfans gwaith ar hyn o bryd. Rydym yn cynnig cynnwys lwfans o'r fath yn y profion modd hyn, gan ein bod yn credu ei fod yn gyson â pholisi llywodraeth ehangach i hyrwyddo gwaith a sicrhau bod oedolion o oedran gweithio yn well eu byd mewn gwaith nag y byddent yn ddi-waith. Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 2 (paragraffau 107–108), rydym yn cynnig uwchraddio'r lwfans hwn i £66 y mis ar gyfer holl aelodau'r aelwyd sydd mewn gwaith, gan dynnu ar ymchwil ddiweddar i gostau teithio mewn gwaith.

**Cwestiwn 52:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i gynnwys lwfans gwaith i holl aelodau'r aelwyd sydd mewn gwaith ym mhrawf modd Llys y Goron? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

**Cwestiwn 53:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i osod y lwfans gwaith ar £66 y mis? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

---

<sup>43</sup> Mae rhagor o fanylion am y prosesau adolygu ar gyfer caledi a chymhwysra yn y Llawlyfr Cymorth Cyfreithiol Troseddol ([publishing.service.gov.uk](http://publishing.service.gov.uk)).

### **Lwfans Costau Byw**

358. Fel y nodwyd ym Mhennod 1 (paragraff 66), mae prawf modd Llys y Goron yn cynnwys Lwfans Costau Byw, gan ddilyn dull o weithredu a ddatblygwyd yn wreiddiol ar gyfer prawf modd y llys ynadon. Ei lefel bresennol yw £5,676 y flwyddyn (£473 y mis), ar ôl ei uwchraddio ddiwethaf yn 2008.
359. Yn wreiddiol, roedd y Lwfans Costau Byw wedi'i seilio ar wariant cyfartalog aelwydydd (fel y'i cofnodwyd yn arolwg blynyddol yr ONS o Gostau Byw a Bwyd) ar nifer o wahanol eitemau, yn cynnwys yr holl wariant a ystyrir yn hanfodol ond heb gynnwys alcohol a thybaco, bwytai a gwestai, a diwylliant a hamdden, er mwyn asesu maint yr incwm y mae ar unigolion ei angen i dalu eu costau byw hanfodol cyn gallu cyfrannu swm at eu costau cyfreithiol.
360. Credwn fod y dull hwn yn un dibynadwy o hyd, gan ei fod yn ystyried gwariant cyfartalog aelwydydd ar eitemau hanfodol, gan sicrhau felly na fydd diffnyddion yn gorfod aberthu gwariant hanfodol i dalu cyfraniadau incwm at eu costau cymorth cyfreithiol. Felly rydym wedi defnyddio Arolwg Costau Byw a Bwyd yr ONS ar gyfer 2019–20 i ddatblygu lwfans uwchraddedig. Drwy ddefnyddio'r dull hwn, y Lwfans Costau Byw misol y byddem yn ei gynnig ar gyfer Llys y Goron yw £713 (£8,556 y flwyddyn).

**Cwestiwn 54:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i gynyddu'r Lwfans Costau Byw ar gyfer prawf modd Llys y Goron i £713 y mis (£8,556 y flwyddyn)? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### **Didyniadau ar gyfer dibynyddion**

361. Fel yr eglurwyd ym Mhennod 2 (paragraffau 92–96), rydym hefyd yn cynnig newid ein dull o gyfwertholi, drwy ddefnyddio dull Addasedig OECD (Ar Ôl Costau Tai (AHC)) i gymryd i ystyriaeth y costau ar aelwydydd o gyfansoddiadau gwahanol. Gweler Pennod 2, paragraff 96 lle mae cwestiwn ymgynghori am y dull o weithredu a gynigir.
362. Er mwyn asesu incwm gwario, rydym yn cynnig gosod lwfansau penodedig ar gyfer oedolion ychwanegol a phlant, ar sail cyfrifiad o gyfwerthedd AHC y Lwfans Costau Byw. Y mesur cyfwerthedd AHC yw 72% o'r trothwy isaf ar incwm gwario ar gyfer pob oedolyn ychwanegol a phlentyn 14 oed neu hŷn; a 34% o'r trothwy isaf ar incwm gwario ar gyfer pob plentyn dan 14 oed.
363. Felly, y didyniad a gynigir ar gyfer oedolyn ychwanegol neu blentyn 14 oed neu hŷn yw £513 y mis, a'r didyniad a gynigir ar gyfer plentyn dan 14 oed yw £242 y mis.

**Cwestiwn 55:** a ydych yn cytuno â'r didyniadau a gynigiwn ar gyfer dibynyddion o £513 y mis ar gyfer pob oedolyn ychwanegol a phlentyn 14 oed neu hŷn, a £242 y mis ar gyfer pob plentyn dan 14 oed? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### **Trothwy isaf ar incwm gwario**

364. Ar hyn o bryd, mae'r diffiniad o incwm gwario yn y profion modd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a throreddol yn wahanol i'w gilydd. Yn y prawf modd cymorth cyfreithiol sifil, y diffiniad o incwm gwario yw'r incwm sy'n weddill ar ôl didynnu treth, Yswiriant Gwladol, costau tai a gofal plant a didyniadau ar gyfer aelodau eraill yr aelwyd. Fodd bynnag, yn y prawf modd cymorth cyfreithiol troreddol, y diffiniad o incwm gwario yw'r incwm sy'n weddill ar ôl y didyniadau hyn a hefyd ar ôl didynnu'r Lwfans Costau Byw.
365. Os oes gan ddiffynyddion incwm gwario (o dan y system bresennol) sy'n llai na £3,398 y flwyddyn, bydd hawl ganddynt i dderbyn cymorth cyfreithiol Llys y Goron heb dalu cyfraniadau. Datblygwyd y lwfans hwn o £3,398 ar gyfer prawf modd y llys ynadon ac mae wedi'i osod ar lefel sy'n cyfateb yn fras i gostau cynrychiolaeth breifat yn y fan honno, er mwyn sicrhau bod diffynyddion yn y llys ynadon a fethodd y prawf modd yn gallu fforddio talu am amddiffyniad preifat (gweler Pennod 7, paragraffau 443–445).
366. Credwn nad oes angen y lwfans hwn ar gyfer prawf Llys y Goron, lle mae hawl o hyd gan ymgeiswyr i dderbyn cymorth cyfreithiol, gyda chyfraniadau incwm, os yw eu hincwm yn fwy na'r trothwy isaf ar incwm gwario ond yn llai na £37,500 y flwyddyn. Felly, rydym yn bwriadu strwythuro'r trothwy incwm gwario ar gyfer Llys y Goron yn yr un ffordd ag ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil fel y bydd y trothwy isaf ar incwm gwario yn gyfwerth â'r Lwfans Costau Byw sy'n gymwysadwy i un person; ac fel y gallai fod yn ofynnol i rywun dalu cyfraniad incwm os yw ei incwm gwario yn uwch na'r lefel hon. Bydd y dull hwn o weithredu yn ei gwneud yn haws deall ein trothwyon ar gyfer Llys y Goron (mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym eu bod yn cael y dull presennol yn un dyrys) ac yn gwella'r cysondeb rhwng y profion modd sifil a throreddol. Mae enghreifftiau wedi'u gweithio o'r prawf modd newydd yn **Atodiad E**.

**Cwestiwn 56:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i gysoni'r trothwy isaf ar incwm gwario yn Llys y Goron â'r Lwfans Costau Byw? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.



### **Trothwy uchaf ar incwm gwario**

367. Hyd at 2014 nid oedd trothwy cymhwysra uchaf ar gyfer cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron – roedd yr holl ymgeiswyr yn gymwys am gymorth cyfreithiol, er y gallai fod yn ofynnol talu cyfraniadau incwm os oedd incwm yr ymgeisydd yn fwy na'r trothwy isaf ar incwm gwario. Eglurwyd y sail resymegol dros y trothwy uchaf ar incwm gwario yn nogfen ymgynghori'r Weinyddiaeth Gyfiawnder *Transforming Legal Aid* (2013), paragraff 3.29, a oedd yn datgan:
- "We consider that a defendant with this level of annual disposable income should generally be able to afford to pay for legal services in the Crown Court on a private basis."*
368. Os bydd diffynnydd wedi gwneud cais am gymorth cyfreithiol ond wedi'i gael yn anghymwys am fod ei incwm gwario yn fwy na'r trothwy uchaf, ac wedi cael ei ryddfarnu, bydd hawl ganddo i gael ad-daliad rhannol o'i gostau amddiffyn preifat, drwy Orchymyn Costau Diffynnydd, ar sail cyfraddau cymorth cyfreithiol yn hytrach na'r hyn a dalodd yn breifat.
369. Codwyd rhai pryderon ynghylch y dull hwn o weithredu, oherwydd byddai diffynnydd yn Llys y Goron a gafodd ei ryddfarnu yn gallu gweld ei fod ar ei golled, er gwaethaf hynny, oherwydd y gwahaniaeth rhwng y ffioedd cyfreithiol preifat a dalodd am ei amddiffyniad a'r ad-daliad y mae'n ei gael (sydd fel arfer yn llai) ar gyfraddau cymorth cyfreithiol.
370. Felly, rydym yn cynnig dychwelyd at bolisi prawf modd Llys y Goron a oedd ar waith cyn cyflwyno'r trothwy uchaf ar incwm gwario, drwy ddileu'r trothwy uchaf ar incwm gwario ar gyfer cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron. Mae hyn yn golygu y bydd hawl gan yr holl ddiffynnyddion, heb ystyried y modd sydd ganddynt, i gael cymorth cyfreithiol ar gyfer eu cynrychioli. Fel y mae ar hyn o bryd, ni fydd diffynnyddion sy'n penderfynu peidio ag ymgeisio am gymorth cyfreithiol ar gyfer cynrychiolaeth, neu beidio â derbyn cynnig ohono, yn cael unrhyw ad-daliad am gostau preifat ar ôl eu rhyddfarnu.
371. Canlyniad y newid arfaethedig yw y byddai nifer bach o unigolion ag incwm uchel sydd heb hawl i gael cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron ar hyn o bryd yn gallu cael budd o gynrychiolaeth a ariennir gan y cyhoedd. Fodd bynnag, bydd unigolion o'r fath yn atebol fel arfer, os byddant yn derbyn cynnig o gymorth cyfreithiol, i dalu cyfraniadau incwm misol am hyd at 18 mis (gweler paragraff 375 isod). Rydym yn rhag-weld mewn nifer o achosion y bydd y cyfraniadau incwm hyn yn talu'r holl gostau cymorth cyfreithiol ar gyfer cynrychiolaeth, yn enwedig mewn achosion hir. Yn ogystal â hyn, byddai unigolion sydd ag asedau cyfalaf sylweddol yn gallu dod yn atebol, os cânt euogfarn, am dalu gweddill unrhyw gostau cymorth cyfreithiol sydd heb eu talu o'u hasedau cyfalaf drwy osod Gorchymyn Cyfraniad Cyfalaf.

**Cwestiwn 57:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i ddileu'r trothwy uchaf ar incwm gwario ar gyfer cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### Enghreifftiau wedi'u gweithio

#### *Enghraifft 1*

Mae gan Ddiffynnydd S un plentyn 12 oed ac incwm aelwyd gros misol o £3,000.

**Asesiad o incwm gwario:** yn dilyn didyniadau am dreth incwm, Yswiriant Gwladol, gofal plant, cyfraniadau pensiwn, costau tai a threth gyngor (cyfanswm o £1,893), y lwfans gwaith o £66, a didyniad o £242 am un plentyn dibynnol dan 14 oed, incwm gwario Diffynnydd S fyddai £799.

Byddai Diffynnydd S **yn gymwys am gymorth cyfreithiol yn Llys y Goron gyda chyfraniad incwm misol.**

#### *Enghraifft 2*

Mae gan Ddiffynnydd T bartner a dau blentyn 6 a 3 oed, ac incwm aelwyd gros misol o £5,000.

**Asesiad o incwm gwario:** yn dilyn didyniadau am dreth incwm, Yswiriant Gwladol, cyfraniadau pensiwn, gofal plant, costau tai a threth gyngor (cyfanswm o £3,547), y lwfans gwaith o £66 ar gyfer Diffynnydd T ac ar gyfer ei bartner, a didyniad am un oedolyn dibynnol a dau blentyn dibynnol dan 14 oed o £997, incwm gwario Diffynnydd T fyddai £324.

Byddai Diffynnydd T **yn gymwys am gymorth cyfreithiol yn Llys y Goron heb unrhyw ofyniad i dalu cyfraniad.**

## Cyfraniadau

372. Fel y nodwyd yn y Cyflwyniad (paragraff 25), credwn ei bod yn bwysig bod y rheini sy'n gallu fforddio cyfrannu at eu costau cyfreithiol yn gwneud hynny. Ym Mhennod 1 (paragraffau 68–71), amlinellir ein dull presennol o drafod cyfraniadau incwm a chyfalaf yn Llys y Goron. Bob blwyddyn, gofynnir i tua 8,000 i 9,000 o ddiffynnyddion yn Llys y Goron dalu o dan orchymyn cyfraniad incwm. Hefyd rhoddir gorchmynion cyfraniad cyfalaf i tua 1,500 i 2,000 o ddiffynnyddion bob blwyddyn, sef rhwng 2% a 3% o'r rheini sy'n derbyn cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron, a'u gwerth cyfartalog yw £15,000.

## Cyfraniadau incwm

373. Ym Mhennod 2 (paragraffau 144–152), amlinellir ein dull arfaethedig newydd o ddelio â chyfraniadau incwm ar gyfer cynrychiolaeth mewn achosion sifil ac yn Llys y Goron.

### *Cyfnod talu*

374. Yn Llys y Goron, roedd y cyfnod presennol o 6 mis ar gyfer talu cyfraniadau incwm wedi'i seilio ar hyd cyfartalog achos yn Llys y Goron yn 2008/09 (wedi'i fesur o'r dyddiad cyhuddo hyd at gwblhau'r treial). Yn ymarferol, bydd 4 taliad misol yn ddyledus ar gyfartaledd o dan bob gorchymyn cyfraniad incwm. Er hynny, gall rhai achosion bara'n hirach o lawer a bydd costau'r amddiffyniad ynddynt yn llawer mwy. Oherwydd hynny, credwn ei bod yn rhesymol ac yn deg gofyn i ddiffynyddion dalu mwy ar gyfartaledd nag y byddent mewn achos byrrach.
375. Felly, rydym yn cynnig ymestyn y cyfnod y mae cyfraniadau incwm yn daladwy ar ei gyfer, i 18 mis ar y mwyaf (neu hyd yr achos, os yw'n fyrrach). Ochr yn ochr â'r cynnydd arfaethedig yn y trothwy o £37,500, bydd hyn yn caniatáu i ni gasglu mwy ar gyfartaledd oddi wrth unigolion sydd ag incwm uchel iawn nad ydynt yn gymwys am gymorth cyfreithiol ar hyn o bryd.
376. Gan fod 98% o holl achosion Llys y Goron yn cael eu cwblhau o fewn 18 mis (ar sail data 2019–20), gallai'r LAA gasglu mwy o daliadau o dan orchmynion cyfraniad incwm o achosion hirach oddi wrth y rheini sydd ag incymau gwario mwy, o'i gymharu â'r cyfnod talu hiraf presennol o 6 mis. Fel sy'n digwydd nawr, os cwblheir yr achos cyn diwedd y cyfnod talu, ni fyddai taliadau ychwanegol yn ofynnol ar ôl y pwynt cynharach hwn.
377. Byddai'r cyfnod talu estynedig yn rhoi sicrwydd o hyd i'r diffynnydd o ran yr uchafswm y gallai orfod ei dalu mewn cyfraniadau incwm. Ar yr un pryd, byddwn yn cadw'r mesur diogelu cyffredinol sef bod diffynnyddion a gafodd eu rhyddfarnu i gael ad-daliad am unrhyw gyfraniadau incwm ynghyd â llog.
378. Rydym yn cydnabod y gellir cael ad-daliadau o werth uwch am daliadau o dan orchmynion cyfraniad incwm, gan y bydd rhai diffynnyddion yn talu mwy o dan y cyfnod talu arfaethedig o 18 mis yn hytrach na'r cyfnod talu presennol o 6 mis (gallai hyn ddigwydd mewn perthynas â diffynnyddion a gafodd eu rhyddfarnu a hefyd mewn perthynas â diffynnyddion a gafodd euogfarn sydd wedi talu cyfraniadau incwm sy'n dod i gyfanswm sy'n fwy na chostau eu hamddiffyniad). Er y gallai hyn arwain at faich gweinyddol ychwanegol, drwy gadw'r cap ar gostau ar gyfer pob math o drosedd<sup>44</sup>

---

<sup>44</sup> Byddwn yn adolygu effaith ddichonol yr Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol, yn enwedig mewn perthynas ag unrhyw newidiadau yn strwythurau neu symiau ffioedd, a byddwn yn addasu'r mecanwaith cap costau i adlewyrchu newidiadau o'r fath, fel y bo'n briodol. Mae manylion y cap costau presennol wedi'u nodi yn Rheoliad 15 o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Gorchmynion Cyfraniad) 2013/Rhif OS 483.

dylid gallu lleihau, os nad dileu, y risg o dalu mwy na chostau tebygol ei achos gan unrhyw ddiffynnydd. Mae'r cap wedi'i seilio ar gost gyfartalog cymorth cyfreithiol am bob dosbarth trosedd, er nad yw'n cynnwys y 10% o achosion drutaf fel na fydd achosion sy'n "allanolynnau" yn ystumio'r ffigur yn ormodol. Os bydd taliadau incwm misol cronol y diffynnydd yn cyrraedd y cap, gohirir unrhyw daliadau incwm pellach. Gan fod y cap presennol wedi'i osod yn 2010, rydym yn cynnig ei ddiweddarau i adlewyrchu'r costau ym mhob dosbarth trosedd yn y cyfnod yn union cyn y pandemig.

379. Ar hyn o bryd, mae'r diffynnydd yn esempt rhag chweched taliad misol y gorchymyn cyfraniad incwm os bydd wedi talu'r pum taliad cyntaf yn brydlon. Rydym yn cynnig cadw'r egwyddor o gymell talu drwy ymestyn hyn yn gymesur i gyfnod talu o 18 mis. Byddai hyn yn golygu esemptio taliad am un mis yn yr amserlen ad-dalu ym misoedd 6, 12 a 18, ar yr amod bod taliadau ym misoedd 1 i 5, 7 i 11, a 13 i 17 wedi'u gwneud yn brydlon. Fel y mae ar hyn o bryd, bydd opsiwn i'r diffynnydd setlo ei holl atebolrwydd am dalu cyfraniadau incwm drwy wneud cyfandaliad a chael yr un disgownt i'w gymell i dalu.

**Cwestiwn 58:** a ydych yn cytuno â'n cynnig ar gyfer cyfnod hiraf i dalu cyfraniadau incwm o 18 mis? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

**Cwestiwn 59:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i gynnwys cymhelliad talu yn yr amserlen ad-dalu o 18 mis wedi'i seilio ar esemptiad ym misoedd 6, 12 a 18 ar yr amod bod yr holl daliadau misol blaenorol (misoedd 1 i 5, 7 i 11, a 13 i 17) wedi'u gwneud yn brydlon? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

**Cwestiwn 60:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i gadw'r opsiwn i'r diffynnydd setlo ei holl atebolrwydd am dalu cyfraniadau incwm drwy un cyfandaliad neu nifer o randaliadau? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

**Cwestiwn 61:** a oes gennych unrhyw syniadau neu sylwadau mwy cyffredinol ynghylch pa mor effeithiol yw'r cymhelliad talu neu'r cyfleuster i dalu cyfandaliad o ran gwella a hyrwyddo cydymffurfiaeth gyffredinol y diffynnydd â'r gofynion am wneud taliadau? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

#### *Model cyfraniadau haenog*

380. Ar hyn o bryd, bydd diffynnyddion sydd ag incwm blynyddol gros o fwy na £12,475 yn mynd drwy asesiad o'u hincwm gwario blynyddol – os bydd hwn yn fwy na £3,398, yna rhaid iddynt dalu cyfraniad incwm misol wedi'i gyfrifo ar  $1/12^{\text{fed}}$  o 90% o'u hincwm gwario blynyddol (nid ar y rhan honno o'u hincwm gwario sy'n fwy na'r trothwy o £3,398 yn unig). Er bod y cyfrifiad hwn yn gymharol syml o safbwynt gweinyddol, mae'r trothwy o £3,398 yn gweithio fel 'ymyl dibyn' i bob pwrpas, oherwydd os bydd

diffynnydd sydd ag incwm gwario sydd ar y trothwy hwn neu o dano, ni fydd yn talu cyfraniad incwm o gwbl.

381. Wrth i ni symud at y trefniadau newydd ar gyfer profion modd, yn cynnwys y trothwyon newydd, rydym am sicrhau ein bod yn mabwysiadu mecanwaith mwy graddoledig ar gyfer cyfrifo cyfraniadau incwm.

382. Felly, rydym yn cynnig cyflwyno mecanwaith cyfraniadau haenog (gweler Pennod 2, paragraff 148) a fydd hefyd yn cysoni ein dull polisi ar y mater hwn â hwnnw ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil. Felly, ar gyfer y diffynyddion hynny sydd ag incwm blynyddol gros sy'n fwy na'r trothwy isaf arfaethedig ar incwm gros o £13,000, rydym yn cynnig gosod cyfraddau cyfrannu ar 40%/60%/80% o'u hincwm gwario misol, i'w cymhwyso fel a ganlyn:

Cyfradd o 40% a fydd yn gymwys rhwng £697 a £1,000

Cyfradd o 60% a fydd yn gymwys rhwng £1,000 a £1,250

Cyfradd o 80% a fydd yn gymwys dros £1,250

### **Enghreifftiau wedi'u gweithio**

#### *Enghraifft 1*

Mae gan Ddiffynnydd U incwm gwario misol o £1,100

Ar gyfer ei gyfraniad incwm misol, bydd yn talu 40% o'i incwm gwario rhwng £697 a £1,000 (£121.20); 60% o'i incwm gwario rhwng £1,000 a £1,250 (£60).

Cyfanswm y cyfraniad incwm misol = £181.20

#### *Enghraifft 2*

Mae gan Ddiffynnydd V incwm gwario misol o £1,500

Ar gyfer ei chyfraniad incwm misol, bydd yn talu 40% o'i hincwm gwario rhwng £697 a £1,000 (£121.20); 60% o'i hincwm gwario rhwng £1,000 a £1,250 (£150); ac 80% o'i hincwm gwario dros £1,250 (£200).

Cyfanswm y cyfraniad incwm misol = £471.20

#### *Cyfraniad misol lleiaf*

383. Ochr yn ochr â'r ystyriaethau a nodwyd uchod, mae angen sicrhau hefyd y bydd unrhyw fodel profion modd newydd yn gosteffeithiol o safbwynt gweinyddol. Rydym wedi amcangyfrif, drwy gydweithio â'r LAA, sy'n rheoli'r trefniadau i gasglu cyfraniadau misol, fod angen gosod y cyfraniad incwm misol lleiaf ar lefel o £100 er mwyn gallu ei weithredu.

384. Er bod 4 o daliadau misol yn ddyledus ar gyfartaledd o dan bob gorchymyn cyfraniad misol, yn cyfateb i hyd arferol achosion Llys y Goron, mae tua 30% i 40% o

orchmynion cyfraniad incwm yn galw am ddim ond 1-2 o daliadau misol (fel arfer, bydd hyn yn codi mewn achosion lle mae treial byr iawn neu lle cafwyd ple euog); o ganlyniad i hyn, bydd unrhyw daliad misol lleiaf o lai na £100 yn peryglu'r gallu i gasglu cyfraniadau misol yn gosteffeithiol yn yr achosion byrrach hyn. Yn ymarferol, mae'r cynnydd yn y Lwfans Costau Byw ac yn y taliad misol lleiaf newydd yn golygu ein bod yn cynyddu'r trothwy incwm gwario misol lle nad yw cyfraniadau incwm yn daladwy o £697 i £947.

**Cwestiwn 62:** a ydych yn cytuno â dull ein model cyfraniadau haenog (40%/60%/80%) gyda thaliad misol lleiaf o £100 i bennu'r cyfraniad incwm? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

#### *Proses adolygu*

385. Os bydd y diffynnydd yn credu bod y cyfraniadau incwm y gofynnir eu talu yn rhai anfforddiadwy (o ganlyniad, fel arfer, i wariant ychwanegol anochel nad oedd wedi'i ystyried yn yr asesiad safonol o incwm gwario), yna gall wneud cais i'r LAA am adolygiad caledi, a all arwain at ailasesu ei gyfraniad incwm. Rydym yn cynnig parhau â phroses yr adolygiad caledi fel y mae nawr.

**Cwestiwn 63:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i barhau â phroses yr adolygiad caledi ar gyfer cymorth cyfreithiol yn Lllys y Goron? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

#### *Codi llog ar gyfraniadau o dan orchymyn cyfraniad incwm sydd heb eu talu*

386. Ar hyn o bryd, mae disgrisiwn gan Gyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (CGACC) yr LAA i ychwanegu adlog o 6% at gyfraniadau sydd heb eu talu o dan orchmynion cyfraniad incwm. Ar gyfer y dyfodol, rydym yn cynnig y dylai'r penderfyniad barhau i fod yn un sy'n dibynnu ar ddisgrisiwn CGACC – pan fydd cyfraniadau incwm yn dod yn ddyledus, nid yw'r unigolyn wedi'i gael yn euog felly byddai gofyniad i godi llog yn gallu ymddangos fel cosb.

387. Er mwyn sicrhau cysondeb wrth gymhwyso'r pŵer disgrisiynol, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r LAA yn cyhoeddi canllawiau maes o law. Yn gyffredinol, ni fyddem yn codi llog os gwnaed y taliad yn brydlon. Rydym yn cydnabod y gellir methu dyddiad talu os wynebier heriau ymarferol wrth gysylltu â'r diffynnydd (er enghraifft, os yw'n cael ei gadw yn y ddalfa ar remánd); nid yw hyn yn golygu bod y diffynnydd yn osgoi cysylltu ac, unwaith y cysylltir ag ef, gellir cychwyn neu ailgychwyn taliadau – nid ydym yn rhag-weld y byddai llog yn cael ei godi mewn achosion o'r fath. Er hynny, gallem godi llog mewn achosion os oes tystiolaeth o amharoddrwydd sylweddol i gydymffurfio ar ran y diffynnydd.

388. Wrth godi llog, rydym yn cynnig mabwysiadu arfer CThEM o godi llog syml (nid adlog) ar dreth sydd heb ei thalu. Mae CThEM yn dibynnu ar y fformiwla ganlynol – cyfradd sylfaenol Banc Lloegr (0.5% ar hyn o bryd) ynghyd â 2.5%. Felly, rydym yn cynnig y dylid codi llog syml o 3% y flwyddyn ar gyfraniadau o dan orchymyn taliad incwm sydd heb eu talu. Os bydd y gyfradd sylfaenol yn amrywio ymhellach cyn gweithredu hyn, byddem yn addasu'r gyfradd a gynigiwn yn unol â hynny. Fodd bynnag, er mwyn rhoi sicrwydd i'r unigolyn, ni fyddem yn cynnig gosod cyfradd llog amrywiadwy ar ôl gweithredu'r cynnig hwn ond yn cadw'r gyfradd llog yn sefydlog, er y byddem yn ymrwymo i'w hadolygu yn rhan o'n hymrwymiad polisi cyffredinol i adolygu'r prawf modd newydd o fewn 3 i 5 mlynedd ar ôl ei weithredu.

**Cwestiwn 64:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i godi llog syml ar sail ddisgresiynol ar gyfraniadau o dan orchymyn cyfraniad incwm sydd heb eu talu, gan ddibynnu ar gyfradd sylfaenol Banc Lloegr ar adeg gweithredu'r cynnig hwn ynghyd â 2.5% er mwyn pennu'r gyfradd llog berthnasol?

Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau, yn cynnwys a fydddech o blaid mabwysiadu cyfradd llog amrywiadwy yn hytrach nag un sefydlog, yn ogystal â'ch barn am y gyfradd llog benodol rydym yn ei chynnig.

#### *Codi llog ar ad-daliadau o gyfraniadau incwm*

389. Ar hyn o bryd, rydym yn codi adlog o 2% ar gyfraniadau incwm sy'n cael eu had-dalu yn dilyn rhyddfarnu neu ordalu. Wrth symud at y trefniadau newydd ar gyfer profion modd, rydym yn cynnig cysoni ein dull cyffredinol o weithredu ag un CThEM sy'n addalu gordaliadau treth ar log syml sy'n 1% yn is na chyfradd sylfaenol Banc Lloegr, hyd at log lleiaf o 0.5%. Os bydd y gyfradd sylfaenol yn amrywio eto cyn gweithredu'r cynnig, byddem yn addasu'r gyfradd rydym yn ei chynnig yn unol â'r fformiwla hon. Fodd bynnag, ni fyddem yn bwriadu addasu'r gyfradd ymhellach drwy ddilyn cyfradd amrywiadwy ar ôl gweithredu'r cynnig ond yn cadw'r gyfradd llog yn sefydlog; byddem yn ymrwymo i adolygu'r gyfradd llog yn rhan o'n hymrwymiad polisi cyffredinol i adolygu'r prawf modd newydd o fewn 3 i 5 mlynedd.

**Cwestiwn 65:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i godi llog syml ar ad-daliadau o gyfraniadau incwm yn dilyn rhyddfarnu neu ordalu? Er mwyn gosod y gyfradd llog, byddem yn dibynnu ar gyfradd sylfaenol Banc Lloegr a thynnu 1%, hyd at gyfradd isaf o 0.5%.

Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau, yn cynnwys a fydddech o blaid mabwysiadu cyfradd llog amrywiadwy yn hytrach nag un sefydlog, yn ogystal â'ch barn am y gyfradd llog benodol rydym yn ei chynnig.

### **Cyfraniadau cyfalaf**

390. Os ceir y diffynnydd yn euog yn Llys y Goron, gall ddod yn atebol i dalu gweddill unrhyw gostau cymorth cyfreithiol sydd heb eu talu o'i asedau cyfalaf. Wrth gyfrifo'r cyfanswm sydd i'w dalu o dan orchymyn cyfraniad cyfalaf, cymerir i ystyriaeth unrhyw gyfraniadau incwm sydd wedi'u talu'n barod.
391. Rhoddir tua 1,500 i 2,000 o orchymynion cyfraniad cyfalaf bob blwyddyn, a'r rhain yn effeithio ar 2% i 3% o'r rheini sy'n derbyn cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron. Gwerth cyfartalog pob gorchymyn cyfraniad cyfalaf yw £15,000. Ar gyfer y dyfodol, disgwylir y bydd ein cynigion polisi i derfynu trefniadau pasbortio cyfalaf ar gyfer perchnogion cartrefi sy'n derbyn budd-daliadau pasbortio, a amlinellir ym mharagraffau 413–415 isod, ynghyd â dileu'r trothwy uchaf o £37,500 ar incwm gwario, yn arwain at gynnydd yn nifer y gorchymynion cyfraniad cyfalaf ac yn y referniw a godir drwyddynt.
392. Rydym yn cefnogi'r egwyddor sylfaenol y dylai'r rheini a geir yn euog yn Llys y Goron fod yn atebol i gyfrannu o'u hasedau cyfalaf at unrhyw gostau cymorth cyfreithiol sydd heb eu talu. Er hynny, rydym yn ei gweld yn bwysig bod y rheini sydd â dim ond asedau cyfalaf bach yn parhau i gael rhywfaint o amddiffyniad fel y byddwn yn adennill costau oddi wrth y rheini sydd â'r mwyaf o allu i gyfrannu. Bydd hyn yn ein helpu hefyd i gyflawni'r amcan cyffredinol yn y rhaglen diwygio cymorth cyfreithiol i dargedu adnoddau cymorth cyfreithiol ar sail angen.

### *Lwfans cyfalaf*

393. Pan gyflwynwyd y prawf modd yn Llys y Goron yn ystod 2010, y lwfans cyfalaf a bennwyd oedd £30,000. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu mai dim ond unigolyn sydd ag asedau cyfalaf o fwy na £30,000, yn cynnwys ei ecwiti yn ei eiddo, a all ddod yn atebol i dalu o dan orchymyn cyfraniad cyfalaf. O ran gweithredu'r cynllun, wrth osod y lwfans cyfalaf ar £30,000, sicrhawyd hefyd ei fod yn gallu rhedeg yn fwy costeffeithiol gan fod modd canolbwyntio wrth gasglu cyfraniadau ar yr unigolion hynny a oedd yn dal asedau cyfalaf mwy sylweddol, yn hytrach nag adennill cyfres o symiau llai oddi wrth nifer mwy o unigolion.
394. Gan nad yw gwerth y lwfans cyfalaf wedi'i addasu er 2010, rydym wedi ystyried a all fod yn briodol ei uwchraddio nawr, yn enwedig o ystyried y chwyddiant diweddar yng nghostau eiddo, sydd wedi'i adlewyrchu yn ein cynnig i gynyddu'r diystyriad ecwiti yn yr asesiad o gyfalaf ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil (gweler Pennod 4, paragraffau 233–236).
395. Fodd bynnag, credwn fod cyfiawnhad dros gael diystyriad mwy hael o dan y cynllun sifil, gan ein bod yn gofyn am daliadau ymlaen llaw o'r cyfraniad cyfalaf cyn rhoi tystysgrif cymorth cyfreithiol. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, ar gyfer diffynyddion yn ymddangos o flaen Llys y Goron, nid yw eu statws cyfalaf yn berthnasol i'r penderfyniad ynghylch a roddir cymorth cyfreithiol neu beidio; yn hytrach, nid yw ond



yn dangos a fydd y diffynnydd yn atebol i dalu o dan orchymyn cyfraniad cyfalaf os ceir ef yn euog. Felly rydym yn cynnig cadw'r lwfans cyfalaf ar £30,000.

**Cwestiwn 66:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i gadw'r lwfans cyfalaf ar £30,000? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

*Amseriad y prisiad o asedau cyfalaf*

396. Yn rhan o'r cais am gymorth cyfreithiol, rhaid i'r diffynnydd ddarparu manylion ei asedau cyfalaf, yn cynnwys unrhyw eiddo. Mewn achosion sy'n arwain at euogfarn, bydd yr LAA yn asesu atebolrwydd dichonol y diffynnydd i dalu cyfraniad o dan orchymyn cyfraniad cyfalaf gan ddibynnu ar y wybodaeth a ddarparwyd ar adeg y cais. Os bydd y broses hon yn codi cwestiynau pellach, gall yr LAA gysylltu â'r diffynnydd i gael eglurhad.
397. Gan ei bod yn bosibl y bydd gwerth asedau cyfalaf wedi amrywio ers cyflwyno'r cais, credwn mai'r peth tecaf â'r diffynnydd yw prisio cyfalaf ar y pryd yn dilyn euogfarn. Oherwydd y posibilrwydd i werth asedau cyfalaf gynyddu neu ostwng, mae hyn yn sicrhau bod atebolrwydd y diffynnydd i dalu cyfraniad o dan orchymyn cyfraniad cyfalaf yn adlewyrchu ei allu i dalu yn fwy cywir.
398. Fel y mae ar hyn o bryd, bydd y gallu gan ddiffynnyddion o hyd i wneud cais am ail asesiad o unrhyw atebolrwydd posibl i dalu o dan orchymyn cyfraniad incwm neu gyfalaf ar sail newid yn eu hamgylchiadau ariannol; bydd ganddynt hawl o hyd hefyd i ofyn am ail asesiad drwy'r mecanwaith adolygu caledi.

**Cwestiwn 67:** a ydych yn cytuno â'n polisi arfaethedig ynghylch pa bryd y dylem brisio asedau cyfalaf? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

*Codi llog ar gyfraniadau cyfalaf sydd heb eu talu*

399. Ar hyn o bryd, mae disgresiwn gan Gyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol yr LAA i godi adlog o 6% ar gyfraniadau sydd heb eu talu o dan orchymyn cyfraniad cyfalaf ond mae wedi dewis peidio â gwneud hynny hyd yn hyn. Ar gyfer y dyfodol, rydym yn cynnig y bydd rhaid codi llog ar ddyled sydd heb ei chlirio o dan orchymyn cyfraniad cyfalaf, yn hytrach na bod disgresiwn ynghylch codi llog. (Dim ond mewn achosion lle rhoddir gorchymyn cynrychiolaeth ar ôl cyflwyno'r newidiadau yn y prawf modd y bydd hyn yn gymwys; nid ydym yn cynnig codi llog ar ddyled bresennol o dan orchymyn cyfraniad cyfalaf lle na chodwyd llog o'r blaen.)
400. Mae'r sail resymegol dros ein cynnig i ymyrryd yn fwy uniongyrchol yn ymwneud â thegwch oherwydd drwy godi llog ar y rheini nad ydynt yn talu'n brydlon, ni fyddant yn cael mantais dros y rheini sydd yn talu'n brydlon. Drwy godi llog, rydym hefyd yn

diogelu'r ddyled mewn termau real oherwydd, heb wneud hynny, byddai gwerth y ddyled yn dibrisio a gallai hyn fod yn gymhelliad i beidio â thalu.

401. Wrth osod llog, rydym yn cynnig mabwysiadu arfer CThEM o godi llog syml (yn hytrach nag adlog) ar dreth sydd heb ei thalu. Mae CThEM yn dibynnu ar y fformiwla ganlynol – cyfradd sylfaenol Banc Lloegr (0.5% ar hyn o bryd) ynghyd â 2.5%. Felly, rydym yn cynnig codi llog syml o 3% y flwyddyn ar ddyled sydd heb ei chlirio o dan orchymyn cyfraniad cyfalaf. Os bydd y gyfradd sylfaenol yn amrywio ymhellach cyn gweithredu hyn, byddem yn addasu'r gyfradd a gynigiwn yn unol â hynny. Fodd bynnag, er mwyn rhoi sicrwydd i'r unigolyn, ni fyddem yn cynnig gosod cyfradd llog amrywiadwy ar ôl gweithredu'r cynnig hwn ond yn cadw'r gyfradd llog yn sefydlog, er y byddem yn ymrwymo i'w hadolygu yn rhan o'n hymrwymiad polisi cyffredinol i adolygu'r prawf modd newydd o fewn 3 i 5 mlynedd.

**Cwestiwn 68:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i'w gwneud yn orfodol talu llog syml ar ddyled o dan orchymyn cyfraniad cyfalaf sydd heb ei chlirio, gan ddibynnu ar gyfradd sylfaenol Banc Lloegr ar adeg gweithredu'r cynnig ynghyd â 2.5% i osod y gyfradd llog berthnasol?

Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau, yn cynnwys yn benodol a fyddech o blaid mabwysiadu cyfradd llog amrywiadwy yn hytrach nag un sefydlog, yn ogystal â'ch barn am y gyfradd llog benodol rydym yn ei chynnig.

**Cwestiwn 69:** yn eich barn chi, pa effeithiau a geir ar ymddygiad diffynyddion o'i gwneud yn orfodol codi llog; er enghraifft, a ydych yn cytuno y bydd yn eu cymell i dalu neu a allai ysgogi ymddygiadau eraill? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### Enghraifft wedi'i gweithio

#### *Enghraifft 1*

Mae Ymgeisydd W yn derbyn Credyd Cynhwysol ac felly'n cael ei basbortio drwy'r asesiad o incwm. Mae'n cael euogfarn yn Llys y Goron, ar ôl ysgwyddo costau cymorth

cyfreithiol o £12,000. Gan ei fod yn berchen ar ei gartref, caiff ei asesu nawr am atebolrwydd posibl i dalu o dan orchymyn cyfraniad cyfalaf.

**Asesiad o gyfalaf:** mae gan Ymgeisydd W un ased cyfalaf: ei fflat, sy'n cael ei phrisio ar ôl yr euogfarn ar £120,000. Yn dilyn didyniadau am weddill y morgais o £42,000 a lwfans cyfalaf o £30,000, mae gan Ymgeisydd W gyfalaf yn weddill o £48,000.

Felly rhoddir gorchymyn cyfraniad cyfalaf am £12,000 i Ymgeisydd W. Mae'r LAA yn rhoddi arwystl ar ei fflat i ddiogelu'r ddyled o dan y gorchymyn cyfraniad cyfalaf. Codir llog syml o 3% y flwyddyn ar y ddyled nes caiff ei chlirio.

### Apelau i Lys y Goron

402. Defnyddir yr un prawf modd am incwm yn Llys y Goron ar gyfer apelyddion sy'n apelio i Lys y Goron yn erbyn yr euogfarn a/neu'r ddedfryd a gawsant yn y llys ynadon, i benderfynu a ddylent fod yn atebol i dalu cyfraniad os bydd eu hapêl yn methu neu os rhoddir y gorau iddi. Ar hyn o bryd, mae'r cyfraniad hwn wedi'i osod ar £500 am apêl aflwyddiannus yn erbyn euogfarn ac ar £250 am apêl aflwyddiannus yn erbyn dedfryd. Os yw'r apêl yn un yn erbyn yr euogfarn a'r ddedfryd, a bod yr apelydd yn rhoi'r gorau i'r apêl yn erbyn yr euogfarn neu'r apêl yn cael ei gwrthod, ond bod yr apêl yn erbyn y ddedfryd yn cael ei chaniatáu, yna y cyfraniad a bennwyd yw £250. Mae'r cyfraniadau penodedig ar gyfer apelau i Lys y Goron yn adlewyrchu'r costau cyfartalog am gymorth cyfreithiol yn 2010. Er mwyn sicrhau bod ein dull o gyfrifo incwm gwario ar gyfer achosion apêl yn un teg, rydym yn didynnu £500 i gynrychioli cost apêl.
403. Rydym yn cynnig parhau â'r dull hwn ar gyfer profion modd mewn achosion apêl i Lys y Goron, gan ein bod yn credu ei bod yn briodol bod y rheini sy'n gallu fforddio cyfrannu at eu costau cymorth cyfreithiol yn gwneud hynny.
404. Fodd bynnag, rydym yn cynnig cynyddu'r cyfraniad penodedig i adlewyrchu cost gyfartalog bresennol y cymorth cyfreithiol ar gyfer apêl, sydd wedi cynyddu er 2010 i £800 am apêl yn erbyn euogfarn ac i £400 am apêl yn erbyn dedfryd.<sup>45</sup> Gan ein bod yn cynnig cynyddu'r cyfraniad penodedig i £800, byddwn hefyd yn addasu'r didyniad o incwm blynyddol gros wrth gyfrifo incwm gwario'r apelydd gan ei gynyddu o £500 i £800 (gweler paragraffau 352–363).

---

<sup>45</sup> Mae'r ffigurau hyn wedi'u seilio ar apelau ym mlynnyddoedd ariannol 2017/18 i 2019/20. Priodolir y cynnydd diweddaraf yn rhannol i'r cynnydd yn y ffi o dan y Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr (AGFS) yn 2018.

**Cwestiwn 70:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i gynyddu'r cyfraniad penodedig am apelau aflwyddiannus i Lys y Goron o £500 i £800 am apêl aflwyddiannus yn erbyn euogfarn; o £250 i £400 am apêl aflwyddiannus yn erbyn dedfryd; ac o £250 i £400 am apêl aflwyddiannus yn erbyn euogfarn ond lle caniateir yr apêl yn erbyn y ddedfryd? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

**Cwestiwn 71:** Wrth gyfrifo incwm gwario'r ymgeisydd ar gyfer cymorth cyfreithiol i apelio, a ydych yn cytuno â'n cynnig i gynyddu'r didyniad am gost apêl o £500 o £800? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

## Gwrandawiadau dedfrydu yn Llys y Goron

405. Yn Rhagfyr 2021, cyhoeddodd y llywodraeth yr Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol. Ymysg materion eraill, roedd yr adolygiad wedi nodi pryder penodol ynghylch y dull o drafod profion modd ar gyfer traddodi i ddedfrydu, gweithdrefn lle bydd diffynnydd sydd wedi pledio'n euog yn cael ei anfon o'r llys ynadon i Lys y Goron i'w ddedfrydu os yw'n bosibl bod difrifoldeb y drosedd yn cyfiawnhau dedfryd hirach na'r hyn y gall yr ynadon ei rhoi.
406. Cynigiwyd yn yr Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol y dylai cymhwysra am gymorth cyfreithiol ar gyfer gwrandawiadau dedfrydu yn Llys y Goron fod yn gyson â chymhwysra am apelau i Lys y Goron, lle mae cymorth cyfreithiol ar gael ar sail prawf modd Llys y Goron ac yn amodol ar brawf buddiannau cyfiawnder; gall cyfraniad incwm fod yn daladwy.
407. Ar ôl ystyried y mater hwn, credwn y dylid parhau i asesu ar gyfer gwrandawiadau dedfrydu yn Llys y Goron, yn dilyn ple euog yn y llys ynadon, o dan brawf modd y llys ynadon. Os gweithredir y cynnydd rydym yn ei gynnig mewn trothwyon incwm yn y llys ynadon, gellir disgwyl y bydd unrhyw ddiffynnydd a geir yn anghymwys yn y llys ynadon ar sail modd yn gallu fforddio talu'n breifat am gynrychiolaeth yn y gwrandawriad dedfrydu.
408. Y gost gyfartalog am gymorth cyfreithiol ar gyfer cynrychiolaeth mewn gwrandawriad dedfrydu yn Llys y Goron yw £446. Y gost gyfartalog am gymorth cyfreithiol ar gyfer treial llawn yn y llys ynadon yw tua £670 ac mae'r trothwyon newydd rydym yn eu cynnig wedi cael eu datblygu i sicrhau bod diffynnydd a geir yn anghymwys ar sail modd yn gallu fforddio amddiffyniad preifat (gweler Pennod 7, paragraffau 443–452). Gan na fydd diffynnydd sy'n methu prawf modd y llys ynadon ac yn rhoi ple euog yn gynnwys yn ysgwyddo costau preifat am dreial sylweddol, credwn y gellir disgwyl y bydd yn gallu talu am gynrychiolaeth breifat mewn gwrandawriad dedfrydu. Hefyd gall

unigolion wneud cais am adolygiad caledi, os ydynt yn credu nad yw'r asesiad o incwm gwario yn cymryd eu holl wariant hanfodol i ystyriaeth.

**Cwestiwn 72:** A ydych yn cytuno â'n cynnig y dylid parhau i asesu ar gyfer gwrandawiadau dedfrydu yn Llys y Goron, yn dilyn ple euog yn y llys ynadon, o dan brawf modd y llys ynadon? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

## Budd-daliadau pasbortio

### Pasbortio incwm

409. Fel y nodwyd ym Mhennod 2, paragraffau 139–140, mae ymgeiswyr sy'n derbyn budd-daliadau penodol sy'n dibynnu ar brawf modd yn cael eu cyfrif yn gymwys am gymorth cyfreithiol anghyfrannol heb fynd drwy asesiad modd llawn. Rydym yn galw'r budd-daliadau hyn yn fudd-daliadau pasbortio. Rydym wedi adolygu'r rhestr bresennol o fudd-daliadau pasbortio er mwyn ceisio deall a fyddai derbynwyr y rhain yn debygol o fodloni'r prawf modd am gymorth cyfreithiol anghyfrannol ac rydym wedi datblygu cynigion ar y sail hon.
410. Rydym yn cynnig parhau i basbortio holl dderbynwyr budd-daliadau pasbortio drwy'r asesiad o incwm ar gyfer achosion troseddol yn Llys y Goron, ac mae hyn yn cynnwys derbynwyr Credyd Cynhwysol. Rydym yn cynnig trothwyon gwahanol ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol, o'i gymharu â chymorth cyfreithiol sifil, felly byddai mwyafrif helaeth yr ymgeiswyr sy'n derbyn budd-daliadau pasbortio yn gymwys am gymorth cyfreithiol ac ni fyddai'n ofynnol iddynt dalu cyfraniad incwm pe byddent wedi mynd drwy asesiad modd o incwm. Yn Llys y Goron, byddai tua 97% o ymgeiswyr a gafodd eu pasbortio yn rhai cymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol anghyfrannol (byddai'r 3% sy'n weddill yn talu cyfraniad incwm). Mae hyn yn golygu bod y gost am basbortio holl dderbynwyr Credyd Cynhwysol yn llai o lawer ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol nag ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil. Mae rhagor o fanylion am y dadansoddiad hwn yn yr Asesiad Effaith ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol.
411. Yn ogystal â hyn, mae pasbortio yn cyflymu proses y prawf modd drwy leihau'r angen am asesiad o incwm a'r gofynion cysylltiedig am dystiolaeth. Mae hyn yn bwysicach yn y llys ynadon am fod achosion yn cyrraedd y llys yn gynt ar y cyfan.
412. Felly, byddai cyfyngu'r nifer o ymgeiswyr sy'n cael eu pasbortio yn gwneud y prawf modd yn llai effeithlon ac yn ychwanegu'n sylweddol at y baich gweinyddol i'r LAA ac ymarferwyr cyfraith trosedd heb roi ond y lleiaf o arbedion ariannol.

**Cwestiwn 73:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i barhau i basbortio holl dderbynwyr y budd-daliadau pasbortio presennol ar gyfer prawf modd Llys y Goron? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### **Pasbortio cyfalaf yn Llys y Goron**

413. Nid oes asesiad o gyfalaf i bennu cymhwysra am gymorth cyfreithiol yn Llys y Goron neu'r llys ynadon. Er hynny, os yw diffynyddion a gafodd euogfarn yn Llys y Goron yn berchen ar asedau cyfalaf o fwy na £30,000 (yn cynnwys ecwiti mewn eiddo yn ogystal ag asedau hylifol), gall fod yn ofynnol iddynt wneud cyfraniad at eu costau cymorth cyfreithiol o'r asedau cyfalaf hyn. Ar hyn o bryd, mae diffynyddion a gafodd euogfarn sy'n derbyn budd-dal pasbortio (yn cynnwys Credyd Cynhwysol) yn cael eu pasbortio drwy'r asesiad o gyfalaf yn Llys y Goron ac nid oes rhaid iddynt wneud cyfraniad cyfalaf.
414. Mae'n annhebygol y bydd diffynyddion o'r fath yn berchen ar asedau hylifol o fwy na £30,000, gan mai'r trothwy cyfalaf ar gyfer cymhwysra am fudd-daliadau pasbortio sy'n dibynnu ar brawf modd yw £16,000 (heblaw ar gyfer Credyd Pensiwn lle nad oes trothwy cyfalaf uchaf).<sup>46</sup> Er hynny, gan fod DWP yn diystyru prif breswylfa'r ymgeisydd wrth asesu ei gyfalaf, mae ein modelu yn awgrymu bod nifer o ymgeiswyr (tua 2,000, neu 2.5% o ddiffynyddion Llys y Goron) a gaiff eu pasbortio am eu bod yn derbyn Credyd Cynhwysol yn rhai sydd â chyfalaf o fwy na £30,000 fel ecwiti yn eu heiddo. Nid yw'n ofynnol i'r unigolion hyn dalu cyfraniad cyfalaf, er y byddent yn gorfod gwneud hynny os nad oeddent yn derbyn budd-dal pasbortio. Er bod y gyfran hon o'r holl ymgeiswyr yn gymharol fach, mae'r amcangyfrif o'r arbedion a geir drwy'r cynnig hwn yn dangos bod swm sylweddol o gyfalaf o fwy na £30,000 gan y rhan fwyaf o'r unigolion hyn. Mae'r sefyllfa hon yn arwain at anghysondeb rhwng y ffordd o drin y rheini sy'n derbyn budd-daliadau pasbortio a'r rheini nad ydynt yn eu derbyn.
415. Rydym yn cynnig parhau i basbortio unigolion drwy'r asesiad o gyfalaf os ydynt yn derbyn budd-daliadau perthnasol ac nad ydynt yn berchen ar eiddo, gan fod ein modelu yn awgrymu mai'n anaml iawn y byddai gofyn i ymgeiswyr o'r fath dalu cyfraniad cyfalaf os oeddent yn mynd drwy brawf modd. Rydym yn cynnig y bydd ymgeiswyr sy'n derbyn budd-daliadau pasbortio ac sy'n berchen ar eiddo yn mynd drwy asesiad llawn o fodd cyfalaf (o'u heiddo ac unrhyw gyfalaf arall) ac y byddai'n ofynnol iddynt gyfrannu at gost eu cymorth cyfreithiol os oedd ganddynt gyfalaf sy'n fwy na'r trothwy o £30,000. Mae'r dull hwn o weithredu yn gyson â'n safbwynt y dylai ymgeiswyr gyfrannu at eu cymorth cyfreithiol os ydynt yn gallu fforddio gwneud

---

<sup>46</sup> Lle mae cynilion a buddsoddiadau o fwy na £10,000 gan unigolion sy'n ymgeisio am Credyd Pensiwn, mae pob £500 uwchlaw £10,000 yn cyfrif fel incwm o £1 yr wythnos.

hynny, ac mae'n trin y rheini sy'n derbyn budd-daliadau pasbortio a'r rheini nad ydynt yn eu derbyn mewn ffordd gyson.

**Cwestiwn 74:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i gyfyngu pasbortio cyfalaf ar gyfer cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron i'r rheini nad ydynt yn berchen ar eu cartrefi ac sy'n derbyn budd-daliadau pasbortio? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

## Pennod 7: Profion modd y llys ynadon a chyngor a chynhorthwy/cynhorthwy eiriolaeth troseddol

416. Mae'r bennod hon yn ymdrin â'n dulliau arfaethedig o gynnal y profion modd ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol yn y llys ynadon a chyngor a chynhorthwy/cynhorthwy eiriolaeth troseddol, yn cynnwys ein dull arfaethedig ar gyfer pasbortio.
417. Roedd y prawf modd presennol yn y llys ynadon wedi dod i rym yn 2006 ac nid yw'r trothwyon incwm wedi'u huwchraddio er 2008. Yn yr un modd, nid yw'r trothwyon incwm ar gyfer Cyngor a Chynhorthwy/Cynhorthwy Eiriolaeth Troseddol wedi'u huwchraddio er 2009, ac nid yw'r trothwyon cyfalaf wedi'u newid er 2001 o leiaf.
418. Mae'r bennod hon yn amlinellu ein cynnig i gynyddu'r trothwyon hyn i adlewyrchu cynnydd mewn costau ers cynyddu'r trothwyon ddiwethaf, er mwyn sicrhau bod y rheini sydd â'r angen mwyaf am gymorth cyfreithiol yn gallu cael ato; ac er mwyn cysoni'r profion modd am gyngor a chynhorthwy a chynhorthwy eiriolaeth troseddol. Rydym yn gofyn i ymatebwyr ystyried y cynyddiadau arfaethedig hyn a datgan a ydynt yn cytuno, yn anghytuno neu'n cytuno'n rhannol â'r dull o weithredu rydym yn ei gynnig, gan ddarparu rhesymau dros eu barn.

### Cynrychiolaeth yn y llys ynadon

419. Yn wahanol i brawf modd Llys y Goron, mae prawf y llys ynadon yn gynllun sy'n derbyn neu'n gwrthod y cais, sy'n golygu bod yr ymgeisydd yn ei gael yn gymwys am gymorth cyfreithiol neu'n anghymwys. Nid yw'r cynllun cymorth cyfreithiol yn y llys ynadon yn gofyn i ymgeiswyr dalu cyfraniadau at eu costau cymorth cyfreithiol. Credwn fod y dull hwn o weithredu'n parhau'n addas yn y llys ynadon gan fod nifer mawr o achosion yn rhai sy'n cynnwys un gwrandawriad ac maent yn fyrrach ac yn llai cymhleth fel arfer na'r rheini a wrandewir yn Llys y Goron, fel eu bod yn costio llai. Yn ogystal â hyn, yn wahanol i Lys y Goron, mae gwrandawriadau'r ynadon yn cadw at derfynau amser mwy caeth ac mae'r cyfnod lle mae cyfle i ymgeisio am gymorth cyfreithiol a'i dderbyn yn fyr iawn.

**Cwestiwn 75:** a ydych yn cytuno â'n cynnig y dylai cymorth cyfreithiol yn y llys ynadon barhau i fod yn anghyfrannol? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.



### **Trothwy uchaf ar incwm gros**

420. Fel y nodwyd ym Mhennod 1, mae'r prawf modd ar gyfer cynrychiolaeth yn y llys ynadon yn cynnwys trothwy uchaf o £22,325 ar incwm gros ar hyn o bryd. Bydd ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol sydd ag incwm sy'n fwy na'r trothwy hwn (ar ôl ei addasu yn ôl maint yr aelwyd) yn cael eu hasesu'n anghymwys i gael cymorth cyfreithiol heb fynd drwy asesiad o incwm gwario.
421. Pan gafodd ei bennu'n wreiddiol yn 2005, y trothwy uchaf ar incwm gros oedd £20,740 ar gyfer diffynnydd sengl heb blant dibynnol. Roedd y trothwy hwn yn deillio o'r trothwy uchaf ar incwm gros ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil ar y pryd, sef £27,500. Fodd bynnag, gostyngwyd y ffigur i adlewyrchu'r ffaith y byddai'r trothwy ar incwm gros yn y llys ynadon, yn wahanol i'r un ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, yn cael ei addasu drwy gyfwertholi er mwyn cymryd cyfansoddiad aelwyd yr ymgeisydd i ystyriaeth, ac felly dangos yn well pa ymgeiswyr a oedd yn gallu fforddio talu costau eu hamddiffyniad.
422. Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 2 paragraffau 93–96, cyfwertholi yw'r broses ar gyfer addasu incwm i gymryd i ystyriaeth yr anghenion sydd gan aelwydydd o wahanol faint. I'n dibenion ni, byddwn yn addasu'r trothwy ar sail nifer y dibynyddion sy'n iau ac yn hŷn na 14 blwydd oed, gan ddilyn dull Addasedig OECD sydd wedi'i ddisgrifio ym Mhennod 2. Mae hyn yn helpu i sicrhau tegwch wrth ddyrannu adnoddau cymorth cyfreithiol, gan fod cyfansoddiad aelwydydd yn gallu cael effaith uniongyrchol ar gostau byw, ac felly ar allu'r unigolyn i fforddio talu ei gostau cyfreithiol neu gyfrannu atynt, neu beidio.
423. Roedd y trothwy incwm ar incwm gros wedi'i fwriadu hefyd i ddiolli ymgeiswyr a oedd yn annhebygol iawn o fodloni'r prawf incwm gwario, a oedd yn cynnwys lwfans i adlewyrchu gallu'r ymgeisydd i fforddio cynrychiolaeth breifat os nad oedd yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol (gweler paragraffau 443–446 isod). Cynyddwyd y trothwy yn 2008 i £22,325 i adlewyrchu chwyddiant.
424. Mae'r trothwy uchaf ar incwm gros yn lleihau'r baich gweinyddol i ymgeiswyr a darparwyr cymorth cyfreithiol, drwy ddileu'r angen i rywun fynd drwy'r asesiad llawn o incwm gwario os oedd ganddo incwm gros sy'n fwy na'r trothwy, ac felly'n annhebygol iawn o fodloni'r prawf incwm gwario. Credwn fod y sail resymegol hon dros osod trothwy uchaf ar incwm gros yn un gadarn o hyd.
425. Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 3 (paragraffau 183–185), rydym yn cynnig addasu'r trothwy ar incwm gros ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil drwy gyfwertholi, gan ddefnyddio dull Addasedig OECD (a ddisgrifiwyd ym Mhennod 2, paragraff 95) ar gyfer y profion modd sifil a'r rhai troseddol. Felly rydym yn cynnig gosod yr un trothwy uchaf ar incwm gros ar gyfer y llys ynadon ag ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, fel y cynigiwyd yn wreiddiol yn yr ymgynghoriad ar y Bil Gwasanaethau Amddiffyn

Troseddol yn 2004,<sup>47</sup> ond a newidiwyd oherwydd y dull gwahanol o gyfrifo cyfwerthedd.

426. Yn yr un modd â chymorth cyfreithiol sifil, credwn na ddylai'r rheini sydd ag incwm canolrifol neu uwch fod yn gymwys am gymorth cyfreithiol yn y llys ynadon, gan ein bod o'r farn nad y bobl sydd ag incwm o'r fath yw'r rheini sydd â'r angen mwyaf, sef y rheini y bwriadwyd y cynllun cymorth cyfreithiol ar eu cyfer. Felly, cynigiwn osod trothwy newydd ar incwm gros o £34,950 (£2,913 y mis) ar gyfer unigolyn oherwydd, yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, y ffigur hwn oedd yr incwm gros canolrifol ar gyfer unigolyn yn y DU yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2020.<sup>48</sup>
427. Mae'r ffigur hwn am incwm yn cynnwys incwm a enillwyd, incwm arall (fel pensiynau, incwm o rent, incwm o fuddsoddiadau ac incwm wedi'i briodoli<sup>49</sup> a rhai budd-daliadau), ond nid yw'n cynnwys unrhyw ffynonellau incwm sy'n cael eu diystyru ar hyn o bryd (er enghraifft, Lwfans Gofalwr, Taliadau Annibyniaeth Personol, a budd-daliadau eraill sydd wedi'u bwriadu i dalu costau ychwanegol anabledd), gan nad ydym yn ystyried incwm o'r ffynonellau hyn wrth asesu cymhwystra am gymorth cyfreithiol. Gweler **Atodiad A** am restr lawn o'r mathau o incwm sy'n cael eu diystyru ar hyn o bryd yn yr asesiad modd ar gyfer cymorth cyfreithiol.
428. Mae ein dadansoddiad yn cadarnhau mai ychydig iawn o unigolion sydd ag incwm gros wedi'i gyfwertholi sy'n fwy na'r trothwy hwn a fyddai'n bodloni'r prawf incwm gwario ar gyfer cymorth cyfreithiol yn y llys ynadon.

**Cwestiwn 76:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i osod trothwy uchaf newydd ar incwm gros o £34,950 (£2,913 y mis) ar gyfer unigolyn? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### Trothwy isaf ar incwm gros

429. Fel yr eglurwyd ym Mhennod 6 (paragraff 347), pwrpas y trothwy isaf ar incwm gros ar gyfer cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron a'r llys ynadon yw lleihau'r baich gweinyddol i ymgeiswyr, darparwyr a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA), drwy adnabod ymgeiswyr sydd ag incwm gros sy'n ddigon isel fel eu bod yn debygol dros ben o fodloni'r prawf incwm gwario.
430. Yn dilyn dadansoddi'r trothwy isaf presennol ar incwm gros, gwelsom fod y trothwy yn caniatáu i gyfran sylweddol o ymgeiswyr gael cymorth cyfreithiol yn y llys ynadon

<sup>47</sup> Ffynhonnell: Draft Criminal Defence Service Bill: Consultation Paper and Explanatory Notes, Mai 2004, tt. 32–35

<sup>48</sup> Gweler **Atodiad C** am fanylion ein dull o gyfrifo'r ffigur hwn ar gyfer incwm gros.

<sup>49</sup> Buddion y mae cyflogeion yn eu derbyn nad ydynt yn rhan o'u cyflog (fel yr hawl i ddefnyddio car y cwmni neu aelodaeth o gampfa) ond sy'n cael eu trethu fel rhan o'u hincwm.

Ile byddent wedi methu'r prawf presennol ar gyfer incwm gwario. Gwelsom hefyd y byddai rhai ymgeiswyr sydd ag incwm llai na'r trothwy isaf ar incwm gros yn gallu bod yn gymwys am gymorth cyfreithiol anghyfrannol yn Llys y Goron lle byddai wedi bod yn ofynnol iddynt dalu cyfraniad incwm pe byddent wedi mynd drwy'r asesiad o incwm gwario.

431. Felly, rydym yn cynnig newid y trothwy isaf ar incwm gros fel y bydd yn debygol mai dim ond ymgeiswyr a fyddai hefyd yn bodloni'r prawf incwm gwario a fyddai'n debygol o'i basio. Rydym yn cynnig y dylid gosod y trothwy isaf newydd ar incwm gros ar gyfer profion modd y llys ynadon a Llys y Goron ar £13,000. Y trothwy isaf presennol ar incwm gros yw £12,475. Bydd hyn hefyd yn sicrhau mwy o gysondeb rhwng y trothwy isaf ar incwm gros a'r newidiadau arfaethedig yn y trothwyon ar incwm gwario yn Llys y Goron a'r llys ynadon (a amlinellir ym Mhennod 6, paragraffau 365–366 ac isod ym mharagraffau 443–445).

**Cwestiwn 77:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i osod trothwy isaf newydd ar incwm gros yn y llys ynadon o £13,000 ar gyfer unigolyn? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

432. Fel y nodwyd ym Mhennod 2, paragraffau 93–96, rydym hefyd yn cynnig newid ein dull o gyfwertholi'r trothwy ar incwm gros, drwy ddefnyddio dull Addasedig OECD (Cyn Costau Tai ("BHC")) i gymryd i ystyriaeth y costau ar aelwydydd o gyfansoddiadau gwahanol. Drwy ddefnyddio'r mesur cyfwertholi BHC, ar gyfer pob oedolyn ychwanegol neu blentyn 14 oed neu hŷn byddai'r trothwy yn cynyddu 50% o'r trothwy gros ar gyfer un oedolyn; ar gyfer pob plentyn dan 14 oed, y ffigur cyfatebol yw 30%.
433. Gweler Pennod 2, paragraff 96 am gwestiwn ymgynghori ynghylch y dull arfaethedig hwn.

### Asesu incwm gwario

434. Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 1, i ddibenion prawf modd y llys ynadon, cyfrifir incwm gwario drwy ddidynnu'r canlynol o'r incwm gros:
- treth yr ymgeisydd, Yswiriant Gwladol, costau tai, treth gyngor, costau gofal plant a thaliadau cynhaliaeth plant
  - lwfans costau byw penodedig (£5,676 y flwyddyn ar hyn o bryd i berson sengl)
  - didyniadau pellach ar gyfer partner/plant (os yw'n berthnasol).
435. Os yw incwm gwario blynyddol yr ymgeisydd yn fwy na £3,398 y flwyddyn (£283 y mis), ni fydd yn gymwys am gymorth cyfreithiol i dalu costau amddiffyn yn y llys ynadon.

436. Rydym wedi ystyried pob elfen yn y trothwy ar incwm gwario isod, ac wedi cynnig newidiadau lle'r oeddem yn credu bod hynny'n briodol.
437. Yn yr un modd â phrawf Llys y Goron, rydym yn cynnig rhai didyniadau ychwanegol yn rhan o'r asesiad o incwm gwario. Rydym yn cynnig didynnu cyfraniadau pensiwn cyflogeion hyd at 5% o'u henillion, ad-daliadau benthyciad myfyriwr, lwfans gwaith o £66 y mis ar gyfer ymgeiswyr a (lle mae'n berthnasol) eu partneriaid sydd mewn cyflogaeth, ac ad-daliadau o ddyledion blaenoriaethol. Credwn y bydd y didyniadau ychwanegol arfaethedig hyn yn ein galluogi i gael darlun mwy dilys o wariant yr ymgeisydd ar gostau byw; gweler Pennod 2 (paragraffau 100–104) a Phennod 6 (paragraff 355) am ragor o fanylion.

**Cwestiwn 78:** a ydych yn cytuno â'n cynnig y dylai prawf modd y llys ynadon ddidynnu cyfraniadau pensiwn hyd at 5% o'r enillion, ad-daliadau benthyciad myfyriwr, lwfans gwaith o £66 y mis ac ad-daliadau o ddyledion blaenoriaethol o incwm gwario? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### **Lwfans Costau Byw a didyniadau ychwanegol**

438. Mae prawf modd y llys ynadon yn defnyddio'r un Lwfans Costau Byw â phrawf modd Llys y Goron, sef £5,676 y flwyddyn ar hyn o bryd. Fel y nodwyd ym Mhennod 6 (paragraffau 358–360), mae'r Lwfans Costau Byw wedi'i seilio ar wariant aelwydydd cyfartalog (fel y mae wedi'i gofnodi yn arolwg blynyddol yr ONS o Gostau Byw a Bwyd) ac rydym wedi defnyddio arolwg 2019–20 i bennu lwfans wedi'i ddiweddarau ar gyfer y llys ynadon a Llys y Goron.
439. Y lwfans wedi'i ddiweddarau rydym yn ei gynnig (sydd wedi'i drafod ym Mhennod 6) yw £713 y mis (£8,652 y flwyddyn).

**Cwestiwn 79:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i osod y Lwfans Costau Byw ym mhrawf modd y llys ynadon ar £713 y mis, fel y cynigiwyd ar gyfer prawf modd Llys y Goron? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### **Didyniadau am ddibynyddion**

440. Fel yr eglurwyd ym Mhennod 2 (paragraffau 93–96), rydym hefyd yn cynnig newid ein dull o gyfwertholi, drwy ddefnyddio dull Addasedig OECD (Ar Ôl Costau Tai (AHC)) i gymryd i ystyriaeth y costau sydd gan aelwydydd o gyfansoddiadau gwahanol. Gweler Pennod 2, paragraff 96 am gwestiwn ymgynghori ynghylch y dull arfaethedig hwn.
441. Er mwyn asesu incwm gwario, rydym yn cynnig gosod lwfansau penodedig ar gyfer oedolion ychwanegol a phlant, wedi'u seilio ar gyfwertholiad AHC o'r Lwfans Costau

Byw. Y mesur cyfwerthedd AHC yw 72% o'r Lwfans Costau Byw am bob oedolyn ychwanegol neu blentyn 14 oed neu hŷn a 34% o'r trothwy isaf ar incwm gwario ar gyfer pob plentyn dan 14 oed.

442. Felly, y didyniad a gynigir ar gyfer oedolyn ychwanegol neu blentyn 14 oed neu hŷn fyddai £513 y mis, a'r didyniad a gynigir ar gyfer plentyn dan 14 oed fyddai £242 y mis. Dyma'r un didyniadau â'r rheini a gynigir ar gyfer prawf modd Llys y Goron, gan ein bod yn cynnig defnyddio'r un Lwfans Costau Byw ar gyfer y ddau brawf modd.

**Cwestiwn 80:** a ydych yn cytuno â'r didyniadau rydym yn eu cynnig ar gyfer dibynyddion o £513 y mis am bob oedolyn a phlentyn 14 oed neu hŷn, a £242 y mis am bob plentyn dan 14 oed? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### Lwfans incwm gwario

443. Roedd y lwfans incwm gwario wedi'i gynllunio, ochr yn ochr â'r Lwfans Costau Byw, yn 2005 ac wedi'i gynnwys yn y Bil Gwasanaethau Amddiffyn Troseddol mwy cyffredinol. Mae'r lwfans hwn yn rhoi cyfrif o allu'r ymgeisydd i dalu'n breifat am ei amddiffyniad o'i incwm gwario, a nodwyd yn yr ymateb gan y Llywodraeth i'r ymgynghoriad: *"the intention [is] that only those who demonstrate an appropriate level of disposable income when tested will become ineligible"*.<sup>50</sup>
444. Roedd y lwfans wedi'i osod yn wreiddiol ar £3,156 y flwyddyn, gyda'r esboniad *"a threshold of £3,156 reflects a level above which it is reasonable to ask the applicant to pay for their defence costs. Taking into account that private client defence costs will in all likelihood exceed the average cost of a publicly funded case in the magistrates' courts (currently £515), we consider that this threshold is fair"*.<sup>51</sup> Pan gyflwynwyd y lwfans yn 2005, roedd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, fel yr oedd bryd hynny, wedi amcangyfrif bod y gost breifat gyfartalog am dreial (tua £1,500) oddeutu tair gwaith yn fwy na'r gost am amddiffyniad a ariennir gan y cyhoedd.<sup>52</sup>
445. Mae'r ddogfen ymgynghori ar y Bil Gwasanaethau Amddiffyn Troseddol a'r dogfennau ategol yn nodi y dylai'r lwfans fod oddeutu dwywaith gwerth y gost amddiffyn breifat ar y pryd yn y llys ynadon, neu 6 gwaith y gost o dan gymorth cyfreithiol. Gan fod £3,156 yn ffigur blynyddol, y lwfans misol oedd £263, sy'n awgrymu y byddai disgwyl bod y rheini sydd ag incwm gwario ychydig mwy na'r

<sup>50</sup> Ffynhonnell: Criminal Defence Service Bill Framework Document CM 6572 (publishing.service.gov.uk), t.5

<sup>51</sup> Ffynhonnell: Criminal Defence Service Bill Statement to the Framework Document CM 6678 (publishing.service.gov.uk), t. 6

<sup>52</sup> [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/272190/6678.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/272190/6678.pdf)

trothwy ar gyfer cymorth cyfreithiol yn talu'r gost am amddiffyniad preifat nodweddiadol dros gyfnod o tua chwe mis. Uwchraddiwyd y lwfans yn 2008 i £3,398 ond nid yw wedi cynyddu ers hynny.

446. Credwn fod y sail resymegol mewn polisi dros gynnwys ystyriaeth i gost amddiffyniad preifat nodweddiadol yn y prawf modd drwy lwfans incwm gwario yn un gadarn o hyd. Fodd bynnag, gan nad yw'r lwfans wedi cynyddu er 2008, rydym wedi adolygu'r costau nodweddiadol am amddiffyniad preifat ac amddiffyniad o dan gymorth cyfreithiol er mwyn sicrhau bod y prawf modd newydd a gynigiwn ar gyfer y llys ynadon yn un sy'n adlewyrchu'r costau diweddaraf.
447. Rydym wedi ystyried cost treial o'r sylwedd (hynny yw, lle mae'r diffynnydd wedi pledio'n ddieuog), gan ein bod yn credu ei bod yn bwysig bod diffynnydd sy'n pledio'n ddieuog yn gallu fforddio ei amddiffyniad.
448. Yn nifyg cyhoeddiadau o ffioedd preifat gan y darparwyr cyfreithiol eu hunain, rydym wedi tynnu ar y cyfraddau yr awr a delir i eiriolwyr a benodwyd gan y llys yn y llys ynadon. Eiriolwyr a benodwyd gan y llys yw ymarferwyr preifat (cyfreithwyr fel arfer) a benodwyd i eirioli ar ran unigolyn nad yw'n gallu ei gynrychioli ei hun yn y llys, er enghraifft, lle mae anabledd gan y cyhuddedig, neu os nad yw'r cyhuddedig yn gallu croesholi tyst (e.e. mewn achos am ymosod rhywiol). Fe'u telir o goffrau canolog Llywodraeth ar sail cyfraddau yr awr a bennwyd gan Feistr y Rholiau yn unol â chynghor y Cyngor Cyfiawnder Sifil. Mae'r cyfraddau canllaw yr awr hyn wedi'u seilio ar ddata a gasglwyd oddi wrth y farnwriaeth a'r proffesiwn cyfreithiol<sup>53</sup> ac wedi'u rhannu ar sail profiad a daearyddiaeth. Rydym wedi defnyddio cyfradd o £200 yr awr wedi'i seilio ar y gyfradd ganllaw a gyhoeddwyd ar gyfer cyfreithiwr Band 1 Cenedlaethol neu Lundain Allanol sydd â phrofiad o tua 4 blynedd.<sup>54</sup> Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r cyfraddau canllaw hyn yn rhwymol, ac mae pob hawliad yn cael ei asesu ar wahân gan yr LAA.
449. Pan fydd diffynnydd wedi talu'n breifat am ei amddiffyniad ac yn cael ei ryddfarnu wedyn, bydd hawl ganddo i wneud cais am Orchymyn Costau Diffynnydd (GCD), a fydd yn ad-dalu cost ei amddiffyniad ar gyfraddau cymorth cyfreithiol. Drwy asesu sampl o geisiadau am GCD, rydym wedi amcangyfrif y byddai cyfreithiwr practis preifat yn gwneud 10–12 awr o waith fel arfer wrth baratoi at dreial a chymryd rhan ynddo yn y llys ynadon. Mae'r amcangyfrifon hyn, ynghyd â'r ffi breifat arferol, yn awgrymu cost nodweddiadol sydd rhwng £2000 a £2400 am amddiffyniad preifat yn y llys ynadon.

---

<sup>53</sup> Ffynhonnell: 20210108-GHR-Report-for-consultation-FINAL.pdf (judiciary.uk) t. 12

<sup>54</sup> Ffynhonnell: [ARCHIVED CONTENT] Publications - Guidance - Previous guideline rates (nationalarchives.gov.uk)

450. Er mwyn cymharu, rydym wedi ystyried y gost ganolrifol am gymorth cyfreithiol ar gyfer yr holl dreialon yn y llys ynadon yn 2019–20, sef oddeutu £670 yr achos. Mae hyn yn cynnwys treialon y talwyd amdanynt ar gyfraddau ffioedd safonol (is neu uwch) a ffioedd ansafonol, er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried treialon mwy cymhleth a llai cymhleth. Mae hyn yn awgrymu lluosydd rhwng tua 3 a 3.5 rhwng costau amddiffyn cymorth cyfreithiol a chostau amddiffyn preifat.
451. Fel y gwnaed yn 2005, rydym yn cynnig gosod lwfans incwm gwario sy'n ddwywaith yn fwy na'r ffi breifat nodweddiadol. Er mwyn sicrhau mynediad at gyfiawnder, rydym yn cynnig defnyddio pen uchaf yr amrediad o ffioedd preifat nodweddiadol, sef £2400, fel mai'r lwfans incwm gwario fyddai £4800 y flwyddyn neu £400 y mis. Y cyfnod cyfartalog ar hyn o bryd rhwng cyhuddo ac euogfarnu neu ryddfarnu yn y llys ynadon yw 6 mis. Felly, credwn y bydd y lwfans incwm gwario a gynigiwn yn un a fydd yn ein galluogi i wahaniaethu rhwng diffynyddion sy'n gallu fforddio talu'r ffi breifat nodweddiadol dros y cyfnod nodweddiadol o 6 mis, ar £400 y mis, a'r rheini na fyddant yn gallu ei fforddio. Felly, y trothwy rydym yn ei gynnig ar incwm gwario ar gyfer cymorth cyfreithiol yn y llys ynadon fydd £1113 y mis (£13,356 y flwyddyn) i unigolyn. Bydd opsiwn ar gael o hyd i ddiffynyddion a geir yn anghymwys am gymorth cyfreithiol, ond sydd o'r farn na allant gwrdd â chost amddiffyniad preifat, i wneud cais am adolygiad caledi ac adolygiad cymhwysra, fel yr eglurwyd ym Mhennod 1 (paragraff 75).
452. Byddem yn falch o gael sylwadau ynghylch a yw ein rhagdybiaethau o ran prisio costau preifat yn rhai cywir ar y cyfan ac, felly, a fydd y lwfans rydym wedi'i gynnig yn rhoi'r gallu i gael at gymorth cyfreithiol i'r rheini sydd â'r angen mwyaf amdano.

**Cwestiwn 81:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i gynyddu'r lwfans incwm gwario i £400 y mis? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### Proses adolygu

453. Os bydd diffynnydd wedi methu'r prawf modd ond yn credu na all dalu'n breifat am ei amddiffyniad (o ganlyniad i wariant anochel ychwanegol a/neu gostau cyfreithiol sy'n anfforddiadwy yn ei farn ef), gall wneud cais i'r LAA am adolygiad caledi, a all arwain at ei gael yn gymwys am gymorth cyfreithiol. Rydym yn cynnig parhau â phroses yr adolygiad caledi fel y mae ar hyn o bryd.

**Cwestiwn 82:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i barhau â phroses yr adolygiad caledi ar gyfer cymorth cyfreithiol yn y llys ynadon? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

## Budd-daliadau pasbortio

454. Fel yr eglurwyd ym Mhennod 2 (paragraffau 139–140), mae ymgeiswyr sy'n derbyn budd-daliadau penodol sy'n dibynnu ar brawf modd yn cael eu cyfrif yn gymwys ar hyn o bryd am gymorth cyfreithiol anghyfrannol heb fynd drwy asesiad modd llawn. Rydym yn galw'r budd-daliadau hyn yn fudd-daliadau pasbortio. Rydym wedi adolygu'r rhestr bresennol o fudd-daliadau pasbortio er mwyn deall a fyddai'r rhai sy'n eu derbyn yn debygol o fodloni'r prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol anghyfrannol ac rydym wedi datblygu cynigion ar y sail hon.
455. Rydym yn cynnig parhau i basbortio pawb sy'n derbyn budd-daliadau pasbortio drwy'r asesiad o incwm ar gyfer achosion troseddol yn y llys ynadon, ac mae hyn yn cynnwys pawb sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Rydym yn cynnig trothwyon mwy hael ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol, o'i gymharu â chymorth cyfreithiol sifil, sy'n golygu na fyddai mwyafrif helaeth yr ymgeiswyr sy'n derbyn budd-daliadau pasbortio yn cael eu hasesu'n anghymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol yn y llys ynadon. Yn y llys ynadon, byddai 98% o ymgeiswyr a gafodd eu pasbortio yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol (a'r 2% yn weddill yn anghymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol). O'i gymharu â hyn, dim ond 73% o dderbynwyr Credyd Cynhwysol a fyddai'n gymwys am gymorth cyfreithiol sifil anghyfrannol. Mae hyn yn golygu bod y gost am basbortio'r holl dderbynwyr Credyd Cynhwysol yn llai o lawer ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol nag ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil. Gweler yr Asesiad Effaith ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol lle mae mwy o fanylion am y dadansoddiad hwn.
456. Yn ogystal â hyn, mae pasbortio yn cyflymu proses y prawf modd drwy leihau'r angen am asesiad o incwm a'r gofynion cysylltiedig am dystiolaeth. Mae hyn yn bwysicach yn y llys troseddol am fod achosion yn cyrraedd y llys yn gynt ar y cyfan.
457. Felly, byddai cyfyngu'r nifer o ymgeiswyr sy'n cael eu pasbortio yn gwneud y prawf modd yn llai effeithlon ac yn ychwanegu'n sylweddol at y baich gweinyddol i'r LAA ac ymarferwyr cyfraith trosedd heb roi ond y lleiaf o arbedion ariannol.

### Enghreifftiau wedi'u gweithio

#### *Enghraifft 1*

Mae gan Ymgeisydd X un plentyn 10 oed ac incwm gros o £3,667 y mis (£44,000 y flwyddyn).

**Asesiad o incwm gros:** trothwy incwm gros addasedig Ymgeisydd X fyddai'r trothwy sylfaenol o £34,950 y flwyddyn gyda lwfans ychwanegol o 30% ar gyfer ei blentyn; felly £45,435. Felly byddai'n **bodloni'r asesiad o incwm gros**.

**Asesiad o incwm gwario:** yn dilyn didyniadau am dreth incwm, Yswiriant Gwladol, cyfraniadau pensiwn, costau gofal plant, costau tai a'r dreth gyngor, y lwfans gwaith o



£66 a £241 am blentyn dibynnol dan 14 oed, incwm gwario Ymgeisydd X fyddai £1,032 y mis.

Felly byddai Ymgeisydd X yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol yn y llys ynadon.

### *Enghraifft 2*

Mae Ymgeisydd Y yn byw ar ei ben ei hun a'i incwm gros yw £3,333 y mis (£40,000 y flwyddyn).

**Asesiad o incwm gros:** mae incwm gros Ymgeisydd Y yn fwy na'r trothwy uchaf ar incwm gros o £34,950, felly mae'n **anghymwys am gymorth cyfreithiol yn y llys ynadon.**

**Cwestiwn 83:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i barhau i basbortio holl dderbynwyr y budd-daliadau pasbortio presennol ar gyfer prawf y llys ynadon? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

## **Cyngor a chynhorthwy/cynhorthwy eiriolaeth troseddol**

458. Mae cwmpas cymorth cyfreithiol ar gyfer cyngor a chynhorthwy (CC) a chynhorthwy eiriolaeth (CE) yn cynnwys materion troseddol o lawer math. Mae CC yn cynnwys cyngor cyfreithiol, negodi neu baratoi achos y tu allan i wrandawriad, ac mae CE yn cynnwys cynrychioli cleient mewn gwrandawriad llafar.
459. Mae nifer o faterion CC/CE nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd, fel cyngor yng ngorsaf yr heddlu ar ôl arestio. Nid ydym yn cynnig unrhyw newid yn y meysydd CC/CE nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd, sydd wedi'u hamlinellu yn **Atodiad B**.
460. Mae'r cynigion sydd wedi'u hamlinellu isod yn ymwneud dim ond â'r meysydd CC/CE sy'n dibynnu ar brawf modd ar hyn o bryd. Y rhain yw:
- CC ar wahân (ar gyfer gwaith cyn cyhuddo fel cyfweliadau a gynhelir gan asiantaethau heblaw'r heddlu fel DWP);
  - CC ar apelau yn erbyn euogfarn neu ddedfryd, neu apelau i'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol;
  - CC neu CE o dan Gyfraith Carchardai (dadleuon ynghylch dedfryd, achosion disgyblu mewn carchardai a gwrandawriadau'r Bwrdd Parôl). Mae'r rhan fwyaf o CC/CE sy'n dibynnu ar brawf modd (yn nhermau nifer yr achosion a gwariant) yn dod o dan Gyfraith Carchardai.

461. Fel y nodwyd ym Mhennod 1 (paragraffau 76–79), lle dibynnir ar brawf modd, ceir gwahanol drothwyon yn ôl a yw'r mater yn dod o dan CC neu CE, ac mae pob un o'r rhain (heblaw'r trothwy incwm ar gyfer CC) yn is nag mewn unrhyw faes arall yn y profion modd yn gyffredinol. Nid yw'r prawf am CC na'r prawf am CE yn asesu incwm gros, ond mae'r ddau yn cynnwys trothwy ar incwm gwario. Mae'r prawf CC yn gosod trothwy o £99 yr wythnos ar incwm gwario a £1,000 ar gyfalaf gwario. Mae'r prawf CE yn cynnwys trothwy o £209 yr wythnos ar incwm gwario a throthwy o £3,000 ar gyfalaf gwario.
462. Cyn 2001, roedd help cyfreithiol sifil a CC troseddol sy'n dibynnu ar brawf modd wedi cael eu cynnwys gyda'i gilydd o dan 'Gynllun y Ffurflen Werdd', tra oedd elfennau o Gynrychiolaeth Gyfreithiol Reoledig wedi'u cynnwys gyda'i gilydd ochr yn ochr â CE troseddol fel 'Cynhorthwy drwy Gynrychiolaeth'. Gan fod y meysydd gwaith hyn wedi'u gwahanu i'w priod gynlluniau, nid yw'r trothwyon ar gyfer CC/CE (yn enwedig ar gyfer cyfalaf) wedi cael eu huwchraddio yn yr un ffordd â'r trothwyon sifil.

### Ein cynigion

463. Rydym yn cynnig cysoni'r profion modd ar gyfer CC a CE, gan ein bod yn deall bod y cynlluniau gwaith hyn yn gorgyffwrdd yn aml wrth ymarfer. Drwy gael yr un trothwyon, sicrhair cysondeb ar gyfer ymgeiswyr, a bydd y prawf yn haws i'w weinyddu gan ddarparwyr.

**Cwestiwn 84:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i gysoni'r profion ar gyfer CC a CE?  
Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

464. Wrth benderfynu pa ffurf a ddylai fod i'r prawf modd newydd ar gyfer CC a CE, roeddem wedi ystyried ein dull o weithredu mewn meysydd cymorth cyfreithiol eraill. Fel yr eglurwyd ym Mhenodau 3 a 4, credwn na ddylai cymorth cyfreithiol sy'n dibynnu ar brawf modd fod yn rhywbeth sydd ar gael i'r rheini sydd ag incwm a chyfalaf ar lefel gyfartalog neu uwch ac, yn ein barn ni, mae'r sail resymegol hon yn gymwys hefyd i gymorth cyfreithiol ar gyfer CC/CE sy'n dibynnu ar brawf modd – oherwydd fel arfer yn yr achosion hynny nid oes bygythiad i ryddid ar y pryd fel a geir mewn treial yn Llys y Goron neu'r llys ynadon.
465. Felly, rydym yn cynnig cysoni'r prawf modd ar gyfer CC/CE â'r prawf modd arfaethedig ar gyfer help cyfreithiol sifil a gwaith rheoledig yn yr holl feysydd, yn cynnwys trothwyon incwm a chyfalaf, cyfwertholi, a diystiriadau incwm a chyfalaf. Credwn fod elfennau sy'n debyg rhwng y mathau o waith a geir mewn help cyfreithiol a gwaith rheoledig a CC/CE, gan fod y ddau faes yn cynnwys cyngor cyfreithiol a chynrychiolaeth heblaw yn y llys gan mwyaf. Drwy gysoni â'r prawf hwn, byddwn yn delio hefyd â'r ffaith na ellir casglu cyfraniadau am y gwaith hwn – y rheswm am hyn

yw bod y prawf modd am CC/CE, fel yr un am help cyfreithiol sifil, yn cael ei gynnal gan ddarparwyr, sydd heb fecanwaith i gasglu cyfraniadau cymorth cyfreithiol.

466. Fel yr eglurwyd ym Mhenodau 3 a 4, mae'r trothwyon arfaethedig ar gyfer help cyfreithiol sifil wedi'u gosod i adlewyrchu gwariant angenrheidiol, a chynilion cyfalaf ac ecwiti cyfartalog. Credwn y bydd y trothwyon hyn ar gyfer CC a CE, fel y rhai ar gyfer help cyfreithiol sifil, yn sicrhau bod cymorth cyfreithiol ar gael i'r rheini sydd â'r angen mwyaf.
467. Bydd y newid hwn yn gwneud y prawf yn fwy hael i fwyaf yr ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol ar gyfer CC/CE. Er bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr hyn yn garcharorion, sydd heb arfer â dim ond y lleiaf o dreuliau costau byw ac incwm isel (ac sydd felly'n llai tebygol o fethu'r prawf modd), mae rhai ymgeiswyr sydd heb fod yn y carchar a/neu a allai fod â phartner sy'n ennill incwm y gellir ei ystyried mewn prawf modd. Rydym yn cynnig parhau i gynnwys adnoddau partner i'r ymgeisydd wrth asesu'r modd sydd ganddo, er mwyn sicrhau bod cymorth cyfreithiol yn cael ei dargedu at y rheini sydd â'r angen mwyaf amdano.

**Cwestiwn 85:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i gysoni'r profion modd ar gyfer CC a CE â'r prawf modd arfaethedig ar gyfer help cyfreithiol sifil a gwaith rheoledig? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### **Budd-daliadau pasbortio**

468. Rydym yn cynnig y bydd y trefniadau pasbortio i ymgeiswyr ar gyfer CC/CE hefyd yn adlewyrchu'r rheini a amlinellwyd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil ym Mhenodau 3 a 4. Ar gyfer pasbortio incwm, mae hyn yn golygu na fydd ymgeiswyr sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn cael eu pasbortio bellach os yw enillion yr aelwyd yn fwy na £500 y mis. Mae'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ar gyfer cyngor a chynhorthwy troseddol yn garcharorion, a chan nad yw carcharorion yn gallu hawlio Credyd Cynhwysol yn y rhan fwyaf o achosion, nid ydym yn rhag-weld y bydd cyflwyno trothwy enillion yn cael effaith sylweddol ar gymhwystra carcharorion am gymorth cyfreithiol, nac ar lwyth gwaith ymarferwyr. Er hynny, credwn ei bod yn deg bod unrhyw ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ac yn ennill mwy na £500 y mis yn mynd drwy asesiad incwm llawn.

**Cwestiwn 86:** a ydych yn cytuno â'r cynnig i gysoni'r trefniadau pasbortio ar gyfer cyngor a chynhorthwy â'r rheini ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

## **Pennod 8: Gweithredu ac adolygu'r profion modd newydd ar gyfer cymorth cyfreithiol**

469. Mae'r bennod hon yn cynnwys ein cynigion ar gyfer gweithredu'r profion modd newydd fesul cam, yn cynnwys ein cynigion ar gyfer darpariaethau pontio i'r rheini a fydd eisoes yn derbyn cymorth cyfreithiol pan weithredir y profion modd newydd. Mae hefyd yn cynnwys ein cynigion ar gyfer monitro effaith y profion modd newydd, ac ar gyfer adolygu'r trothwyon incwm a chyfalaf. Rydym hefyd wedi gofyn cwestiynau mewn perthynas â'r effaith bosibl ar ddarparwyr o ganlyniad i'n cynigion polisi, a'r effaith bosibl ar gydraddoldebau.

### **Gweithredu**

470. Ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori ar yr Adolygiad o'r Profion Modd, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac wedyn yn cyhoeddi crynodeb o ymatebion ochr yn ochr â manylion llawn ein profion modd newydd. Byddwn yn ceisio cyhoeddi hyn o fewn 12 wythnos ar ôl diwedd yr ymgynghoriad.

471. Byddwn wedyn yn paratoi unrhyw ddiwygiadau i reoliadau y bydd eu hangen, a'r canllawiau ar eu cyfer i ddarparwyr ac ymgeiswyr cymorth cyfreithiol. Ar yr un pryd, bydd gwaith yn dechrau i wneud y newidiadau angenrheidiol yn systemau digidol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA).

472. Rydym yn sylweddoli y bydd nifer mawr o ddarparwyr cymorth cyfreithiol ac ymgeiswyr dichonol am gymorth cyfreithiol yn dymuno gweld y profion modd newydd ar waith cyn gynted â phosibl oherwydd, yn gyffredinol, byddai ein cynigion yn arwain at gynnydd yn y nifer a fydd yn gymwys am gymorth cyfreithiol.

473. Fodd bynnag, bydd y newidiadau arfaethedig hyn yn effeithio ar nifer mawr o systemau digidol yr LAA, ac (yn ôl yr opsiynau polisi a benderfynir yn y pen draw) byddant yn galw am newidiadau sylweddol yn y systemau hyn. Nes bydd manylion y profion modd newydd wedi'u cwblhau yn dilyn ymgynghori, ni fyddwn yn gallu datblygu cynllun gweithredu digidol llawn. Er hynny, credwn ei bod yn bwysig cynnwys cynigion amlinellol ar weithredu yn yr ymgynghoriad hwn, fel y bydd partïon a effeithir yn cael cyfle i wneud sylwadau amdanynt.

474. Rydym wedi ystyried cynnig gweithredu'r holl brofion modd newydd ar yr un dyddiad. Fodd bynnag, oherwydd nifer y systemau digidol sy'n gysylltiedig, credwn fod y dull

hwn o weithredu yn debygol o gynyddu'r risg o oedi neu broblemau eraill. Felly, rydym yn cynnig gweithredu'r profion modd newydd fesul cam, fel y gallwn weithredu'n gyflymach mewn rhai meysydd. Ar yr un pryd, rydym yn ymwybodol y bydd angen i unrhyw gynllun gweithredu gymryd i ystyriaeth anghenion darparwyr cymorth cyfreithiol ac ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol, ac felly iddo fod mor syml â phosibl.

475. Yn hytrach na gweithredu'r holl gynigion yr un pryd, nid ydym yn gallu pennu dyddiadau ar hyn o bryd ar gyfer y camau penodol sydd wedi'u hamlinellu isod, ond rydym yn gobeithio gallu darparu rhagor o fanylion yn ein hymateb i'r ymgynghoriad.

**Cwestiwn 87:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i weithredu'r profion modd newydd fesul cam, yn hytrach nag ar un dyddiad? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### Cam 1

476. Ar gam 1, rydym yn cynnig gweithredu'r meysydd cymorth cyfreithiol sifil nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd – hynny yw, cymorth cyfreithiol nad yw'n dibynnu ar brawf modd am gynrychiolaeth gyfreithiol i rai dan 18 oed, rhieni neu'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhieni sy'n wynebu achos yn ymwneud ag atal/tynnu'n ôl driniaeth cynnal bywyd ar gyfer plant dan 18 oed a help cyfreithiol ar gyfer cwestau sy'n ymwneud â thoriad posibl ar hawliau Siarter Hawliau Dynol Ewrop neu fudd ehangach sylweddol i'r cyhoedd (os cytunir ar y cynigion hyn yn dilyn ymgynghori). Dylai'r broses o weithredu'r newidiadau hyn fod yn gymharol syml o safbwynt digidol, a bydd hefyd yn cynyddu mynediad at gymorth cyfreithiol yn y meysydd hyn gan leihau'r baich gweinyddol i ddarparwyr ac ymgeiswyr cymorth cyfreithiol.

**Cwestiwn 88:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i weithredu'r meysydd cymorth cyfreithiol sifil nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd (os cadarnheir y rhain yn dilyn ymgynghori) cyn unrhyw feysydd eraill? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### Cam 2

477. Rydym yn cynnig mai'r cam nesaf fydd gweithredu gweddill y prawf modd sifil newydd a'r system cyfraniadau, cyn y profion modd troseddol newydd. Y rheswm am hyn yw, yn ôl ein dadansoddiad, y bydd mwy o ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol yn cael budd o'r newidiadau arfaethedig yn y prawf modd sifil: bydd 13,000 o bobl yn cael budd bob blwyddyn o ganlyniad i'r newidiadau rydym yn eu cynnig mewn

cymorth cyfreithiol sifil, o'i gymharu â 11,000 o ganlyniad i'r newidiadau rydym yn eu cynnig mewn cymorth cyfreithiol troseddol.<sup>55</sup>

**Cwestiwn 89:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i weithredu gweddill y prawf modd sifil newydd fel Cam 2 yn y broses gweithredu, cyn y profion modd troseddol newydd? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### Cam 3

478. Y trydydd cam fydd gweithredu'r profion modd troseddol newydd – hynny yw, y profion modd newydd yn Llys y Goron a'r llys ynadon, ac ar gyfer cyngor a chynhorthwy a chynhorthwy eiriolaeth troseddol, a system cyfraniadau ddiwygiedig Llys y Goron, heblaw am ddileu pasbortio cyfalaf yn Llys y Goron ar gyfer derbynwyr budd-daliadau sy'n berchnogion cartrefi.

### Cam 4

479. Y pedwerydd cam fydd dileu pasbortio cyfalaf yn Llys y Goron ar gyfer derbynwyr budd-daliadau sy'n berchnogion cartrefi, os gwneir y newid hwnnw yn dilyn ymgynghori.

**Cwestiwn 90:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i weithredu'r profion modd troseddol newydd fel Cam 3, a dileu pasbortio cyfalaf yn Llys y Goron ar gyfer derbynwyr budd-daliadau sy'n berchnogion cartrefi fel Cam 4? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

**Cwestiwn 91:** a oes gennych unrhyw sylwadau pellach mewn perthynas â'r camau ar gyfer gweithredu'r profion modd newydd? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

## Darpariaethau pontio

480. Mae'r broses o bontio i'r profion modd newydd yn codi cwestiynau ynghylch y ffordd y byddwn yn trin y rheini sy'n derbyn cymorth cyfreithiol ar y pryd ar y pwynt pontio, yn enwedig y rheini sy'n talu cyfraniadau incwm rheolaidd at gost eu cymorth cyfreithiol.

---

<sup>55</sup> Mae hyn yn rhagdybio y bydd Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn erbyn gweithredu'r profion modd newydd. Os na fydd Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn erbyn hynny, bydd nifer yr ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol sifil a gaiff fudd o ganlyniad i weithredu'r prawf modd sifil newydd yn cynyddu.

481. Wrth ystyried ein cynigion mewn perthynas â hyn, rydym wedi ceisio osgoi peri unrhyw niwed i dderbynwyr cymorth cyfreithiol o ganlyniad i bontio i brawf modd newydd.
482. Bydd hawl gan unigolion a wnaeth gais o'r blaen am gymorth cyfreithiol a chael eu gwrthod ar sail modd, o'r dyddiad gweithredu perthnasol ar gyfer y prawf modd cysylltiedig, i gyflwyno cais newydd am gymorth cyfreithiol o dan reolau'r prawf modd newydd.
483. Ar gyfer unigolion y rhoddir cymorth cyfreithiol cyfrannol neu anghyfrannol iddynt cyn y dyddiad gweithredu perthnasol, bydd y dystysgrif neu orchymyn cynrychiolaeth a roddwyd yn parhau'n weithredol, ynghyd ag unrhyw orchymyn cyfraniad incwm ac amserlen talu sy'n berthnasol. O dan reoliadau presennol, gall fod yn ofynnol i'r LAA gynnal ail asesiad os bydd amgylchiadau ariannol y cleient yn newid; os bydd gwybodaeth newydd yn dod i'r golwg neu os cafwyd gwall gweinyddol. Mae'r cynllun cymorth cyfreithiol troseddol hefyd yn darparu ar gyfer adolygiad ar sail 'caledi' .
484. O dan y rheoliadau presennol, nid oes hawl gan unigolyn i wneud cais am ail asesiad yn dilyn newid mewn rheolau profion modd. Rydym yn cynnig newid hyn, i roi hawl i dderbynwyr cymorth cyfreithiol sifil a throeddol i ofyn am ailasesu eu modd o dan y system profion modd newydd. Gallai hyn arwain at dalu cyfraniad misol llai gan dderbynwyr cymorth cyfreithiol, neu ddim cyfraniad o gwbl.
485. Byddai'r dystysgrif neu orchymyn cynrychiolaeth a roddwyd yn parhau'n effeithiol yn ystod y broses ailasesu er mwyn sicrhau parhad ac osgoi tarfu ar yr achos neu'r treial. Ni fyddai'r ail asesiad yn effeithio ar unrhyw gyfraniadau cyfalaf neu incwm sydd wedi'u gwneud neu sy'n ddyledus o ganlyniad i'r rheolau cyn gweithredu.
486. Rydym yn cynnig (gweler Pennod 3, paragraff 217) cyflwyno cyfnod talu hiraf penodedig o 24 mis am gymorth cyfreithiol ar gyfer cynrychiolaeth sifil, yn lle taliadau drwy gydol cyfnod yr achos (fel y mae ar hyn o bryd). Os cadarnheir y cynnig hwn, bydd yr LAA yn oedi cyfraniadau incwm gan gleientiaid yn awtomatig at y dyfodol os ydynt eisoes wedi cyrraedd neu fynd dros y cyfnod talu hiraf ar ddyddiad gweithredu'r cynnig.

**Cwestiwn 92:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i ganiatáu i dderbynwyr cymorth cyfreithiol presennol ofyn am ail asesiad o dan y rheolau profion modd newydd, pan gânt eu gweithredu? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

487. Rydym yn sylweddoli bod rhai senarios penodol lle byddai derbynwyr cymorth cyfreithiol presennol yn gallu profi niwed drwy drosglwyddo i'r system newydd. Nid ydym yn cynnig ailasesu gorfodol neu awtomatig yn dilyn cyflwyno'r system newydd,

felly rydym yn rhag-weld y bydd mwyafrif y derbynwyr hyn yn parhau yn y system bresennol.

488. Fodd bynnag, mewn rhai achosion (er enghraifft, lle mae newid mewn incwm), mae'r rheolau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol gynnal ail asesiad o fodd. Rydym wedi cynnwys ein cynigion ar gyfer y sefyllfa hon isod.

### **Cymorth cyfreithiol sifil**

489. Mae mwyafrif y rheini sy'n derbyn cymorth cyfreithiol sifil yn debygol o weld canlyniad mwy ffafriol o dan y prawf modd yn dilyn ail asesiad o dan y rheolau newydd. Felly, rydym yn cynnig y dylid cymryd y bydd unrhyw ail asesiad yn cael ei wneud o dan y rheolau newydd.

490. Er hynny, rydym yn cydnabod y gall rhai fod o dan anfantais, sef:

- Derbynwyr Credyd Cynhwysol a gafodd eu pasbortio drwy'r prawf incwm heb ystyried lefel eu henillion, a allai fod ar eu colled os ydynt yn ennill mwy na £500 y mis, ac felly'n gorfod mynd drwy asesiad modd llawn;
- Y rheini sydd rhwng 60 oed a'r oedran pensiwn arferol, a allai fod o dan anfantais o ganlyniad i'r newid yn y meini prawf ar oed ar gyfer y diystyriad cyfalaf pensiynwr.

491. Felly, rydym yn cynnig, os bydd unigolyn wedi cael mantais o'r rheolau cyn gweithredu ar basbortio incwm Credyd Cynhwysol a/neu y diystyriad pensiynwyr, y bydd y rheolau cyn gweithredu ar gyfer y ddwy elfen hynny yn parhau'n gymwys mewn unrhyw ail asesiad.

**Cwestiwn 93:** a ydych yn cytuno â'n cynnig y dylai ail asesiadau ar gyfer derbynwyr cymorth cyfreithiol sifil gael eu gwneud o dan y system profion modd newydd, ond ar yr amod y bydd derbynwyr a gafodd fantais o'r rheolau blaenorol ar basbortio incwm Credyd Cynhwysol a/neu y diystyriad pensiynwyr yn parhau i ddod o dan y rheolau profion modd blaenorol yn y meysydd hyn? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

### **Cymorth cyfreithiol troseddol**

492. Gan fod cymorth cyfreithiol yn y llys ynadon ac ar gyfer cyngor a chynhorthwy a chynhorthwy eiriolaeth troseddol yn anghyfrannol, mae'r cynigion hyn yn ymwneud yn bennaf â diffynyddion sy'n talu cyfraniadau incwm at gost cymorth cyfreithiol ar gyfer cynrychiolaeth yn Llys y Goron.

493. Er y bydd diffynyddion yn Llys y Goron yn cael budd ar y cyfan o'r newidiadau arfaethedig yn y prawf modd gan fod eu cyfraniad incwm misol yn debygol o fod yn



llai yn dilyn ailasesu, byddai'r cynnig i ymestyn y cyfnod talu hiraf ar gyfer cyfraniadau incwm o 6 mis i 18 mis yn gallu peri niwed posibl i'r unigolyn.

494. Felly, rydym yn cynnig y dylid cymryd y bydd ail asesiadau mewn perthynas â newid mewn incwm yn cael eu gwneud o dan y rheolau cyn gweithredu. Fodd bynnag, byddai'r diffynnydd yn gallu dewis cael ei ailasesu o dan y rheolau newydd os oedd yn well ganddo hynny, fel y byddai diffynnydd yn sicr o wneud os oedd yn gofyn am ail asesiad o dan y rheolau newydd yn unswydd i leihau neu ddileu ei gyfraniad incwm misol, neu am unrhyw reswm arall.
495. Yn dilyn ail asesiad o dan y rheolau newydd, os bydd y diffynnydd yn symud i gyfraniad misol llai o dan yr amserlen talu hiraf a gynigir o 18 mis, bydd unrhyw daliadau misol a wnaed o dan y rheolau cyn gweithredu yn cael eu didynnu o'r amserlen talu newydd. Bydd gwerth cyfraniadau incwm a dalwyd hyd at yr ail asesiad yn cyfrif at y cap costau o dan y prawf modd newydd (gweler Pennod 6, paragraff 378). Yn yr un modd, bydd yn rhaid talu unrhyw daliadau misol sy'n parhau'n ddyledus o dan y rheolau cyn gweithredu cyn eu rhoi yn erbyn y cap costau newydd a'u didynnu o nifer y taliadau misol o dan yr amserlen talu newydd.
496. Os bydd diffynnydd wedi dewis cael ei ailasesu o dan y rheolau newydd, ni fydd yn gallu dewis mynd yn ôl at yr hen reolau wedyn (o safbwynt gweithredol, ni fyddai'n ymarferol nac yn dechnegol bosibl rheoli nifer o ail asesiadau ar draws systemau cyfrannu gwahanol). Bydd canllawiau newydd, yn cynnwys canllaw cyflym, yn caniatáu i'r diffynnydd a'i gynrychiolydd cyfreithiol ddod i benderfyniad seiliedig ar wybodaeth cyn gwneud cais.

**Cwestiwn 94:** a ydych yn cytuno â'n cynnig y dylid cymryd yn y lle cyntaf y bydd unrhyw ail asesiadau a wneir, yn dilyn gweithredu prawf modd newydd Llys y Goron, o ganlyniad i newid mewn incwm, gwybodaeth newydd, gwall gweinyddol neu galedi, yn cael eu gwneud ar sail y prawf modd blaenorol, ond y dylid caniatáu i'r diffynnydd ddewis y prawf modd newydd os yw hwnnw'n well ganddo? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

**Cwestiwn 95:** a oes gennych unrhyw sylwadau pellach am ein cynigion mewn perthynas â'r pontio o'r hen system profion modd i'r un newydd?

## Uwchraddio

497. Yn ystod yr ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhan o'r Adolygiad o'r Profion Modd, mae nifer o randdeiliaid wedi codi pryderon ynghylch a fydd y broses o fonitro trothwyon

incwm a chyfalaf, a'u huwchraddio os bydd angen, yn parhau ar ôl gweithredu'r prawf modd newydd.

498. Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig i ni fonitro trothwyon incwm a chyfalaf, er mwyn sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer newidiadau yng nghostau byw ac unrhyw ffactorau eraill a all effeithio ar fynediad at gyfiawnder yng nghyd-destun profion modd.
499. Felly, rydym yn cynnig y bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn adolygu'r trothwyon incwm a chyfalaf ar gyfer cymorth cyfreithiol yn rheolaidd (yn cynnwys y trothwy enillion ar gyfer pasbortio Credyd Cynhwysol, os caiff ei weithredu), gan gynnal yr adolygiad cyntaf o fewn 3 i 5 mlynedd wedi i'r prawf modd newydd gael ei roi ar waith yn gyflawn. Hynny yw, byddai'r adolygiad cyntaf yn cael ei gyhoeddi 3 blynedd ar y cynharaf a dim hwyrach na 5 mlynedd ar ôl gweithredu'r prawf modd newydd. Mae hyn yn gyson ag amserlenni arferol llywodraeth ar gyfer adolygu ar ôl gweithredu cynigion.
500. Ar hyn o bryd, nid oes gennym ddyddiad pendant ar gyfer pa bryd y bydd y prawf modd newydd yn dod yn weithredol, ond bydd hyn yn gliriach erbyn i ni gyhoeddi'r ymateb i'r ymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Profion Modd.<sup>56</sup> Nid ydym am bennu terfynau amser penodol ar gyfer adolygiadau dilynol ar hyn o bryd.
501. Rydym yn cynnig y byddai cwmpas yr adolygiad hwn yn cynnwys nod i sicrhau mynediad at gyfiawnder a bod trothwyon y profion modd yn parhau i weithio mewn ffordd sy'n gyson ag un o amcanion gwreiddiol Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr, sef targedu cymorth cyfreithiol at y rheini sydd â'r angen mwyaf amdano.
502. Byddai'r adolygiad yn gallu rhoi sylw i ffactorau sy'n cynnwys (ymysg eraill o bosibl) y canlyniadau o arolwg diweddaraf yr ONS o Gostau Byw a Bwyd (sy'n sail i'r profion modd newydd arfaethedig); ffigurau'r ONS ar ecwiti cyfartalog mewn tai (ar gyfer y diystyriad ecwiti); ffigurau diweddar am chwyddiant; llinellau amser yr Adolygiad o Wariant; a chyllid llywodraeth ehangach.

---

<sup>56</sup> Dylid nodi, ar ben hynny, fod y trothwyon a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn wedi'u tynnu o Arolwg Costau Byw a Bwyd yr ONS ar gyfer 2019–20. Cyhoeddir Arolwg Costau Byw a Bwyd yr ONS ar gyfer 2020–21 cyn hir; fodd bynnag, gan fod hwn yn cynnwys y cyfnodau clo yn ystod y pandemig COVID-19, mae'n bosibl na fydd yn adlewyrchu gwariant aelwydydd nodweddiadol. Byddwn yn trafod y mater hwn yn ein hymateb i'r ymgynghoriad hwn.

**Cwestiwn 96:** a ydych yn cytuno â'n cynnig i gynnal adolygiad o drothwyon y profion modd o fewn 3–5 mlynedd ar ôl gweithredu'r profion modd newydd? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

## Yr effaith ar gydraddoldebau a darparwyr

503. Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, rydym wedi cynnwys dadansoddiad manwl o asesiad o effaith y cynigion hyn ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig, i'r graddau y mae'r data sydd gennym yn caniatáu. Bydd o ddiddordeb i ni gael barn ymatebwyr am yr effeithiau posibl hyn, yn cynnwys mewn perthynas â grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig lle nad oes gennym ddim neu nemor ddim data ar hyn o bryd ar y graddau y mae'r grwpiau hyn wedi'u cynrychioli ar hyn o bryd ymysg derbynwyr cymorth cyfreithiol.

**Cwestiwn 97:** a oes gennych farn am effaith bosibl ein cynigion ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig? Y rhain yw: oed; hil; anabledd; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; ailbennu rhywedd; priodas neu bartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; crefydd neu gred. Byddem yn arbennig o falch o gael gwybodaeth am y grwpiau gwarchoddedig nad oes gennym ddata amdanynt mewn perthynas â chymorth cyfreithiol: ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, a chrefydd neu gred.

504. Drwy gydol yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi gofyn gwahanol gwestiynau am yr effaith bosibl o gynigion penodol ar ddarparwyr cymorth cyfreithiol, yn cynnwys mewn perthynas â'r baich gweinyddol. Rydym wedi cynnwys asesiadau effaith o effaith ddichonol y cynigion hyn ar ddarparwyr cymorth cyfreithiol sifil a throseddol. Bydd hefyd o ddiddordeb i ni gael barn darparwyr am ein diwygiadau arfaethedig i gyd, ac am eu heffaith ar gynaliadwyedd y proffesiynau cymorth cyfreithiol sifil a throseddol.

505. Felly, rydym yn gofyn cwestiynau ychwanegol am effaith bosibl ein cynigion, gyda'i gilydd, ar ddarparwyr cymorth cyfreithiol sifil, troseddol a theuluol.

**Cwestiwn 98:** a ydych yn meddwl y byddai'r cynigion hyn, gyda'i gilydd, yn lleihau'r baich gweinyddol i ddarparwyr cymorth cyfreithiol ac ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol ar gyfer cynrychiolaeth sifil, neu'n ei gynyddu neu'n ei adael yn weddol debyg?

**Cwestiwn 99:** a ydych yn credu y bydd y cynigion hyn, os cânt eu gweithredu, yn gwella cynaliadwyedd cymorth cyfreithiol sifil? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

**Cwestiwn 100:** a ydych yn meddwl y byddai'r cynigion hyn, gyda'i gilydd, yn lleihau'r baich gweinyddol i ddarparwyr cymorth cyfreithiol ac ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol ar gyfer help cyfreithiol sifil, neu'n ei gynyddu neu'n ei adael yn weddol debyg?

**Cwestiwn 101:** a ydych yn credu y bydd y cynigion hyn, os cânt eu gweithredu, yn gwella cynaliadwyedd cymorth cyfreithiol sifil? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

**Cwestiwn 102:** a ydych yn meddwl y byddai'r cynigion hyn, gyda'i gilydd, yn lleihau'r baich gweinyddol i ddarparwyr cymorth cyfreithiol ac ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol ar gyfer achosion teuluol cyhoeddus, neu'n ei gynyddu neu'n ei adael yn weddol debyg?

**Cwestiwn 103:** a ydych yn credu y bydd y cynigion hyn, os cânt eu gweithredu, yn gwella cynaliadwyedd cymorth cyfreithiol ar gyfer materion teuluol cyhoeddus? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

**Cwestiwn 104:** a ydych yn meddwl y byddai'r cynigion hyn, gyda'i gilydd, yn lleihau'r baich gweinyddol i ddarparwyr cymorth cyfreithiol ac ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol ar gyfer achosion teuluol preifat, neu'n ei gynyddu neu'n ei adael yn weddol debyg?

**Cwestiwn 105:** a ydych yn credu y bydd y cynigion hyn, os cânt eu gweithredu, yn gwella cynaliadwyedd cymorth cyfreithiol ar gyfer materion teuluol? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

**Cwestiwn 106:** a ydych yn meddwl y byddai'r cynigion hyn, gyda'i gilydd, yn lleihau'r baich gweinyddol i ddarparwyr cymorth cyfreithiol ac ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol yn Llys y Goron a'r llys ynadon, neu'n ei gynyddu neu'n ei adael yn weddol debyg?

**Cwestiwn 107:** a ydych yn credu y bydd y cynigion hyn, os cânt eu gweithredu, yn gwella cynaliadwyedd cymorth cyfreithiol troseddol? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

**Cwestiwn 108:** a ydych yn meddwl y byddai'r cynigion hyn, gyda'i gilydd, yn lleihau'r baich gweinyddol i ddarparwyr cymorth cyfreithiol ac ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol ar gyfer cyngor a chynhorthwy/cynhorthwy eiriolaeth troseddol, neu'n ei gynyddu neu'n ei adael yn weddol debyg?

**Cwestiwn 109:** a ydych yn credu y bydd y cynigion hyn, os cânt eu gweithredu, yn gwella cynaliadwyedd cymorth cyfreithiol ar gyfer materion cyngor a chynhorthwy/cynhorthwy eiriolaeth troseddol? Atebwch drwy ddatgan ydw/nac ydw/efallai a darparwch resymau.

# Atodiad A: Taliadau sy'n cael eu diystyru ar hyn o bryd yn y profion modd ar gyfer cymorth cyfreithiol

**Taliadau sy'n cael eu diystyru ar hyn o bryd yn yr asesiadau o gyfalaf ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a chyngor a chynhorthwy/cynhorthwy eiriolaeth troseddol (CC/CE)**

*\* Mae (g) yn dynodi taliadau a ddiystyrir ar sail orfodol ac mae (d) yn dynodi'r rheini a ddiystyrir ar sail ddisgresiynol*

Taliad	Sifil	CC/CE Troseddol
Bonws Dychwelyd i'r Gwaith y Ceiswyr Gwaith	X (g)	X (g)
Unrhyw daliad cyfalaf a wnaed o'r Cronfeydd Byw'n Annibynnol	X (g)	
Taliadau a wnaed o'r Gronfa Gymdeithasol neu ôl-daliadau o daliadau uniongyrchol ar gyfer plentyn anabl neu oedolyn sy'n agored i niwed	X (g)	
Taliadau a wnaed o dan Gynllun Digolledu Windrush neu unrhyw daliad sy'n gysylltiedig â Windrush	X (g)	X (g)
Taliadau Tân Grenfell Tower	X (d)	
Taliadau'r Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig	X (g)	
Taliad o dan y Ddeddf Taliadau Niwed drwy Frechiad	X (g)	
Digollediad i berson y gwnaed diagnosis ei fod yn dioddef o glefyd amrywiolyn Creutzfeldt-Jakob (vCJD)	X (g)	
Taliadau o gynlluniau'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon	X (d)	
Taliad a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth Argyfyngau Cenedlaethol	X (d)	
Taliadau o Gronfa We Love Manchester	X (d)	
Taliadau o Gronfa Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain	X (d)	
Y £100,000 cyntaf o werth buddiant yr unigolyn yn y brif neu'r unig annedd y mae'r unigolyn yn preswyllo ynddi	X (g)	X (g)

**Taliadau sy'n cael eu diystyru ar hyn o bryd yn yr asesiad o incwm ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol<sup>57</sup> a sifil***\*\*yn agored i'w newid o ganlyniad i gynigion yr ymgynghoriad*

<b>Taliad</b>	<b>Sifil</b>	<b>Troseddol</b>
Lwfans Gweini	X(g)	X(g)
Lwfans Anabledd Difrifol	X(g)	X(g)
Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol	X(g)	X(g)
Lwfans Gofalwr	X(g)	X(g)
Lwfans Byw i'r Anabl	X(g)	X(g)
Lwfans Gweini Cyson	X(g)	X(g)
Budd-dal y Dreth Gyngor**	X(g)	X(g)
Taliad o'r Gronfa Gymdeithasol	X(g)	X(g)
Budd-daliadau Tai**	X(g)	X(g)
Taliad o'r Gronfa Byw'n Annibynnol	X(g)	X(g)
Taliadau uniongyrchol Gofal Cymunedol ac Anghenion Arbennig	X(g)	X(g)
Pensiynau a dalwyd o dan y gorchymyn Pensiynau gwasanaeth Llyngesol, Milwrol a'r Llu Awyr (Anabledd a Marwolaeth)	X(g)	X(g)
Taliad annibyniaeth y lluoedd arfog	X(g)	X(g)
Taliadau annibyniaeth personol a dalwyd o dan Ran 4 o Ddeddf Diwygio Lles 2012	X(g)	X(g)
Cymorth ariannol a dalwyd o dan gytundeb ar gyfer gofal plentyn maeth	X(g)	X(g)
Unrhyw daliadau a wnaed o'r Gronfa Gymdeithasol neu ôl-daliadau o daliadau uniongyrchol ar gyfer plentyn anabl neu oedolyn sy'n agored i niwed	X(g)	X(g)
Taliadau o unrhyw Fonws Dychwelyd i'r Gwaith a dderbyniwyd o dan adran o Ddeddf Ceiswyr Gwaith 1995**	X(g)	X(g)
Taliadau a wnaed o dan Gynllun Digolledu Windrush a thaliadau sy'n gysylltiedig â Windrush	X(g)	X(g)
Rhagdaliadau trosglwyddo ar gyfer Credyd Cynhwysol	X(g)	X(g)

<sup>57</sup> Mae'r diystyriadau hyn yn gymwys i gymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer CC/CE, y llys ynadon a Llys y Goron

<b>Taliad</b>	<b>Sifil</b>	<b>Troseddol</b>
Taliadau Tân Grenfell Tower	X(d)	
Grant Byw'n Annibynnol Cymru	X(g)	X(g)
Unrhyw dreuliau byw rhesymol y darparwyd amdanynt fel eithriad i orchymyn llesteirio o dan adran 41 o Ddeddf Enillion Troseddau 2002	-	X(g)
Cynlluniau Cymorth Gwaed Heintiedig perthnasol	X(g)	-
Taliadau o dan y Ddeddf Taliadau Niwed drwy Frechiad	X(g)	-
Digollediad i berson y gwnaed diagnosis ei fod yn dioddef o glefyd amrywiolyn Creutzfeldt-Jakob	X(g)	-
Taliadau o gynlluniau'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon	X(d)	-
Taliadau o'r Ymddiriedolaeth Argyfyngau Cenedlaethol	X(d)	-
Taliadau o Gronfa We Love Manchester	X(d)	-
Taliadau o Gronfa Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain	X(d)	-

# Atodiad B: Achosion sy'n esempt ar hyn o bryd rhag profion modd ar gyfer cymorth cyfreithiol

Sifil a theuluol	Troseddol
<p>Achosion Deddf Plant 1989</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gorchmynion gofal a goruchwyllo</li> <li>Defnyddio llety i gyfyngu rhyddid</li> <li>Gorchymyn asesu plentyn</li> <li>Gorchymyn amddiffyn brys a'r cyfnod amddiffyn brys</li> </ul> <p>Iechyd meddwl</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Amddiffyn y rheini sy'n agored iawn i niwed ac a allai gael eu hamddifadu o'u rhyddid – wrth herio gorchymyn amddifadu o ryddid a wnaed gan ysbyty neu gyfleuster gofal</li> <li>Defnyddio pwerau o dan y Ddeddf Amddifadu o Ryddid drwy lysoedd nad ydynt yn gymwys am gymorth cyfreithiol nad yw'n dibynnu ar brawf modd</li> <li>Gorchymyn awdurdod brys (achosion Adran 4B) wrth newid drosodd i Ddiogeliadau Amddiffyn Rhyddid</li> </ul> <p><b>Cyfyngu teuluol</b> (mewn perthynas â chyfarfod Gwybodaeth ac Asesu Cyfyngu, cytundebau'r UE a chytundebau rhyngwladol)</p> <p>Cynnal cytundebau rhyngwladol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Amddiffyn plentyn, anghydfodau trawsffiniol a chynhaliadaeth plant</li> </ul> <p><b>Amddiffyn rhag ymestyn pwerau gan y wladwriaeth</b> (e.e. rhai agweddau ar Fesurau Atal ac Ymchwilio i Derfysgaeth)</p> <p>Mae'r <b>cynllun dyletswydd llys ar gyfer meddiant tai</b> yn darparu cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol frys ar ddiwrnod y gwrandawriad, heb ddibynnu ar brawf modd, i unrhyw un sy'n wynebu achos meddiannaeth.</p> <p><b>Cwestau, lle:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>ceisir eiriolaeth o dan y Cynllun Ariannu Achosion Eithriadol ar gyfer materion sy'n ymwneud ag Erthygl 2 a</li> </ul>	<p>Cyngor a chynhorthwy</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>cynhorthwy eiriolaeth o flaen y llys ynadon neu Lys y Goron;</li> <li>cyngor a chynhorthwy a ddarperir gan gyfreithiwr ar ddyletswydd neu a ddarperir i wirfoddolwr yn ystod presenoldeb gwirfoddol;</li> <li>cyngor a chynhorthwy a ddarperir yng ngorsaf yr heddlu yn ystod cyfweiliad mewn cysylltiad â throedd lluoedd arfog ddifrifol.</li> </ul> <p>Cynrychiolaeth ar gyfer achos troseddol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Lle mae unigolyn yn apelio yn erbyn euogfarn neu ddedfryd i'r Llys Apêl</li> <li>Achosion sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliad 25(2) o Reoliadau Cyffredinol Cymorth Cyfreithiol Troseddol e.e.</li> <li>Lle mae unigolyn wedi'i draddodi i Lys y Goron i'w ddedfrydu, ond dim ond lle nad oedd yr unigolyn wedi gwneud cais, neu wedi cael caniatâd i gais ar gyfer cynrychiolaeth yn</li> </ul>



<b>Sifil a theuluol</b>	<b>Troseddol</b>
<p>hefyd lle gwnaed penderfyniad sydd o Fudd Ehangach i'r Cyhoedd;</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• ceisir cyngor a chynhorthwy o dan y cynllun help cyfreithiol, lle darperir eiriolaeth o dan y Cynllun Ariannu Achosion Eithriadol.</li></ul>	<p>yr achos a gynhaliwyd yn y llys ynadon.</p>

# Atodiad C: Nodyn technegol ar gyfrifo'r trothwyon incwm arfaethedig ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a throsteddol

1. Mae'r nodyn hwn yn egluro sut rydym wedi cyfrifo'r trothwyon incwm gwario arfaethedig ar gyfer y profion modd. Mae'r nodyn hwn hefyd yn trafod y dull o gyfrifo'r trothwy incwm gros arfaethedig ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil ac achosion trosteddol yn y llys ynadon.

## Y trothwyon incwm gwario

2. Defnyddir Lwfans Costau Byw yn sail i'r trothwy isaf ar incwm gwario a gynigir ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a'r ddarpariaeth ar gyfer partneriaid a dibynyddion, a hefyd ar gyfer y trothwyon ar incwm gwario a gynigir ar gyfer cymorth cyfreithiol trosteddol yn Llys y Goron a'r llys ynadon. Nod ein dull o weithredu yw sicrhau bod ein trothwyon yn darparu ar gyfer gwariant aelwydydd digonol, ac na fydd ymgeiswyr yn gorfod dewis rhwng talu am wasanaethau cyfreithiol preifat neu gyfraniadau cymorth cyfreithiol a chwrdd â'u costau byw hanfodol.
3. Er mwyn pennu gwerth costau byw cyfartalog, rydym wedi defnyddio arolwg Costau Byw a Bwyd diweddaraf yr ONS, sy'n cynnwys data am wariant aelwydydd canolrifol yn y DU ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020.<sup>58</sup> Y fethodoleg a ddefnyddiwyd oedd pwysoli data yr ONS yn gyntaf, er mwyn trosi'r data o wariant aelwydydd i wariant aelwyd ag un oedolyn. Gwnaethom hyn drwy bennu nifer yr oedolion cyntaf, yr oedolion ychwanegol a'r plant ym mhob sampl, a defnyddio gwerthoedd pwysoli a bennwyd yng Ngraddfa Addasedig OECD (0.72 am bob oedolyn ychwanegol a phlentyn dros 14 oed, a 0.34 am bob plentyn dan 14 oed) i gyfrifo gwerth pwysoli cyfartalog ar gyfer pob degradd. Gan nad yw data'r ONS yn gwahaniaethu rhwng plant dan 14 oed a phlant dros 14 oed, defnyddiwyd amcangyfrif procsi wedi'i seilio ar gyfran y plant dan 14 oed yn y boblogaeth gyfan.

---

<sup>58</sup> Family spending in the UK - Office for National Statistics (ons.gov.uk). Dylid nodi y bydd Arolwg Costau Byw a Bwyd yr ONS ar gyfer 2020–21 yn cael ei gyhoeddi cyn hir. Gan fod hwn yn cynnwys y cyfnodau clo yn ystod y pandemig COVID-19, mae'n bosibl na fydd yn adlewyrchu gwariant aelwydydd nodweddiadol. Byddwn yn trafod y mater hwn yn fwy manwl yn ein hymateb i'r ymgynghoriad hwn.

4. Ar ôl pwysoli'r data, roeddem wedyn wedi hepgor categorïau gwariant penodol (gweler isod), yn cynnwys y categorïau hynny sy'n cael eu hystyried mewn rhannau eraill o'r prawf modd (e.e. costau tai).<sup>59</sup>

### Trothwy isaf sifil ar incwm gwario

5. Y Lwfans Costau Byw a gynigir ar gyfer y trothwy isaf sifil ar incwm gwario yw £622 y mis, sef gwerth cyfartalog (cymedrig) gwariant byw hanfodol gan unigolyn yn 50% isaf y boblogaeth ar ôl ei dddoli ar sail incwm gros.

Mae'r dadansoddiad o wariant hanfodol ar gyfer y categori hwn fel a ganlyn:

Gwariant hanfodol	Gwariant nad yw'n hanfodol
Bwyd a diodydd dialcohol	Diodydd alcoholaidd, tybaco a chyffuriau
Dillad ac esgidiau	Hamdden a diwylliant
Gwasanaethau cynnal, atgyweirio ac amrywiol yn ymwneud â'r annedd	Addysg (ffioedd ysgol)
Dŵr, trydan, nwy a thanwyddau eraill	Gwasanaethau llety (gwyliau a llogi ystafelloedd)
Nwyddau a gwasanaethau'r cartref	Gwariant gwyliau ac yswiriant teithio
Iechyd	Trwyddedau, dirwyon a throsglwyddiadau (anrhegion a rhoddion o arian parod)
Trafnidiaeth <sup>60</sup>	
Cyfathrebu	
Prydau bwytai, caffis, ffreuturau a tecawê (heb gynnwys diodydd alcoholaidd)	
Nwyddau a gwasanaethau amrywiol, yn cynnwys pethau ymolchi ac yswiriant (heb gynnwys yswiriant teithio)	

<sup>59</sup> Mae'r data gan yr ONS a ddefnyddiwyd gennym yn cynnwys rhai 'gwerthoedd ataliedig' lle na chyhoeddwyd y ffigur gan yr ONS am fod meintiau'r sampl yn fach. Er mwyn cyfrifo'r trothwyon, rydym wedi cymryd mai '0' yw'r data hyn. Pe byddem wedi dilyn llwybr gwahanol (e.e. rhagdybio gwerth arall), byddai ein trothwyon sifil wedi gallu bod ychydig yn uwch.

<sup>60</sup> Mae'r elfen trafndiaeth yn didynnu £33 y mis i ddarparu ar gyfer y lwfans gwaith arfaethedig o £66 y mis, sydd wedi'i fwriadu i dalu am gostau teithio cysylltiedig â gwaith. Rydym wedi didynnu'r swm o £33 am ein bod wedi amcangyfrif mai oddeutu hanner yr ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol sydd mewn gwaith; felly drwy dddynnu hanner y lwfans gwaith dylid sicrhau dull sy'n weddol niwtral o ran cost.

**Trothwy uchaf sifil ar incwm gwario**

6. Y trothwy uchaf sifil arfaethedig ar incwm gwario yw £946 y mis, sy'n cyfateb i werth canolrifol cyffredinol costau byw yr unigolyn, wrth ystyried y boblogaeth gyfan. Mae'r dadansoddiad o'r gwariant a ganiateir ar gyfer y categori hwn fel a ganlyn:

Gwariant a ganiateir	Gwariant nas caniateir
Bwyd a diodydd dialcohol	Diodydd alcoholaidd, tybaco a chyffuriau
Dillad ac esgidiau	Taliadau hapchwarae
Gwasanaethau cynnal, atgyweirio ac amrywiol yn ymwneud â'r annedd	Addysg (ffioedd a thripiâu ysgol)
Dŵr, trydan, nwy a thanwyddau eraill	Trwyddedau, dirwyon a throsglwyddiadau (anrhegion a rhoddion o arian parod)
Nwyddau a gwasanaethau'r cartref	
Hamdden a diwylliant (heb gynnwys gwariant ar hapchwarae), gwariant gwyliau	
Gwasanaethau llety (gwyliau a llogi ystafelloedd)	
Iechyd	
Trafnidiaeth	
Cyfathrebu	
Prydau bwytai, caffis, ffreuturau a tecawê (heb gynnwys diodydd alcoholaidd)	
Nwyddau a gwasanaethau amrywiol	

7. Yn unol â'n dull cyffredinol o ddelio â chymhwystra am gymorth cyfreithiol sifil, rydym yn cynnig gosod y trothwy uchaf ar incwm gwario ar lefel gwariant cyfartalog yr aelwyd ganolrifol yn y DU.<sup>61</sup> Dim ond ychydig o elfennau sydd wedi'u hepgor o'r rhestr gan ein bod yn credu ei bod yn briodol bod ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol sifil yn gallu fforddio rhywfaint o gyfranogi cymdeithasol a diwylliannol – ond nid ydym yn credu ei bod yn amhriodol gofyn i ymgeiswyr gydbwyso gwariant o'r math hwn â chyfraniadau cymorth cyfreithiol.

**Trothwy ar incwm gwario ar gyfer Llys y Goron a'r Llys ynadon**

8. Y Lwfans Costau Byw a gynigir ar gyfer cyfrifo incwm gwario ar gyfer Llys y Goron a'r Llys ynadon yw £713 y mis, sy'n cyfateb i werth canolrifol cyffredinol costau byw

<sup>61</sup> Yn benodol, rydym yn defnyddio'r ffigur hwn yn brocsi dros yr aelwyd ganolrifol am mai hwn yw gwariant cyfartalog y 5ed a'r 6ed ganradd.

hanfodol yr unigolyn, wrth ystyried y boblogaeth gyfan. Mae'r dull hwn o weithredu, a sefydlwyd yn wreiddiol yn 2005 ar gyfer prawf modd y llys ynadon, yn un sydd ychydig yn wahanol i'n dull o drin y trothwyon incwm sifil. Y rheswm am hyn yw ein bod yn credu y dylai cymorth cyfreithiol fod ar gael i'r holl ddiffynyddion ar gyfer cynrychiolaeth yn Llys y Goron (er y gellir gofyn am gyfraniad incwm gan ddiffynyddion sydd â modd sy'n fwy na'r trothwy isaf ar incwm gwario), oherwydd y canlyniadau difrifol posibl a allai godi o gael euogfarn am drosedd yn Llys y Goron. Felly, credwn y dylid defnyddio gwariant canolrifol y boblogaeth gyfan, yn hytrach na hanner isaf y boblogaeth fel y gwneir ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, yn sail i'r trothwy isaf a gynigir ar incwm gwario.

Mae'r dadansoddiad o'r gwariant a ganiateir ar gyfer y categori hwn fel a ganlyn:

Gwariant hanfodol	Gwariant nad yw'n hanfodol
Bwyd a diodydd dialcohol	Diodydd alcoholaidd, tybaco a chyffuriau
Dillad ac esgidiau	Hamdden a diwylliant
Gwasanaethau cynnal, atgyweirio ac amrywiol yn ymwneud â'r annedd	Addysg (ffioedd a thripiâu ysgol)
Dŵr, trydan, nwy a thanwyddau eraill	Gwasanaethau llety (gwyliau a llogi ystafelloedd)
Nwyddau a gwasanaethau'r cartref	Gwariant gwyliau
Iechyd	Trwyddedau, dirwyon a throsglwyddiadau (anrhegion a rhoddion o arian parod)
Trafnidiaeth	
Cyfathrebu	
Prydau tecawê a ffreutur (heb gynnwys diodydd alcoholaidd)	
Nwyddau a gwasanaethau amrywiol (yn cynnwys yswiriant teithio)	

*Yr holl categorïau: tabl crynodeb*

Categori gwariant 2019–20	Lwfans gwariant (yr wythnos) ar gyfer un person		
	LCB isaf sifil	Trothwy uchaf sifil	LCB troseddol
Bwyd a diodydd dialcohol (heb gynnwys arlwygo)	£31.84	£34.10	£34.10
Dillad ac esgidiau	£8.48	£10.56	£10.56

	<b>Lwfans gwariant (yr wythnos) ar gyfer un person</b>		
<b>Categoriâu gwariant 2019–20</b>	<b>LCB isaf sifil</b>	<b>Trothwy uchaf sifil</b>	<b>LCB troseddol</b>
Tanwydd a phŵer (cyfleustodau)	£23.90	£21.82	£21.82
Nwyddau a gwasanaethau'r cartref	£15.25	£17.06	£17.06
Iechyd	£3.78	£4.27	£4.27
Trafnidiaeth	£19.36	£34.72	£34.72
Cyfathrebu	£10.56	£11.61	£11.61
Hamdden a diwylliant	£0	£33.94	£0
Bwytai a gwestai	£11.88	£22.63	£6.53
Nwyddau a gwasanaethau amrywiol	£18.06	£23.41	£22.90
Eitemau gwariant eraill	£0	£3.59	£0
<b>Cyfanswm</b>	<b>£143.13</b>	<b>£217.72</b>	<b>£163.57</b>
<b>Cyfanswm y mis (wedi'i dalgrynnu)</b>	<b>£622</b>	<b>£946</b>	<b>£709</b>

### Y trothwy incwm gros

9. Fel yr amlinellwyd ym Mhenodau 3 a 7, rydym wedi cynnig trothwy incwm gros o £34,950 ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a'r llys ynadon (wedi'i gyfwertholi yn ôl maint yr aelwyd). Nod ein dull o weithredu yw sicrhau na fydd cymorth cyfreithiol ar gael ar gyfer achosion sifil a'r llys ynadon i'r rheini sydd ag incwm aelwyd sy'n fwy na'r canolrif.
10. Er mwyn cyfrifo'r gwerth hwn, defnyddiwyd data yr ONS yn "Effects of taxes and benefits on household income", sy'n cynnwys data am incymau gros aelwydydd ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020.<sup>62</sup> Mae data am incwm gros wedi'i gyfwertholi (yn nhabl 2C) yn dangos mai'r incwm aelwyd gros canolrifol yw £35,379.50.
11. Fodd bynnag, yn rhan o'r prawf modd, rydym yn diystyru rhai budd-daliadau yn ein hasesiad o incwm ar gam cyfrifo'r incwm gros, lle maent wedi'u bwriadu i gwrdd ag anghenion ychwanegol yr unigolyn (er enghraifft, Taliad Annibyniaeth Personol). Felly rydym hefyd yn cynnig didynnu'r budd-daliadau hyn a ddiystyrir o'r cyfrifiad o

<sup>62</sup> Tabl 2C: Effects of taxes and benefits on household income - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

incwm gros. Cyfanswm gwerth canolrifol y budd-daliadau a ddiystyrir yn y set ddata hon yw £429.50 (Lwfans Byw i'r Anabl, Taliad Annibyniaeth Personol, Lwfans Gweini, Lwfans Gofalwr, Pensiynau Milwrol a Lwfans Anabledd Difrifol). Ar ôl didynnu £429.50 o £35,379.50 ceir y ffigur £34,950 (ein trothwy arfaethedig ar incwm gros).

## **Atodiad D: Nodyn technegol ar gyfrifo'r trothwyon cyfalaf arfaethedig ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil**

**Mae'r nodyn hwn yn egluro sut rydym wedi cyfrifo'r trothwyon cyfalaf isaf ac uchaf arfaethedig, sy'n rhan o'r prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil.**

### **Y trothwy cyfalaf isaf**

12. Mae ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol ar gyfer cynrychiolaeth sifil sydd â chyfalaf sy'n llai na'r trothwy isaf yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol heb ofyniad i dalu cyfraniad cyfalaf. Mae pwrpas y trothwy wedi'i egluro'n fwy manwl ym Mhennod 4.
13. Wrth osod y trothwy cyfalaf isaf, ein nod polisi yw adlewyrchu cost gwariant hanfodol dros dri mis. Bydd yr hyn sy'n cael ei ystyried yn wariant hanfodol yn amrywio rhwng unigolion yn ôl eu costau byw a'u hamgylchiadau personol, ond rydym wedi cyfrifo procsi ar gyfer hyn yn unol â'n hamcanion na fydd cymorth cyfreithiol sifil ar gael fel arfer i'r rheini sydd â chyfoeth sy'n fwy na'r cyfartaledd. Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi defnyddio'r arolwg Costau Byw a Bwyd diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n cynnwys data ar wariant aelwydydd yn y DU ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020.<sup>63</sup> Drwy ddefnyddio'r data hyn, rydym wedi amcangyfrif gwariant hanfodol aelwyd sydd ag incwm canolrifol yn y DU.

### **Methodoleg**

14. Yn hytrach na defnyddio'r gwariant gwirioneddol penodol gan aelwyd sydd ag incwm canolrifol, credwn ei bod yn fwy priodol cymryd gwerth gwariant cyfartalog (cymedrig) ar gyfer aelwydydd sy'n agos iawn i'r canolrif. Mae hyn yn osgoi'r posibilrwydd o ystumio'r ffigur gan arferion gwario un aelwyd benodol. Felly, roeddem wedi cyfrifo gwariant cyfartalog y 5ed a'r 6ed ddegradd, gan ddefnyddio data o arolwg yr ONS.
15. Roeddem wedi hepgor rhai categorïau gwariant (gweler paragraff 523) i gael mesur o 'wariant hanfodol', yn hytrach na chyfanswm gwariant cyfartalog aelwydydd.

---

<sup>63</sup> Family spending in the UK - Office for National Statistics (ons.gov.uk)



16. Rydym wedi cyfrifo cyfanswm costau'r meysydd gwariant sy'n weddill er mwyn cael ffigur am wariant hanfodol wythnosol.
17. Gan gydnabod bod maint aelwyd cyfartalog y 5<sup>ed</sup> a'r 6<sup>ed</sup> ddegradd yn wahanol i un y boblogaeth gyffredinol (ac felly bod y gwariant yn debygol o fod yn wahanol), rydym wedi pwysoli gwariant hanfodol cyfartalog y 5<sup>ed</sup> a'r 6<sup>ed</sup> ddegradd yn erbyn y maint aelwyd cenedlaethol. Felly, mae'r ffigur terfynol yn gyfartaledd ar gyfer yr holl aelwydydd yn y boblogaeth, yn hytrach na'r maint aelwyd cyfartalog ar gyfer aelwydydd sydd ag incwm yn y 5<sup>ed</sup> a'r 6<sup>ed</sup> ddegradd. Defnyddiwyd y ffigur a gafwyd yn sgil hynny am wariant wythnosol i gyfrifo ffigur ar gyfer gwariant hanfodol dros dri mis, a thalgrynnu'r ffigur hwn wedyn i'r fil o bunnoedd agosaf er hwylustod.
18. Mae'r data gan yr ONS a ddefnyddiwyd yn cynnwys rhai 'gwerthoedd ataliedig' lle na chyhoeddwyd y ffigur gan yr ONS am fod y samplau'n fach. Lle mae data wedi'u hatal ar gyfer un o'r 5<sup>ed</sup> neu 6<sup>ed</sup> degraddau, rydym wedi defnyddio'r gwerth a gofnodwyd ar gyfer y ddegradd arall (e.e. ar gyfer Prynu beiciau modur a cherbydau eraill). Lle mae data wedi'u hatal yn y 5<sup>ed</sup> ac yn y 6<sup>ed</sup> ddegradd (e.e. ar gyfer tocynnau trafniadaeth cyfunol) rydym wedi cymryd mai'r gwerth yw dim. Pe byddem wedi dilyn llwybr gwahanol (e.e. rhagdybio gwerth arall), mae'n bosibl y byddai'r trothwyon sifil ychydig yn uwch.

### Categoriâu gwariant sydd wedi'u hepgor

19. Mae'r dadansoddiad o wariant hanfodol ar gyfer y categori hwn wedi'i ddangos yn y tabl isod. Lle'r ydym wedi pennu bod meysydd heb fod yn hanfodol, y rheswm am hyn yw ein bod yn credu y gallai unigolion hepgor gwariant yn y meysydd hyn dros dro os oedd angen iddynt wneud hynny.

Gwariant hanfodol	Gwariant nad yw'n hanfodol
Bwyd a diodydd dialcohol	Diodydd alcoholaidd, tybaco a chyffuriau
Dillad ac esgidiau	Hamdden a diwylliant
Tai, tanwydd a phŵer	Addysg
Nwyddau a gwasanaethau'r cartref	Diodydd alcoholaidd (oddi cartref)
Iechyd	Gwasanaethau llety (gwyliau a llogi ystafelloedd)
Trafniadaeth	Gwyliau nad ydynt yn wyliau pecyn, yswiriant teithio arall
Cyfathrebu	Trwyddedau, dirwyon a throsglwyddiadau
Gwasanaethau arlwyo (heb gynnwys diodydd alcoholaidd)	Gwariant gwyliau

Gwariant hanfodol	Gwariant nad yw'n hanfodol
Nwyddau a gwasanaethau amrywiol (heb gynnwys gwyliau nad ydynt yn wyliau pecyn, yswiriant teithio arall)	Trosglwyddiadau arian a chredyd
Tai: taliadau llog morgais, treth gyngor etc.	Yswiriant arall
Yswiriant bywyd a chyfraniadau i gronfeydd pensiwn	Prynu neu addasu anheddau, morgeisi
Treth incwm, taliadau llai ad-daliadau	Cynilion a buddsoddiadau
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol	Talu benthyciad yn ôl er mwyn clirio dyled arall

*Yr holl categorïau: tabl crynodeb*

Categoriâu gwariant 2019–20	Gwariant yr wythnos, yr aelwyd
Bwyd a diodydd dialcohol (heb gynnwys arlwyo)	£63.15
Dillad ac esgidiau	£19.55
Tai, tanwydd a phŵer	£85.50
Nwyddau a gwasanaethau'r cartref	£31.60
Iechyd	£7.90
Trafnidiaeth	£78.40
Cyfathrebu	£21.50
Bwytai a gwestai (gwasanaethau arlwyo)	£31.55
Nwyddau a gwasanaethau amrywiol	£42.40
Eitemau gwariant eraill	£43.45
Yswiriant bywyd a chyfraniadau i gronfeydd pensiwn	£19.80
Treth incwm, taliadau llai ad-daliadau	£55.10
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol	£27.00
<b>Cyfanswm yr wythnos</b>	<b>£526.90</b>
Wedi'i bwysoli yn erbyn y maint aelwyd cenedlaethol	£514.19
Ffigur am wariant hanfodol dros dri mis	£6,684.41
Ffigur wedi'i dalgrynnu	£7,000.00

### **Y trothwy cyfalaf uchaf**

20. Wrth bennu'r trothwy cyfalaf uchaf, rydym wedi defnyddio set ddata y Swyddfa Ystadegau Gwladol 'Financial Wealth: wealth in Great Britain'.<sup>64</sup> Mae hon yn dangos lefel y cyfoeth ariannol sy'n cael ei ddal gan aelwydydd, yn cynnwys cynilion a buddsoddiadau. Mae'r trothwy uchaf wedi'i seilio ar gyfoeth ariannol y 50<sup>fed</sup> pwynt canradd (h.y. y canolrif). Y ffigur hwn yw £11,000.
21. Rydym wedi defnyddio cyfoeth ariannol gros yn hytrach na chyfoeth ariannol net. Mae cyfoeth ariannol net yn cymryd i ystyriaeth unrhyw rwymedigaethau ariannol sydd heb eu clirio ond, gan nad yw'r prawf modd yn didynnu gwerth dyledion o gyfalaf, credwn mai cyfoeth ariannol gros yw'r mesur mwyaf priodol.

---

<sup>64</sup> <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/personalandhouseholdfinances/incomeandwealth/datasets/financialwealthwealthingreatbritain>, Tabl 5.6

## Atodiad E: Enghreifftiau wedi'u gweithio

Mae'r atodiad hwn yn cynnwys yr holl enghreifftiau wedi'u gweithio sydd yn y ddogfen ymgynghori, fel y gellir cyfeirio atynt yn rhwydd.

### Y prawf incwm presennol ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil: enghreifftiau wedi'u gweithio

#### Enghraifft 1

Mae gan Ymgeisydd A bartner a 3 o blant sy'n 3, 5 ac 8 oed, ac incwm aelwyd gros o £3,500 y mis.

**Asesiad o incwm gros:** mae gan Ymgeisydd A incwm gros sy'n uwch na'r trothwy o £2,657 y mis, felly nid yw'n gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol, ni waeth beth yw swm ei incwm gwario.

#### Enghraifft 2

Mae Ymgeisydd B yn rhiant sengl sydd â phlentyn 15 oed, ac incwm aelwyd gros o £2,368 y mis.

**Asesiad o incwm gros:** mae gan Ymgeisydd B incwm gros sy'n is na'r trothwy, felly mae'n symud ymlaen at yr asesiad o incwm gwario.

**Asesiad o incwm gwario:** ar ôl didynnu treth (£224), Yswiriant Gwladol (£164), rhent (£1,000) a lwfans dibynnydd (£298) ym mhob mis, mae gan B incwm gwario o £682 y mis, felly mae'n gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol gyda chyfraniad incwm misol o £166.90 tra bydd ei hachos yn parhau.

### Prawf incwm presennol Llys y Goron: enghreifftiau wedi'u gweithio

#### Enghraifft 1

Mae gan Ymgeisydd C bartner a dau blentyn 16 a 18 oed. Incwm gros yr aelwyd yw £33,000 y flwyddyn.

**Asesiad o incwm gros:** mae incwm gros Ymgeisydd C yn cael ei rannu â 2.82 i gymryd aelodau ei deulu i ystyriaeth. Ei incwm gros wedi'i addasu yw £11,702. Mae hwn yn is na'r trothwy incwm gros o £12,475, ac felly **mae hawl gan Ymgeisydd C i dderbyn cymorth cyfreithiol anghyfrannol** heb fynd ymlaen at asesiad o incwm gwario.

## **Enghraifft 2**

Mae gan Ymgeisydd D bartner ac un plentyn 2 oed. Incwm gros yr aelwyd yw £50,000 y flwyddyn.

**Asesiad o incwm gros:** mae incwm gros Ymgeisydd D yn cael ei rannu ag 1.94 i gymryd aelodau ei deulu i ystyriaeth. Ei incwm gros wedi'i addasu yw £25,773. Mae hwn yn uwch na'r trothwy incwm gros o £12,475, felly rhaid i Ymgeisydd D fynd drwy asesiad o incwm gwario.

**Asesiad o incwm gwario:** ar ôl didynnu treth (£5,484), Yswiriant Gwladol (£3,652), morgais (£9,800), treth gyngor (£1,818), gofal plant (£3,600) a'r Lwfans Costau Byw (£5,676 x 1.94), mae gan Ymgeisydd D incwm gwario o £14,635 y flwyddyn. Mae hwn yn uwch na'r trothwy isaf ar gyfer incwm gwario o £3,398 y flwyddyn ond yn is na'r trothwy uchaf ar gyfer incwm gwario o £37,500 y flwyddyn, felly mae hawl gan Ymgeisydd D i dderbyn cymorth cyfreithiol ond rhaid iddo dalu cyfraniad incwm.

**Cyfraniad incwm:** rhaid i Ymgeisydd D dalu cyfraniad incwm misol o £1,098 (90% o'i incwm gwario) am hyd at 6 mis.

## **Enghreifftiau wedi'u gweithio: y prawf modd sifil newydd arfaethedig**

### **Enghraifft 1**

Mae gan Ymgeisydd E un plentyn 12 oed ac incwm aelwyd gros misol o £3,000 (£36,000 y flwyddyn).

**Asesiad o incwm gros:** y trothwy addasedig ar gyfer incwm gros Ymgeisydd E fyddai £34,950 y flwyddyn gyda lwfans ychwanegol o 30%; felly £45,435. Felly byddai'n bodloni'r asesiad o incwm gros.

**Asesiad o incwm gwario:** yn dilyn didyniadau am dreth incwm, Yswiriant Gwladol, gofal plant, cyfraniadau pensiwn, costau tai a threth gyngor (cyfanswm o £1,893), y lwfans gwaith o £66, a didyniad o £211 am un dibynnydd dan 14 oed, incwm gwario Ymgeisydd E fyddai **£830 y mis**.

Felly byddai Ymgeisydd E yn gymwys ar gyfer help cyfreithiol sifil anghyfrannol, ac am gynrychiolaeth gyfreithiol sifil gyda chyfraniad incwm o £102.60 y mis.

### **Enghraifft 2**

Mae gan Ymgeisydd F bartner a dau blentyn 6 a 3 oed, ac incwm aelwyd gros misol o £5,000 (£60,000 y flwyddyn).

**Asesiad o incwm gros:** y trothwy addasedig ar gyfer incwm gros Ymgeisydd F fyddai'r trothwy sylfaenol o £34,950 y flwyddyn gyda lwfans ychwanegol o 50% ar gyfer ei bartner a 30% am bob plentyn; felly £73,395. Felly byddai'n **bodloni'r asesiad o incwm gros**.

**Aseiad o incwm gwario:** yn dilyn didyniadau am dreth incwm, Yswiriant Gwladol, gofal plant, cyfraniadau pensiwn, costau tai a threth gyngor (cyfanswm o £3,547), y lwfans gwaith o £66 i Ymgeisydd F ac i'w bartner, a didyniad am un oedolyn dibynnol (£448) a dau ddibynnydd dan 14 oed (£211 yr un), incwm gwario Ymgeisydd F fyddai **£451 y mis**.

Felly byddai Ymgeisydd F yn gymwys ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol sifil a help cyfreithiol sifil heb unrhyw ofyniad i dalu cyfraniad.

### **Enghraifft 3**

Nid oes dibynnyddion gan Ymgeisydd G a'i incwm aelwyd gros misol yw £2,400 (£28,800 y flwyddyn).

**Aseiad o incwm gros:** mae incwm gros Ymgeisydd G yn llai na'r trothwy rydym yn ei gynnig ac felly mae'n **bodloni'r aseiad o incwm gros**.

**Aseiad o incwm gwario:** yn dilyn didyniadau am dreth incwm, Yswiriant Gwladol, cyfraniadau pensiwn, ad-daliadau benthyciad myfyriwr, costau tai a threth gyngor (cyfanswm o £1,483), a'r lwfans gwaith o £66, incwm gwario Ymgeisydd G fyddai £851.

Felly byddai Ymgeisydd G yn gymwys ar gyfer help cyfreithiol sifil anghyfrannol, ac ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol sifil gyda chyfraniad incwm o £113.60 y mis.

### **Enghraifft 4**

Mae gan Ymgeisydd H bartner a dau blentyn 4 a 7 oed, ac incwm aelwyd gros misol o £6,250 (£75,000 y flwyddyn).

**Aseiad o incwm gros:** y trothwy addasedig ar gyfer incwm gros Ymgeisydd H fyddai'r trothwy sylfaenol o £34,950 y flwyddyn gyda lwfans ychwanegol o 50% ar gyfer ei bartner a 30% am bob plentyn; felly £73,395. Felly byddai Ymgeisydd H yn anghymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol sifil am fod ei incwm gros yn uwch na'r trothwy.

## **Enghraifft wedi'i gweithio o ymgeisydd nad yw bellach yn cael ei basbortio ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil**

Mae gan Ymgeisydd I ddau o blant 7 a 5 oed ac incwm aelwyd gros misol o £2,366 (£28,392 y flwyddyn), sy'n cynnwys enillion o £900 ynghyd â Chredyd Cynhwysol a budd-dal plant.

**Aseiad o incwm gros:** y trothwy addasedig ar incwm gros Ymgeisydd I fyddai £34,950 y flwyddyn gyda lwfans ychwanegol o 30%+30%; felly £55,920. Felly byddai'n **bodloni'r aseiad o incwm gros**.

**Aseiad o incwm gwario:** yn dilyn didyniadau am dreth incwm, Yswiriant Gwladol, cyfraniadau pensiwn, costau tai a threth gyngor (cyfanswm o £934), ynghyd â'r lwfans gwaith o £66 a £422 am ddau ddibynnydd dan 14 oed, ei incwm gwario fyddai £944.

Felly byddai Ymgeisydd I yn gymwys ar gyfer help cyfreithiol sifil anghyfrannol, ac ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol sifil gyda chyfraniad incwm o £192.84 y mis.

## **Enghreifftiau wedi'u gweithio: cyfraniadau incwm ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil**

### **Enghraifft 1**

Mae gan Ymgeisydd J incwm gwario misol o £800.

Ar gyfer ei chyfraniad incwm misol, mae'n talu 40% o'i hincwm gwario rhwng £622 a £730 (£43.20) a 60% o'i hincwm gwario rhwng £730 a £800 (£42).

Felly mae'n talu cyfraniad incwm misol cyfan o **£85.20**.

### **Enghraifft 2**

Mae gan Ymgeisydd K incwm gwario misol o £920.

Ar gyfer ei gyfraniad incwm misol, mae'n talu 40% o'i incwm gwario rhwng £622 a £730 (£43.20); 60% o'i incwm gwario rhwng £730 a £838 (£64.80); ac 80% o'i incwm gwario rhwng £838 a £920 (£65.60).

Felly mae'n talu cyfraniad incwm misol cyfan o **£173.60**.

### **Enghraifft 3**

Mae gan Ymgeisydd L incwm gwario misol o £700.

Ar gyfer ei chyfraniad incwm misol, mae'n talu 40% o'i hincwm gwario rhwng £622 a £700 (£31.20).

Felly mae'n talu cyfraniad incwm misol cyfan o **£31.20**.

Mae'r enghreifftiau hyn yn defnyddio'r prawf modd arfaethedig llawn – er enghraifft, maent yn defnyddio'r trothwyon cyfalaf a gynigir, yn ogystal â'r diystyriad ecwiti a gynigir. Maent hefyd yn rhagdybio bod yr ymgeisydd wedi bodloni'r prawf incwm ac nad oes ganddo gyfalaf arall – e.e. cynilion. Ym mhob un o'r pedair enghraifft, byddai'r ymgeisydd yn anghymwys am gymorth cyfreithiol ar hyn o bryd am fod ganddo gyfalaf sy'n fwy na'r trothwyon presennol.

## **Enghreifftiau o'r diystyriad ecwiti ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil**

### **Enghraifft 1**

Mae Ymgeisydd M yn berchen ar eiddo gwerth £200,000 heb forgais.

O dan ein prawf modd arfaethedig, byddai 3% o werth eiddo Ymgeisydd M (£6,000) yn cael ei ddiynnu ar gyfer costau gwerthu, ac ar ôl hynny byddai'r diystyriad ecwiti o £185,000 yn cael ei gymhwyso.

Felly byddai gan Ymgeisydd M £9,000 o gyfalaf yn weddill, sy'n uwch na'r trothwy cyfalaf isaf o £7,000 ond yn is na'r trothwy cyfalaf uchaf o £11,000. Felly byddai Ymgeisydd M **yn gymwys am gymorth cyfreithiol gyda chyfraniad cyfalaf o hyd at £2,000.**

### **Enghraifft 2**

Mae Ymgeisydd N yn berchen ar eiddo gwerth £420,000, gyda morgais o £225,000.

O dan ein prawf modd arfaethedig, byddai holl werth y morgais sydd gan Ymgeisydd N yn cael ei ddiynnu, yn ogystal â 3% o werth yr eiddo (£12,600) ar gyfer costau gwerthu.

Yn dilyn hyn, byddai'r diystyriad ecwiti o hyd at £185,000 yn cael ei gymhwyso at yr ecwiti o £182,400 sy'n weddill.

Felly ni fyddai cyfalaf yn weddill gan Ymgeisydd N, a byddai'n **gymwys am gymorth cyfreithiol heb gyfraniad cyfalaf.**

### **Enghraifft 3**

Mae Ymgeisydd O yn berchen ar eiddo gwerth £250,000 heb forgais.

O dan ein prawf modd arfaethedig, byddai 3% o werth eiddo Ymgeisydd O (£7,500) yn cael ei ddiynnu ar gyfer costau gwerthu, ac ar ôl hynny byddai'r diystyriad ecwiti o £185,000 yn cael ei gymhwyso.

Felly byddai gan Ymgeisydd O £57,500 o gyfalaf yn weddill, sy'n uwch na'r trothwy cyfalaf uchaf o £11,000. Felly, byddai Ymgeisydd O yn parhau'n **anghymwys am gymorth cyfreithiol.**

### **Enghraifft 4**

Mae Ymgeisydd P yn berchen ar y cyd ar eiddo (mewn cyfrannau cyfartal â chydberchennog) gwerth £600,000, gyda morgais o £200,000.

O dan ein prawf modd arfaethedig, byddai Ymgeisydd P yn gweld holl werth y morgais yn cael ei ddiynnu, yn ogystal â 3% o werth yr eiddo (£18,000) ar gyfer costau gwerthu.

Wedyn byddai gwerth yr ecwiti sy'n weddill yn cael ei rannu rhwng y partion, gan adael £191,000 i Ymgeisydd P fel ei gyfran o'r ecwiti.

Yn dilyn hyn, byddai'r diystyriad ecwiti o £185,000 yn cael ei gymhwyso, gan adael Ymgeisydd P â chyfalaf o £6,000, sy'n is na'r trothwy cyfalaf isaf o £7,000. Felly, byddai Ymgeisydd P **yn gymwys am gymorth cyfreithiol heb gyfraniad cyfalaf.**

Mae'r enghreifftiau hyn yn defnyddio'r prawf modd arfaethedig llawn – er enghraifft, maent yn defnyddio'r trothwyon cyfalaf a gynigir, yn ogystal â'r diystyriad ecwiti a gynigir. Maent



hefyd yn rhagdybio bod yr ymgeisydd wedi bodloni'r prawf incwm ac nad oes ganddo gyfalaf arall – e.e. cynilion.

## **Enghreifftiau wedi'u gweithio: diystyriad pensiynwyr (cymorth cyfreithiol sifil)**

### **Enghraifft 1**

Mae Ymgeisydd Q yn 64 oed, yn iau nag Oed Pensiwn y Wladwriaeth. Mae ganddo incwm gwario o £25 y mis. Mae'n berchen ar eiddo gwerth £200,000 heb forgais ac nid oes ganddo gyfalaf arall.

Didynnir 3% (£6,000) ar gyfer costau gwerthu: £194,000

Cymhwysir diystyriad ecwiti o £185,000: £9,000

O dan ein cynigion ni, nid yw'r ymgeisydd yn cael budd o'r diystyriad pensiynwyr oherwydd ei oed. Mae gan yr ymgeisydd gyfalaf o £9,000, sy'n uwch na'r trothwy cyfalaf isaf o £7,000, felly bydd yn gymwys am gymorth cyfreithiol gyda chyfraniad o £2,000 neu'r amcangyfrif o gost ei achos, pa un bynnag yw'r lleiaf. O dan y prawf modd presennol, mae'n gymwys am gymorth cyfreithiol heb gyfraniad.

### **Enghraifft 2**

Mae Ymgeisydd R wedi cyrraedd Oed Pensiwn y Wladwriaeth. Mae ganddo incwm gwario o £350 y mis. Mae'n berchen ar eiddo gwerth £250,000 heb forgais ac nid oes ganddo gyfalaf arall.

Didynnir 3% (£7,500) ar gyfer costau gwerthu: £242,500

Cymhwysir diystyriad ecwiti o £185,000: £57,500

Cymhwysir diystyriad pensiynwyr o £65,000: -£7,500

Mae gan yr ymgeisydd gyfalaf sy'n llai na'r trothwy cyfalaf isaf o £7,000. O dan ein cynigion ni, mae'n gymwys am gymorth cyfreithiol heb gyfraniad. O dan y prawf modd presennol, mae'n anghymwys ac nid yw'n cael budd o'r diystyriad pensiynwyr am fod lefel ei incwm gwario yn rhy uchel.

## **Enghreifftiau wedi'u gweithio: Llys y Goron**

### **Enghraifft 1**

Mae gan Ddiffynnydd S un plentyn 12 oed ac incwm aelwyd gros misol o £3,000.

**Asesiad o incwm gwario:** yn dilyn didyniadau am dreth incwm, Yswiriant Gwladol, gofal plant, cyfraniadau pensiwn, costau tai a threth gyngor (cyfanswm o £1,893), y lwfans gwaith o £66, a didyniad o £242 am un plentyn dibynnol dan 14 oed, incwm gwario Diffynnydd S fyddai £799.

Byddai Diffynnydd S **yn gymwys am gymorth cyfreithiol yn Llys y Goron gyda chyfraniad incwm misol.**

### **Enghraifft 2**

Mae gan Ddiffynnydd T bartner a dau blentyn 6 a 3 oed, ac incwm aelwyd gros misol o £5,000.

**Asesiad o incwm gwario:** yn dilyn didyniadau am dreth incwm, Yswiriant Gwladol, cyfraniadau pensiwn, gofal plant, costau tai a threth gyngor (cyfanswm o £3,547), y lwfans gwaith o £66 ar gyfer Diffynnydd T ac ar gyfer ei bartner, a didyniad am un oedolyn dibynnol a dau blentyn dibynnol dan 14 oed o £997, incwm gwario Diffynnydd T fyddai £324.

Byddai Diffynnydd T **yn gymwys am gymorth cyfreithiol yn Llys y Goron heb unrhyw ofyniad i dalu cyfraniad.**

### **Enghraifft 3**

Mae gan Ddiffynnydd U incwm gwario misol o £1,100.

Ar gyfer ei chyfraniad incwm misol, bydd yn talu 40% o'i incwm gwario rhwng £697 a £1,000 (£121.20); 60% o'i incwm gwario rhwng £1,000 a £1,250 (£60).

Cyfanswm y cyfraniad incwm misol = £181.20

### **Enghraifft 4**

Mae gan Ddiffynnydd V incwm gwario misol o £1,500.

Ar gyfer ei chyfraniad incwm misol, bydd yn talu 40% o'i hincwm gwario rhwng £697 a £1,000 (£121.20); 60% o'i hincwm gwario rhwng £1,000 a £1,250 (£150); ac 80% o'i hincwm gwario dros £1,250 (£200).

Cyfanswm y cyfraniad incwm misol = £471.20

## **Enghreifftiau wedi'u gweithio: cyfraniadau cyfalaf yn Llys y Goron**

### **Enghraifft 1**

Mae Ymgeisydd W yn derbyn Credyd Cynhwysol ac felly'n cael ei basbortio drwy'r asesiad o incwm. Mae'n cael euogfarn yn Llys y Goron, ar ôl ysgwyddo costau cymorth cyfreithiol o £12,000. Gan ei fod yn berchen ar ei gartref, caiff ei asesu nawr am atebolrwydd posibl i dalu o dan orchymyn cyfraniad cyfalaf.

**Asesiad o gyfalaf:** mae gan Ymgeisydd W un ased cyfalaf: ei fflat, sy'n cael ei phrisio ar ôl yr euogfarn ar £120,000. Yn dilyn didyniadau am weddill y morgais o £42,000 a lwfans cyfalaf o £30,000, mae gan Ymgeisydd W gyfalaf yn weddill o £48,000.

Felly rhoddir gorchymyn cyfraniad cyfalaf am £12,000 i Ymgeisydd W. Mae'r LAA yn rhoddi arwystl ar ei fflat i ddiogelu'r ddyled o dan y gorchymyn cyfraniad cyfalaf. Codir llog syml o 3% y flwyddyn ar y ddyled nes caiff ei chlirio.

## Enghreifftiau wedi'u gweithio: y llys ynadon

### Enghraifft 1

Mae gan Ymgeisydd X un plentyn 10 oed ac incwm gros o £3,667 y mis (£44,000 y flwyddyn).

**Aseiad o incwm gros:** trothwy incwm gros addasedig Ymgeisydd X fyddai'r trothwy sylfaenol o £34,950 y flwyddyn gyda lwfans ychwanegol o 30% ar gyfer ei blentyn; felly £45,435. Felly byddai'n **bodloni'r aseiad o incwm gros**.

**Aseiad o incwm gwario:** yn dilyn didyniadau am dreth incwm, Yswiriant Gwladol, cyfraniadau pensiwn, costau gofal plant, costau tai a'r dreth gyngor, y lwfans gwaith o £66 a £241 am blentyn dibynnol dan 14 oed, incwm gwario Ymgeisydd X fyddai £1,032 y mis.

Felly byddai Ymgeisydd X **yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol yn y llys ynadon**.

### Enghraifft 2

Mae Ymgeisydd Y yn byw ar ei ben ei hun a'i incwm gros yw £3,333 y mis (£40,000 y flwyddyn).

**Aseiad o incwm gros:** mae incwm gros Ymgeisydd Y yn fwy na'r trothwy uchaf ar incwm gros o £34,950, felly mae'n **anghymwys am gymorth cyfreithiol yn y llys ynadon**.

# Holiadur

Byddwn yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol sydd yn y papur ymgynghori hwn. Gofynnir i chi ymateb ar-lein yn: <https://consult.justice.gov.uk/legal-aid/legal-aid-means-test-review>

**Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.**

# Amdanoch chi

Llenwch yr adran hon i ddarparu gwybodaeth amdanoch chi

<b>Enw llawn</b>	
<b>Teitl swydd</b> neu ym mha gymhwyster rydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd etc.)	
<b>Dyddiad</b>	
<b>Enw'r cwmni/sefydliad</b> (os yw'n berthnasol):	
<b>Cyfeiriad</b>	
<b>Cod post</b>	
Os ydych yn dymuno i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
I ba gyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth, os yw'n wahanol i'r uchod	

**Os ydych yn cynrychioli grŵp**, nodwch enw'r grŵp a rhowch grynodeb o'r bobl neu sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

---



---



---



---

## Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 07/06/2022 i:

Legal Aid Means Test Review  
Ministry of Justice  
102 Petty France  
Llundain SW1H 9AJ

**E-bost:** LegalAidMeansTestReview@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

## Copiâu ychwanegol

Mae'r ddogfen ymgynghori hon ar gael ar-lein hefyd yn

<https://consult.justice.gov.uk/legal-aid/legal-aid-means-test-review>. Gellir cael copiâu papur ychwanegol a fersiynau mewn fformatiau eraill o'r cyfeiriad uchod.

## Cyhoeddi ymateb

Cyhoeddir papur a fydd yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn hydref 2022.

## Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

## Cyfrinachedd

Gellir cyhoeddi gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol, neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau hawl i weld gwybodaeth (y prif gyfundrefnau yw'r rheini yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 2018 (DPA), y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych yn dymuno i'r wybodaeth a ddarparwch gael ei thrin yn gyfrinachol, mae'n bwysig bod yn ymwybodol bod Cod Ymarfer statudol dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

2000 y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n ymdrin, ymysg pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd. Yng ngoleuni hwn, byddai o gymorth pe gallech egluro i ni pam rydych yn ystyried bod y wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi pob ystyriaeth i'ch eglurhad, ond ni allwn roi sicrwydd y bydd modd cadw cyfrinachedd ym mhob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei ystyried yn rhwymol ar y Weinyddiaeth ar ei ben ei hun.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu'ch data personol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 ac, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael eu datgelu i drydydd partiön.











E02729412

978-1-5286-3246-1